# Rhaglen Gyflawn

**Gwasanaeth Democratiaeth**
Swyddfa'r Cyngor
CAERNARFON
Gwynedd
LL55 1SH

Cyfarfod

**Y CYNGOR**

Dyddiad ac Amser

**1.30 y.h., DYDD IAU, 5ED MAWRTH, 2026**

*** NODER ***

**Bydd y cyfarfod yn cael ei we-ddarlledu**

**https://gwynedd.public-i.tv/core/l/cy_GB/portal/home**

Lleoliad

**Hybrid - Siambr Dafydd Orwig, Swyddfeydd y Cyngor, Caernarfon LL55 1SH**

Pwynt Cyswllt

**Annes Sion**

**01286 679490**

**AnnesSion@gwynedd.llyw.cymru**

(DOSBARTHWYD Dydd Mercher, 25 Chwefror 2026)

**Ian Jones**
**Pennaeth Gwasanaethau Democratiaeth**

www.gwynedd.llyw.cymru

**DYDD MERCHER, 25 CHWEFROR 2026**

Annwyl Gynghorydd,

**CYFARFOD O GYNGOR GWYNEDD – DYDD IAU, 5 MAWRTH 2026**

**FE'CH GWYSIR TRWY HYN** i gyfarfod aml-leoliad o **GYNGOR GWYNEDD** a gynhelir am **1.30 y.h., DYDD IAU, 5ED MAWRTH, 2026 YN SIAMBR DAFYDD ORWIG, SWYDDFEYDD Y CYNGOR, CAERNARFON LL55 1SH / RHITHIOL AR ZOOM**, i ystyried y materion a grybwyllir yn y rhaglen a ganlyn.

Yr eiddoch yn gywir



<u>Pennaeth Gwasanaethau Democratiaeth</u>

Bydd yr ystafelloedd a ganlyn ar gael i'r grwpiau gwleidyddol yn ystod y bore:-

Plaid Cymru - Siambr Dafydd Orwig
Annibynnol – Siambr Hywel Dda
Grwp Llafur / Rhydfrydol – Ystafell Ogwen

# RHAGLEN


**1. YMDDIHEURIADAU**

Derbyn unrhyw ymddiheuriadau am absenoldeb.

**2. COFNODION** 6 - 37

Bydd y Cadeirydd yn cynnig y dylid llofnodi cofnodion y cyfarfodydd blaenorol o’r Cyngor a gynhaliwyd ar 4 Rhagfyr, 2025 a Chwefror 5ed, 2026 fel rhai cywir.

**3. DATGAN BUDDIANT PERSONOL**

Derbyn unrhyw ddatganiadau o fuddiant personol.

**4. CYHOEDDIADAU'R CADEIRYDD**

Derbyn unrhyw gyhoeddiadau gan y Cadeirydd.

**5. MATERION BRYS**

Nodi unrhyw eitemau sy’n fater brys ym marn y Cadeirydd fel y gellir eu hystyried.

**6. CWESTIYNAU**

Ystyried unrhyw gwestiynau y rhoddwyd rhybudd priodol ohonynt o dan Adran 4.18 o’r Cyfansoddiad.

**7. CYLLIDEB 2026/27** 38 - 98

Cyflwyno adroddiad yr Aelod Cabinet Cyllid.

**8. STRATEGAETH CYFALAF 2026/27 (YN CYNNWYS STRATEGAETHAU BUDDSODDI A BENTHYCA)** 99 - 138

Cyflwyno adroddiad yr Aelod Cabinet Cyllid.

**9. ADOLYGIAD BLYNYDDOL - POLISI TAL BLYNYDDOL 2026/27** 139 - 148

Cyflwyno adroddiad Cadeirydd y Pwyllgor Penodi Prif Swyddogion.

**10. PARTNERIAETH PENSIWN CYMRU (PPC) - DIWEDDARU'R CYTUNDEB RHYNG-AWDURDOD (IAA)** 149 - 218

Cyflwyno adroddiad Cadeirydd Pwyllgor Pensiynau.

**11. DIWYGIADAU I GÔD YMDDYGIAD YR AELODAU A PHOLISI CHWYTHU'R CHWIBAN Y CYNGOR** 219 - 247

Cyflwyno adroddiad yr Swyddog Monitro.

## 12. CALENDR PWYLLGORAU 2026/27 248 - 251

Cyflwyno adroddiad y Pennaeth Gwasanaethau Democratiaeth.

## 13. RHYBUDDION O GYNNIG

### (A) RHYBUDD O GYNNIG GAN Y CYNGHORYDD GRUFFYDD WILLIAMS

Yn unol â'r Rhybudd o Gynnig a dderbyniwyd oddi wrtho yn unol ag Adran 4.19 y Cyfansoddiad, bydd y Cynghorydd Gruffydd Williams yn cynnig fel a ganlyn:-

Ym mis Ionawr 2026, cafwyd tro u bedol gan Lywodraeth San Steffan parthed eu  cynlluniau i wneud cardiau adnabod digidol yn orfodol ar gyfer profi'r hawl i weithio,a hynny yn dilyn ymateb sylweddol gan Aelodau o'r cyhoedd gyda deiseb hefo dros 3 mil yn cael ei gyflwyno gerbron y Llywodraeth yn datgan eu gwrthwynebiad i DI . Er fod y gofyniad gorfodol am gyflogaeth wedi'i ollwng, mae'r llywodraeth yn bwriadu symud prosesau dilysu ar-lein erbyn 2029, gan arwain at bryderon y bydd system adnabod ddigidol yn dal i gael ei chyflwyno'n raddol drwy 'r drws cefn fel petai

Bod y Cyngor yma yn llwyr gwrthwynebu
cyfundrefn  Digital Identification  a bod Cyngor Gwynedd yn galw ar Llywodraeth Cymru i wrthwynebu DI yn unol a 'r Llywodraeth yn yr Alban a hefyd yn unol a sawl awdurdod lleol ledled Gwledydd Prydain . Ni ddylai cyfleustra byth ddod ar draul rhyddid personol.

### (B) RHYBUDD O GYNNIG GAN Y CYNGHORYDD ELIN HYWEL

Yn unol â'r Rhybudd o Gynnig a dderbyniwyd oddi wrtho yn unol ag Adran 4.19 y Cyfansoddiad, bydd y Cynghorydd Elin Hywel yn cynnig fel a ganlyn:-

Mae'r Cyngor hwn yn cydnabod mai ymddiriedaeth yw sylfaen democratiaeth. Gwyddom fod digwyddiadau diweddar yn lleol, yn genedlaethol ac yn rhyngwladol wedi tanseilio'r berthynas honno â phobl Gwynedd. Ni all democratiaeth weithredu'n iach heb ymddiriedaeth y cyhoedd yn y rhai sy'n eu cynrychioli; yr ymddiriedaeth honno sy'n galluogi pobl i gymryd rhan mewn democratiaeth leol ac, yn ei thro, yn sicrhau eu llais wrth lunio eu dyfodol.

Noda dystiolaeth gan yr Office for National Statistics fod ymddiriedaeth mewn gwleidyddiaeth a gwleidyddion ar lefel isel iawn, gyda dim ond un o bob pump yn ymddiried mewn pleidiau gwleidyddol, a bod cysylltiad uniongyrchol rhwng diffyg ymddiriedaeth a diffyg cyfranogiad.

Yn wyneb hynny, mae'r Cyngor hwn yn nodi'r cyfranogiad isel yn

etholiad Cyngor Gwynedd 2022, yn unol â thueddiadau ehangach ledled Cymru, gyda thua 38–39% yn pleidleisio, a bod 28 o'r 69 sedd wedi eu hethol yn ddi-wrthwynebiad, gan olygu nad oedd gan nifer fawr o etholwyr Gwynedd ddewis democrataidd.

Cydnabu'r y Cyngor bod y ffigyrau hyn yn amlygu her ddifrifol i iechyd democratiaeth leol ac i'r berthynas rhwng etholwyr a'u cynrychiolwyr.

Cydnabu'r mai ein hymddygiad ni fel arweinwyr cyhoeddus sy'n gosod safon y drafodaeth ddemocrataidd. Na ellir adeiladu ymddiriedaeth, na chynyddu cyfranogiad, oni bai ein bod ni'n modelu'r gwerthoedd hynny ein hunain.

Mae'r Cyngor hwn yn croesawu camau Y Senedd drwy Ddeddf Etholiadau a Chyrff Etholedig (Cymru) i gryfhau uniondeb bywyd cyhoeddus a gosod gonestrwydd a gwirionedd wrth wraidd ein diwylliant democrataidd.

Yn unol â hyn, mae'r Cyngor hwn yn datgan yn glir mai arnom ni, yn bersonol ac ar y cyd, y mae'r ddyletswydd i gynnal ac adfer ymddiriedaeth y cyhoedd.

Ymrwymwn i'r gwir, i dryloywder, i degwch ac i barch – conglfeini ein hawl i gynrychioli pobl Gwynedd.

## 14. YMATEBION A DIWEDDARIADAU I RYBUDDION O GYNNIG — 252 - 253

Llythyr gan Lywodraeth Cymru mewn ymateb i Rybudd o Gynnig y Cynghorydd Jina Gwyrfai i gyfarfod 3 Gorffennaf 2025 o'r Cyngor ynglŷn a Treth Etifeddiant.

**Y CYNGOR 2/10/2025**

**Presenoldeb:**

**Y Cynghorwyr:** Ioan Thomas (Cadeirydd)

Craig ab Iago, Menna Baines, Beca Brown, Wendy Cleaver, Glyn Daniels, Elwyn Edwards, Elfed Wyn ap Elwyn, Gwion Emyr, Alan Jones Evans, Gwilym Evans, Dylan Fernley, Delyth Lloyd Griffiths, Annwen Hughes, John Brynmor Hughes, Louise Hughes, Medwyn Hughes, Elin Hywel, Nia Wyn Jeffreys, Anne Lloyd Jones, Berwyn Parry Jones, Dawn Lynne Jones, Dewi Jones, Elin Walker Jones, Elwyn Jones, Gwilym Jones, Gareth Tudor Jones, Huw Wyn Jones, June Jones, Eryl Jones-Williams, Cai Larsen, Beth Lawton, Dafydd Meurig, Dilwyn Morgan, Dewi Owen, Edgar Wyn Owen, Llio Elenid Owen, Geraint Parry, Nigel Pickavance, Rheinallt Puw, Arwyn Herald Roberts, Beca Roberts, Elfed P Roberts, Gareth A Roberts, John Pughe Roberts, Meryl Roberts, Richard Glyn Roberts, Huw Llwyd Rowlands, Paul Rowlinson, Angela Russell, Dyfrig Siencyn, Peter Thomas, Menna Trenholme, Rhys Tudur, Hefin Underwood, Einir Wyn Williams, Elfed Williams, Gareth Williams, Gruffydd Williams, Sasha Williams a Sian Williams.

**Swyddogion:**

Dafydd Gibbard (Prif Weithredwr), Dewi Morgan (Pennaeth Cyllid), Iwan Evans (Swyddog Monitro), Dylan Owen (Cyfarwyddwr Corfforaethol), Catrin Thomas (Cyfarwyddwr Corfforaethol) Carys Fôn Williams (Pennaeth Tai ac Eiddo), Ian Jones (Pennaeth Gwasanaethau Corfforaethol), Aled Gibbard (Pennaeth Adran Blant Dros Dro),Nia Grisdale (Rheolwr Gwasanaeth Cyfreithiol), Vera Jones (Rheolwr Gwasanaeth Democratiaeth ac Iaith) ac Annes Sion (Arweinydd Tîm Democratiaeth).

**1. YMDDIHEURIADAU**

Derbyniwyd ymddiheuriadau gan y Cynghorydd Elfed Wyn ap Elwyn, Stephen Churchman, Linda Morgan, Dafydd Davies a Jina Gwyrfai.

**2. COFNODION**

Llofnododd y Cadeirydd gofnodion y cyfarfod blaenorol o'r Cyngor a gynhaliwyd ar 2 Hydref 2025 fel rhai cywir.

**3. DATGAN BUDDIANT PERSONOL**

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiadau o fuddiant personol.

**4. CYHOEDDIADAU'R CADEIRYDD**

Cydymdeimlwyd ar Cynghorydd Anne Lloyd Jones, Glyn Daniels a Delyth Lloyd Griffiths sydd wedi cael profedigaeth yn ddiweddar. Nodwyd ymhellach bod y Cyngor yn dymuno cofio am bawb o fewn cymunedau'r sir oedd wedi colli anwyliaid yn ddiweddar. Ymdawelodd y Cyngor fel arwydd o barch a choffadwriaeth.

Croesawyd y Cynghorydd Gwion Emyr, yr Aelod newydd dros Bethel a'r Felinheli i'w gyfarfod cyntaf o'r Cyngor.

Nodwyd llongyfarchiadau i Elfyn Evans o Ddolgellau, am ddod yn ail agos iawn yng nghystadleuaeth Ralio'r Byd yn Saudi Arabia. Ynghyd ag Ifan Dafydd o Redwyr Meirionnydd a ddaeth yn ail yn ras Marathon Eryri eleni.

Bu i longyfarchiadau gael ei nodi i Sinema'r Llusern Hud yn Nhywyn, am ennill Sinema'r Flwyddyn yng Ngwobrau Ffilmiau Annibynnol Prydain yn ddiweddar. Llongyfarchiadau iddynt ar eu llwyddiant a'u cyfraniad pwysig i economi a sin diwylliannol Tywyn a Meirionnydd.

## 5. MATERION BRYS

Dim i'w nodi.

## 6. CWESTIYNAU

*(Cyhoeddwyd atebion ysgrifenedig yr Aelodau Cabinet i'r cwestiynau ymlaen llaw.)*

### 1. Cwestiwn Y Cynghorydd John Pughe Roberts

O ystyried y rhwymedigaethau statudol o dan Ddeddf Addysg 2002 (a.175) a Cadw Dysgwyr yn Ddiogel (Llywodraeth Cymru, 2021), rhaid i gyrff llywodraethu sicrhau trefniadau diogelu effeithiol, darparu her gadarn, a gwirio bod gweithdrefnau'n cael eu dilyn. Adnabu'r Adolygiad Ymarfer Plant ddiffygion sylweddol, gan gynnwys:

- her a goruchwyliaeth annigonol gan lywodraethwyr;
- gorddibyniaeth ar sicrwydd gan uwch arweinwyr heb wirio hynny;
- hyfforddiant diogelu annigonol;
- cyfathrebu aneglur neu wedi'i oedi gyda'r LADO a'r Awdurdod Lleol.

Er mwyn tryloywder, atebolrwydd a hyder y cyhoedd, gofynnaf i'r Arweinydd gadarnhau nad oes unrhyw unigolyn sy'n gysylltiedig â'r methiannau hyn yn gwasanaethu yn ei Chabinet ar hyn o bryd?

**Ateb Yr Arweinydd, Y Cynghorydd Nia Jeffreys**

Mae un o aelodau'r Cabinet yn gwasanaethu fel llywodraethwr yn Ysgol Friars, ac mi wn fod yr aelod yn ymddiheuro i'r dioddefwyr am effaith bellgyrhaeddol methiannau'r Corff Llywodraethu sydd wedi'u hamlygu yn adroddiad Cyfiawnder trwy ein Dewrder. Fel Cabinet a Chyngor, rydym yn derbyn yr adroddiad yn llawn. Ein cyfrifoldeb ni bellach yw gweithredu ar holl argymhellion a chanfyddiadau'r adroddiad. Mae dewrder y dioddefwyr yn ein cymell i weithredu'n gyflym ac yn bendant.

Bydd Aelodau hefyd yn ymwybodol fod gennym fersiwn newydd o Gynllun Ymateb wrthi'n cael ei lunio a bydd pob argymhelliad o 'Cyfiawnder trwy ein Dewrder' sydd ynghlwm a llywodraethant ysgolion yn cael sylw manwl fel rhan o'r gwaith hwnnw. Hefyd, rwy'n falch o glywed fod Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi adolygiad o'r gyfundrefn Llywodraethu Ysgolion a byddwn fel Cyngor yn awyddus iawn i gymryd pob rhan posib yn hwnnw.

Bydd angen edrych ar drefniadau llywodraethu'r Cyngor a byddaf yn comisiynu'r Prif Weithredwr i weithio gyda chorff allanol megis y WLGA, a byddwn yn croesawu cydweithio trawsbleidiol ar gylch gorchwyl y gwaith yma.

**Cwestiwn Atodol Y Cynghorydd John Pughe Roberts**

Nodwyd fod yr ymateb yma ddim yn rhoi llawer o hygrededd yn y Cabinet, gofynnwyd am gyfarfod Arbennig o'r Cyngor i edrych i mewn i'r materion yma yn unig, gan holi a fydd hyn yn digwydd.

**Ateb yr Arweinydd, y Cynghorydd Nia Jeffreys**

Cyn i'r Arweinydd ymateb bu i'r Swyddog Monitro amlygu mai cwestiwn i'r Arweinydd yw'r eitem hon, ac ni all arwain at unrhyw benderfyniad tu hwnt i'r ymatebion hyn.

Ymatebodd yr Arweinydd nad oedd y galwad am gyfarfod arbennig ddim yn benderfyniad penodol iddi, ond ei bod yn hapus i gynnal trafodaeth ar y materion yn yr eitem sydd ar y rhaglen heddiw. Eglurwyd nad oedd yn benderfyniad yr Arweinydd.

Ychwanegodd y Prif Weithredwr o ran yr egwyddor o gynnal y drafodaeth fod 3 pwyllgor penodol ar y mater wedi ei raglennu i fis Ionawr - sef dau Bwyllgor Craffu ac eitem ym Mhwyllgor Llywodraethu ac Archwilio.

**2. Cwestiwn Y Cynghorydd Angela Russell**

Yn sgil cyhoeddi'r Adolygiad Ymarfer Plant, 'Cyfiawnder Trwy Ein Dewrder', ac adnabod dros hanner cant o gyfleoedd a gollwyd i ddiogelu'r plant, pa wersi penodol sydd wedi'u dysgu, a pha sicrwydd y gellir ei ddarparu na fydd methiannau systemig o'r fath yn cael eu hailadrodd? Mae'n arbennig o bryderus y dylai llawer o'r gwersi hyn fod wedi cael eu hymgorffori yn dilyn Ymchwiliad Waterhouse.

**Ateb Yr Arweinydd, Y Cynghorydd Nia Jeffreys**

Diolch am y cwestiwn pwysig a hynod amserol yma, sef ein cyfarfod Cyngor Llawn cyntaf ers cyhoeddi ‘Cyfiawnder Trwy Ein Dewrder’ union fis yn ôl - adroddiad sydd yn amlygu’n glir fethiannau’r Cyngor. Fedra’i ddim peidio cydnabod dewrder y dioddefwyr a’r goroeswyr; eu dewrder nhw sydd yn fy ngyrru ymlaen i weithredu - wrth gwrs rydym yn derbyn casgliadau’r adolygiad yn llawn ac yn cydnabod yr holl gyfleoedd a gollwyd. Ni ddylai’r methiannau hyn fod wedi digwydd. Rydw i fel Arweinydd y Cyngor yn ymddiheuro i’r dioddefwyr a phawb gafodd eu heffeithio gan y troseddau.

Mae’r gwaith o adfer ac ymateb i’r digwyddiadau hyn ar waith er mwyn gwella a chryfhau trefniadau’r Cyngor. Mae Bwrdd Ymateb wedi’i sefydlu a’i roi ar waith er mwyn craffu a herio a rwy’n hynod o ddiolchgar i’r Cadeirydd Annibynnol, yr Athro Sally Holland am ei her a’i harweiniad cyson.

Rwy’n diolch hefyd i’r nifer helaeth o asiantaethau eraill sy’n sylwedyddion o’r bwrdd – Llywodraeth Cymru, y Comisiynydd Plant, Estyn, Arolygaeth Gofal Cymru, a’r Bwrdd Diogelu Rhanbarthol. Mae eu cyfraniad yn werthfawr iawn.

Rwyf i, a fy nghyd-aelodau cabinet yn aelodau hefyd er mwyn derbyn sicrwydd fod y gwaith yn mynd ymlaen ac i herio, cefnogi a sicrhau adnoddau i gyflawni.

Ers cyhoeddi’r Adroddiad ‘Cyfiawnder trwy ein Dewrder’, mae Cynllun Ymateb newydd yn cael ei lunio. Mae pob argymhelliad yn cael sylw yn y cynllun gweithredu o dan 7 thema a hynny yn cyd fynd gyda themâu'r adroddiad ‘Cyfiawnder trwy ein Dewrder’. Mae’r gwaith wedi cychwyn ac mae llawer mwy i’w wneud.

Mae Grŵp Sicrwydd wedi ei sefydlu gan Weinidogion Cymru, ac ym mis Tachwedd fe wnaeth Arolygaeth Gofal Cymru ac Estyn gynnal adolygiad ar y cyd, gan edrych ar drefniadau diogelu, llais y plentyn, y ffordd rydym yn cydweithio gydag asiantaethau eraill megis yr heddlu, ac ar lywodraethant, hyfforddiant a chefnogaeth staff ar draws yr Adrannau Plant ac Addysg.

Y mwyaf o lygaid ar y gwaith yma y gorau, yn fy marn i ac fe fydd y Cynllun Ymateb newydd yn cael ei gyflwyno i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio, a hefyd i Bwyllgorau Craffu Gofal, ac Addysg ac Economi arbennig yn y flwyddyn newydd gan roi cyfle i Gynghorwyr roi eu mewnbwn gwerthfawr.

Mae’n gywilydd cenedlaethol fod argymhellion adroddiad Waterhouse a gyhoeddwyd yn 2000, a Clywch yn 2004 heb eu gweithredu’n llawn. Bydd gwaith di-ildio a diflino gan y Cyngor yma i sicrhau fod argymhellion a chanfyddiadau ‘Cyfiawnder Trwy Ein Dewrder’ yn cael eu gwireddu’n llawn, heb esgusodion. Ni fyddaf yn cuddio rhag fy nghyfrifoldeb fel

arweinydd, fy mlaenoriaeth yw adfer ymddiriedaeth a gwneud popeth o fewn ein gallu i ddiogelu plant Gwynedd. Does dim byd yn bwysicach i mi ac i bawb yn ein Sir na diogelwch ein plant.

*Dyma enghreifftiau o rai pethau sydd wedi digwydd neu sydd ar waith dros gyfnod amser – samplau bychain iawn yw'r rhain ac mae dros 200 o weithredoedd yn y rhaglen waith manwl y tu cefn i'r Cynllun Ymateb:*

| | |
|---|---|
| Beth sydd eisoes wedi digwydd? | • Archwiliad wedi ei gynnal o achosion lle mae mwy nag un cyfeiriad am bersonau mewn swydd o ymddiriedaeth<br>• Cynyddu amlder ymweliadau ansawdd diogelu ysgolion<br>• 'Grooming' wedi ei ychwanegu i becyn hyfforddi diogelu i ysgolion<br>• Penodi Swyddog Hyrwyddo Diogelu newydd er mwyn codi ymwybyddiaeth o hyfforddiant diogelu ar draws y Cyngor<br>• Mae gweithiwr cymdeithasol yn ymweld â phob plentyn sy'n ymwneud â chyfeiriad ac yn gwrando arnynt. |
| Beth fydd yn cael ei gyflawni yn y 3 mis nesaf? | • Hyfforddiant i staff i adnabod a chofnodi newidiadau mewn ymddygiad plant all fod yn arwydd o 'grooming' neu gamdriniaeth<br>• Polisi Llais y Plentyn wedi ei ddatblygu a'r cam nesaf fydd ei fabwysiadu'n ffurfiol<br>• Cynyddu adnoddau (staff) o fewn y Tîm Diogelu a Llesiant Addysg<br>• Polisi Canu'r Gloch newydd i'w fabwysiadu'n ffurfiol |
| Beth sydd yn digwydd yn y 3-12 mis nesaf | • System newydd i ysgolion adrodd ar bryderon yn cael ei gyflwyno<br>• Ymateb i unrhyw newidiadau cenedlaethol i'w cyflwyno yn ystod y cyfnod hwn<br>• Rhaglen hyfforddiant wedi gwreiddio i sicrhau bod Cyngor Gwynedd yn sefydliad 'Trawma Wybodus'<br>• Cyngor Gwynedd yn gweithio at sicrhau statws Sir 'Plentyn Gyfeillgar' |

**Cwestiwn Atodol y Cynghorydd Angela Russell**

Diolch am yr ateb, rhaid cofio ar ôl y Waterhouse Enquery mai un weithwraig gymdeithasol unig ddewr a ddaeth ar ymchwiliad yn ymlaen. Ond be sy'n wahanol yn fan hyn oedd mai dim gweithwyr cymdeithasol a arweiniodd ond dewrder y plant a arweiniodd i ddod ar ymchwiliad yma ac i dynnu bwli mawr i lawr ac nid staff proffesiynol. Gofynnwyd am sicrwydd fod pawb yn saff mewn ysgolion, gan fod pryder fod yr un bobl yn parhau i wneud y penderfyniadau ar hyn o bryd. Felly o ystyried difrifoldeb y methiant a nodwyd a'r pryderon parhaus ynghylch tryloywder ac atebolrwydd, nid wyf yn fodlon fod adolygiad ymarfer plant wedi ei ateb yn llawn, ac ychwaith yn mynd i'r afael a dyfnder y mater nac wedi adfer hyder y cyhoedd. A wnaiff y Cyngor yn awr cefnogi fy ngalwad, am yr eildro, am ymchwiliad cyhoeddus i'r methiannau diogelu yng Nghyngor Gwynedd er mwyn sicrhau bod pob llais yn cael ei glywed, bod pob tystiolaeth yn cael ei hystyried yn gyhoeddus ac y caiff newid cadarn a chynaliadwy ei gyflawni.

**Ateb – Yr Arweinydd, y Cynghorydd Nia Jeffreys**

Diolch a nodwyd ei bod yn cytuno ac mai dewrder y dioddefwyr sydd yn gyrru pawb ymlaen i neud gwaith pwysig yma. A chytunwyd gyda'r galwad am ymchwiliad cyhoeddus, gan nodi mai ei gweithred gyntaf fel Arweinydd oedd gwneud yr un galwad. Amlygwyd fod y Cabinet wedi gwneud neud yr un galwad a bod llythyr wedi ei anfon at Eluned Morgan i holi am yr un peth.

**3. Cwestiwn Y Cynghorydd Louise Hughes**

Mae Sul y Cofio yn ddiwrnod cenedlaethol o fyfyrio dwys, gan anrhydeddu'r rhai a wasanaethodd ac a dalodd yr aberth eithaf dros y Rhyddid rydyn ni'n ei fwynhau heddiw. Mae'n ddyled na allwn byth ei had-dalu. A wnaiff y cyngor hwn gyhoeddi bod parcio am ddim ar Sul y Cofio ym meysydd parcio Cyngor Gwynedd i'r rhai sy'n dymuno talu teyrnged, yn unol ag Awdurdodau Lleol eraill?

**Ateb yr Aelod Cabinet dros Amgylchedd, Y Cynghorydd Craig ab Iago**

Mae Cyngor Gwynedd yn cydnabod yn llawn arwyddocâd a difrifoldeb Sul y Cofio.

Byddwn yn croesawu trafodaeth gyda'r Cynghorydd Louise Hughes a'r swyddogion perthnasol i ystyried y cais hwn ymhellach.

Byddai'r drafodaeth yn edrych ar ymarferoldeb o allu gweithredu trefniant o'r fath a'r goblygiadau sydd yn gysylltiedig â hynny.

**Cwestiwn atodol Y Cynghorydd Louise Hughes**

Nodwyd y gobaith am ateb mwy penderfynol a chlir, ond bu iddi gynnig amseroedd penodol ar gyfer y parcio am ddim ar Sul y Cofio.

4. **Cwestiwn Y Cynghorydd Rhys Tudur**

O ystyried bod:

- Cynghorwyr ar y pwyllgorau craffu a'r pwyllgorau eraill yn y Cyngor yn cynnig sylwadau adeiladol a gwerthfawr ar yr eitemau a drafodir.
- Canfyddiadau a sylwadau'n cael eu cofnodi yn ffurfiol gyda'r bwriad o'u dwyn yn gyflawn i sylw'r Cabinet a'r Swyddogion.
- Yn rhy aml pan ddaw'r eitemau rheini gerbron y Cabinet y cwbl a gofnodir ar raglen y Cabinet yw ychydig frawddegau cwta neu ni chynhwysir unrhyw sylw gan gynghorwyr, ee ar faterion megis
    - Adroddiad ar lesiant staff
    - Strategaeth Toiledau
    - Cynllun Gweithredu Tai
    - Eitemau'r Pwyllgor Polisi Cynllunio.

Onid oes yma ddangos diffyg parch at farn/argraffiadau Cynghorwyr ac anwybyddu llais Aelodau nad ydynt yn aelodau o'r Cabinet?

**Ateb yr Aelod Cabinet dros Wasanaethau Corfforaethol a Chyfreithiol, y Cynghorydd Llio Elenid Owen**

Diolch am y sylwadau a'r cwestiwn.

Mae cyflwyno unrhyw adroddiad ar gyfer penderfyniad gan y Cabinet yn gofyn am gyflwyno gwybodaeth drylwyr. Mae'n rhaid i'r Cabinet roi ystyriaeth i nifer o ffactorau wrth wneud pob penderfyniad (ee Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol, cydraddoldeb, yr iaith Gymraeg, ardrawiad economaidd-gymdeithasol ayyb) yn ogystal a sylwadau unrhyw ymgynghori ee gyda phwyllgor craffu neu'r cyhoedd.

Pan fo pwyllgor neu weithgor wedi ystyried mater cyn iddo gael ei gyflwyno er penderfyniad i'r Cabinet, disgwylir i wybodaeth gael ei gynnwys yn yr adroddiad. Mae canllawiau trylwyr a thempled penodol wedi eu creu ar gyfer cyflwyno adroddiad i Gabinet, sy'n mynegi'r uchod yn glir.

Mae'n braf gweld dy sylwadau cadarnhaol am y gwaith craffu, ac rwy'n ymwybodol fod cryn waith wedi ei wneud gan y Pwyllgorau Craffu i finiogi'r argymhellion a gyflwynir i'r

Aelodau Cabinet. Mae'n bwysig cofio mai sylwadau'r pwyllgor, ac nid unigolion sy'n cael eu cyflwyno.

Yn ogystal, mae gwaith wedi digwydd i ddatblygu trefn lle mae Cadeirydd y Pwyllgor Craffu yn derbyn gwahoddiad i fynychu cyfarfod y Cabinet pan fo eitem wedi ei blaen graffu i ymhelaethu ar drafodaeth a sail penderfyniad y pwyllgor. Mae'n ddyddiau cynnar ar y datblygiad yma, ond rwy'n hyderus ei fod yn gam positif er sicrhau mewnbwn y pwyllgorau craffu.

Rwy'n cydnabod fod anghysondeb yng nghynnwys adroddiadau i Gabinet ar hyn o bryd, mae enghreifftiau da o gyfeirio at waith y crafwyr ac/neu aelodau'r Gweithgor Polisi Cynllunio mewn adroddiadau Cabinet, ac enghreifftiau gwan hefyd. Mae lle i ni fel Aelodau Cabinet edrych ar ei wella i'r dyfodol.

Yn sicr nid oes bwriad i anwybyddu llais Aelodau nad ydynt yn Aelodau Cabinet na dangos diffyg parch at farn ac argraffiadau'r pwyllgorau neu weithgorau perthnasol.

**Cwestiwn Atodol y Cynghorydd Rhys Tudur**

O ystyried fy mod wedi cyfeirio at achosion annerbyniol ymhle nad oedd yr un sylwad na chofnod o argymhellion y pwyllgorau craffu ar raglenni'r cabinet heb son am gofnodion y pwyllgor craffu. A yw'n ormod gofyn am drefn well ymhle fod y Cabinet o leiaf yn gweld penderfyniadau'r pwyllgor craffu yn ogystal ag argymhellion aelodau unigol o'r pwyllgor ynghyd a chofnodion o'r drafodaeth, er mwyn i aelodau deimlo nad ydynt yn gwastraffu eu hamser nac yn siarad â gwactod wrth gyfrannu a rhoi eu hamser i mewn i drafodaethau craffu hir.

**Ateb yr Aelod Cabinet Gwasanaethau Corfforaethol, Y Cynghorydd Llio Elenid Owen**

Rhaid i mi anghydweld gyda'r honiad nad oes unrhyw sylwad am argymhellion y pwyllgorau craffu yn yr enghreifftiau a roddwyd. Mae enghraifft dda iawn o gynnwys argymhellion y pwyllgor craffu, ynghyd a chrynodeb o'r drafodaeth yn adroddiad yr Aelod Cabinet Tai ac Eiddo ar y Cynllun Gweithredu Tai, a strategaeth Caffael sydd wedi ei oedi er mwyn cael trafodaethau pellach yn dilyn y Pwyllgor Craffu.

Nid yw'n arferiad, nac yn ymarferol bosib ar bob achlysur, i fod yn cynnwys cofnod llawn y Pwyllgorau Craffu, ac mae hynny oherwydd amseriad mynd o'r pwyllgor craffu i'r Cabinet. Wrth gwrs, nid oes modd cynnwys sylwadau aelodau unigol, gan mai ystyried penderfyniad y pwyllgor fel corff mae'r Aelodau Cabinet.

Cydnabuwyd fod lle i wella ac yn hapus i edrych eto ar ein trefniadau. A phwysleisiwyd nad yw aelodau craffu yn gwastraffu eu hamser a bod eu trafodaethau gwerthfawr yn cael eu hystyried a'u gwerthfawrogi gen i a phob Aelod Cabinet arall.

5. **Cwestiwn Y Cynghorydd Elin Walker Jones**

A ninnau newydd nodi diwrnod y Rhuban Gwyn, a thrais yn erbyn merched a menywod yn parhau i fod yn argyfwng cenedlaethol, pa gynnydd mae Cyngor Gwynedd wedi ei wneud i ddod yn awdurdod sy'n wybyddus o drawma?

**Ateb yr Is-Arweinydd a'r Aelod Cabinet dros Blant a Chefnogi Teuluoedd Menna Trenholme**

Diolch am y cwestiwn. Mae'r Cyngor eisoes yn sefydliad achredededig Rhuban Gwyn ers 2022. Eleni, unwaith eto, bu'r cyngor yn rhan o'r ymgyrch honno i ddileu trais yn erbyn merched, genethod a menywod. Canolbwyntiodd yr ymgyrch eleni ar y thema o annog dynion a bechgyn i godi llais yn erbyn trais yn erbyn merched a menywod. Diolch i fy nghyd-aelod y Cynghorydd Llio Elenid Owen, am arwain ar yr ymgyrch honno.

Tu hwnt i Ddiwrnod y Rhuban Gwyn ac yng nghyd-destun yr argyfwng cenedlaethol sy'n parhau o ran trais yn erbyn merched a menywod, mae'n hanfodol ein bod yn gwneud popeth o fewn ein gallu fel Cyngor i weithio mewn modd sy'n diogelu ac yn parchu profiadau'r rhai sy'n byw gyda thrawma. Mae dod yn awdurdod sy'n wybyddus o drawma yn rhan o hynny.

Er ein bod ar ddechrau'r daith fel Cyngor, mae gwaith pwysig eisoes ar y gweill. Yn ddiweddar, cynhaliwyd gwaith mapio ar draws pob adran i ddeall y sefyllfa bresennol. Mae'r ymatebion yn dangos bod diddordeb a chydnabyddiaeth o'r angen i ddatblygu dull trawma-wybodus, ac yn adnabod bylchau clir, yn enwedig o ran dealltwriaeth a hyder staff o drawma, a chysondeb hyfforddiant yn y maes.

Serch hynny, mae gennym elfennau cryf i adeiladu arnynt. Mae gwaith ardderchog yn digwydd eisoes mewn gwasanaethau sy'n gweithio'n agos gyda phobl sy'n profi trawma megis gwasanaethau digartrefedd, cefnogi ffoaduriaid a rhai timau o fewn gwasanaethau oedolion a phlant. Mae sector addysg Gwynedd hefyd mewn lle da gyda dros 1,000 o staff ysgolion wedi derbyn hyfforddiant trawma-wybodus lefel staff cyfan, ac mae bron hanner ysgolion y sir bellach â staff sydd wedi cwblhau hyfforddiant Diploma arbenigol.

Fel aelod o'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Gwynedd a Môn, rwyf yn falch o nodi fod y Bwrdd wedi adnabod ymarfer trawma-wybodus fel blaenoriaeth allweddol. Mae'r cydweithio hwn yn cynnig cyfle gwirioneddol i ni ddysgu o brofiadau ein partneriaid, rhannu arferion da, a chydweithio a chyd-lunio camau nesaf.

Yn sgil y gwaith mapio diweddar, mae'n glir ein bod angen cefnogi ein staff i gaffael y ddealltwriaeth, sgiliau a hyder i fod yn drawma wybyddus - a hynny ar draws adrannau'r cyngor. Ein bwriad felly yw datblygu pecyn, gyda chefnogaeth y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus, o gyflwyniad sylfaenol i aelodau a gweithwyr rheng flaen, hyfforddiant i reolwyr, a hyfforddiant arbenigol i dimau rheng flaen sy'n gweithio gyda phobl sydd wedi profi trawma. Rydym am ddatblygu pecyn cefnogi a dysgu fydd yn sicrhau dull cyson ar draws y sefydliad a lleihau'r angen i adrannau gomisiynu hyfforddiant yn unigol.

Rydym hefyd yn archwilio opsiynau achredu ffurfiol a allai gryfhau a chefnogi ein hymrwymiad fel sefydliad. Fodd bynnag, rydym yn glir mai'r hyn sy'n bwysicaf yw meithrin diwylliant trawma-wybodus go iawn yn ein gwaith o ddydd i ddydd, ac nid sicrhau bathodyn neu label yn unig.

Felly, er ein bod ar y camau cynnar, mae gennym sail gadarn, partneriaethau cryf yn rhanbarthol, a gwaith cynllunio clir ar droed. Mae'r Cyngor yn ymrwymedig i symud ymlaen tuag at fod yn sefydliad sy'n wirioneddol wybyddus o drawma er mwyn gwneud ein gwasanaethau'n fwy diogel, tosturiol ac ymatebol i bawb, yn enwedig y rhai sydd wedi profi trais a thrawma.

**Cwestiwn Atodol y Cynghorydd Elin Walker Jones**

Diolch am yr ateb cynhwysfawr, ond gofynnwyd beth mae'r Cyngor yn ei wneud i sicrhau ein bod yn holi ac yn gwrando ar blant a phobl ifanc, er mwyn sicrhau ein bod yn cyfarch yr angen yn fwy nac erioed i ni ddeall effaith hir dymor trawma ar blant ac adnabod cyfleoedd i'w cefnogi gan ymddwyn gydag empathi a dealltwriaeth bob amser.

**Ateb yr Is-Arweinydd a'r Aelod Cabinet dros Blant a Chefnogi Teuluoedd Menna Trenholme**

Mae'r materion hyn yn holl bwysig ac yn falch am gael y cyfle i'w trafod. Mae'r materion sydd wedi eu codi yn rhai yr wyf yn angerddol amdano ac mae'r Cyngor yn edrych ar sawl maes a dwi yn ei gweld drwy bedair ffrwd. Yn gyntaf rydym yn edrych ar y posibiliadau i weithio tuag at achrediad Sir Plentyn Cyfeillgar UNISEF sydd yn seiliedig ar gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar hawliau'r plentyn. Deallaf fod staff wedi bod yn trafod gyda'r

Comisiynydd Plant a byddaf yn cyfarfod efo Cynghorydd Cyngor Caerdydd penwythnos nesaf, gan eu bod yn sir Blentyn Cyfeillgar yn barod. Yn ail mae gwaith arbennig y Fforwm Ieuenctid a'r datblygiadau yn sicrhau ymgysylltu, trafod a gwrando llais y plant ar waith yn ein sir. Yn drydydd fydd datblygu polisi cynhwysfawr ar lais y plentyn i gael ei fabwysiadu gan y Cyngor yn ei gyfanrwydd, ac yn olaf ond nid y lleiaf yw sicrhau ein bod yn datblygu i fod yn sir trawma adnabyddus.

Mae hyn i gyd yn golygu llawer iawn o waith a fydd yn datblygu dros y misoedd nesaf, a gobeithio y bydd gwahoddiad maes o law i chi fod yn rhan o waith y fforwm Ieuenctid er mwyn sicrhau ein bod yn gwrando, clywed, gweithredu yn dilyn ei llais.

**6. Cwestiwn Y Cynghorydd Beca Roberts**

A all yr Aelod o'r Cabinet gadarnhau faint o gyllid sydd wedi'i gynhyrchu drwy gytundebau Adran 106 ers Mai 2022, a faint o'r cyfanswm hwnnw sy'n parhau heb ei ymrwymo neu heb ei ddyrannu?

**Ateb yr Aelod Cabinet dros Amgylchedd, y Cynghorydd Craig ab Iago**

Ers Mai 2022, mae cyfanswm o £348,516 wedi ei gyflwyno i'r Cyngor fel cyfraniadau ariannol yn gysylltiedig â chytundebau a gwblhawyd yn unol â darpariaethau Adran 106 o'r Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990 (fel y'i diwygiwyd).

Mae cytundeb Adran 106 yn gontract cyfreithiol rhwng y datblygwr (neu nifer o fudd-ddeiliad) a'r Cyngor, fel Awdurdod Cynllunio Lleol, sydd yn gweithredu law yn llaw gyda chaniatâd cynllunio ar gyfer datblygiad. Mae cytundebau o'r fath yn ei gwneud yn ofynnol i rwymedigaethau cynllunio penodol gael eu gwneud wrth weithredu ar ganiatâd cynllunio.

Felly mae'r holl gyfraniadau ariannol sydd wedi eu derbyn wedi eu hymrwymo, gan fod cytundebau o'r fath yn benodol yn datgan ac yn dyrannu sut mae'r arian yn cael ei wario.

Gall cyfraniadau fel hyn fod ar gyfer cyfarch anghenion megis addysg, gwelliannau ffyrdd, darpariaeth cyfleusterau chwarae a hynny er mwyn goresgyn effeithiau datblygiad ar yr ardal.

Mae gofynion cyfreithiol yn ymwneud â'r defnydd o gytundebau Adran 106, a gellir ond eu defnyddio os ydynt yn cwrdd â'r profion statudol. Mae'n rhaid i unrhyw rwymedigaeth cynllunio fod yn:

1. angenrheidiol i wneud y datblygiad yn dderbyniol o safbwynt cynllunio;
2. yn uniongyrchol gysylltiedig â'r datblygiad; ac yn
4. gysylltiedig yn deg ac yn rhesymol o ran graddfa a math.

Gellir cadarnhau felly fod yr holl arian wedi ei ymrwymo neu ei ddyrannu.

**Cwestiwn Atodol – Y Cynghorydd Beca Roberts**

Ymatebwyd gan nodi fod data rhyddid gwybodaeth o Fai 2024 gan y Cyngor yma wedi dangos fod dros £60,000 o gyfraniadau 106 heb ei wario am gyfnodau hir, o gofio fod yr holl gyllid yma wedi ei hymrwymo gofynnwyd sut mae'r Aelod Cabinet yn egluro'r sefyllfa yma a'r camau mae'r Cyngor yn ei gymryd i sicrhau bod yr arian yn cyrraedd cymunedau mewn modd amserol.

**Yr Ateb – Aelod Cabinet dros Amgylchedd, y Cynghorydd Craig ab Iago**

Mae'r Cyngor wrth gwrs yn trio gwario pres yn amserol ag yn gwneud yn siŵr eu bod yn helpu cymunedau, ond efallai buasai cynnig o gyfarfod i drafod hyd gyda fi a swyddogion yn eich helpu.

7. **Cwestiwn Y Cynghorydd Gruffydd Williams**

Yn dilyn y ffaith bod erthygl 4 wedi ei ddiddymu gan y Barnwr Ustus Eyre o ganlyniad i'r hyn a ddywedodd "fod yna gamarwain Sylweddol gan Swyddogion y Cyngor hwn ", a fedr y Cyngor ymddiheuro i ymgyrchwyr sydd wedi brwydro mor galed i gael erthygl 4 mewn grym ?

**Ateb yr Aelod Cabinet dros Amgylchedd, y Cynghorydd Craig ab Iago**

Fel Cyngor, rydym yn benderfynol o wneud popeth yn ein gallu i sicrhau fod gan bobl Gwynedd fynediad at dai addas yn eu cymunedau. Dyna pam yr ydym wedi cymryd cyfres o gamau rhagweithiol - gan gynnwys cyflwyno Cyfarwyddyd Erthygl 4 - i reoli'r nifer sylweddol o gartrefi sy'n cael eu colli i fod yn ail gartrefi neu'n llety gwyliau tymor-byr.

Dangosodd ymchwil cyn cyflwyno Cyfarwyddyd Erthygl 4 fod 65% o aelwydydd Gwynedd wedi'u prisio allan o'r farchnad dai, gyda'r broblem yn hyd yn oed mwy difrifol mewn cymunedau lle mae cyfran uchel o dai gwyliau.

Fel y bydd yr Aelod yn ymwybodol, mae'r Cyngor hwn wedi arwain y ffordd yn y maes yma gan fod yr Awdurdod Cynllunio cyntaf yng Nghymru i gyflwyno Cyfarwyddyd Erthygl 4 fel modd o reoli'r defnydd o dai fel ail gartrefi a llety gwyliau. Rydw i'n falch ein bod yn barod i fentro a gwneud popeth yn ein gallu i sicrhau fod gan bobl Gwynedd fynediad at gartrefi addas yn eu cymunedau, yn sicr nid wyf am ymddiheuro am hynny.

Wrth gwrs, rydym yn hynod siomedig gyda phenderfyniad y Barnwr i wrthod ein cais ar lafar am yr hawl i apelio ei ddyfarniad, a bod Cyfarwyddyd Erthygl 4 wedi ei ddiddymu yn ardal awdurdod cynllunio lleol Gwynedd. Byddwn felly'n bwrw ymlaen i gychwyn proses apêl ysgrifenedig i'r Llys Apêl i amddiffyn ein penderfyniad i gyflwyno Cyfarwyddyd Erthygl 4 yng Ngwynedd.

Bydd y cais hwn yn cael ei gyflwyno yn fuan. Gan ein bod yn bwriadu apelio'r penderfyniad, mae'r broses gyfreithiol gysylltiedig yn parhau, ac mae'r achos cyfreithiol hwn yn un byw. Ni fyddai'n briodol i mi roi unrhyw sylw pellach ar yr achos ar y pwynt yma.

**Cwestiwn Atodol Y Cynghorydd Gruffydd Williams**

Fel un sydd wedi brwydro am flynyddoedd maith i drio sicrhau bod yna newidiadau deddfwriaethol a trethiannol er mwyn cyfyngu ar y niferoedd o dai haf ac unedau gwyliau o fewn ein cymunedau ni, nid dyna'r ateb yr oeddwn yn ei ddisgwyl y cwestiwn oedd ynglŷn â'r mwdwl yn ôl y barnwr fod cam arwain sylweddol wedi bod gan swyddogion y Cyngor yma wrth drosglwyddo gwybodaeth i'r aelodau Cabinet. Gofyn am ymddiheuriad ond i ar ran yr holl ymgyrchwyr sydd wedi brwydro mor galed oherwydd y cam arwain syweddol yma, nid gofyn am ymddiheuriad am y tai cymunedol. Gofyn am ymddiheuriad yn unol ar gwestiwn gwreiddiol.

**Ateb – Aelod Cabinet dros Amgylchedd, y Cynghorydd Craig ab Iago**

Dwi wedi ymateb i'r cwestiwn gwreiddiol a ni allaf ddweud mwy na hynny.

8. **Cwestiwn Y Cynghorydd Delyth Lloyd Griffiths**

Mae'r Cyngor yn berchen ar 39 o fân-ddaliadau gyda nifer ohonynt yn fy ward i yn Rhydymain. Yr wyf wedi cael nifer fawr o etholwyr yn cysylltu â mi yn ystod y flwyddyn yma. Mae cyflwr y tai annedd a hefyd adeiladau fferm angen gwaith sylweddol cynnal a chadw.

Deallaf fod y Cyngor wedi penodi cwmni proffesiynol preifat i asesu'r gwaith sydd angen ei gyflawni. Hoffwn wybod gan Aelod Cabinet, beth yw amserlen y rhaglen waith ar gyfer gwario'r arian sydd wedi ei glustnodi gan y Cabinet ar gyfer gwneud gwelliannau sylweddol ar yr anheddau a hefyd yr adeiladau fferm?

**Ateb yr Aelod Cabinet dros Dai ac Eiddo, y Cynghorydd Paul Rowlinson**

Hoffwn ddechrau trwy amlygu fod yr arian a glustnodwyd tuag at gyfarch gwelliannau i'r Stad Fân-ddaliadau wedi'i ddyrannu'n benodol ar gyfer uwchraddio safonau'r tai, a hynny fel rhan o Gynllun Gweithredu Tai'r Cyngor. Bydd unrhyw elfennau cynnal a chadw sy'n ymwneud â'r adeiladau fferm yn destun trafodaethau pellach rhwng swyddogion y Cyngor a'r tenantiaid, gan amrywio yn unol â chynnwys y tenantiaethau.

Fe ymgymerwyd â'r dasg o asesu'r Rhaglen Waith sydd i'w chyfarch fel rhan o'r buddsoddiad ariannol yma gan swyddogion mewnol, gyda chynnwys y rhaglen yn seiliedig ar ddeilliannau arolygon cyflwr mewnol. Nid oes cwmni preifat wedi bod ynghlwm â'r dasg o asesu'r gwaith sydd i'w gyflawni.

O ran amserlen ar gyfer ymgymryd â'r Rhaglen Waith, fe anelir i ddechrau ar wedd gyntaf y Rhaglen yn y flwyddyn newydd, gyda'r Rhaglen yn ei chyfanrwydd wedi ei gosod dros gyfnod o ddwy flynedd.

Mae'r holl denantiaid wedi eu hysbysu o'r ymrwymiad ariannol a wnaed fel rhan o'r Cynllun Gweithredu Tai, ac mae gohebiaeth bellach wedi ei anfon at y tenantiaid hynny fydd yn derbyn gwaith ar eu daliadau fel rhan o wedd gyntaf y rhaglen.

Pe bai gan unrhyw denant bryderon penodol, hoffwn eu hannog i gysylltu gyda'r swyddogion perthnasol yn y Cyngor yn unol â'r drefn arferol.

**Cwestiwn Atodol Y Cynghorydd Delyth Lloyd Griffiths**

Dwi'n hapus i gael clywed fod pob tenant wedi cael llythyr ym mis Awst, a'u bod yn gwybod yn union yr asesiad sydd wedi ei wneud ar eu cartref nhw a beth fydd y gwaith fydd yn cael ei wneud ar eu cartref, dwi'n edrych ymlaen yn fawr i Ymgynghoriaeth Gwynedd i fod yn cychwyn ar y gwaith yn syth yn Ionawr 2026, ac y bydd y gwaith yn cael ei orffen mewn dwy flynedd. Gofynwyd faint o arian sydd ar gael i wneud y gwaith yma?

**Ateb yr Aelod Cabinet dros Dai ac Eiddo, y Cynghorydd Paul Rowlinson**

Mae cyllideb o £2.1 miliwn ar gyfer y gwaith, ac mae'r arian yma yn rhan o'r Cynllun Gweithredu Tai sydd yn cael ei ariannu trwy'r premiwm ar ail gartrefi a thai gwag hir dymor.

## 7. TRETH CYNGOR: HAWL DISGRESIWN I GANIATÁU DISGOWNTIAU A/NEU CODI PREMIWM AR AIL GARTREFI AC EIDDO GWAG HIRDYMOR

Cyflwynwyd yr adroddiad gan nodi yn unol â'r Ddeddf Cyllid Llywodraeth Leol 1992 fod angen penderfyniad blynyddol ar godi premiwm treth cyngor. Eglurwyd os nad oes penderfyniad yn cael ei wneud y buasai gorfodaeth i gynnig disgownt o 50%. Nodwyd y sefyllfa bresennol, sef fod premiwm o 150% ar ail gartrefi a 100% ar eiddo gwag hir dymor, a bod hyn ers Ebrill 2023. Mynegwyd fod yr arian sydd wedi ei godi drwy'r premiwm wedi ei ddefnyddio i gynlluniau tai.

Amlygwyd fod niferoedd tai gwag hir dymor wedi parhau yn uchel, gydag oddeutu 1120 o eiddo gwag hir dymor ym mis Mehefin 2025. Mynegwyd fod yr adran wedi edrych ar brofiadau siroedd eraill a'i fod wedi amlygu yn gryf mai premiwm o 150% sydd fwyaf effeithiol i gael tai

yn ôl mewn defnydd, ac o ganlyniad i hyn nodwyd fod hyn yn un o argymhellion y penderfyniad.

Bu i'r Aelod Cabinet gymryd y cyfle i ymateb i rai sylwadau a oedd wedi ei dderbyn yn ystod y dydd megis pwysleisiwyd nad oes treth cyngor i'w dalu wrth weithio drwy brofiant, ac am 6 mis yn dilyn y penderfyniad. Tynnwyd sylw yn ogystal i'r drefn eithrio sydd bellach mewn lle gan y Cyngor.

Rhoddwyd cyfle i'r aelodau ofyn cwestiynau a chynnig sylwadau.

Holwyd am bleidleisio ar bob cymal yn unigol, ond eglurwyd o ran y drefn eu bod yn un penderfyniad a bod modd addasu'r cymalau drwy gynnig gwelliant ar y cynnig yn ei gyfanrwydd.

Mynegwyd nad bwriad o godi premiwm ar dai haf oedd rhoi baich ariannol annheg ar unigolion lleol sy'n gosod tai i ymwelwyr ar raddfa fach, ond fod y teuluoedd yma wedi bod profi niwed anfwriadol y penderfyniad a wnaethpwyd heb roi ystyriaeth lawn iddynt, gyda biliau annisgwyl enfawr yn dod o nunlle iddynt. Gofynnwyd am sicrwydd y bydd modd mireinio'r polisi eithrio i gwmpasu'r math o achosion yma a'r fydrer, gan fod rhai o'r rhain yn enghraifft berffaith o dwristiaeth gynaliadwy.

Amlygwyd fod dau beth ar goll o ran gwybodaeth am dai gweigion y cyntaf y rhesymau pam eu bod yn wag ynghyd â'r Polisi Eithrio. Mynegwyd yr angen i fod a pholisi eithrio o'r dechrau un gan fod sefyllfaoedd ac amgylchiadau ble nad oes rheswm dros godi treth megis rhentu ystafelloedd o fewn cartrefi. Ymatebwyd gan nodi fod y Polisi Eithrio mewn lle bellach a bod eithriadau statudol mewn lle ers cyflwyno Treth Cyngor megis unigolion yn mynd i gartrefi gofal. Mynegwyd nad yw'r Gwasanaeth Trethi yn casglu gwybodaeth pam fod eiddo yn wag gan nad oes rheswm iddo gasglu hynny, ond fod yr Adran Tai ac Eiddo yn cynnal gwaith ymchwil i edrych ar hyn ac i weld sut mae modd cynorthwyo pobl i ddod â'r tai yn ôl i ddefnydd.

Nodwyd pryder am godi 150% ar dai gwag gan ei fod yn effeithio ar unigolion sydd yn gweithio i uwchraddio tai ac nac yw 12 mis yn ddigon i gwblhau'r gwaith. Mynegwyd y buasai polisi eithrio sydd yn rhoi caniatâd am estyniad i'r 12 mis statudol yn tawelu meddwl.

Codwyd sylwadau am drethi busnes a'r effaith a fydd yn ei roi ar fusnesau fel gwestai ond nodwyd mai penderfyniad y Llywodraeth yw hon ac nid y Cyngor.

Pwysleisiwyd nad codi arian yw'r bwriad o godi'r premiwm ar dai gwag i 150% ond yn hytrach i geisio dod a thai yn ôl i ddefnydd. Eglurwyd fod staff yr Adran Gyllid ar gael i drafod ac i roi gwrandawiad teg i unigolion i apelio.

**PENDERFYNWYD**

Cytunwyd ar gyfer blwyddyn ariannol 2026/27:

- Fod Cyngor Gwynedd yn caniatáu DIM disgownt ar ail gartrefi dosbarth A, yn unol ag Adran 12 o Ddeddf Cyllid Llywodraeth Leol 1992 (h.y. dim newid).
- Fod Cyngor Gwynedd yn caniatáu DIM disgownt ac yn CODI PREMIWM O 150% ar ail gartrefi dosbarth B, yn unol ag Adran 12B o Ddeddf Cyllid Llywodraeth Leol 1992 (h.y. dim newid).
- Fod Cyngor Gwynedd yn caniatáu DIM disgownt i gartrefi sydd wedi bod yn wag am 6 mis neu fwy ac yn CODI PREMIWM O 150% ar gartrefi sydd wedi bod yn wag am 12 mis neu fwy, yn unol ag Adran 12A o Ddeddf Cyllid Llywodraeth Leol 1992 (h.y. yn cynyddu'r premiwm o 100% i 150%).

**8. CYNLLUN GOSTYNIADAU TRETH CYNGOR 2026/27**

Cyflwynwyd yr eitem gan nodi fod gofyniad statudol i gyflwyno'r eitem hon yn flynyddol. Eglurwyd mai pwrpas yr adroddiad yw penderfynu ar y trefniadau i weithredu'r cynllun gostyngiadau treth cyngor. Eglurwyd nad oes newid i'r cynllun eleni, ac er hyn fod angen ei gyflwyno i benderfyniad ar gyfer 2026/27. Pwysleisiwyd fod yr adroddiad yn benodol ar gyfer gostyngiad ble mae angen cyrraedd prawf modd gan y gwasanaeth budd-dal ac nid ar gyfer eithriadau eraill megis gostyngiad person sengl.

Nodwyd y penderfyniad.

**PENDERFYNWYD**

Cytunwyd:

1. Fod Cynllun Lleol Cyngor Gwynedd am y flwyddyn yn cychwyn 1 Ebrill 2026 yn parhau fel ag yr oedd yn ystod 2025/26. Felly, bydd yr amodau canlynol (a – c isod) ynghylch yr elfennau disgresiwn yn parhau:
    a) gweithredu diystyrwch o 100% i bensiynau anabledd rhyfel, a phensiynau gweddwon rhyfel, ar gyfer pensiynwyr a hawlwyr oed gweithio fel ei gilydd.
    b) Peidio cynyddu'r cyfnodau estynedig o ostyngiadau i bensiynwyr a hawlwyr oed gwaith o'r pedair wythnos safonol sy yn y Cynllun Rhagnodedig.
    c) Peidio cynyddu'r cyfnod ôl-ddyddio i bensiynwyr a hawlwyr oed gwaith o'r tri mis safonol sydd wedi'i nodi ar hyn o bryd yn y Cynllun Rhagnodedig.
2. Lle'n briodol, dirprwyo'r grym i'r Pennaeth Cyllid, mewn ymgynghoriad gyda'r Aelod Cabinet dros Gyllid, i wneud mân addasiadau i'r cynllun am 2026/27, ar yr amod na fydd yn newid sylwedd y cynllun.

## 9. ADRODDIAD PERFFORMIAD BLYNYDDOL A HUNANASESIAD 2024/25

Cyflwynwyd yr adroddiad a oedd yn adrodd ar waith y Cyngor dros y flwyddyn ddiwethaf. Mynegwyd fod adroddiad Cyflawnder drwy ein Dewrder wedi ei gyflwyno yn dilyn creu'r adroddiad hwn ond amlygwyd y bydd y Cyngor yn gweithredu'n llawn ar ganfyddiadau'r adroddiad.

Nodwyd ei bod yn wyrthiol fod y Cyngor wedi cyflawni cymaint wrth ystyried y bwlch ariannol, ond ei fod wedi ymrwymo i warchod gwasanaethau sydd yn cael ei defnyddio'n ddyddiol gan drigolion. Wrth adlewyrchu, mynegwyd fod cymaint i'w adrodd a bod angen rhoi sylw ar bobl ac nid ystadegau. Tynnwyd sylw at amryw o gynlluniau a oedd yn cynnwys Cefnogi Pobl. Tynnwyd sylw at y cynnydd sydd wedi ei wneud i gyfluniau sydd yn mynd i'r afael a thlodi a chostau byw drwy gefnogi hybiau cymunedol a banciau bwyd.

Amlygwyd gwaith Gwynedd Werdd gan amlygu fod llawer o enghreifftiau o staff yn mynd tu hwnt i'r disgwyl ym mhob ardal o Wynedd. Tynnwyd sylw at nifer uchel o grantiau llwyddiannus ac yn benodol £2m i Gymunedau Llechi gyda chynllun Llenni, LleChi sydd yn dathlu treftadaeth llechi.

Pwysleiswyd fod heriau mawr o flaen y Cyngor a bod y sefyllfa ariannol am orfodi penderfyniadau anodd iawn, ond sicrhawyd ei bod am lobio a lleisio anfodlonrwydd am y diffyg buddsoddiad mewn Llywodraeth Leol yn benodol mewn ardaloedd gwledig.

Rhoddwyd cyfle i'r aelodau ofyn cwestiynau a chynnig sylwadau.

Diolchwyd am yr adroddiad a thynnwyd sylw at nifer o agweddau. O ran teithio nodwyd gyda datblygiadau cenedlaethol - holwyd a fydd y datblygiadau yn cynnwys ardaloedd gwledig fel Pen Llyn. Diolchwyd am y datblygiadau sydd yn digwydd ym Mhenrhos ond nodwyd pryderon am lifogydd sydd ar yr A499 sydd yn ddifrifol ar hyn o bryd. Ymatebwyd drwy nodi o ran y bysus oes mae newidiadau cenedlaethol ond rhaid gweld beth fydd yn cael ei gynnig o ran llwybrau gwledig. Amlygwyd yr angen i wneud gwaith ar yr A499, gan ei fod yn broblem ers blynyddoedd, ac eglurwyd fod galw wedi ei wneud am arian ychwanegol.

Diolchwyd am yr adroddiad cytbwys sydd yn barod i amlygu risgiau. Tynnwyd sylw at ymgysylltu gyda staff a thrigolion gan dynnu sylw at ddau holiadur - Holiadur Staff a Holiadur Data Cymru. Mynegwyd pryderon am y nifer isel o staff yn ymateb i'r holiadur bodlonrwydd staff, ac o ran holiadur data Cymru i drigolion er yr ymatebion yn galonogol fod angen gweld ymatebion i'r holl gwestiynau ac nid i hanner ohonynt. Ymatebwyd drwy nodi fod gwaith angen ei wneud i gael nifer uwch o ymatebion gan staff, ac y bydd fersiwn llawn o ymatebion Data Cymru yn cael ei gylchredeg. Eglurwyd yn ogystal fod ymgynghori yn digwydd ar nifer o lefelau ar draws Cyngor.

Wrth edrych ar Wynedd Ffyniannus, holwyd oes modd cael cadarnhad sut y bydd modd cael canol tref fyrlymus gan eu bod yn llwm ar hyn o bryd. Ymatebwyd drwy nodi fod gwaith i'w wneud a chynlluniau pendant yn ei lle, ond fod gwaith wedi ei wneud yn ogystal.

Diolchwyd i'r Adran Tai ac Eiddo am eu gwaith ar y cyd gyda Chlwyd Alyn i adeiladu tai cynorthwyol yn Stiniog sydd yn llawn pobl leol.

Diolchwyd i'r Aelod Cabinet dros amgylchedd am ei waith i ddod a'r trên olaf ar lein y Cambrian yn ôl i ddefnydd.

Mynegwyd diolch am y grantiau bach a gyflwynwyd i Gynghorau Tref a Chymuned y llynedd ar gyfer prosiectau fydd o fudd i'r ardal, gan holi os bydd yr un peth ar gael eleni. Ond hefyd mynegwyd siomedigaeth fod costau toiledau cyhoeddus yn codi a hynny heb amser i Gynghorau Cymuned ymateb. Ymatebwyd gan nodi fod grantiau cymunedol yn dod ôl yn gyda mwy o rybudd ac arian gobeithio, ac o ran y toiledau cyhoeddus eglurwyd fod gohebiaeth gydag addasiadau i'r llythyr cyntaf ar y ffordd.

Amlygwyd nad oes son am achos Ysgol Friars tan dudalen 62 yn yr adroddiad, a eglurwyd fod disgwyliad y buasai i'w weld yn gynt yn yr adroddiad. Yn yr un modd nodwyd o ran cryfderau fod adroddiad Estyn yn amlygu fod y Cyngor yn hyrwyddo Lles Plant yn ôl yn 2024 - a ddylai gael ei gynnwys yng ngoleuni'r achos. Ymatebwyd dros nodi ei fod ei roi mor hwyr yn yr adroddiad yn rhoi'r argraff anghywir ac y dylai fod yn fwy amlwg.

Cofnodwyd fod e-bost wedi ei dderbyn gan Aelodau gan Gylch yr iaith am amharodrwydd o ran arddel enwau Cymraeg ar fapiau. Gofynwyd am sicrwydd y bydd adrannau'r Cyngor yn dilyn y polisi mai dim ond enwau Cymraeg sy'n cael ei harddel. Ymatebwyd dros holi am esiamplau o adrannau'r Cyngor yn arddel yr enwau er mwyn i'r afael a hyn, ac i bwysleisio fod angen rhoi pwysau gwleidyddol o ran y mapiau ac y bydd diweddariad pan fydd mwy o wybodaeth.

Nodwyd fod dyfodol dwy ysgol yn afantol yn Nyffryn Nantlle a gofynnwyd sut mae hyn am wella'r gymuned a'r defnydd o'r iaith. Eglurwyd fod dyfodol ysgolion yn sensitif ond fod angen bod yn fyw i'r lleihad mewn cyfraddau geni a'i bod yn ddyletswydd ar y Cyngor i edrych ar ddyfodol ysgolion i sicrhau fod lefel penodol yn cael ei gyrraedd.

Diolchwyd i staff y Cyngor ac yn benodol staff gofal am eu gwaith yn wyneb heriau anodd sydd yn wynebu'r ddwy adran.

**PENDERFYNWYD**

Cymeradwywyd a mabwysiadu Adroddiad Perfformiad Blynyddol a Hunanasesiad Cyngor Gwynedd 2024/25.

## 10. TREFN DATRYS MEWNOL

Cyflwynwyd yr adroddiad gan nodi o fewn y Cyfansoddiad fod trefn datrys mewnol. Cyfundrefn yw hon i ymdrin â sefyllfaoedd, gydag Aelodau yn bennaf, am gwynion lefel isel ble nad yw'n cyfiawnhau mynd at yr Ombwdsmon. Eglurwyd fod y drefn yn ei lle ers 2013 ac

sydd yn ymateb i gwynion ac i gymodi yn dilyn honiad o ddiffyg parch yn y siambrau neu drafodaethau gan amlaf.

Llynedd bu i'r Ombswtmon gasglu holl drefniadau datrys mewnol ar draws Cymru ac amlygwyd fod gweithredu da yn cael ei wneud yng Ngwynedd ar y cyfan. Amlygwyd y drefn ynh Nghwynedd sef: y cam cyntaf oedd Ymchwiliad a gweld datrysiad rhwydd, yr ail gam oedd i gymodi ar lefel fwy ffurfiol a'r trydydd cam oedd i'w drafod y Pwyllgor Safonau. Nodwyd fod barn Cwnsel yn nodi nad oes rôl i'r Pwyllgor Safnoannau gan nad oes fframwaith i'r Pwyllgor o ran cymodi ac os y buasai y gwyn yn mynd i'r Ombswtsmon ni fuasai rôl i'r Pwyllgor Safonnau gan ei fod yn rhan o'r drefn yn barod. O ganlyniad gofynwyd i gytuno i dynnu rôl y Pwyllgor Safonnau o'r trefniadau datrys mewnol.

Nodwyd fod y Pwyllgor Safonau wedi trafod ymateb yn ôl ym mis Tachwedd ac wedi cymeradwyo newid y drefn ac i gael mwy o eglurdeb am achosion o fewn y gyfundrefn.

Rhoddwyd cyfle i'r aelodau ofyn cwestiynau a chynnig sylwadau.

Gofynwyd am gopi o farn yr Ombwtmon ac am sylwadau'r Cwnsel. Ymatebwyd drwy nodi ei fod wedi ei rannu yn llawn gyda'r Pwyllgor Safonau a bod crynodeb wedi ei rannu ond fod modd i unrhyw un ddod i mewn i weld y ddogfen gan y Swyddog Monitro, ond eglurwyd fod angen bod yn ofalus o ran ei rannu'n gyhoeddus o ganlyniad i oblygiadau cyfreithiol.

Cyfeiriwyd at Ddeddf Cydraddoldeb gan nodi fod cyfieithiadau o ddiffiniadau o "gender" a "gender identity" wedi ei chyfieithu yn anghywir yn y ddogfen, a bod y Goruchaf Lys edi nodi "gender" a "gender identity" yn ideoleg yn hytrach na ffeithiol. O ganlyniad i hyn nodwyd nad yw'n briodol i gael ei nodi yn y cod ymddygiad a all arwain at Aelodau yn cael ei gyhuddo a'i archwilio o'i dorri mewn gwirionedd wrth weithredu i ddiogelu merched. Gofynwyd penderfyniad pwy yw diffinio os yw Aelod yn torri'r Cod Ymddygiad gan y gall y datganiad uchod arwain at erledigaeth os nad yw'r Aelod yn cyd-fynd a barn neu gredoau'r Swyddog Monitro. Ymatebwyd gan bwysleisio fod y geiriad yn y ddogfen yn cyd fynd a chanllawiau'r Ombwdsmon ond ei fod yn fodlon ei newid os oes angen. O ran dyfarnu pwy sy'n torri'r Cod Ymddygiad, nodwyd ei fod yn disgyn ar y Cod Ymddygiad, y Pwyllgor Safonau, Swyddog Monitro ac y gall y cyhoedd nodi hefyd. Ategwyd drwy egluro mai'r Tribiwnlys sydd yn cael ei gadeirio gan Farnwr sydd a'r gair olaf. Mynegwyd fod y Cod Ymddygiad yn ddogfen fanwl iawn a bod trafodaeth a barn y Swyddog Monitro yn cael ei roi ar lefel broffesiynol gydag egwyddorion cyfreithiol yn ganolog.

Gofynwyd am drefniadau yr Ombwtsmon yng Nghymru gan fod addasiadau o'i gymharu a Lloegr. Eglurwyd fod trefniadau yr Ombwtsmon yng Nghymru a cyfundrefn wahanol, gan amlygu fod penderfyniadau terfynol ar achosion ac apeliadau yn cael ei wneud gan y Tribiwnlys.

**PENDERFYNIAD**

Mabwysiadwyd y Drefn Datrys Mewnol diwygiedig.

**11(a) RHYBUDD O GYNNIG GAN Y CYNGHORYDD BECA BROWN**

Cyflwynwyd y rhybudd o gynnig gan y Cynghorydd Beca Brown o dan Adran 4.19 y Cyfansoddiad, ac fe'i heiliwyd. Gosododd yr aelod y cyd-destun i'w gynnig, gan nodi:-

- Ei bod yn cymryd pentref i fagu plentyn gyda'r bwriad o warchod y plant. Pwysleiswyd fod pawb, yn swyddogion a Chynghorwyd yn rhan o'r pentre' a gyda chyfrifoldeb i ymrwymo i fod yn llais i rai sydd heb lais ac ysgwydd i'r rhai sydd fwyaf bregus.
- Pan mae oedolion yn cam-drin y rhai mwyaf bregus o fewn cymdeithas sef plant ei fod yn chwalu bywydau.
- Pwysleiswyd nad oedolion a fuodd yn ddewr ond y merched ifanc.
- Addunedwyd i ddiogelwch plant wrth galon y gwaith hwn, ac os oes pryder meddwl "think the unthinkable" fel y nodwyd gan Jan Pickles.

- Cynnig yn nodi yn glir mai dim ond dechrau'r gwaith yw cyhoeddi adroddiad a bod agen gweithio gyda'n gilydd i fod yn sir ble mae pobl isio troi at y Cyngor yn ymwybodol fod eu llais yn clywed a bod gweithredu yn digwydd ac i fod y sir mae plant yn ei haeddu.

Mynegwyd cefnogaeth i'r rhybudd gan nodi:-

- Ymddiheurwyd a diolchwyd i'r plant am eu dewrder. Yn anffodus a gyda chalon drom fod y cyngor methu yn ddifrifol mewn nifer o ffyrdd. Nodwyd fod themâu clir o ddiffyg gwrando ar lais plant Mynegwyd fod rhaid bod yn effro a gwybod sut i ymateb yn effeithiol i faterion diogelu.
- Nodwyd yr angen am gynnal hunanasesiad eto gan ein bod fel Cyngor wedi disgyn yn fyr o'n dyletswyddau statudol.
- Mynegwyd yr angen i ail edrych ar brosesau ynghyd ag agwedd y Cyngor i brosesau gan ei fod wedi ei amlygu yn fethiant amlwg yn yr Adroddiad Amddiffyn Plant.
- Pwysleiswyd difrifoldeb yr adroddiad, ac amlygwyd themâu pwysig sydd yn rhedeg drwy'r adroddiad megis methiannau cyson i ddilyn canllawiau amddiffyn plant yn gywir a methiant i adnabod risgiau trosglwyddadwy.
- Nodwyd ymchwiliadau posib pellach a oedd yn cynnwys ymchwiliadau i weld os ymateb y Cyngor yn ddigonol ac amserol ac ymchwilio i rolau asiantaethau eraill yn yr achos.
- Amlygwyd yr angen i edrych ar y berthynas rhwng yr Adran Addysg, Llywodraethwyr Ysgol ac yr Ysgol gan fod hyn wedi methu yn Friars, gan bwysleisio ar sut mae'n edrych yn y byd go iawn a drwy hyn sicrhau fod y diwylliant yn gywir.
- Gofynwyd fod hyfforddiant Diogelu yn cael ei gynnal gan arbenigwyr allanol ac nid yn cael ei wneud yn fewnol.
- Nodwyd fod y Cabinet am fod yn edrych pa ymchwiliadau sydd angen ei gynnal a'u bod yn cael ei gwneud yn annibynnol.
- Pwysleiswyd fod y Cyngor wedi gadael teuluoedd a phlant i lawr ac wedi torri ymddiriedaeth rhieni i anfon eu plant i ysgolion.
- Mynegwyd nad oedd hyn wedi cychwyn yn 2027 ond yn hytrach 44 mlynedd yn ôl pan gychwynnodd weithio yn y maes. Nodwyd fod llawer o bryderon wedi ei amlygu ac nad oedd dim wedi ei wneud er cwynion wedi'i codi.
- Gofynwyd i Jan Pickles ddod i'r Cyngor i gynorthwyo gyda'r ffordd ymlaen.
- Mynegwyd pryder am un blaid yn eistedd ar y Cabinet, am un blaid yn cadeirio mwyafrif o Bwyllgorau Craffu ynghyd â herio perfformiad gan bwysleisio'r angen i wrando yn draws bleidiol.
- Dyletswydd ar yr aelodau i gyd i gydweithio i symud ymlaen o'r bennod ofnadwy yma. Ond fod ffordd hir o'n flaen y Cyngor.
- Diolchwyd i aelodau am godi'r mater heddiw gan nodi pryderon am arafwch wrth ymdrin ar fater ynghyd ar ddiffyg ffocws clinigol ar y gweithdrefnau sefydliadol. Mynegwyd fod hyn yn codi cwestiynau mewn hyder yn arweinyddiaeth y Cyngor.
- Holwyd os oes risg y bydd Llywodraeth Cymru yn rhoi'r Cyngor dan fesurau arbennig o ganlyniad i hyn ac Erthygl 4. Eglurwyd fod y Cyngor yn atebol i Fwrdd Sicrwydd y Llywodraeth sydd wedi bod yn hapus a'r cynnydd sydd wedi ei wneud a bod y cyngor wedi ymrwymo yn llwyr i sicrhau nad yw hyn yn digwydd eto.

**PENDERFYNWYD mabwysiadu'r cynnig, sef:-**

Yn unol â'r Rhybudd o Gynnig a dderbyniwyd oddi wrtho yn unol ag Adran 4.19 y Cyfansoddiad, derbyniwyd y cynnig gan Gynghorydd Beca Brown yn cynnig fel a ganlyn:-

Hoffem groesawu cyhoeddi'r Adolygiad Ymarfer Plant ar Dachwedd 4ydd, gan gofnodi ein diolch dwfn i'r cadeirydd Jan Pickles am ei gwaith gofalus, ac felly hefyd i'r panel ac i Fwrdd Diogelu Gogledd Cymru.

Hoffem nodi teitl yr adroddiad, Sef Cyfiawnder Trwy Ein Dewrder. Mae'n bwysig ein bod yn cydnabod y teitl bob amser wrth drafod yr adroddiad hwn, gan ei fod yn talu teyrnged gwbl haeddiannol i ddewrder plant - plant oedd i fod yn saff yn eu hysgolion, a phlant ddaeth â blynyddoedd o droseddu erchyll un o ddynion mwyaf grymus y sir yma i ben. Mae'n dyled iddynt yn enfawr. Mae'n meddyliau ni gyda nhw ac rydym yn diolch o waelod calon iddynt am eu penderfynoldeb a'u gwytnwch rhyfeddol.

Ymrwymwn fel cyngor i ddysgu pob gwers a ddaw yn sgil yr adroddiad, ond ymhellach na hynny, ymrwymwn i edrych ar unrhyw faterion perthnasol sydd wedi disgyn tu allan i gylch gorchwyl yr AYP, a oedd yn edrych ar achos y troseddwr hwn yn y cyfnod rhwng 2017 a Medi 2023.

Galwn felly ar y cabinet i ystyried pa ymchwiliadau annibynnol pellach sydd eu hangen er mwyn cyfrach yr hyn sydd yn mynd tu hwnt i ffiniau'r AYP. Rydym yn gwbwl effro i'r ffaith fod gwaith pellach i'w wneud, ac yn gofyn i'r Cabinet fynd ati yn ddiymdroi i adnabod yr hyn sydd eto i'w gyflawni.

Mynegwn unwaith eto ein ymddiheuriadau didwyll i'r plant sydd wedi dioddef niwed, a byddwn yn ymroi i droi pob carreg er mwyn sicrhau, hyd orau, ein gallu, fod 'byth eto' yn golygu 'byth eto'.

**11(b) RHYBUDD O GYNNIG Y CYNGHORYDD NIA JEFFREYS**

Cyflwynwyd y rhybudd o gynnig gan y Cynghorydd Nia Jeffreys o dan Adran 4.19 y Cyfansoddiad, ac fe'i heiliwyd. Gosododd yr aelod y cyd-destun i'w gynnig, gan nodi:-

- Ei fod yn rhybudd hunaneboniadwy sydd wedi ei lunio yn ddawnus gan aelod arall o'r Cyngor a gofynnwyd am gefnogaeth ar y cynnig.

Mynegwyd cefnogaeth i'r rhybudd gan nodi:-

- Fod y ffeithiau dangos cynnydd pryderus a bod ffactorau cymdeithasol megis unigedd yn chwarae rhan amlwg.
- Pwysleiswyd fod rôl allweddol i'r Cyngor i rymuso pobl ac anogwyd y Cyngor i weithio partneriaid megis ysgolion, elusennau a mudiadau cymunedol i gryfhau ymateb a chefnogaeth i drigolion Gwynedd.
- Tynnwyd sylw at 2 gorff pwysig cefn gwlad sydd yn cynnig cefnogaeth yn benodol i amaeth a busnesau lleol.

**PENDERFYNWYD mabwysiadu'r cynnig, sef:-**

Yn unol â'r Rhybudd o Gynnig a dderbyniwyd oddi wrtho yn unol ag Adran 4.19 y Cyfansoddiad, bydd y Cynghorydd Nia Jeffreys yn cynnig fel a ganlyn:-

Cynnig bod y Cyngor:

1. Yn nodi: bod ffigyrau hunanladdiad yng Nghymru sydd wedi eu cofrestru yn 2024 yn 15.7 mewn 100,000 person a'r ffigwr yma'n dangos cynnydd, gan mai 14.0 mewn 100,000 oedd y nifer yn 2023. Mae nifer o ffactorau yn gysylltiedig efo hunanladdiad, gan gynnwys: tlodi, diweithdra, problemau iechyd meddwl a chorfforol, galar, camdriniaeth, unigedd, problemau perthynas, camddefnyddio alcohol a sylweddau ac ati.

Nodwn hefyd mai hunanladdiad yw prif achos marwolaeth pobl ifanc i fyny at 35 oed yn ôl yr elusen Papyrus, oherwydd nad yw pobl ifanc yn marw o achosion eraill yn aml iawn.

Dynion canol oed rhwng 30-44 oed yng Nghymru sydd fwyaf tebygol o ladd eu hunain. Roedd 76% o'r marwolaethau gan hunanladdiad yn ddynion. Mae perthynas rhwng tlodi a hunanladdiad, efo 15.8 mewn 100,000 o hunanladdiadau yn digwydd mewn ardaloedd

difreintiedig, ac 8.6 mewn 100,000 yn yr ardaloedd lliaf difreintiedig. Mae 126.7 mewn 100,000 yn ddi-waith.

Mae modd atal hunanladdiad, ac mae cefnogaeth ar gael.

2. Yn credu: Bod hawl gan bobl Cymru i fyw mewn cymunedau sy'n rhydd o ofn a stigma sy'n cael eu cysylltu ef hunanladdiad a hunan niwed. Credwn fod bod hawl gan bobl Cymru gael eu grymuso a'u cefnogi i gyrchu a chynnig cymorth pa le bynnag mae ei angen (Llywodraeth Cymru, 2025).

Mae gennym oll rol, bob un ohonom, yn unigolion a sefydliadau, i gefnogi'r rhai sy'n cael eu heffeithio gan hunanladdiad. Credwn fod rôl gan y Cyngor i gydweithio efo efo rhanddeiliaid eraill, i weithredu i atal hunanladdiad, gan leihau stigma, a chynnig cefnogaeth. Credwn fod rol gan y Cyngor i gymryd camau penodol i warchod ein pobl ifanc, gan eu grymuso i edrych ar ôl eu hunain ac eraill.

*Egwyddorion - Strategaeth Atal hunanladdiad Llywodraeth Cymru (Dealltwriaeth: strategaeth atal hunanladdiad a hunan-niweidio):*
*1. Hunan-niweidio a hunanladdiad yw busnes pawb, ac mae pawb yn gallu gwneud gwahaniaeth gyda'r hyfforddiant a'r gefnogaeth gywir.*
*2. Rhaid bod yn glir pwy sy'n arwain ac yn gyfrifol am bob cam gweithredu yn y strategaeth.*
*3. Mae'r ffocws ar atal, gan nodi risgiau'n gynnar a chynnig cymorth priodol i gadw pobl yn ddiogel.*
*4. Dylai gwasanaethau fod yn deg ac yn hygyrch i bawb, gan ddileu rhwystrau sy'n effeithio ar wahanol grwpiau.*
*5. Mae angen canolbwyntio ar grwpiau sydd mewn perygl uwch, gan ddarparu cymorth cymesur a phriodol.*
*6. Dylai unrhyw un allu cael cymorth ar unwaith ('dim drws anghywir') heb orfod ailadrodd eu stori.*
*7. Rhaid gwrando ar leisiau pobl â phrofiad byw a chyd-gynllunio gwasanaethau sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn.*
*8. Dylai'r strategaeth gefnogi'r Gymraeg, gan sicrhau bod pobl yn cael gofal yn eu hiaith heb orfod gofyn.*
*9. Rhaid i'r camau gweithredu fod ar sail tystiolaeth ac yn glir eu canlyniadau.*
*10. Dylai'r gwaith fod yn ystyriol o drawma, gan ddarparu gofal tosturiol ac empathetig.*
*11. Mae'n bwysig mynd i'r afael â stigma, gan hyrwyddo dealltwriaeth a thosturi.*
*12. Dylid mabwysiadu dull sy'n seiliedig ar hawliau, gan ddiogelu hawliau pob unigolyn.*
*13. Rhaid i'r strategaeth gwmpasu pob oedran, gan sicrhau bod cymorth ar gael i bawb o fabanod i bobl hŷn.*
*14. Dylid cydnabod y ffactorau cymdeithasol ac economaidd sy'n dylanwadu ar iechyd a lles.*
*15. Dylid ystyried rôl technoleg ddigidol, lle y gall wella canlyniadau neu gynaliadwyedd.*
*16. Rhaid sicrhau bod cyllid ac adnoddau ar gael, gan brofi pa gamau sy'n realistig o fewn yr adnoddau presennol.*

3. Galwaf ar fy nghyd Aelodau i gefnogi'r cynnig.

(a) Bod y Cyngor yma yn datgan cefnogaeth gadarn i egwyddorion Strategaeth Atal hunanladdiad Llywodraeth Cymru ac yn cefnogi gwaith y Cabinet i sefydlu strategaeth ar gyfer Cyngor Gwynedd.
(b) Dylai aelodau wneud popeth yn eu gallu i sicrhau fod y Cyngor yn gweithredu polisïau sy'n cefnogi unigolion, yn atal hunanladdiad, gan rymuso strwythurau'r Cyngor,
(c) Mae'n cefnogi cyfleoedd yn yr ysgolion i drafod hunanladdiad fel agwedd ar drafodaeth iechyd meddwl, yng nghyd destun addysg bersonol, rhyng-berthnasol a chymdeithasol, gan arfogi ein disgyblion i edrych ar ôl eu hunain a phobl eraill mewn modd sensitif, gan athrawon sy'n cael y gefnogaeth, goruchwyliaeth a'r hyfforddiant briodol i ddarparu addysg o'r math.

Dechreuodd y cyfarfod am 1.30yp a daeth i ben am 5.30yp.

**CADEIRYDD**

## CYFARFOD ARBENNIG O'R CYNGOR 05/02/2026

**Presenoldeb:**

**Y Cynghorwyr:** Ioan Thomas (Cadeirydd)
Elin Walker Jones (Is-gadeirydd)

Craig ab Iago, Menna Baines, Beca Brown, Stephen Churchman, Robert Glyn Daniels, Dafydd Owen Davies, Elwyn Edwards, Elfed Wyn ap Elwyn, Alan Jones Evans, Gwilym Evans, Dylan Fernley, Delyth Lloyd Griffiths, Annwen Hughes, Louise Hughes, R. Medwyn Hughes, Elin Hywel, Nia Wyn Jeffreys, Anne Lloyd Jones, Berwyn Parry Jones, Dawn Lynne Jones, Dewi Jones, Elwyn Jones, Gwilym Jones, Gareth Tudor Jones, Huw Wyn Jones, June Jones, Eryl Jones-Williams, Cai Larsen, Beth Lawton, Dafydd Meurig, Dilwyn Morgan, Dewi Owen, Edgar Wyn Owen, Gwynfor Owen, Llio Elenid Owen, Gareth Coj Parry, Geraint Parry, John Pughe, Rheinallt Puw, Arwyn Herald Roberts, Beca Roberts, Elfed P Roberts, Gareth A Roberts, John Pughe Roberts, Meryl Roberts, Richard Glyn Roberts, Huw Llwyd Rowlands, Paul Rowlinson, Angela Russell, Dyfrig Siencyn, Peter Thomas, Menna Trenholme, Rhys Tudur, Hefin Underwood, Einir Wyn Williams, Elfed Williams, Gareth Williams, Gruffydd Williams a Sian Williams.

**Swyddogion:**

Dafydd Gibbard (Prif Weithredwr), Dewi Morgan (Pennaeth Cyllid), Iwan Evans (Swyddog Monitro), Dylan Owen (Cyfarwyddwr Corfforaethol), Catrin Thomas (Cyfarwyddwr Corfforaethol) Gwern ap Rhisiart (Pennaeth Addysg), Ian Jones (Pennaeth Gwasanaethau Corfforaethol), Aled Gibbard (Pennaeth Adran Blant Dros Dro), Nia Grisdale (Rheolwr Gwasanaeth Cyfreithiol), Sion Huws (Rheolwr Priodoldeb ac Etholiadau), Ffion Mai Jones (Uwch Swyddog Gweithredol), Alison Halliday (Pennaeth Cynorthwyol Cefnogaeth Ysgolion), Llion Williams (Arweinydd Ansawdd Diogelu a Llesiant), Vera Jones (Rheolwr Gwasanaeth Democratiaeth ac Iaith) a Rhodri Jones (Swyddog Gwasanaethau Democratiaeth).

### 1. YMDDIHEURIADAU

Derbyniwyd ymddiheuriadau gan y Cynghorwyr Sasha Williams, John Brynmor Hughes, Jina Gwyrfai, Gwion Emyr, Wendy Cleaver ac Anwen Davies.

### 2. DATGAN BUDDIANT PERSONOL

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiadau o fuddiant personol.

### 3. CYHOEDDIADAU'R CADEIRYDD

Cadarnhawyd bod y cyfarfod arbennig hwn o'r Cyngor Llawn wedi cael ei alw gan y Cadeirydd yn unol â pharagraff 4.12.1(b) o Gyfansoddiad y Cyngor, i drafod 'Cynllun Ymateb i'r adroddiad Cyfiawnder Trwy ein Dewrder'. Amlygwyd bod eitem ychwanegol wedi ei raglennu fel eithriad i'r rhaglen, sef 'Ail-benodi Aelod Annibynnol i'r Pwyllgor Safonau'. Adroddwyd y byddai trafodaeth ar y Cynllun Ymateb yn cael ei gynnal yn gyntaf oherwydd ei bwysigrwydd, gyda chaniatâd yr Aelodau.

Cydymdeimlwyd â theuluoedd y diweddar John Wynne Meredith, cyn-gynghorydd Garth (Bangor) ac Alwyn Elis Roberts, cyn-ysgrifennydd Cyngor Gwynedd yn dilyn eu profedigaeth ddiweddar. Mynegwyd cydymdeimladau i bawb o fewn cymunedau'r Sir oedd wedi colli anwyliaid yn ddiweddar. Ymdawelodd y Cyngor fel arwydd o barch a choffadwriaeth.

Nodwyd bod sawl aelod o'r Cyngor wedi bod yn anhwylus yn ddiweddar a dymunwyd gwellhad buan iddynt.

Llongyfarchwyd y canlynol:

- Y Cynghorydd Elfed Wyn ap Elwyn a'i wraig Anwen ar enedigaeth eu merch, Nanw Eluned, yn ddiweddar.
- Y Cynghorydd Craig ab Iago ar ennill Gwobr Enablement UK 2025.
- Elfyn Evans am y gamp o ddod yn ail yn rali gyntaf Pencampwriaeth Ralio'r Byd ym Monte Carlo yn ddiweddar. Rhannwyd dymuniadau da iddo i'r bencampwriaeth eleni.
- Clwb Pêl-droed Dinas Bangor 1876 a Chlwb Pêl-droed Tref Caernarfon am gyrraedd rownd gynderfynol Cwpan Cymru.
- Nick Thomas o Dalysarn ar ennill medal aur ym Mhencampwriaeth Para-Archery y Byd.

## 4. MATERION BRYS

Dim i'w nodi.

## 5. AIL-BENODI AELOD ANNIBYNNOL I'R PWYLLGOR SAFONAU

Cyflwynwyd adroddiad y Swyddog Monitro gan nodi bod tymor Mr Hywel Eifion Jones wedi dod i ben ond mae Rheoliadau Pwyllgorau Safonau (Cymru) 2001 yn caniatáu i aelodau annibynnol gael eu hail-benodi am dymor ychwanegol, heb fod yn hwy na pedair blynedd, fel y gofynnir o fewn yr adroddiad.

Adroddwyd bod Mr Hywel Eifion Jones wedi bod yn aelod o'r Pwyllgor Safonau ers 2019 a'i fod wedi gwasanaethu fel Cadeirydd y Pwyllgor ers 2023. Cadarnhawyd bod ei dymor cyntaf fel Aelod o'r Pwyllgor wedi dod i ben ym mis Gorffennaf 2025 ac nid yw'r sedd wag honno wedi cael ei llenwi yn y cyfamser. Sicrhawyd bod modd ei ail-benodi yn unol â'r Rheoliadau uchod, am ail dymor aelodaeth. Amlygwyd bod bwlch yn ei aelodaeth ond bod cyngor cyfreithiol yn cytuno ei fod yn briodol iddo gael ei ail-ethol.

Derbyniwyd nifer o sylwadau o gefnogaeth gan yr Aelodau, gan fod Mr Hywel Eifion Jones wedi bod yn Aelod gweithgar iawn o'r Pwyllgor Safonau. Diolchwyd iddo am ei waith trwyadl, gwybodus, gwerthfawr a gwrthrychol drwy gydol ei dymor cyntaf.

**PENDERFYNWYD ail-benodi Hywel Eifion Jones fel aelod annibynnol o'r Pwyllgor Safonau i wasanaethu am dymor pellach o bedair blynedd o 05 Chwefror 2026.**

## 6. CYNLLUN YMATEB I'R ADRODDIAD CYFIAWNDER TRWY EIN DEWRDER

**Cyflwynwyd yr eitem hon gan y Cadeirydd gan nodi'r prif bwyntiau canlynol:**

Cydnabuwyd bod adroddiad 'Cyfiawnder Trwy ein Dewrder' yn ddogfen anodd ac emosiynol i'w ddarllen a'i fod yn amlygu nifer o gyfleoedd a gollwyd, gan nifer o gyrff yn cynnwys Cyngor Gwynedd, i geisio atal Neil Foden: Cyn-bennaeth Ysgol Friars. Ategwyd ymddiheuriadau didwyll sydd wedi cael eu cyflwyno i'r dioddefwyr a phwysleisio'r cyfrifoldeb i sicrhau bod popeth yn cael ei wneud i sicrhau na fydd neb yn dioddef yn yr un modd eto.

Adroddwyd bod gwaith craffu sylweddol i'r Cynllun Ymateb wedi cael ei gynnal yn ystod mis Ionawr 2026. Ymhelaethwyd bod 12 awr wedi cael ei dreulio yn craffu'r mater rhwng y Pwyllgor Craffu Gofal (13 Ionawr 2026), Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio (15 Ionawr 2026) a Phwyllgor Craffu Addysg ac Economi (19 Ionawr 2026). Amlygwyd bod sylwadau'r pwyllgorau wedi cael eu cynnwys fel rhan o'r ddogfennaeth i'r cyfarfod hwn.

Tywyswyd yr aelodau drwy drefn y cyfarfod gan nodi bod blaenoriaeth yn cael ei roi i'r Aelodau hynny nad ydynt wedi cael y cyfle i gyflwyno sylwadau yn y pwyllgorau uchod eisoes, er mwyn sicrhau fod yr holl Aelodau yn cael cyfle i roi mewnbwn. Eglurwyd, er rhoi tegwch i bawb, y dylai Aelodau atal rhag ailadrodd yr un materion a godwyd yn y cyfarfodydd uchod gan hefyd nodi pa un o 7 thema'r Cynllun Ymateb y cyfeirient ato. Atgoffwyd yr Aelodau o'r drefn arferol o geisio peidio cymryd mwy na 5 munud o amser y cyfarfod i gyfrannu i'r drafodaeth.

Pwysleisiwyd nad oes gan yr Aelodau na swyddogion yr hawl i drafod unrhyw faterion cyflogaeth neu ymchwiliadau posib, gan eu bod yn faterion sydd rhaid i gyflogwr ymdrin â hwy yn unol â chyfansoddiad a hawliau cyflogaeth statudol. Atgoffwyd bod y Swyddog Monitro wedi darparu a chylchredeg nodyn briffio i'r aelodau yn eu cynghori ar y mater hwn.

Eglurwyd bod sylwadau a gyflwynir yn ystod y drafodaeth yn cael eu cyflwyno i'r Cabinet ynghyd â sylwadau'r Pwyllgorau Craffu a'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio, pe byddai'r sylwadau yn derbyn cymeradwyaeth yr Aelodau ar ddiwedd y drafodaeth ar yr eitem hon.

**Cyflwynwyd yr adroddiad gan Arweinydd y Cyngor. Pwysleisiwyd y prif faterion canlynol:**

Ymddiheurwyd yn ddiffuant i'r dioddefwyr ac i bawb a effeithiwyd gan y troseddau erchyll sydd wedi cael eu cyflawni i ddod a'r angen am adroddiad hwn ymlaen. Ymhellach, ymddiheurwyd na chafodd lleisiau'r plant eu clywed, gan bwysleisio mai gweithredu er mwyn sicrhau newid yw'r deyrnged fwyaf all y Cyngor ei gyflawni.

Cadarnhawyd bod y Cynllun Ymateb hwn yn ceisio sicrhau na fydd methiannau o'r math a amlygwyd o fewn yr Adolygiad yn digwydd eto. Croesawyd mewnbwn gan holl aelodau'r Cyngor gan nodi bod her a thrafodaeth iach yn hanfodol i lwyddiant y Cynllun.

Amlygwyd bod y Cynllun Ymateb yn ddogfen fyw a chyhoeddus, gan gadarnhau bydd cofnodion cyfarfodydd y Bwrdd Rhaglen Cynllun Ymateb hefyd yn gyhoeddus. Nodwyd bod tryloywder yn angenrheidiol er mwyn adfer hyder ymhlith y cyhoedd, staff ac Aelodau.

Diolchwyd i'r Aelodau am eu parodrwydd i drafod y mater anodd hwn mewn modd sensitif a phroffesiynol, gan ddiolch hefyd am barodrwydd Aelodau i wella trefniadau diogelu i leihau risg bod plant yn dioddef yn y fath fodd eto. Atgoffwyd bod diogelu a gwarchod plant rhag niwed yn gyfrifoldeb i bawb. Nodwyd mai dim ond drwy gydweithio gydag Aelodau, partneriaid a rhanddeiliad y gellir gwneud cynnydd gwirioneddol ac amserol yn y maes hanfodol hwn.

Diolchwyd hefyd i'r Athro Sally Holland am ei arweiniad arbennig yn ei rôl fel Cadeirydd y Bwrdd Rhaglen Cynllun Ymateb ac i nifer o Adrannau o'r Cyngor sydd wedi gwneud cynnydd hyd yma, am eu gwaith cydweithiol traws Adrannol i wella trefniadau diogelu plant o fewn ysgolion Gwynedd.

Pwysleisiwyd na all unrhyw un gyflawni'r newid hwn ar ei ben ei hun; boed yn wasanaeth, Adran, grŵp gwleidyddol neu unigolyn. Adroddwyd yr angen i gydweithio ar draws pwyllgorau ac Adrannau'r Cyngor a gwahaniaethau gwleidyddol er mwyn gweld gwir newid, dal y Cyngor yn atebol a llunio dyfodol mwy diogel i blant a phobl ifanc Gwynedd.

Cydnabuwyd nad yw'r Cynllun Ymateb yn cynnwys yr holl atebion, gan ddiolch i'r Pwyllgorau Craffu a'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio am eu mewnbwn gwerthfawr ac adeiladol. Cadarnhawyd bod y Cyngor ar y trywydd cywir, gan groesawu barn,

awgrymiadau a beirniadaethau adeiladol yr Aelodau i gryfhau'r Cynllun Ymateb ymhellach.

**Derbyniwyd cyflwyniad gan y Prif Weithredwr. Tynnwyd sylw at y prif faterion canlynol:**

Cytunwyd gyda'r Arweinydd a'r Cadeirydd bod y drafodaeth hon yn gam pwysig ar gyfer adfer, gwella a sicrhau bod pob cam yn cael ei weithredu i ymateb yn effeithiol i'r Adroddiad.

Atgoffwyd bod y Cynllun Ymateb gwreiddiol y Cyngor wedi'i gyhoeddi cyn cyhoeddi adroddiad 'Cyfiawnder drwy ein Dewrder'. Cydnabuwyd yr angen i'r ddogfen fod yn un byw er mwyn gallu ymateb i wybodaeth a fyddai'n dod i law wrth i'r Adroddiad gael ei gyhoeddi, ac addasu'r cynllun yn llwyr i gyfarch y wybodaeth oddi fewn iddo. Cadarnhawyd mai canlyniad y gwaith hwnnw yw'r ail fersiwn hon o'r Cynllun Ymateb, sydd yn cael ei drafod yn y cyfarfod hwn. Tynnwyd sylw bod nifer o sefydliadau wedi ystyried y Cynllun Ymateb eisoes yn ogystal â'r Pwyllgorau sydd wedi eu cydnabod eisoes, gan gynnwys Bwrdd Rhaglen Cynllun Ymateb, Comisiynydd Plant a'r Bwrdd Diogelu. Eglurwyd bydd unrhyw sylwadau a gyflwynwyd yn ystod y drafodaeth ar yr eitem hon yn cael eu cydnabod a bydd y ddogfen fyw yn cael ei addasu cyn ei gyflwyno i'r Cabinet am ystyriaeth bellach a'i gymeradwyo. Eglurwyd bod rhai addasiadau eisoes wedi cael ei wneud i'r ddogfen yn dilyn ystyriaethau a sylwadau sydd wedi cael eu cyflwyno o'r trafodaethau sydd eisoes wedi cymryd lle.

Adroddwyd bod y Cynllun Ymateb wedi cael ei rannu i saith brif ffrwd gwaith fel a ganlyn:

1. **Llais y Plentyn a Chefnogi Dioddefwyr** (Arweinydd Thema: Gwern ap Rhisiart - Pennaeth Addysg). Dyma'r brif thema a godwyd o fewn yr Adroddiad. Cadarnhawyd bod pedair nod o fewn y thema hon:
    i. Gwneud popeth o fewn ein gallu i sicrhau fod llais y plentyn yn ganolog mewn materion yn ymwneud â phlant, a bod hynny wedi gwreiddio drwy'n holl weithgareddau.
    ii. Sicrhau y gwrandewir ar blant, a'u bod yn cael eu credu a'u cymryd o ddifrif.
    iii. Rhoi llais i blant a phobl ifanc mewn prosesau sydd wedi'u cynllunio i'w cadw'n ddiogel.
    iv. Gwneud popeth o fewn ein gallu i gefnogi'r dioddefwyr a goroeswyr a sefydlu perthynas ofalgar a hwy.

2. **Rheoli honiadau a phryderon am oedolion sy'n gweithio gyda plant** (Arweinydd Thema: Dylan Owen – Cyfarwyddwr Corfforaethol). Cadarnhawyd prif nod y thema fel a ganlyn:
    i. Sicrhau fod ein trefniadau diogelu yn gadarn ac o'r safon gorau posib.
    ii. Amddiffyn plant trwy sicrhau bod pryderon yn cael eu cymryd o ddifri ac yn gweithredu arnynt yn gyflym.
    iii. Sicrhau bod trefniadau Adran 5 yn cefnogi ymateb aml asiantaeth gyson a chadarn i honiadau a phryderon am oedolion sy'n gweithio gyda phlant.

3. **Hyfforddiant a Pholisïau** (Arweinydd Thema: Ian Jones - Pennaeth Adran Gwasanaethau Corfforaethol). Cadarnhawyd prif nod y thema fel a ganlyn:
    i. Sicrhau fod pecynnau hyfforddiant yn briodol a bod staff wedi derbyn hyfforddiant addas i'w swyddogaeth.
    ii. Gwneud popeth o fewn ein gallu i sicrhau fod ysgolion y sir yn mabwysiadu a gweithredu polisïau.
    iii. Sicrhau bod staff wedi'u hyfforddi i "feddwl yr hyn na ellir ei amgyffred" a deall " y gallai ddigwydd yma".

4. **Llywodraethiant Ysgolion** (Arweinydd Thema: Alison Halliday – Pennaeth Cynorthwyol Cefnogaeth Ysgolion). Cadarnhawyd prif nod y thema fel a ganlyn:
    i. Rhoi'r gefnogaeth gorau posib i Lywodraethwyr ein hysgolion i'w harfogi i arddel eu rolau.
    ii. Sicrhau bod llywodraethwyr ysgolion yn deall eu rolau a'u cyfrifoldebau i gadw plant yn ddiogel.
    iii. Sicrhau bod systemau yn eu lle sy'n mesur diwylliant ehangach ysgolion.

5. **Grym Rhesymol** (Arweinydd Thema: Llion Williams – Arweinydd Ansawdd Diogelu a Llesiant).Cadarnhawyd prif nod y thema fel a ganlyn:
    i. Gwneud popeth posib i sicrhau fod holl ysgolion yn gweithredu arferion defnydd o rym rhesymol yn briodol.

6. **Cynllunio Argyfwng** (Arweinydd Thema: Catrin Love – Pennaeth Cynorthwyol Adran Gwasanaethau Corfforaethol). Cadarnhawyd prif nod y thema fel a ganlyn:
    i. Sicrhau fod trefniadau cynllunio ac ymateb i argyfwng priodol a bod holl staff yn gwybod sut i ymateb mewn sefyllfa o argyfwng diogelu.

7. **Cefnogi a Sefydlogi Ysgol Friars** (Arweinydd Thema: Margaret Davies – Pennaeth Ysgol Friars).Cadarnhawyd prif nod y thema fel a ganlyn:
    i. Sicrhau fod y safonau addysg presennol yn parhau i gael eu cynnal, fod staff yn hyderus a bod arweinyddiaeth Corff Llywodraethu'r ysgol yn sefydlog ac effeithiol.

Llongyfarchwyd Margaret Davies ar ei phenodiad fel pennaeth parhaol yr ysgol yn dilyn cyfnod fel Pennaeth dros dro yn ddiweddar. Hyderwyd bydd y penodiad hwn yn sicrhau sefydlogrwydd i'r ysgol i'r dyfodol.

Rhannwyd rhaglen waith y Cynllun Ymateb er tryloywder. Atgoffwyd bod 26 o argymhellion yn deillio o'r Adroddiad ond eglurwyd bod 74 o ffrydiau gwaith yn weithredol ar y rhaglen waith, ynghyd ag amserlenni cyflawni ac unigolion arweiniol, i sicrhau ymateb effeithiol i'r Adolygiad.

Gwahoddwyd Cadeiryddion y pwyllgorau sydd eisoes wedi ystyried y Cynllun Ymateb, i grynhoi sylwadau a gyflwynwyd o fewn eu cyfarfodydd.

**Derbyniwyd y sylwadau canlynol gan Gadeirydd y Pwyllgor Craffu Gofal, o brif ystyriaethau'r cyfarfod a gynhaliwyd ar 13 Ionawr 2026:**

Diolchwyd am y cyfle i rannu sylwadau'r Pwyllgor, gan ddiolch i'r Cadeirydd am gynnal y cyfarfod hwn, yn sgil cais gan Aelodau'r Pwyllgor am gyfarfod o'r Cyngor Llawn, er mwyn sicrhau bod pob Aelod yn cael y cyfle i rannu sylwadau i ddatblygu'r Cynllun gorau posib.

Crynhowyd penderfyniadau ac argymhellion y Pwyllgor fel a ganlyn, gan gadarnhau bydd y Pwyllgor yn monitro eu datblygiad yn barhaus:

1. Nodi'r Rhaglen waith
2. Gofyn am adroddiad cynnydd mewn 6 mis ar y rhaglen waith gan gynnwys gwybodaeth am y polisi canu'r gloch a'i weithrediad
3. Gofyn am adroddiad ar y gwaith o sicrhau statws Sir Plentyn Gyfeillgar a dod yn Gyngor Trawma Wybodus.
4. Gofyn i'r Cabinet ystyried:
    - Ychwanegu enw cyswllt benywaidd allanol i'r poster rhannu gwybodaeth am bryderon a sicrhau bod manylion cyswllt ar gael ar wefannau ysgolion a gwefan y Cyngor.
    - Rhoi sylw i lais y teulu yn ogystal â llais y plentyn yn ffrwd gwaith 1.

- Diwygio'r testun o dan bennawd '2.3 - Archwiliad Estyn o Adran Addysg y Cyngor' ar dudalen 18 y Cynllun Ymateb i gynnwys brawddeg sy'n adlewyrchu'r cyd-destun sef, serch y ganmoliaeth gan Estyn arestiwyd pennaeth ysgol ychydig fisoedd wedyn.
- Sicrhau bod hyfforddiant meithrin perthnasoedd amhriodol 'grooming' ar gael i bawb sydd ei angen.
- Darparu hyfforddiant diogelu arbenigol allanol i aelodau ac i lywodraethwyr.
- Ychwanegu "lles plant a phobl ifanc" at ddisgrifiad ffrwd gwaith 7 – Cefnogi a Sefydlogi Ysgol Friars.
- Gohebu gyda llywodraeth Cymru i ddatgan pryder am yr heriau a'r risgiau ynghylch rôl llywodraethwyr ysgolion.

**Derbyniwyd y sylwadau canlynol gan Gadeirydd y Pwyllgor Craffu Addysg ac Economi, o brif ystyriaethau'r cyfarfod a gynhaliwyd ar 19 Ionawr 2026:**

Mynegwyd balchder yn argymhellion y Pwyllgor gan nodi eu bod yn ymgeisio i ystyried sut sefydliad yw Cyngor Gwynedd pan mae pethau yn mynd o'i le a bod sefyllfaoedd heriol yn codi.

Rhannwyd crynodeb o benderfyniadau'r Pwyllgor ar gyfer y prif themâu canlynol:

- <u>Llais y Plentyn a Chefnogi Dioddefwyr</u> - Pwysleisiwyd bod yr argymhellion hyn yn cadarnhau nad ydi gwrando ar lais y plentyn a dioddefwyr yn ymarfer symbolaidd a bod eu llais yn treiddio drwy'r broses ymchwilio nes bod penderfyniadau yn cael eu gwneud, hyd yn oed pan mae'r hyn a ddywedir yn anghyfforddus ac yn mynd yn groes i agweddau sefydliadol. Adroddwyd ar yr angen i newid prosesau a newid meddylfryd torfol.
- <u>Eglurder, Cysondeb ac Atebolrwydd mewn ymateb i bryderon</u> - Credir bod diffyg pendantrwydd ac oedi wrth ymateb i bryderon diogelu yn creu risg gwirioneddol i blant. Nodwyd bod Argymhellion y pwyllgor yn galw ar lwybrau clir a phendant wrth wneud penderfyniadau ac uwch gyfeirio pryderon. Ymhelaethwyd eu bod yn pwysleisio ar yr angen i weld patrymau sy'n ymddangos dros amser ac atal preifateiddio materion drwy eu hystyried yn faterion unigol yn hytrach na rhai systemig.
- <u>Sicrhau hyfforddiant sy'n newid ymddygiad gweledol, nid sicrhau cydymffurfiaeth arwynebol</u> - Pwysleisiwyd nad yw'r Pwyllgor yn galw ar fwy o hyfforddiant ar gyfer ticio blychau, a dylid eu defnyddio ar gyfer rhoi hyder i staff ddefnyddio barn broffesiynol, fel eu bod yn adnabod 'grooming', deall ffiniau a gweithredu'n briodol pan mae risgiau diogelu yn gymhleth neu'n ymwneud â phobl ddylanwadol o fewn y gadwyn cyflogaeth. Cadarnhawyd mai mater ansawdd, dyfnder a moeseg yw darparu'r hyfforddiant allweddol yma. Eglurwyd nad niferoedd neu hyd sesiynau hyfforddi sydd yn bwysig, ond yr allbwn a welir ohono.
- <u>Llywodraethiant sydd yn herio, nid osgoi gwrthdaro</u> - Tynnwyd sylw at bwyslais clir yr argymhellion i dynhau rôl Llywodraethwyr, Arweinwyr ysgolion a strwythurau craffu i ofyn cwestiynau anodd megis; 'Pam y gwnaed y penderfyniad hwn? Beth oedd yn hysbys ar y pryd? Beth na welwyd neu na chafodd ei glywed?'. Eglurwyd bod llywodraethiant effeithiol yn ymwneud a chwilfrydedd a dewrder gan amlygu nad yw'n gyfrifoldeb cyfforddus ar pob achlysur.
- <u>Galw am ddiwylliant sy'n gallu dysgu o'i fethiannau</u> - Adroddwyd mai dyma un o'r themâu pwysicaf a godwyd o fewn trafodaethau'r Pwyllgor. Eglurwyd bod yr Argymhellion yn amlygu'n glir yr angen am ddiwylliant ble mae pobl yn teimlo'n ddiogel i rannu pryderon yn ogystal â herio a chydnabod methiant heb orfod wynebu canlyniadau personol. Rhybuddiwyd na fyddai unrhyw Gynllun Ymateb yn arwain at newid parhaol pe na bai'r newid diwylliannol hyn yn digwydd.

Adroddwyd nad yw argymhellion y Pwyllgor yn ymwneud â beio unigolion ond yn hytrach yn ymgeisio i sicrhau atebolrwydd, creu system ble mae methiannau yn cael eu cydnabod, archwilio a'u defnyddio i wneud pethau yn well.

Pwysleisiwyd nad yw'r ymateb i'r Adroddiad yn ddigwyddiad unigol. Adroddwyd ei fod yn daith ble bydd angen mesur cynnydd yn barhaus ac arddangos parodrwydd i addasu pan nad ydi pethau yn gweithio fel y dylent.

Eglurwyd bydd y Pwyllgor Craffu Addysg ac Economi yn ail-weld a'r materion hyn yn rheolaidd, gan gadarnhau bod hynny ar gyfer profi os yw gwersi wedi ei dysgu a bod newid yn weledol mewn bywyd go iawn, nid i ail-agor hen friwiau. Ymhelaethwyd bydd llwyddiant yn cael ei fesur ar y sail os yw plant, staff, rhieni a llywodraethwyr yn teimlo bod diwylliant y Cyngor wedi newid.

Nodwyd bod penderfyniadau'r Pwyllgor i'w gweld yn llawn ym mhapurau'r cyfarfod hwn, cofnodion cyfarfod y Pwyllgor Craffu Addysg ac Economi ac ar wefan y Cyngor.

**Derbyniwyd y sylwadau canlynol gan Gadeirydd Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio, o brif ystyriaethau'r cyfarfod a gynhaliwyd ar 15 Ionawr 2026:**

Adroddwyd mai prif ddyletswydd y Pwyllgor parthed yr Adroddiad oedd ystyried bod y Cynllun Ymateb yn briodol a chyflawn, ei fod yn sicrhau bod y prif flaenoriaethau yn cael eu gweithredu ac yn darparu cyngor wrth ymdrin â dibyniaethau. Cadarnhawyd y prif ystyriaethau canlynol:

- Bod yr adroddiad yn swmpus a rhy eiriog ar adegau. Fodd bynnag, mynegwyd canmoliaeth i'r rhai a oedd wedi cydlynu'r gwaith gan ei fod yn ddogfen sylweddol a phroffesiynol.
- Croesawyd bod y Cynllun Ymateb yn cael ei drafod mewn sawl fforwm.
- Cytunwyd bod angen crynodeb neu blaen dudalen syml a phendant o'r prif bwyntiau gweithredu.
- Derbynwyd yr angen i ddiogelu plant mewn ysgolion, ond pwysleisiwyd y rheidrwydd i ddiogelu plant ym mhob sefyllfa.
- Wrth ystyried hyfforddiant 'grooming' yn rhan 3.4 o Ffrwd Gwaith 3, nodwyd yr angen i addasu pwyslais yr hyfforddiant a'i deitl i gynnwys cydnabyddiaeth o atal meithrin perthynas amhriodol.
- Croesawyd manylder y Cynllun Ymateb i'r hyn sydd yn mynd i ddigwydd, ond pwysleisiwyd yr angen i adfyfyrio ar yr hyn sydd wedi digwydd. Pwysleisiwyd yr angen i ddatgelu methiannau staff ar bob lefel a chynnal trafodaethau gyda'r rhai hynny oedd yn greiddiol i'r methiannau. Amlygwyd yr angen i sicrhau bod proses wedi ei ddilyn i ddeall cyd-destun yr hyn aeth o'i le.
- Yng nghyd-destun 'cyfleoedd a gollwyd' a 'dyletswydd broffesiynol', derbyniwyd nad oes modd trafod achosion penodol. Fodd bynnag, adroddwyd ar yr angen i sicrhau bod trefniadau disgyblu mewn lle, yn ogystal ag amserlen ar gyfer y broses disgyblu a ffyrdd o adrodd ar y weithred, er tegwch i'r teuluoedd sydd wedi cael eu heffeithio.
- Croesawyd bod y cynllun yn rhoi pwyslais ar drefniadau canu'r gloch a diogelu. Pwysleisiwyd ei fod yn hanfodol i'r Cyngor fod ar ei orau o fewn y meysydd hyn. Cefnogwyd yr adolygiadau i'r polisïau gan bwysleisio'r angen am ddiweddariad ar y gwaith hynny yn ogystal ag amserlen a'r modd maent yn cael eu mabwysiadu.
- Pwysleisiwyd yr angen i brosesau byr, manwl gywir ac effeithiol wreiddio yng ngweithdrefnau'r diwylliant gan sicrhau nad ydynt yn ymateb i ymarferion ticio blwch.
- Mynegwyd balchder bod trefniadau gyda'r Heddlu a'r Bwrdd Iechyd yn cael eu tynhau.
- Dymunwyd bod y Pwyllgor yn derbyn diweddariadau rheolaidd ar y camau sydd wedi eu gweithredu neu sydd yn cael eu hystyried fel ymateb addas a phriodol i'r sefyllfa.

Ymhelaethwyd bod trafodaethau'r Pwyllgor yn cynnwys sylwadau fod cyfeiriadau helaeth at Estyn. Er bod yr arolwg, a gynhaliwyd Mehefin 2023 wedi bod yn ddiffygiol a chamarweiniol ynglŷn â threfniadau diogelu, ac nad oedd cydnabyddiaeth o'r diffygion hynny yn amlwg yn yr adroddiad, cytunwyd y byddai modd ychwanegu'r wybodaeth i'r adroddiad terfynol fydd yn cael ei gyflwyno i'r Cabinet. Ategodd y Pennaeth Addysg y byddai yn codi'r mater gydag Estyn, ac yn amlygu bod y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio angen derbyn cydnabyddiaeth gan Estyn bod eu harolwg wedi bod yn gamarweiniol. Byddai hyn yn adfer hyder y cyhoedd mewn adroddiadau Estyn i'r dyfodol.

Cadarnhawyd mai penderfyniadau'r Pwyllgor ar ddiwedd y drafodaeth oedd y canlynol:

- Derbyn manylder y Cynllun Ymateb
- Yn diolch i'r Swyddogion am eu gwaith ac yn croesawu bod y Cynllun Ymateb yn cael ei drafod mewn sawl fforwm
- Bod angen crynodeb / blaen dudalen syml a phendant o'r prif bwyntiau gweithredu
- Bod y Pwyllgor yn derbyn diweddariadau rheolaidd ar y camau sydd wedi eu gweithredu neu sydd yn cael eu hystyried fel ymateb addas a phriodol â'r sefyllfa
- Cais gan y Pwyllgor i Estyn gydnabod gwendidau eu hadroddiad ar drefniadau diogelwch y Cyngor, Mehefin 2023
- Bod Trefniadau Canu'r Gloch a Threfniadau Diogelu angen bod ymysg y gorau
    - croesawu adolygiadau i'r polisïau hyn
    - angen diweddariad ar y gwaith, yr amserlen a'r modd maent yn cael eu mabwysiadu

**Diolchwyd i'r Cadeiryddion am grynhoi trafodaethau eu cyfarfodydd. Eglurwyd bod y galw am y cyfarfod hwn yn deillio o sylwadau a wnaed gan Arweinydd y Grŵp Annibynnol yn ystod cyfarfod y Pwyllgor Craffu Gofal. Gofynnwyd iddi agor y drafodaeth yn ffurfiol ble rhannwyd y sylwadau canlynol:**

Diolchwyd i bawb sydd wedi cyfrannu at drafodaethau'r Cynllun Ymateb hwn ym mhob cyfarfod sydd wedi cael ei gynnal hyd yma. Diolchwyd i'r plant a dioddefwyr am eu dewrder.

Mynegwyd siomedigaeth nad oedd Jan Pickles, Cadeirydd yr Adolygiad Ymarfer Plant, yn bresennol ar gyfer cynorthwyo'r drafodaeth yn ystod y cyfarfod hwn.

Mynegwyd rhwystredigaeth nad oes ymchwiliad cyhoeddus wedi ei gynnal gan Lywodraeth Cymru, i'r mater hwn hyd yma. Pwysleisiwyd y byddai'n cynorthwyo'r Cyngor i sicrhau newid diwylliannol a sefydliadol yn sgil y ffaith bod 52 cyfle wedi ei golli i ddod a throseddau'r prifathro hwn i ben.

Pwysleisiwyd yr angen i 'droi pob carreg' er mwyn sicrhau nad oes sefyllfa o'r fath yn digwydd eto.

Ategwyd sylwadau a gyflwynwyd eisoes sy'n galw i sicrhau bod polisïau a gweithdrefnau canu'r gloch a diogelu yn gywir ac effeithiol.

**Diolchwyd i Arweinydd y Grŵp Annibynnol am ei sylwadau gan roi'r cyfle i Aelodau eraill gymryd rhan yn y drafodaeth, gyda blaenoriaeth yn cael ei roi i'r Aelodau hynny nad oedd yn aelodau o'r Pwyllgorau a drafodwyd uchod.**

Cyfeiriwyd at gyfarfod arbennig o'r Cyngor Llawn a gynhaliwyd ar 18 Awst 2022 er mwyn trafod Cod Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb, gan atgoffa Aelodau o natur fywiog y cyfarfod hwnnw. Nodwyd bod Pennaeth Adran Gwasanaethau Corfforaethol wedi nodi bod Asesiad Risg wedi cael eu datblygu yn dilyn y cyfarfod hwnnw, gan gynnwys cyfarfodydd a gynhelir yn Siambrau'r Cyngor ac yn rhithiol. Gofynnwyd pam

bod asesiadau risg wedi cael eu datblygu ar gyfer y sefyllfaoedd hyn, ond bod prosesau diffygiol ar waith i warchod plant o fewn ysgolion Gwynedd, megis penodi'r troseddwr i fod yn bennaeth ar ddwy ysgol yng Ngwynedd.

Mewn ymateb i'r sylwadau uchod am asesiadau risg, cadarnhaodd Aelod Cabinet Addysg bod asesiadau risg yn cael eu llunio gan ysgolion unigol a'u llywodraethwyr gyda chefnogaeth yr Adran Addysg. Nodwyd bod pob ysgol yng Ngwynedd yn derbyn ymweliad blynyddol erbyn hyn gan y Tîm Diogelu a Llesiant. Mynegwyd balchder bod y Tîm hwn yn ehangu o 3 aelod i 4 aelod er mwyn sicrhau bod modd gwirio pob trefniant ar gyfer pob ysgol yn y Sir yn flynyddol.

Mewn ymateb i'r sylwadau uchod am y Cod Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb, pwysleisiodd yr Aelod Cabinet Addysg bod yr hyn sydd wedi digwydd yn Ysgol Friars yn tanlinellu ei bwysigrwydd. Atgoffwyd mai bwriad y Cod yw amlygu perthnasau iach a derbyniol i blant a phobl ifanc yn ogystal â beth sydd yn gwbl annerbyniol. Tynnwyd sylw bod yr Adroddiad yn argymell cynyddu ymwybyddiaeth ar beth yw 'grooming', gan egluro bod y gwaith hynny ar waith er mwyn i blant a phobl ifanc allu adnabod os oes gweithredoedd amhriodol yn digwydd iddynt, a deall sut allent adrodd arnynt. Ychwanegodd yr Aelod Cabinet Addysg ei fod yn bwysig bod pob plentyn a pherson ifanc yn ymwybodol o'r addysg hyn a'i fod yn cael ei gyd-blethu i'r cwricwlwm yn ei gyfanrwydd.

Gofynnwyd pa gamau disgyblu sydd ar waith neu wedi eu cwblhau yn erbyn holl staff yr Awdurdod Lleol a amlygwyd o fewn yr Adroddiad fel unigolion a oedd yn methu ag ymateb i bryderon. Mewn ymateb i'r ymholiadau, cadarnhaodd y Prif Weithredwr nad oes modd gwneud unrhyw sylwad ar achosion unigol. Fodd bynnag, cydnabuwyd bod pethau wedi mynd o'i le ac adroddwyd bod pob ymdrech yn cael ei wneud i sicrhau bod trefniadau cyflogaeth a chyfreithiol yn cael eu prosesu'n drwyadl ac effeithiol.

Atgoffwyd bod pryderon am y troseddwr wedi cael ei godi yn 2019 a'i fod wedi cael ei benodi yn bennaeth ar ail ysgol yng Ngwynedd yn dilyn hynny. Mewn ymateb i ymholiad ar sut oedd y broses penodi honno wedi dod i'r penderfyniad hwn, cadarnhaodd y Prif Weithredwr bod y penderfyniad anghywir wedi cael ei wneud gyda'r penodiad hwn a bod gwybodaeth fanwl i'w weld yn yr Adroddiad. Cydnabuwyd nad oedd modd gwneud unrhyw sylw pellach ar hyn o bryd, yn sgil y sefyllfa gyfreithiol sydd eisoes wedi ei esbonio.

Tynnwyd sylw pellach bod y Cyngor wedi galw ar Lywodraeth Cymru i gynnal Ymchwiliad Cyhoeddus i'r holl amgylchiadau ynghlwm â'r troseddau hyn gan mai nhw sydd gyda'r grym statudol i'w sefydlu. Mewn ymateb i'r sylw hyn, cadarnhaodd Arweinydd y Cyngor ei bod wedi derbyn ymateb i'r galwad gan Brif Weinidog Cymru a bydd yr ymateb hwnnw yn cael ei gylchredeg i'r Aelodau.

Nodwyd bod yr adroddiad yn cadarnhau bod pob ysgol yn derbyn Polisi Diogelu Ysgolion enghreifftiol gyda'r anogaeth i gwblhau man addasiadau (megis enw'r ysgol, enw'r person dynodedig diogelu) a'i fabwysiadu yn unol â gofynion canllawiau a safonau cydnabyddedig. Ymhelaethwyd mai cyfrifoldeb y llywodraethwyr yw sicrhau bod polisïau diogelu effeithiol wedi eu mabwysiadu ac yn cael eu hadolygu o leiaf unwaith y flwyddyn gyda chefnogaeth yr Adran Addysg. Wrth ystyried y materion hyn, pwysleisiwyd yr angen i sicrhau bod y trefniadau hyn yn cael eu monitro'n gyson a bod y llywodraethwyr a phenaethiaid ysgolion yn atebol am y penderfyniadau a wnaethpwyd. Atgoffwyd bod y ddogfennaeth hon yn cynnwys gwybodaeth gyfrinachol ac felly ni all ei rannu gyda'r holl lywodraethwyr, gan bwysleisio'r angen i'r llywodraethwyr ddal y person diogelu dynodedig i gyfrif yn ogystal â phennaeth yr ysgol. Tynnwyd sylw bod hyn yn anodd iawn gan nad oes modd iddynt eu herio heb y wybodaeth lawn. Mewn ymateb i ymholiad os oes unrhyw un o fewn yr Adran Addysg gyda'r cyfrifoldeb o sicrhau bod y gweithdrefnau hyn wedi cael eu dilyn, cadarnhaodd

yr Aelod Cabinet Addysg bod y Tim Diogelu a Llesiant yn monitro bod y gwaith hwn wedi cael ei gwblhau gan bob ysgol yng Ngwynedd.

Cydnabuwyd bod oedi ar adolygiad Llywodraeth Cymru i drefniadau llywodraethu o fewn ysgolion, ond nodwyd ei fod yn debygol bod posibilrwydd bod cyn-bennaeth Ysgol Friars wedi bod yn defnyddio hyn fel esgus i beidio sicrhau newid yn y gorffennol. Pwysleisiwyd nad oes newid i drefniadau llywodraethu ysgolion ers nifer helaeth o flynyddoedd a bod newid yn y maes hwn yn allweddol. Mewn ymateb i'r sylwadau, cytunodd Aelod Cabinet Addysg bod y drefn llywodraethu bresennol wedi torri a bod newidiadau angen cael eu gwneud. Cadarnhawyd bod un swyddog o fewn yr Adran Addysg yn gweithio i gefnogi llywodraethwyr, gan nodi bod ail swyddog wedi cael ei benodi'n ddiweddar. Atgoffwyd mai gwirfoddolwyr yw llywodraethwyr ein hysgolion ac maent angen cefnogaeth lawn. Ystyriwyd bod gormod yn cael ei ofyn o'r llywodraethwyr gyda gormod o faich yn cael ei roi ar yr unigolion hynny sydd yn dymuno gwneud cyfraniad i'w cymuned leol - megis bod yn rheolwr llinell i Bennaeth yr ysgol. Gobeithiwyd bydd yr adolygiad hwn gan Lywodraeth Cymru yn galluogi penderfyniadau newydd ar yr hyn sydd yn addas a phriodol i fod o fewn cyfrifoldebau llywodraethwyr. Diweddarwyd bod yr Adran Addysg wedi derbyn cylch gorchwyl addasedig cychwynnol fel rhan o'r adolygiad hwn gan Lywodraeth Cymru gan nodi bod y Cyngor wedi amlygu ystyriaethau ychwanegol iddynt ei nodi. Ychwanegwyd bod y Cyngor yn gwthio i gael cynrychiolydd o Wynedd yn gweithio gyda'r Llywodraeth ar yr adolygiad hwn er mwyn sicrhau bod llais pawb yn cael ei glywed.

Croesawyd cydnabyddiaeth bod Grym Rhesymol (ffrwd gwaith 5 yr Adroddiad) wedi cael ei adnabod fel thema ble mae lle i wella. Fodd bynnag, cysidrwyd y dylai'r camau gweithredu angenrheidiol fod yn fwy datblygol erbyn hyn, gan amlygu dylai addasiadau i'r maes yma gychwyn oddeutu dwy flynedd a hanner yn ôl, pan arestiwyd y troseddwr.

Tynnwyd sylw bod ffurflenni cyfeirio wedi cael eu hychwanegu i wefan y Cyngor, gydag e-bost wedi cael ei yrru at holl benaethiaid ysgolion Gwynedd. Ystyriwyd na ddylai un unigolyn yn unig fod yn ymwybodol o honiadau, a bod modd monitro gwybodaeth yn barhaus. Cysidrwyd yr angen i gylchreded y ffurflenni cyfeirio i'r person diogelu dynodedig, cadeiryddion ac is-gadeiryddion y llywodraethwyr a phob unigolyn perthnasol arall. Pwysleisiwyd dylai pawb fod yn ymwybodol sut i gael mynediad i'r ffurflen. Gobeithiwyd bydd y Cynllun Ymateb yn arwain at newid agwedd sefydliadol er mwyn sicrhau bod prosesau yn eu lle ar gyfer craffu effeithiol a chyfathrebu clir ac atal y methiannau rhag digwydd eto. Mewn ymateb i'r sylwadau, cadarnhaodd Aelod Cabinet Addysg bod y ffurflen gyfeirio wedi cael ei rannu gyda pawb sydd wedi mynychu hyfforddiant Diogelu ac i bob person dynodedig diogelu. Ychwanegwyd bod posteri wedi cael eu dosbarthu i ysgolion yn amlygu i staff a disgyblion pwy yw'r person dynodedig diogelu a'u manylion cyswllt gan ofyn i unrhyw un ddod i gyswllt gyda'r Adran os ydynt yn ymwybodol o unrhyw ysgol sydd ddim yn arddangos posteri, fel bod modd rhannu mwy o bosteri iddynt. Nodwyd bod sicrhau bod y posteri hyn yn weledol yn yr ysgolion yn rhan o gyfrifoldeb y Tim Diogelu a Llesiant yn ystod eu hymweliadau blynyddol.

Gwnaed sylw y dylid monitro cyfraddau gwaharddiadau ysgol a throsiant staff, gan nodi y gall cyfraddau uchel olygu'r angen i gychwyn ymholiadau prosesau diogelu.

Mynegwyd cywilydd bod 52 cyfle wedi ei golli i ddal y troseddwr hwn drwy ymateb i geisiadau gan ddisgyblion, staff a rhieni, gan holi am fanylion pellach sut bod hyn wedi digwydd.

Manylwyd ar Ffrwd Gwaith 1 (Llais y Plentyn a Chefnogi Dioddefwyr) gan ategu ymddiheuriadau diffuant y Cyngor ar sawl achlysur. Gofynnwyd am wybodaeth bellach ar faint o arian sydd yn cael ei wario ar sesiynau therapi, cynghorwyr cwnsela a chymhorthion eraill mae'r dioddefwyr wedi ei adnabod, ei angen. Pwysleisiwyd yr angen i sicrhau bod digon o arian yn cael ei wario i ddarparu'r cymorth yma, o'r safon

gorau, er lles y dioddefwyr. Dymunwyd sicrwydd bydd arian yn cael ei ddyrannu i sicrhau byddai'r gefnogaeth hon ar gael yng nghyllidebau'r Cyngor i'r dyfodol yn barhaol. Eglurwyd bod Arweinydd y Cyngor eisoes wedi cadarnhau bod Ysgol Friars wedi derbyn £500,000 o arian grant a bod Llywodraeth Cymru wedi cynnig £600,000 i'r Cyngor ar gyfer gwella gwasanaethau. Mewn ymateb i'r sylwadau, cydnabuwyd ei fod yn anodd cadarnhau'r data ar wariant cymorth i ddioddefwyr ar hyn o bryd. Fodd bynnag, cadarnhawyd bod buddsoddiad ychwanegol wedi cael ei wneud yn y gwasanaeth cwnsela yn Ysgol Friars. Eglurwyd bod lefel uwch o gefnogaeth yn Ysgol Friars ers cyn i'r troseddau ddod i'r amlwg, o'i gymharu ag ysgolion eraill y sir, gan fod hwb llesiant wedi cael ei sefydlu yn yr ysgol gyda dwy cwnselydd ychwanegol i'r ddarpariaeth a gynigir mewn ysgolion eraill. Cadarnhawyd bod yr arian yn cyrraedd yr Adran Addysg ac yn cael ei ddyrannu ymhellach i'r ysgolion. Ymhelaethwyd bod cefnogaeth arbenigol wedi cael ei ddarparu i ddioddefwyr ac i staff yr ysgol. Sicrhawyd bod unrhyw gefnogaeth ychwanegol mae'r ysgol yn gofyn amdano, yn cael ei gymeradwyo. Adroddwyd bydd gwaith yn cael ei wneud i gasglu'r wybodaeth ariannol a'i rannu gyda'r Aelodau.

Rhannwyd sylwadau ar Ffrwd Gwaith 2 (Rheoli honiadau a phryderon am oedolion sy'n gweithio gyda phlant), gan egluro bod nifer o Aelodau wedi mynychu cynhadledd arbennig i drafod yr hyn a ddysgwyd yn dilyn adroddiad Cyfiawnder Trwy Ein Dewrder, a oedd wedi ei drefnu gan RASASC (Rape and Sexual Abuse Support Centre) Gogledd Cymru. Cadarnhawyd bod Jan Pickles wedi siarad yno am drawma ac am ddiwylliant gwaith iach ac effeithiol a'r cyswllt rhwng y pynciau hyn. Adroddwyd bod camdriniaeth rywiol yn erbyn plentyn yn achosi trawma amlwg. Nodwyd os yw plentyn yn cael ei gam-drin gan berson mewn sefyllfa o ymddiriedaeth, bod hynny yn ychwanegu haen ychwanegol o drawma. Eglurwyd bod sylfeini seicolegol y mae plentyn yn dibynnu arnynt ar gyfer teimlo'n ddiogel yn cael eu chwalu yn sgil eu camdriniaeth, a hyd yn oed yn fwy os gan unigolion mewn sefyllfa o ymddiriedaeth. Cadarnhawyd y diffinnir hyn fel 'Trawma brad' a gall olygu bod plentyn yn tyfu i fod yn oedolyn sydd yn cael trafferth i ymddiried mewn pobl ac yn gweld y byd fel lle anniogel ac anwadal. Ymhelaethwyd bod 'Trawma brad sefydliadol' yn cael ei ychwanegu i'r trawma hyn pan mae'r sefydliadau sydd i fod yn warchodol i'r plentyn yn troi llygad ddall i'r hyn sy'n digwydd. Esboniwyd bod y math hwn o drawma yn gwneud i ddioddefwyr teimlo'n fach, dibwys a di-lais gan fod sefydliadau yn blaenoriaethu enw da, grym a chyfleustra dros eu diogelwch a gofal. Soniwyd yr arweinia hyn at ail-weiriad yn system nerfol y dioddefwyr i fyw bywyd mewn modd 'fight o'r flight' gan nad yw cymdeithas yn mynd i'w gwarchod. Mynegwyd siomedigaeth bod Cyngor Gwynedd wedi chwarae rhan yn y trawma triphlyg hwn - Trawma camdriniaeth, Trawma brad a Thrawma brad sefydliadol yn achos dioddefwyr dewr Ysgol Friars.

Ymhelaethwyd bod Rhan 5 o'r Adroddiad yn ymwneud a'r weithdrefn sydd yn delio gyda phryderon am bobl sydd mewn sefyllfa o ymddiriedaeth. Nodwyd nad oes dealltwriaeth ddigonol yn y Cyngor hwn o'r gweithdrefnau nac o faen prawf 'Addasrwydd i Weithio Gyda Phlant'. Eglurwyd bod hyn yn peri pryder amlwg a'i fod hefyd yn gwneud i'r Cyngor ystyried os oes pobl eraill yn gweithio gyda phlant yng Ngwynedd na ddylai fod yn gwneud hynny. Mynegwyd canmoliaeth bod awdit o bryderon hanesyddol yn cael ei ymestyn rhag ofn bod pryderon wedi syrthio drwy'r rhwyd. Gobeithiwyd bod cynnal yr awdit yma yn ogystal â'r Cynllun Ymateb a pholisïau eraill yn rai o gamau cyntaf y Cyngor i sicrhau'n hyderus na fydd hyn yn digwydd eto drwy addasu ei ddiwylliant. Cydnabuwyd bod mesur gwendidau diwylliannol yn heriol gan nad yw'n hawdd i fesur ei ddatblygiad, ond cadarnhawyd yr angen iddo dreiddio o'r uchelfannau a threiddio i holl agweddau o wasanaethau'r Cyngor. Gofynnwyd am sicrhad o arweinyddiaeth weithredol a gweledol i sicrhau newid hirdymor i ddiwylliant y Cyngor. Mewn ymateb i'r sylwadau, cadarnhaodd y Prif Weithredwr ei fod yn cytuno gyda'r holl sylwadau a gyflwynwyd a chydnabuwyd bod peth gwaith i'w wneud yn y maes hwn. Ymrwymwyd i sicrhau bod y gwaith a ddatblygwyd o fewn y Cynllun Ymateb yn gwreiddio i ddiwylliant newydd y Cyngor. Ychwanegodd Arweinydd y

Cyngor y byddai'n arwain drwy esiampl gan ategu bod rôl gan bawb i sicrhau bod y diwylliant yn newid yn hirdymor i'r dyfodol.

Mewn ymateb bellach, diweddarodd Dirprwy Arweinydd y Cyngor bod nifer o newidiadau i Ran 5 o'r Adroddiad, sy'n ymwneud â'r weithdrefn sydd yn delio gyda phryderon am bobl sydd yn delio gyda phryderon am bobl sydd mewn sefyllfa o ymddiriedaeth. Cadarnhawyd os oes unrhyw bryderon yn codi yn unol a'r gweithdrefn hon, mae gweithiwr cymdeithasol yn ymweld â'r plant hynny sydd yn cael eu henwi mewn honiad, er mwyn sicrhau bod llais y plentyn yn cael ei glywed. Ychwanegodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol mai nid dim ond un unigolyn na sefydliad sydd yn gwneud penderfyniadau ar drothwyon gan nodi ei fod yn fater aml-sefydliadol. Adroddwyd bod nifer o argymhellion yr Adroddiad wedi cael eu gweithredu arnynt gan gydnabod bod mwy o waith i'w wneud. Pwysleisiwyd bod gwaith wedi cael ei wneud wrth gynnal awdit ar bryderon hanesyddol yn cael ei ymestyn gan egluro os oes pryder yn cael ei godi mwy nag un waith yn ymwneud ag un unigolyn, bod y Cyngor yn ail-ymweld a'r cyfeiriadau hynny, er mwyn sicrhau nad oes unrhyw fater wedi syrthio drwy'r rhwyd.

Wrth ystyried Ffrwd Gwaith 3 (Hyfforddiant a Pholisïau), tynnwyd sylw bod diffyg cadw cofnodion yn effeithiol yn thema gyson o fewn yr Adroddiad, gan fod o leiaf dau gyfarfod wedi cael ei gynnal ynghylch y troseddwr gydag Uwch Swyddogion yn bresennol ac nid oedd cofnodion wedi cael eu hysgrifennu, gydag achosion eraill ble mae cofnodion yn ddiffygiol neu'n absennol. Gofynnwyd beth yw'r polisi ar gyfer cymryd cofnodion yn y sefyllfaoedd hyn ac os oes trothwyon penodol angen eu cyfarch cyn i'r angen am gofnodion godi. Mewn ymateb, cadarnhaodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol bod cofnodion trylwyr yn hanfodol bwysig a bod pob ymdrech yn cael eu gwneud i sicrhau bod cofnodion yn cyfarch Safonau Proffesiynol Cymru sydd yn cael eu gosod gan Ofal Cymdeithasol Cymru a safonau penodol hefyd yn cael eu rhoi ar gyfer therapyddion galwedigaethol. Adroddwyd bod y safonau hyn yn gosod disgwyliadau cenedlaethol i bob gweithiwr. Tynnwyd sylw hefyd at bolisïau Sicrwydd Ansawdd y Cyngor ble mae Uwch Swyddogion Ansawdd ac Arweinyddion Timau yn goruchwylio gwaith y gweithlu er mwyn sicrhau eu bod yn cyrraedd y safonau hynny. Mewn ymateb i'r Adroddiad, sicrhawyd bod dogfen Sicrwydd Ansawdd penodol yn cael ei ddatblygu ar gyfer cymryd cofnodion yn effeithiol ar gyfer gwasanaethau cymdeithasol yr Adran Plant a Chefnogi Teuluoedd gan nodi bydd y ddogfen honno yn cael ei graffu ac yn derbyn ystyriaeth Bwrdd Rhaglen Cynllun Ymateb a'r CIW (Care Inspectorate Wales), er mwyn sicrhau priodoldeb ac addasrwydd i'r dyfodol. Cydnabuwyd bod sylwadau wedi eu gwneud nad oedd cofnodion o reidrwydd yn cael eu cadw yn ganolog gyda mynediad rhwydd atynt, gan adrodd bod system 'mosaic' yn cael ei ddatblygu sydd yn disodli system WCCIS erbyn yr Hydref ac mae system 'magic notes', sydd yn trosi negeseuon llafar a dderbyniwyd gan staff, yn gofnod electronig i'r system mosaic. Pwysleisiwyd bydd hyfforddiant yn cael ei ddarparu i holl weithwyr er mwyn sicrhau eu bod yn deall sut i ddefnyddio'r system newydd hon a fyddai hefyd yn mynd i'r afael â beth ddylid ei gofnodi a pryd dylid gwneud hynny.

Mewn ymateb i'r sylwadau hyn gan y Cyfarwyddwr Corfforaethol, nodwyd nad oedd cydymffurfio â'r safonau cofnodion proffesiynol a ddisgrifiwyd wedi arbed y dioddefwyr yn yr amgylchiadau a drafodir. Ystyriwyd y byddai'n werthfawr i benodi swyddog o fewn y Cyngor i sicrhau bod cofnodion sydd yn cael eu hysgrifennu yn safonol, a'u bod yn cael eu monitro'n gyson. Mewn ymateb, diolchodd Dirprwy Arweinydd y Cyngor am yr awgrym hwn o benodi swyddog newydd gan gytuno y byddai'n swyddogaeth bwysig i'w ychwanegu i brosesau'r Cyngor.

Pryderwyd bod ffocws mawr yn cael ei roi i weithdrefnau'r Cyngor ac nid ar ddiwylliant y Cyngor. Tynnwyd sylw bod nifer o'r cyfleoedd a gollwyd yn deillio o fethiannau unigol i gydymffurfio â gweithdrefnau priodol yn hytrach na bod y gweithdrefnau eu hunain yn ddiffygiol. Nodwyd nad oes digon o gynlluniau ar waith i addasu'r meddylfryd hyn er mwyn sicrhau nad oes modd i staff y Cyngor lwyddo i beidio â chydymffurfio yn y dyfodol, drwy gyflawni addasiadau diwylliannol. Gofynnwyd pa rôl sydd gan Aelodau i

graffu, ymchwilio a monitro prosesau mewnol y Cyngor sydd yn ymwneud ag aelodau staff, os oes rôl o gwbl. Pryderwyd os nad oes gan yr Aelodau rôl i'w chwarae mewn prosesau o'r fath, ystyriwyd os yw staff y Cyngor yn sgriwtineiddio beiau eu hunain. Pwysleisiwyd na ddylai hyn ddigwydd ac ystyriwyd i ba raddau mae modd i hyn ddigwydd yn dilyn prosesau presennol. Mewn ymateb i'r ystyriaethau, cadarnhaodd y Prif Weithredwr bod trefniadau disgyblaethu staff i'w weld ar wefan y Cyngor a sicrhawyd nad oes unrhyw aelod o staff gyda'r gallu na'r pŵer i asesu eu beiau hunain gan nad yw'n briodol na thryloyw i wneud hynny. Sicrhawyd yr Aelodau a'r cyhoedd bod y Cyngor yn derbyn arweiniad gan gwmni cyfreithiol annibynnol bod prosesau cyflogaeth briodol ar waith ar gyfer pob unigolyn sydd ynghlwm â'r mater hwn. Adroddwyd nad oes agwedd gwleidyddol i brosesau cyflogaeth ac felly nid oes rôl flaenllaw i'r Aelodau yn y prosesau datblygu. Fodd bynnag, mewn achosion penodol gall achosion cael eu cyflwyno i Bwyllgor Penodi Prif Swyddogion sydd yn cynnwys Aelodau Etholedig, i wneud penderfyniad ar faterion cyflogaeth, yn unol â Chyfansoddiad y Cyngor.

Cyflwynwyd sylwadau cyffredinol a oedd yn adolygu'r drafodaeth hon. Pwysleisiwyd bod yr holl faterion a drafodwyd yn aneffeithiol ar eu pen eu hunain, a bod angen cydblethu'r holl agweddau er mwyn sicrhau bod y Cynllun Ymateb yn effeithiol i'r dyfodol. Eglurwyd bod hyn yn hanfodol gan fod yr Adroddiad yn amlygu methiannau ar nifer o agweddau gwahanol. Ystyriwyd mai'r cwestiwn pwysicaf i'w ystyried yw 'Beth fyddai'n digwydd yn wahanol heddiw pe byddai'r un pryderon yn cael eu codi?'. Pwysleisiwyd yr angen i greu diwylliant ble mae staff yn barod i herio ac arweinwyr yn barod i wrando a gweithredu. Adroddwyd byddai'n allweddol i'r penderfyniadau cywir gael eu gwneud yn gyflymach ac yn ffafriol i faterion diogelu pob tro, yn enwedig yn y sefyllfaoedd hynny ble mae'n anodd gwneud hynny.

Gwnaed cais i Aelodau'r Cyngor ac i'r wasg i gychwyn symud ymlaen o'r hyn sydd wedi digwydd gan beidio â defnyddio lluniau'r troseddwr mwyach. Tynnwyd sylw bod ei lun yn cael ei ddefnyddio'n gyson ar y newyddion ac mewn papurau newydd a'r cyfryngau cymdeithasol, hyd yn oed mewn datganiad diweddar a oedd yn cadarnhau penodiad Ms Margaret Davies fel pennaeth Ysgol Friars. Pwysleisiwyd bod hyn yn ail-gynhyrchu trawma'r dioddefwyr a'i fod yn gwbl amhriodol. Gofynnwyd i bawb ganolbwyntio ar y datblygiadau sydd ar waith a'r cynnydd a welir i'r dyfodol, o hyn allan.

Ategwyd sylwadau'r Aelodau gan Arweinydd y Cyngor a'r Prif Weithredwr.

**Cadarnhawyd prif drafodaethau'r Cyfarfod fel a ganlyn:**

- **Atgyfnerthu'r cais i Lywodraeth Cymru am ymchwiliad cyhoeddus, gan rannu ymateb y Llywodraeth i'r cais gydag Aelodau'r Cyngor Llawn.**
- **Pwysleisio pwysigrwydd effeithlonrwydd Polisïau Canu'r Gloch, Diogelu a Grym Rhesymol.**
- **Gofyn i Ffurflenni Cyfeiriadau Diogelu gael eu dosbarthu yn ehangach nac i Benaethiaid a Chadeiryddion Llywodraethwyr yn unig.**
- **Rhannu gwybodaeth am wariant ar gefnogaeth, therapi a chwnsela i ddioddefwyr i roi sicrwydd ein bod yn gwario digon ar y gefnogaeth hyn.**
- **Pwysleisio pwysigrwydd Polisi Grym Rhesymol a'i fod yn cael sylw priodol yn yr ymateb.**
- **Ystyriaeth i sut mae sicrhau fod polisi diogelu yn cael ei ddilyn pan fo'r wybodaeth yn gyfrinachol a ddim yn hysbys i holl aelodau o gorff llywodraethu ysgol**
- **Rhoi ystyriaeth i sicrhau bod pryderon yn cael eu hystyried o ddifrif a bod hynny yn cael ei atgyfnerthu mewn diwylliant**
- **Sicrhau bod trefniadau cadw cofnodion, ac unrhyw hyfforddiant perthnasol, yn cael eu adolygu ac ystyried swyddog penodol i wirio ansawdd cofnodion.**

- **Yr angen am sicrwydd petai rhywun yn codi pryderon heddiw beth fyddai'n wahanol**
- **Yr angen i gyhoeddi fersiwn cryno a hawdd i ddarllen o'r ddogfen.**

**PENDERFYNWYD:**

**Gofyn i'r Cabinet ystyried y sylwadau uchod, yn ogystal â sylwadau Cyfarfod Arbennig o'r Pwyllgor Craffu Gofal (13 Ionawr 2026), Cyfarfod Arbennig o'r Pwyllgor Craffu Addysg ac Economi (19 Ionawr 2026) a'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio (15 Ionawr 2026), wrth fabwysiadu'r Cynllun Ymateb newydd.**

Dechreuodd y cyfarfod am 1.30yp a daeth i ben am 3.45yp.

____________________________________

**CADEIRYDD**

**Cyfarfod:** Cyngor Llawn

**Dyddiad:** 5 Mawrth 2026

**Aelod Cabinet:** Cynghorydd Huw Wyn Jones, Aelod Cabinet dros Gyllid

**Pwnc:** Cyllideb 2026/27

**Swyddog Cyswllt:** Dewi Morgan, Pennaeth Cyllid

---

**CYLLIDEB 2026/27**

**Y Penderfyniad a geisir**

1. **Sefydlu cyllideb o £379,701,110 ar gyfer 2026/27 i'w ariannu drwy Grant Llywodraeth o £264,009,390 a £115,691,720 o incwm o'r Dreth Cyngor (sy'n gynnydd o 4.75% sylfaenol ynghyd a 0.42% pellach i gyfarch ardoll gan yr Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru, ac felly'n rhoi cyfanswm o 5.17%)**

2. **Sefydlu rhaglen gyfalaf o £40,179,430 yn 2026/27 i'w ariannu o'r ffynonellau a nodir yn Atodiad 4 i'r adroddiad.**

---

*Effaith y Penderfyniad*
*Byddai cynyddu'r Dreth Cyngor 5.17% yn gynnydd wythnosol o £1.90, neu £98.62 yn flynyddol, gyda threth Band D o £2,006.11 am 2026/27.*

*Mae'r cynnydd yn yr ardoll i'r Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru yn cynrychioli 0.42% o'r cynnydd.*

*Mae effaith manwl hyn wedi'i osod allan yn y penderfyniad ffurfiol sydd i'w gael yn Atodiad 11.*

---

## 1. CYFLWYNIAD

1.1 Rhaid i'r Cyngor osod cyllideb gytbwys ar gyfer 2026/27.

1.2 Gosodir y gyllideb hon mewn cyfnod ble mae awdurdodau lleol Cymru yn parhau i wynebu heriau ariannol, lle nad yw'r ychwanegiad i'r setliad yn cwrdd â'r cynnydd yn y galw am wasanaethau.

1.3 Mae Cyngor Gwynedd wedi derbyn cynnydd grant Llywodraeth o 4.1% ar gyfer 2026/27, sy'n cyfateb i gynnydd gwerth £10.4m mewn ariannu allanol. Yn ogystal â hynny, mae sail y setliad am 2024/25 wedi cynyddu o £5.4m i adlewyrchu trosglwyddo cyfrifoldebau i'r setliad, sydd hefyd yn arian ychwanegol wedi ei gynnwys yn y grant.

1.4 Erbyn 2026/27, byddai angen cynyddu ein gwariant o £23.1m er mwyn "sefyll yn llonydd" (mae manylion yn rhan 3 isod). Mae hyn yn cynnwys £9.9m i gwrdd â phwysau ar gyllidebau'r gwasanaethau (mae manylion o'r 'bidiau' unigol yn Atodiad 2).

1.5 Gwelir yn yr adroddiad hwn fod pwysau galw ar wasanaethau yn ogystal â phwysau chwyddiant. Mae cyllideb 2026/27 yn ceisio gwarchod y gwasanaethau y mae'r Cyngor yn eu darparu i bobl Gwynedd, ac yn argymell cynnydd o 5.17% yn y Dreth Cyngor er mwyn cyflawni'r amcan hwnnw eleni. Mae rhagolygon yn awgrymu bydd pwysau pellach wrth anelu i osod cyllideb gytbwys ar gyfer 2027/28.

1.6 Mae'r gyllideb ddrafft wedi cael ei hystyried gan fwyafrif aelodau'r Cyngor mewn sesiwn briffio sefyllfa ariannol a gynhaliwyd ar 27 Ionawr 2026, ac wedi ei graffu gan y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio ar 3 Chwefror, cyn ei gyflwyno i'r Cabinet ar 10 Chwefror er mwyn argymell cyllideb cytbwys a phriodol ar gyfer 2026/27.

1.7 Mae cyllideb 2026/27 yn cynnwys arbedion sydd wedi eu hadnabod wrth osod cyllideb 2024/25 a 2025/26.

1.8 Eleni rydym yn cynnig sefydlu rhaglen gyfalaf gwerth £40.2m yn 2026/27, fel sydd wedi'i nodi yn Atodiad 4.

1.9 Mater i'r Cyngor Llawn yw ystyried y gyllideb a gosod y Dreth Cyngor ar gyfer 2026/27 ar sail y materion a nodir yn yr adroddiad dilynol. Mae'r adroddiad manwl yma'n nodi'r ffactorau sydd yn dylanwadu ar y gyllideb refeniw arfaethedig ar gyfer 2026/27, ac yn amlinellu'r prif newidiadau ers 2025/26.

## 2. GRANT LLYWODRAETH CYMRU

2.1 Mae Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi'r setliad terfynol i ariannu awdurdodau lleol ar gyfer 2026/27 fel a ganlyn:

| Grant Cynnal Refeniw 2025/26 – 2026/27 | | Cyfanswm Awdurdodau Cymru £ | Cyngor Gwynedd £ |
|---|---|---|---|
| Grant y Llywodraeth 2025/26 | | 6,273,340,560 | 253,588,760 |
| Grant y Llywodraeth 2026/27 | | 6,555,644,540 | 264,009,390 |
| | Cynnydd £ | 282,303,980 | 10,420,630 |
| | Cynnydd % | 4.5% | 4.1% |

Mae manylion pellach am y setliad terfynol ar gael yma –

Setliad refeniw a chyfalaf llywodraeth leol: terfynol 2026 i 2027 | LLYW.CYMRU

2.2 Mae ffigyrau swyddogol Llywodraeth Cymru yn y tabl uchod yn dangos fod Cyngor Gwynedd yn derbyn cynnydd grant o £10.4m erbyn y flwyddyn nesaf (ar ôl addasu'r ffigwr cymharol 2026/27 i adlewyrchu addasiadau yn y sylfaen drethiannol a throsglwyddiadau i'r setliad), sy'n gynnydd o 4.1%, tra bod y cyfartaledd ledled Cymru yn 4.5%.

2.3 Mae nifer o ffactorau yn bwydo'r fformiwla dyrannu grant llywodraeth leol, megis poblogaeth y sir, nifer disgyblion yn ein hysgolion, a nifer hawlwyr cymorth incwm.

## 3. GWARIANT REFENIW'R CYNGOR – 2026/27

3.1 Nodir yn y tabl isod y cynnydd mewn gwariant fydd angen er mwyn “sefyll yn llonydd” yn 2026/27.

**Gofynion Gwario Ychwanegol**

| | £ | £ |
|---|---|---|
| Cyllideb Sylfaenol | | 356,815,330 |
| Chwyddiant Cyflogau Staff | 8,298,980 | |
| Lleihad Cyfraniad Pensiwn Cyflogwr | (3,364,290) | |
| Chwyddiant Arall (cyflenwyr) | 6,075,390 | |
| Ardollau (Tân, APCE, CNC a CBC) | 528,810 | |
| Demograffi | (846,000) | |
| Bidiau - Pwysau ar Wasanaethau | 9,910,580 | |
| Cynnydd Premiwm Cartrefi Gwag Hir Dymor | 893,700 | |
| Addasiadau Cyllideb Amrywiol | (493,400) | |
| Llog ar Falansau | (89,090) | |
| Rhyddhau Llawr Setliad 2025/26 | (1,571,530) | |
| Gwrthdroi Grant YG Cyflogwr 2025/26 | 3,632,950 | |
| Trosglwyddiadau i’r Setliad | 163,820 | |
| Cyfanswm net yr ychwanegiadau | | 23,139,920 |
| Cyfanswm gofynion gwario 2026/27 cyn arbedion | | 379,955,250 |

3.2 **Cyllideb Sylfaenol 2025/26**

Er mai £357m yw gwariant net 2025/26, mae'n bwysig nodi fod gwir wariant y Cyngor yn £608m, oherwydd ein bod yn derbyn llu o grantiau penodol gwerth £167m ac yn codi incwm cyffredinol o £84m am wasanaethau yr ydym yn eu darparu.

3.3 **Chwyddiant Cyflogau £8.3m**

Daethpwyd i gytundeb ar gyflogau'r gweithlu (ar wahân i athrawon) ar gyfer Ebrill 2025 i Fawrth 2026 drwy gytuno cynnydd o 3.2%. Yn unol â'r mwyafrif o awdurdodau lleol eraill, roeddem wedi cyllidebu'n ddarbodus ar gyfer cynnydd o 3.5%, gyda'r cytundeb terfynol ychydig yn is na'r hyn oedd wedi ei gyllidebu amdano.

Mae'r gyllideb yma yn neilltuo amcan gynnydd yng nghytundeb tâl 2026/27 o 4% ar gyfer athrawon a 3.4% ar gyfer gweddill y gweithlu (athrawon o Fedi 2026, gweddill y gweithlu o Ebrill 2026).

3.4 **Lleihad Cyfraniad Pensiwn Cyflogwr (£3.4m)**

Lleihad mewn cyfraniad pensiwn y cyflogwr yn sgil yr ailbrisiad tair-blynyddol.

3.5 **Chwyddiant Arall £6.1m**

Mae hwn yn swm 'net' sy'n cynnwys darpariaeth ar gyfer ystod eang o newidiadau yn ddibynnol ar raddfa chwyddiant meysydd penodol. Mae'r prif feysydd lle gwelir cynnydd yn cynnwys:

- Cartrefi Gofal Preswyl Annibynnol £1.4m
- Gofal Di-breswyl £1.5m:
  - Llety Cefnogol £916k,
  - Gofal Cartref £301k,
  - Gwasanaethau eraill £281k
- Ynni (Trydan a Nwy) £692k
- Cynnydd prisiau eraill:
  - Yswiriant £177k
  - Trethi eiddo £150k

3.6 **Ardollau £529k**

Bydd yr ardollau a delir i'r cyrff perthnasol yn cynyddu fel a ganlyn rhwng 2025/26 a 2026/27:

| | |
|---|---|
| • Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru | £458k |
| • Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri | £44k |
| • Cyfoeth Naturiol Cymru (Ardollau Arbennig) | £7k |
| • Cydbwyllgor Corfforedig (CBC) y Gogledd | £20k |

Mae'r cynnydd net o £458k i ardoll Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru yn cyfateb i 0.42% o gynnydd yn y dreth cyngor.

3.7 **Demograffi (£846k)**

Lleihad mewn nifer disgyblion o fewn ysgolion uwchradd (£659k) a cynradd (£637k), tra bo cynnydd mewn niferoedd disgyblion o fewn ysgolion arbennig £450k.

3.8 **Bidiau - Pwysau ar Wasanaethau £9.9m**

Mae Atodiad 2 yn cynnwys manylion pob cais unigol am wariant ychwanegol sy'n deillio o bwysau ar y gwasanaethau.

Argymhellir cymeradwyo ceisiadau ("bidiau") gwerth £9.9m am adnoddau parhaol ychwanegol a gyflwynwyd gan adrannau'r Cyngor i gwrdd â phwysau anorfod ar eu gwasanaethau.

Gofynnir i bob adran i adnabod unrhyw wariant rhaid i'r Cyngor gyflawni er mwyn sicrhau parhad gwasanaeth sylfaenol. Nid yw'r drefn yma ar gyfer datblygiadau newydd dymunol, ond yn hytrach ar gyfer parhad gwasanaethau sylfaenol presennol.

Mae elfen o'r ceisiadau yma wrth gwrs yn amlygu ei hun wrth i ni adolygu patrymau gwariant y flwyddyn gyfredol. Mae eraill yn ganlyniad i faterion sy'n codi lle mae angen gwario er mwyn gwarchod deilliannau i'r cyhoedd, neu i gwrdd â gofynion statudol. Mae yna elfen hefyd o lywodraeth ganolog yn creu pwysau a disgwyliadau, ac wedyn y Cyngor yn gorfod dygymod gyda'r sgil effeithiau.

Mae'r eitemau sydd wedi eu rhestru yn Atodiad 2 wedi cael eu herio'n drylwyr gan y Tîm Arweinyddiaeth cyn eu hargymell i'w cymeradwyo gan y Cabinet. Ymhellach, cyflwynwyd grynodeb o'r ceisiadau gwariant hyn yn y Seminar Cyllideb a gynhaliwyd ar 27 Ionawr 2026.

3.9 **Cynnydd Cyfradd Premiwm Cartrefi Gwag Hir Dymor £894k**

Yn ei gyfarfod ar 4 Rhagfyr 2025, penderfynodd y Cyngor Llawn i godi premiwm o 150% ar gartrefi sydd wedi bod yn wag am 12 mis neu fwy. Ar sail y data presennol, rhagwelir cynnyrch Treth Cyngor ychwanegol o £894k, gyda'r incwm hynny wedi ei glustnodi ar gyfer cynlluniau tai, cynlluniau cymunedol ac i fynd i'r afael â heriau cynyddol casglu'r Premiwm.

3.10 **Rhyddhau Llawr Setliad 2025/26 (£1.6m)**

Yn dilyn setliad terfynol hwyr ar gyfer 2025/26, penderfynwyd defnyddio'r gyllideb ar gyfer ariannu bidiau un-tro gwasanaethau 2025/26 a darpariaeth risg. Gellir rhyddhau'r gyllideb yma wrth baratoi cyllideb 2026/27.

3.11 **Gwrthdroi Grant Yswiriant Gwladol Cyflogwr 2025/26 £3.6m**

Gosodwyd Cyllideb 2025/26 ar y sail y byddai'r Llywodraeth yn ariannu'n rhannol y gost ychwanegol yn dilyn cynnydd i'r trothwy a'r gyfradd yswiriant gwladol a delir gan gyflogwyr. Derbyniwyd grant yn 2025/26 a chyllideb ychwanegol fel rhan o setliad 2026/27, felly gellir gwrthdroi'r targed incwm grant.

3.12 **Ystyriaethau Eraill (£582k)**
Cyfanswm sy’n adlewyrchu nifer sylweddol o addasiadau i wahanol gyllidebau ar draws y Cyngor. Mae hyn yn cynnwys effaith cynnydd mewn derbyniadau llog o (£90k) mewn dychweliadau wrth fuddsoddi balansau a llif arian y Cyngor, a gostyngiad cost o (£493k) oherwydd ystyriaethau cyllidebol eraill.

## 4. ARBEDION PRESENNOL SYDD WEDI EU CYMERADWYO’N FLAENOROL

**4.1 Mae Cyngor Gwynedd wedi gwireddu £47m o gynlluniau arbedion ers 2015/16**.

4.2 Ar 20 Chwefror 2024, bu i’r Cabinet gymeradwyo gwerth £5.2m o arbedion ar gyfer cyllideb 2024/25 ymlaen. Gwelir proffil y rhaglen yma yn Atodiad 3, sy’n dangos fod gwerth £343,090 o’r arbedion wedi eu proffilio ar gyfer 2026/27. Bu i’r £5.2m yn ei gyfanrwydd ei weithredu yng nghyllideb 2024/25, gydag arbedion y blynyddoedd dilynol yn cael eu pontio o gronfeydd. Felly, nid yw arbedion 2025/26 a 2026/27 yn cynorthwyo i leihau'r bwlch ariannol yn y blynyddoedd hynny.

4.3 Mae cynlluniau arbedion gwerth £320k yn deillio o raglenni arbedion blaenorol i’w tynnu o gyllidebau adrannau eleni. Yn ôl yr arfer, clustnodir darpariaeth arbedion er mwyn ymdrin â sefyllfaoedd ble mae’r arbediad yn llithro, gwerth y ddarpariaeth eleni ydi £66k ac felly £254k o arbedion sydd ar gael i lenwi bwlch 2026/27.

4.4 Mae gwerth yr arbedion fesul adran wedi’u crynhoi yn y tabl canlynol.

| **Arbedion sydd eisoes wedi eu rhaglennu** | |
|---|---|
| | £ |
| Adran Oedolion, Iechyd a Llesiant | 143,090 |
| Adran Amgylchedd | 200,000 |
| Adran Priffyrdd, Peirianneg a YGC | 91,000 |
| Adran Addysg | 98,500 |
| Adran Gwasanaethau Corfforaethol | 50,000 |
| Cynlluniau arbedion wedi eu cymeradwyo 2025/26 wedi ei broffilio i 2026/27 | 81,000 |
| **Is-Gyfanswm** | **663,590** |
| Llai: Darpariaeth Arbedion | (66,360) |
| **Arbedion Cynlluniedig Presennol 2026/27** | **597,230** |

## 5. BWLCH ARIANNU 2026/27 A'R DRETH CYNGOR

5.1 Fe welir o Rhan 3 uchod fod anghenion gwario'r Cyngor (cyn tynnu arbedion a thoriadau) ar gyfer 2026/27 yn £380m. Nodwyd yn rhan 2 fod y grant oddi wrth Lywodraeth Cymru am fod yn £264m.

5.2 Fel eglurwyd yn rhan 4 uchod, mae cyfanswm o £254k o arbedion a thoriadau sydd eisoes wedi eu cymeradwyo i'w ddefnyddio i leihau'r bwlch ariannu.

**Sefydlu Cyllideb 2026/27**

| | £ |
|---|---|
| Cyllideb Sylfaenol 2025/26 | 356,815,330 |
| Gofynion Gwario Ychwanegol | 23,139,920 |
| Gofynion Gwario 2026/27 cyn Arbedion | 379,955,250 |
| llai Incwm Grant Refeniw Llywodraeth Cymru | (264,009,390) |
| Bwlch i'w lenwi gan Dreth Cyngor ac arbedion pellach | 115,945,860 |

5.3 Golyga hynny fod bwlch gweddilliol o £116m sydd angen ei lenwi.

5.4 Gwerth £254k o arbedion sydd wedi eu cymeradwyo yn flaenorol ar gyfer 2026/27 (gweler Rhan 4 uchod), sydd ar gael ac yn cyfrannu tuag at lenwi'r bwlch ariannol.

| | |
|---|---|
| Bwlch i'w lenwi gan Dreth Cyngor ac Arbedion | 115,945,860 |
| Llai Arbedion presennol eisoes wedi eu cymeradwyo | (254,140) |
| Bwlch gweddillol o'r Dreth Cyngor | 115,691,720 |

5.5 Ceir mwy o wybodaeth am yr arbedion a'r toriadau yn Atodiad 3.

5.6 Argymhellir cyfarch gweddill y bwlch drwy'r Dreth Cyngor. Byddai cynyddu'r Dreth ar anheddau unigol o 5.17% yn cynhyrchu £115,691,720 o incwm, a byddai hyn y ddigonol i lenwi'r bwlch.

5.7 Bydd hyn yn £7.3m o incwm Treth Cyngor ychwanegol o'i gymharu â chyllideb 2025/26. Mae hynny'n gyfystyr i gynnydd yn y Dreth Cyngor o £98.62 i eiddo mewn Band D, neu £1.90 yr wythnos. Bydd y dreth a godir gan y Comisiynydd Heddlu a Throsedd (cynnydd o 7.01% ar gyfer 2026/27) a'r cynghorau cymuned (% amrywiol) yn ychwanegol i hyn wrth gwrs.

5.8 Mae gwybodaeth gefndirol a'r cyd-destun ar gyfer gosod lefel y Dreth wedi'i gyflwyno yn Atodiad 6.

5.9 Pe bai aelodau'r Cyngor yn dymuno cynnydd llai na 5.17% yn lefel y Dreth, yna byddai rhaid ymrwymo llai o adnoddau parhaol i ymdrin â'r pwysau ar wasanaethau, darganfod arbedion a thoriadau, neu gyfuniad o'r ddau.

5.10 Mae'r dewis rhwng cynnal gwasanaethau a lefel rhesymol o drethiant o hyd yn un anodd. Ar gyfer 2026/27 disgwylir bydd y cynnig gerbron i godi'r dreth 5.17% er mwyn diwallu'r pwysau ar wasanaethau wrth osod cyllideb gytbwys yn lefel tebyg i fwyafrif yr awdurdodau yng ngogledd Cymru.

## 6. CASGLIADAU / CYLLIDEB 2026/27

6.1 Mae'r adroddiad yma a'r atodiadau yn gosod allan y ffactorau y dylid eu hystyried wrth sefydlu cyllideb 2026/27 a bydd rhaid parhau i gynaeafu arbedion a chodi lefel y dreth er mwyn gosod cyllideb gytbwys.

6.2 Argymhellir cyfarch angen gwario refeniw o £380m, wedi ychwanegu £23.1m, sy'n cynnwys darparu £9.9m er mwyn cyfarch y galw am wasanaethau.

6.3 Ar ôl derbyn grant gan Lywodraeth Cymru o £264m, dibynnu ar £254k o arbedion. Bydd angen i lefel y Dreth Cyngor gynyddu 5.17% i gynhyrchu £115.7m o incwm er mwyn cau bwlch ariannu 2026/27.

| **Cyllideb gytbwys ar gyfer 2026/27** | |
|---|---|
| | £ |
| Gofynion Gwario 2026/27 cyn Arbedion | 379,955,250 |
| Cyfanswm Arbedion 2026/27 | (254,140) |
| Cyllideb 2026/27 | 379,701,110 |
| | |
| **I'w ariannu drwy -** | |
| Incwm Grant | 264,009,390 |
| Treth Cyngor (cynnyrch ar ôl codi 5.17%) | 115,691,720 |
| Cyllideb 2026/27 | 379,701,110 |

6.4 Bydd hyn yn golygu gosod cyllideb net o **£379,701,110**. Rhoddir dadansoddiad o'r gyllideb fesul gwasanaeth yn Atodiad 1.

## 7. CYFALAF

7.1 Sefydlwyd strategaeth asedau o 2019/20 ymlaen gan y Cyngor ar 7 Mawrth 2019. Ar 11 Gorffennaf 2024 diweddarwyd y strategaeth gan y Cyngor gyda'r cyfnod wedi ei ymestyn hyd at 2033/34. Fe'i hymgorfforir fel rhan o'r Rhaglen Gyfalaf, ac rydym yn ychwanegu at hwnnw erbyn 2026/27. Ceir manylion y rhaglen gyfalaf presennol yn Atodiad 4.

7.2 Mae'r ddau dabl a welir yn Atodiad 4 yn adlewyrchu'r gofynion cyfalaf, ynghyd â'r ariannu, ar gyfer gosod cyllideb cyfalaf 2026/27 i 2028/29, er mwyn sefydlu rhaglen gyfan werth £40,179,430 yn 2026/27, i'w ariannu o'r ffynonellau sydd wedi'u dadansoddi yn Atodiad 4.

7.3 Yn y tabl yn Atodiad 4 nodir bod £500k ar gael yn flynyddol ar gyfer cyllido bidiau cyfalaf. Ar gyfer 2026/27, mae gwerth £840k o bidiau cyfalaf i'w cyllido (manylion yn Atodiad 2b), gan ddefnyddio adnodd sydd heb ei ymrwymo ar gyfer cyllido'r gwahaniaeth.

## 8. STRATEGAETH TYMOR HIRACH

8.1 Mae Llywodraeth Cymru wedi dod i gytundeb efo Plaid Cymru er mwyn gosod cyllideb ar gyfer 2026/27. Mae etholiadau'r Senedd yn Mai 2026 gan nad ydym yn gwybod pwy fydd yn ffurfio llywodraeth wedi hynny, nid oes gennym ragolygon ar gyfer setliad llywodraeth leol ar gyfer y blynyddoedd dilynol.

8.2 Wrth ystyried y galw cynyddol am wasanaethau sydd ar y Cyngor, yn wyneb darpariaeth sy'n crebachu yn sgil toriadau, bydd angen ystyriaeth sylfaenol, buan am yr hyn y gall y Cyngor ei ddarparu a sut. Fel gwelir yn Atodiad 3, mae cynlluniau arbed a thoriadau eisoes wedi eu rhaglennu ar gyfer 2026/27 ond bydd gwaith yn cychwyn yn syth ar ôl gosod y gyllideb ar gyfer 2026/27 ar ddiweddaru Cynllun Ariannol Tymor Canolig sy'n cydnabod y sefyllfa fel y'i rhagwelir.

## 9. YSTYRIAETHAU ERAILL AC AMRYWIOL ASESIADAU

9.1 Mae'r lefel gyfredol o falansau cyffredinol y Cyngor yn £7.9m. O ystyried y pwysau cynyddol a ddisgwylir ar gyllidebau'r Cyngor dros y blynyddoedd nesaf, ystyrir bydd lefel y balansau hyn yn briodol i'w gadw ar gyfer llif arian ymarferol a gwariant annisgwyl. Cyflwynir gwybodaeth am y balansau a chronfeydd wrth gefn yn Atodiad 7.

9.2 Mae Atodiad 5, 'Ymdrin â'r Gyllideb Ysgolion yn 2026/27', yn egluro sefyllfa cyllideb ysgolion Gwynedd.

9.3 Wrth benderfynu ar gyllideb, rhaid i'r Cabinet a'r Cyngor ystyried effaith eu penderfyniadau o safbwynt cydraddoldeb yn unol â'r dyletswyddau statudol sydd ar y Cyngor drwy Ddeddf Cydraddoldeb 2010. Mae Atodiad 8 yn ymdrin yn benodol â'r ddyletswydd, gan gynnwys sylwadau'r swyddog cyllid statudol ar y Gyllideb gyfan o safbwynt cydraddoldeb. Mae'r asesiad yn cadarnhau fod effaith cyffredinol bositif o barhad y gwasanaethau ystyriwyd yn flaenoriaeth i'w hamddiffyn a'u hariannu i'r lefel galw ychwanegol, ac ni chredir y bydd unrhyw effeithiau negyddol yn sylweddol.

9.4 Mae'r Cyngor yn cydymffurfio â gofynion Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 ac mae'r argymhellion yn yr adroddiad yn seiliedig ac wedi eu datblygu yn unol â'r ddyletswydd statudol sydd ar y Cyngor dan Adran 3 i ymgymryd â datblygiad cynaliadwy yn ei holl weithgareddau. Yn unol â'r drefn arferol, rhoddir gwybodaeth fanylach am y Ddeddf Llesiant a chasgliadau perthnasol yn Atodiad 9.

9.5 Mae rhaid i'r swyddog cyllid statudol fynegi barn am gadernid yr amcangyfrifon. Cyflwynir asesiad o risgiau a chadarnhad priodol yn Atodiad 10.

---

**Barn yr aelod lleol**
Dim yn fater lleol

---

**Barn y swyddogion statudol**

**Swyddog Monitro:**
Er mai mater i'r Cyngor llawn ydi penderfynu yn derfynol ar y Gyllideb a'r Dreth Cyngor cyfrifoldeb y Cabinet ydi argymell hyn. Mae'n bwysig fod y Cabinet yn rhoi argymhelliad clir ynglŷn â'i gynlluniau gwario a'r gyllideb ddrafft ac mae'r adroddiad hwn yn cyflawni hynny. Unwaith y bydd y Cyngor wedi cytuno ar y ffynonellau cyllido, yna'r Cabinet fydd yn gyfrifol am y gwariant a'r blaenoriaethu oddi fewn i'r gyllideb honno.

**Pennaeth Cyllid:**
Rwyf wedi cydweithio gyda'r Aelod Cabinet i baratoi'r adroddiad yma ac yn cadarnhau'r cynnwys. Wedi ystyried yr holl risgiau amlinellir yn Atodiad 10 i'r adroddiad, a'r camau lliniaru, rwyf o'r farn fod Cyllideb y Cyngor am 2026/27 yn gadarn, yn ddigonol, ac yn gyraeddadwy.

**ATODIADAU**

| | |
|---|---|
| 1 | Cyllidebau Arfaethedig |
| 2 | Crynodeb Bidiau |
| 2a | Bidiau Refeniw Parhaol |
| 2b | Bidiau Cyfalaf |
| 3 | Arbedion a Thoriadau |
| 4 | Cyfalaf |
| 5 | Ymdrin â'r Gyllideb Ysgolion yn 2026/27 |
| 6 | Treth Cyngor |
| 7 | Balansau |
| 8 | Asesu'r Effaith ar Nodweddion Cydraddoldeb, y Gymraeg ac Anfantais Economaidd-Gymdeithasol |
| 9 | Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 |
| 10 | Datganiad y Swyddog Cyllid Statudol ar Gadernid yr Amcangyfrifon |
| 11 | Penderfyniad Ffurfiol |

ATODIAD 1 - CRYNODEB CYLLIDEB

## CYLLIDEBAU ARFAETHEDIG 2026/27 FESUL GWASANAETH

| ADRANNAU | Cyllideb Sylfaenol 2025/26 £'000 | Chwyddiant Cyflogau, YG a Phensiynau £'000 | Chwyddiant Arall £'000 | Demograffi £'000 | Trosglwyddiad Setliad £'000 | Addasiad Targed Incwm Grant YG £'000 | Pwysau ar Wasanaethau £'000 | Rhyddhau Llawr Setliad 2025/26 £'000 | Arbedion Presennol £'000 | Cynnydd Premiwm Cartrefi Gwag Hir Dymor £'000 | Addasiadau Amrywiol £'000 | Cyllideb Sylfaenol 2026/27 £'000 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Addysg Canolog | 20,908 | 103 | 293 | 0 | 0 | 0 | 2,114 | 0 | (99) | 0 | (110) | 23,209 |
| Cyllideb Ysgolion | 100,846 | 3,158 | 612 | (846) | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 50 | 103,820 |
| Economi a Chymuned | 4,909 | 92 | 80 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | (6) | 5,075 |
| Oedolion, Iechyd a Llesiant | 82,365 | 355 | 2,839 | 0 | 0 | 0 | 3,326 | 0 | (143) | 0 | 136 | 88,878 |
| Gwasanaeth Busnes a Chomisiynu Gofal | 3,133 | 30 | 14 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | (18) | 3,159 |
| Plant a Chefnogi Teuluoedd | 25,984 | 300 | 370 | 0 | 0 | 0 | 791 | 0 | 0 | 0 | 0 | 27,445 |
| Priffyrdd, Peirianneg ac YGC | 17,676 | 201 | (82) | 0 | 0 | 0 | 180 | 0 | (91) | 0 | (100) | 17,784 |
| Amgylchedd | 18,028 | 146 | 96 | 0 | 0 | 0 | 152 | 0 | (200) | 0 | 7 | 18,229 |
| Tai ac Eiddo | 9,727 | 105 | 279 | 0 | 0 | 0 | 2,000 | 0 | 0 | 0 | (12) | 12,099 |
| Tîm Rheoli Corfforaethol a Chyfreithiol | 2,831 | 20 | 4 | 0 | 0 | 0 | 619 | 0 | 0 | 0 | (5) | 3,469 |
| Gwasanaethau Corfforaethol | 8,085 | 167 | (6) | 0 | 0 | 0 | 439 | 0 | (50) | 0 | 21 | 8,656 |
| Cyllid | 9,167 | 96 | 19 | 0 | 0 | 0 | 221 | 0 | 0 | 0 | (2) | 9,501 |
| CYFANSWM ADRANNAU | 303,659 | 4,773 | 4,518 | (846) | 0 | 0 | 9,842 | 0 | (583) | 0 | (39) | 321,324 |
| Materion Corfforaethol a Chyfalaf | 56,944 | 162 | 2,086 | | 164 | 3,633 | 68 | (1,572) | (14) | 894 | (544) | 61,821 |
| CYFANSWM GROS | 360,603 | 4,935 | 6,604 | (846) | 164 | 3,633 | 9,910 | (1,572) | (597) | 894 | (583) | 383,145 |
| Llai Praesept Cynghorau Cymuned | (3,444) | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | (3,444) |
| CYFANSWM GWARIANT GROS | 357,159 | 4,935 | 6,604 | (846) | 164 | 3,633 | 9,910 | (1,572) | (597) | 894 | (583) | 379,701 |
| Balansau a Reserfau Penodol | (343) | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 343 | 0 | 0 | 0 |
| **CYFANSWM GWARIANT NET =** | **356,816** | **4,935** | **6,604** | **(846)** | **164** | **3,633** | **9,910** | **(1,572)** | **(254)** | **894** | **(583)** | **379,701** |
| | | | | | | | | | | | | |
| ***Ariannwyd Drwy:-*** | | | | | | | | | | | | |
| Grant | 248,390 | | | | | | | | | | | 264,009 |
| Treth Cyngor | 108,426 | | | | | | | | | | | 115,692 |
| **Cyfanswm Incwm** | **356,816** | | | | | | | | | | | **379,701** |

APPENDIX 1 - BUDGET SUMMARY

## PROPOSED BUDGETS BY DEPARTMENT 2025/26

| DEPARTMENTS | Base Budget 2025/26 £'000 | Pay, NI and Pension Inflation £'000 | Other Inflation £'000 | Demography £'000 | Transfer to the Settlement £'000 | NI Grant Income Target Adjustment £'000 | Pressure on Services £'000 | 2025/26 Settlement Floor Funding £'000 | Present Savings £'000 | Long Term Empty Dwellings Premium Increase £'000 | Various Adjustments £'000 | Base Budget 2026/27 £'000 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Central Education | 20,908 | 103 | 293 | 0 | 0 | 0 | 2,114 | 0 | (99) | 0 | (110) | 23,209 |
| Schools' Budget | 100,846 | 3,158 | 612 | (846) | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 50 | 103,820 |
| Economy and Community | 4,909 | 92 | 80 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | (6) | 5,075 |
| Adults, Health and Wellbeing | 82,365 | 355 | 2,839 | 0 | 0 | 0 | 3,326 | 0 | (143) | 0 | 136 | 88,878 |
| Business Service and Care Commissioning | 3,133 | 30 | 14 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | (18) | 3,159 |
| Children and Supporting Families | 25,984 | 300 | 370 | 0 | 0 | 0 | 791 | 0 | 0 | 0 | 0 | 27,445 |
| Highways, Engineering and YGC | 17,676 | 201 | (82) | 0 | 0 | 0 | 180 | 0 | (91) | 0 | (100) | 17,784 |
| Environment | 18,028 | 146 | 96 | 0 | 0 | 0 | 152 | 0 | (200) | 0 | 7 | 18,229 |
| Housing and Property | 9,727 | 105 | 279 | 0 | 0 | 0 | 2,000 | 0 | 0 | 0 | (12) | 12,099 |
| Corporate Management Team and Legal | 2,831 | 20 | 4 | 0 | 0 | 0 | 619 | 0 | 0 | 0 | (5) | 3,469 |
| Corporate Services | 8,085 | 167 | (6) | 0 | 0 | 0 | 439 | 0 | (50) | 0 | 21 | 8,656 |
| Finance | 9,167 | 96 | 19 | 0 | 0 | 0 | 221 | 0 | 0 | 0 | (2) | 9,501 |
| DEPARTMENTAL TOTAL | 303,659 | 4,773 | 4,518 | (846) | 0 | 0 | 9,842 | 0 | (583) | 0 | (39) | 321,324 |
| Corporate and Capital Matters | 56,944 | 162 | 2,086 | 0 | 164 | 3,633 | 68 | (1,572) | (14) | 894 | (544) | 61,821 |
| TOTAL GROSS | 360,603 | 4,935 | 6,604 | (846) | 164 | 3,633 | 9,910 | (1,572) | (597) | 894 | (583) | 383,145 |
| Less Community Council Precepts | (3,444) | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | (3,444) |
| TOTAL GROSS EXPENDITURE | 357,159 | 4,935 | 6,604 | (846) | 164 | 3,633 | 9,910 | (1,572) | (597) | 894 | (583) | 379,701 |
| Balances and Specific Reserves | (343) | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 343 | 0 | 0 | 0 |
| **NET EXPENDITURE TOTAL =** | **356,816** | **4,935** | **6,604** | **(846)** | **164** | **3,633** | **9,910** | **(1,572)** | **(254)** | **894** | **(583)** | **379,701** |
| ***Financed By:-*** | | | | | | | | | | | | |
| Grant | 248,390 | | | | | | | | | | | 264,009 |
| Council Tax | 108,426 | | | | | | | | | | | 115,692 |
| **Total Income** | **356,816** | | | | | | | | | | | **379,701** |

**ATODIAD 2 - CRYNODEB BIDIAU**

| | Bidiau | Parhaol (£) | Cyfalaf (£) |
|---|---|---|---|
| Grŵp A | Adnoddau ychwanegol i gyfarch y gwir gost o ddarparu gwasanaethau presennol gan ddelio gyda gorwariant hanesyddol tu hwnt i allu'r adran i'w ddatrys a/neu pwysau ychwanegol yn 2026/27 oherwydd cynnydd mewn costau a chynnydd yn y galw | 7,554,920 | |
| Grŵp B | Materion mae'r Cabinet eisoes wedi gwneud penderfyniad i'w cefnogi yn ystod y flwyddyn ac felly wedi rhagdybio'r broses bidio | 1,302,840 | |
| Grŵp C | Materion newydd ar gyfer 2026/27 | 1,052,820 | |
| Cyfalaf 1 | Ysgol y Faenol - cyllid i gynyddu gofod parcio at ddefnydd yr ysgol a'r ganolfan gymunedol | | 300,000 |
| Cyfalaf 2 | Cronfa Cefnogi Cymunedau (Cist Gwynedd) | | 150,000 |
| Cyfalaf 3 | Adeiladu wal amddiffyn llifogydd ar hyd yr Afon Beuno, Bontnewydd. Cyfraniad 15% tuag at grant (cynllun £2.5m) | | 70,000 |
| Cyfalaf 4 | Cyllid i ariannu addasiadau i Bencadlys y Cyngor er mwyn cydymffurfio â gofynion ym maes llesiant a chydraddoldeb | | 90,000 |
| Cyfalaf 5 | Bwrdd Trawsnewid Digidol – cyfrifon digidol i'r gweithlu - Gwariant un tro ar offer digidol | | 230,010 |
| | | **9,910,580** | **840,010** |

**ATODIAD 2a - BIDIAU REFENIW PARHAOL 2026/27**

| Grŵp | Teitl y Bid | Swm Parhaol a argymhellir (£) | |
|---|---|---|---|
| **A** | **Adnoddau ychwanegol i gyfarch y gwir gost o ddarparu gwasanaethau presennol gan ddelio gyda gorwariant hanesyddol tu hwnt i allu'r adran i'w ddatrys a/neu pwysau ychwanegol yn 2026/27 oherwydd cynnydd mewn costau a chynnydd yn y galw.** | | |
| 1A | Cynnydd yng nghostau cludiant ysgolion (bysus ysgol) | 664,000 | |
| 2A | Brecwast am ddim – Cynradd | 90,000 | |
| 3A | Digolledu yn sgil lleihau Grant Cymorth Gwasanaeth Ieuenctid er mwyn gwarchod y ddarpariaeth bresennol | 66,090 | |
| 4A | Cynnydd yng nghost Systemau TG (Cynllunio, y cwmwl a llinell gymorth arbenigol) | 112,430 | |
| 5A | Ariannu swydd Pennaeth Cynorthwyol Trafnidiaeth gan fod arian dros dro wedi dod i ben | 101,810 | |
| 6A | Costau ynghlwm â derbyn incwm drwy daliadau cerdyn | 191,450 | |
| 7A | Ariannu costau swyddi yn ymwneud â systemau ffeilio yn barhaol ar ôl i arian dros dro ddod i ben | 69,390 | |
| 8A | Cynnydd yn y niferoedd achosion pobl hŷn (ThG, Diogelu, Asesu risg) | 161,060 | |
| 9A | Cynyddu cyllideb gofal preswyl Iechyd Meddwl o ganlyniad i gynnydd yn y galw | 1,126,850 | |
| 10A | Cynyddu cyllideb Llety Cefnogol i Oedolion gydag Anableddau i fyw yn annibynnol– nifer uwch o unigolion angen cefnogaeth | 1,092,350 | |
| 11A | Cefnogi a gofalu am fwy o unigolion gydag anableddau dysgu wrth iddynt droi yn 18 | 277,000 | |
| 12A | Cynnydd mewn adnoddau staffio ar draws yr holl Gartrefi Gofal i ymateb i safonau gofal cenedlaethol | 464,000 | |
| 13A | Lleihau mewn incwm o gynlluniau Aberthu Cyflog | 15,000 | |
| 14A | Swyddog e-ddysgu i arwain ar fodiwlau hyfforddiant mandadol gan ei wneud yn barhaol gan fod arian dros dro wedi dod i ben | 53,370 | |
| 15A | Parhau i gyllido swydd Iechyd Galwedigaethol gan fod cyllid dros dro wedi dod i ben | 49,510 | |
| 16A | Cyfrifoldebau ychwanegol ar nifer o swyddi yn sgil gofynion statudol newydd yn y maes plant | 70,790 | |
| 17A | Gweithwyr ychwanegol yn sgil derbyn Ceiswyr Lloches Heb Rieni fel rhan o'r Cynllun Trosglwyddo Cenedlaethol | 120,000 | |
| 18A | Cefnogaeth i Deuluoedd – plant mewn gofal sy'n parhau i fod adref efo'u teuluoedd (statud newydd) | 320,000 | |
| 19A | Ariannu cynnydd mewn cyfraniadau tuag at gostau'r Gwasanaeth Mabwysiadu Gogledd Cymru | 60,000 | |
| 20A | Cyfraniadau i achosion ar y cyd rhwng Derwen a'r Bwrdd Iechyd a chostau am wasanaethau arbennigol meddygol a chyfreithiol yn ymwneud ag achosion yn y maes Plant | 250,000 | |
| 21A | Cynnal Tiroedd - cynnydd costau agor beddi oherwydd gofynion iechyd diogelwch statudol newydd a cholled incwm o golli contractau allanol dros sawl blwyddyn | 180,000 | |
| 22A | Cynyddu amser y Crwner i 3.5 diwrnod yr wythnos | 19,820 | |
| 23A | Gwaith Cynnal a Chadw hanfodol i adeiladau'r Cyngor megis ysgolion, cartrefi gofal, llyfrgelloedd a chanolfannau hamdden | 2,000,000 | |
| | | | **7,554,920** |
| **B** | **Materion mae'r Cabinet eisoes wedi gwneud penderfyniad i'w cefnogi yn ystod y flwyddyn ac felly wedi rhagdybio'r broses bidio** | | |
| 1B | Sefydlu gwasanaeth Anghenion Dysgu Ychwanegol Gwynedd a'r Unedau Cyfeirio Disgyblion – Ailstrwythuro'r gwasanaeth Anghenion Dysgu Ychwanegol a Chynhwysiad | 437,430 | |
| 2B | Swydd Hyrwyddwr Diogelu | 49,510 | |
| 3B | Cynnydd ffioedd gofal mudiadau trydydd sector i gefnogi unigolion ag Anableddau Dysgu | 231,400 | |
| 4B | Costau ychwanegol yn y maes diogelu yn sgil Cynllun Ymateb Cyfiawnder trwy ein Dewrder | 584,500 | |
| | | | **1,302,840** |

| | | | |
|---|---|---|---|
| **C** | **Materion newydd ar gyfer 2026/27** | | |
| 1C | Cynyddu’r Gyllideb Ysgolion Arbennig i gyd-fynd â’n dyletswyddau statudol | 252,000 | |
| 2C | Cynyddu’r Gyllideb Anghenion Dysgu Ychwanegol ysgolion prif lif | 563,000 | |
| 3C | Cydlynydd Siarter Iaith Gymraeg Ysgolion Gwynedd - ariannu yn llawn amser yn hytrach na rhan amser fel yn bresennol | 41,840 | |
| 4C | Gweinyddu profion ar hap (alcohol a chyffuriau) | 10,000 | |
| 5C | Swyddog Cynnwys Cyfryngau Cymdeithasol i hyrwyddo prif negeseuon a rhannu gwybodaeth amserol gyda’r cyhoedd | 56,990 | |
| 6C | Swyddog Craffu / Y Gymraeg i ymdopi â’r cynnydd yn y rhaglenni gwaith | 45,830 | |
| 7C | Cyfrifon digidol i’r gweithlu rheng flaen allan yn y maes | 68,160 | |
| 8C | Parhau i ariannu cyfraniad tuag at gostau Mantell Gwynedd ar ôl i gyllideb dros dro ddirwyn i ben | 15,000 | |
| | | | **1,052,820** |
| | **Cyfanswm** | | **9,910,580** |

**ATODIAD 2b - BIDIAU CYFALAF**

| **BIDIAU CYFALAF 2026/27** | | |
| --- | --- | --- |
| **Bid** | **Teitl y Bid** | **Swm a argymhellir (£)** |
| Cyfalaf 1 | Ysgol y Faenol - cyllid i gynyddu gofod parcio at ddefnydd yr ysgol a defnyddwyr Canolfan Penrhosgarnedd i liniaru risgiau diogelwch yn dilyn cynyddu capasiti'r ysgol | 300,000 |
| Cyfalaf 2 | Cronfa Cefnogi Cymunedau (Cist Gwynedd) o fewn Adran Economi a Chymuned er mwyn cefnogi grwpiau gwirfoddol i ddatblygu prosiectau mewn cymunedau lleol | 150,000 |
| Cyfalaf 3 | Cyllid i'r Adran Priffyrdd, Peirianneg a YGC er mwyn adeiladu wal amddiffyn llifogydd ar hyd yr Afon Beuno, Bontnewydd. Mae'r arian yn gyfraniad o 15% tuag at grant sydd yn ran o gynllun gwerth £2.5m. Bydd yn cyfrannu'n uniongyrchol at liniaru risg o lifogydd ar hyd Dol Beuno a'r stadau cyfagos. | 70,000 |
| Cyfalaf 4 | Cyllid i ariannu addasiadau i Bencadlys y Cyngor. Bydd yr addasiadau yn galluogi'r Cyngor i ymateb i ofynion ym maes llesiant a chydraddoldeb a chydymffurfio a rheoliadau'r gweithle megis Iechyd, Diogelwch a Llesiant (1992) a Deddf Cydraddoldeb (2010) | 90,000 |
| Cyfalaf 5 | Bwrdd Trawsnewid Digidol – Bydd y gwariant un tro ar offer digidol yn ymateb i rwystrau gweithredol sy'n codi yn ddyddiol a sicrhau mynediad i gyfrifon digidol megis systemau a hyfforddiant digidol i weithlu'r Cyngor a lleihau'r ddibyniaeth ar brosesau 'papur' | 230,010 |
| | | **840,010** |

**ATODIAD 3**

**ARBEDION A THORIADAU**

**1.** Mae Cyngor Gwynedd wedi gwireddu £47m o gynlluniau arbedion ers 2015/16.

**2.** Unwaith eto eleni fel mewn blynyddoedd blaenorol nid oedd y grant gan Lywodraeth Cymru yn ddigonol i gwrdd â chwyddiant, a gan fod y pwysau mewn amrywiol feysydd megis gofal, gwastraff, a digartrefedd yn parhau, rydym wedi gorfod darganfod arbedion sylweddol.

**3.** Mae dau gynllun arbedion gwerth £91,000 gan yr Adran Priffyrdd, Peirianneg a YGC, un cynllun gwerth £98,500 gan yr Adran Addysg ac un cynllun gwerth £50,000 gan yr Adran Gwasanaethau Corfforaethol, sydd yn deillio o raglenni blaenorol o arbedion ond sydd yn berthnasol i 2026/27. Yn ychwanegol i hyn mae gwerth £81,000 o gynlluniau arbedion sydd wedi eu cymeradwyo yn 2025/26 ac wedi eu proffilio i 2026/27.

Mae'r cynlluniau eisoes wedi eu cymeradwyo gan y Cyngor, ac felly nid ydynt yn destun penderfyniad eleni. Maent hefyd wedi dilyn proses statudol priodol, gweler isod er gwybodaeth.

| **Arbediad** | **Cyfanswm £** |
|---|---:|
| Cyfuno'r gwaith carthffosiaeth a draeniau preifat gyda gwasanaeth arall o fewn yr Adran Priffyrdd, Peirianneg a YGC | 56,000 |
| Lleihau'r adnodd Gwasanaeth Fflyd o fewn yr Adran Priffyrdd, Peirianneg a YGC | 35,000 |
| Lleihau darpariaeth yn dilyn diddymu GwE | 98,500 |
| Lleihau adnodd yn yr Argraffdy | 50,000 |
| Cynlluniau arbedion wedi eu cymeradwyo yn 2025/26 wedi ei broffilio i 2026/27 | 81,000 |
| **CYFANSWM** | **320,500** |

**4.** Ar 20 Chwefror 2024, bu i'r Cabinet gymeradwyo gwerth £5.2m o arbedion a thoriadau ar gyfer cyllideb 2024/25 ymlaen, a ddaeth i rym yn unol â'r proffil isod, gyda gwerth £343,090 wedi eu proffilio ar gyfer 2026/27. Gweithredwyd y £5.2m yn ei gyfanrwydd wrth osod cyllideb yn 2024/25 ac felly nid yw arbedion 2025/26 a 2026/27 yn cynorthwyo i leihau'r bwlch ariannol yn y blynyddoedd hynny.

**PROFFIL CYNLLUNIAU ARBEDION A THORIADAU 2024/25 YMLAEN**

| | **2024/25 £** | **2025/26 £** | **2026/27 £** | **Cyfanswm £** |
|---|---|---|---|---|
| Proffil arbedion a thoriadau | 1,965,760 | 2,860,300 | 343,090 | **5,169,000** |

**5.** Yn sgil yr hinsawdd economaidd bresennol, mae'n anorfod fod rhaid i Awdurdodau Lleol barhau i edrych ar arbedion a thoriadau i gynorthwyo'r sefyllfa ariannol. Yn dilyn cyhoeddiad y setliad ariannol ar gyfer 2026/27, mae'r rhagolygon bellach yn llai argyfyngus na'r hyn oedd wedi ei ragweld yn wreiddiol. Er mai Gwynedd sydd yn y safle 20 o'r 22 o Gynghorau, mae'r cyhoeddiad bod llawr o 4.1% yn golygu nad oes angen brysio i weithredu arbedion ar gyfer 2026/27, ond bydd angen parhau i adnabod arbedion ar gyfer blynyddoedd dilynol sydd yn debygol o fod yn llawer fwy heriol. Bydd yr arbedion yn destun adroddiad yn ystod 2026/27.

**6.** Felly, i grynhoi, yr arbedion a thoriadau canlynol sydd wedi eu proffilio i'w gwireddu yn 2026/27:

| | **£** |
|---|---|
| Arbedion 25/26 wedi eu proffilio i 26/27 | 320,500 |
| Arbedion a thoriadau 24/25 wedi eu proffilio i 26/27 | 343,090 |
| **CYFANSWM** | **663,590** |

## CYFALAF

1. Tra bod cyllidebau refeniw awdurdodau lleol yn wynebu cyfyngiadau, mae cyllidebau cyfalaf hefyd dan bwysau, ac mae ymhlygiadau refeniw i wariant cyfalaf sydd heb ei ariannu drwy grant penodol.

2. Gosodir isod raglen arfaethedig ar gyfer y cynlluniau am y dair mlynedd nesaf:

| RHAGLEN GYFALAF | | | |
|---|---|---|---|
| | **2026/27 £'000** | **2027/28 £'000** | **2028/29 £'000** |
| **Cynlluniau'r Cyngor :** | | | |
| Cynlluniau Cymunedau Dysgu Cynaliadwy | 8,218 | 3,451 | 0 |
| Unedau Diwydiannol | 1,407 | 122 | 0 |
| Cynlluniau Cronfa Ffyniant Bro a Chyffredin | 4,917 | 708 | 0 |
| Cynlluniau Morwrol a Hamdden | 2,322 | 1,215 | 1,650 |
| Cartrefi/ Canolfannau Oedolion a Phlant | 3,464 | 700 | 0 |
| Ffyrdd, Pontydd a Bwrdeistrefol | 3,641 | 1,300 | 1,006 |
| Atal Llifogydd Arfordirol | 760 | 2,998 | 0 |
| Cynlluniau Amgylchedd a Gwastraff | 1,911 | 60 | 60 |
| Cynlluniau/Strategaeth Tai | 4,967 | 3,860 | 3,860 |
| Cynlluniau Eiddo | 244 | 194 | 194 |
| Cerbydau Adrannol | 6,532 | 1,879 | 244 |
| Cyfarpar Digidol | 785 | 1,249 | 976 |
| Cynlluniau Eraill | 511 | 712 | 362 |
| Bidiau Cyfalaf (Heb ddosrannu) | 500 | 500 | 500 |
| **CYFANSWM Y RHAGLEN** | **40,179** | **18,948** | **8,852** |

3. Bydd y rhaglen yn cael ei ariannu fel a ganlyn:

| ARIANNU'R RHAGLEN GYFALAF | | | |
|---|---|---|---|
| | **2026/27 £'000** | **2027/28 £'000** | **2028/29 £'000** |
| Benthyca Gyda Chefnogaeth | 4,063 | 4,063 | 4,063 |
| Benthyca Arall | 5,123 | 362 | 362 |
| Grantiau a Chyfraniadau | 14,410 | 4,878 | 2,547 |
| Derbyniadau Cyfalaf | 0 | 0 | 0 |
| Refeniw Adrannol a Chorfforaethol | 0 | 0 | 0 |
| Cronfa Cyfalaf | 9,076 | 4,350 | -670 |
| Cronfeydd Adnewyddu ac Eraill | 7,507 | 5,295 | 2,550 |
| **CYFANSWM ARIANNU'R RHAGLEN** | **40,179** | **18,948** | **8,852** |

4. Sefydlwyd strategaeth asedau o 2019/20 ymlaen gan y Cyngor ar 7 Mawrth 2019. Ar 11 Gorffennaf 2024 fe sefydlwyd strategaeth wedi ei ddiweddaru gan y Cyngor llawn gyda'r cyfnod wedi ei ymestyn hyd at 2033/34. Fe'i ymgorfforir fel rhan o'r Rhaglen Gyfalaf.

5. Sefydlwyd proffiliau i'r Cynlluniau gan y Prif Weithredwr mewn ymgynghoriad gyda'r Penaethiaid Adrannau ac yn ddibynnol ar ofynion y cynlluniau a'r adnoddau ar gael.

6. Mae'r tablau uchod felly yn adlewyrchu'n fras y gofynion cyfalaf a'r ariannu ar gyfer gosod cyllideb 2026/27 i 2028/29, tra bod y manylder ar y cynlluniau unigol wedi ei sefydlu gan y Cyngor yn y strategaeth asedau 10 mlynedd 2024/25 hyd 2033/34.

7. Mae'r ffigwr Benthyca Gyda Chefnogaeth a'r Grant Cyfalaf Cyffredinol yn y setliad ariannol gan Lywodraeth Cymru yn fwy yn 2026/27 na'r hyn a dybiwyd pan yn sefydlu'r strategaeth asedau ac mae'r rhaglen wedi ei addasu i gyd-fynd.

8. Felly, gofynnir i'r Cyngor llawn sefydlu rhaglen gyfan gwerth £40,179,430 ar gyfer 2026/27, i'w ariannu o'r ffynonellau a nodir yn y tabl yn rhan 3 uchod.

**ATODIAD 5**

**YMDRIN Â'R GYLLIDEB YSGOLION YN 2026/27**

1. **Cefndir:** Y bydd cynnydd arferol yn y cwantwm ysgolion Gwynedd eleni, gan fod y Cyngor (yn wahanol i rai awdurdodau lleol) yn ariannu chwyddiant, incrementau cyflog, a demograffi.

2. **Chwyddiant Cyflogau:** Bydd y gyllideb ysgolion yn cynyddu **£3.4m** ar gyfer cynnydd chwyddiant cyflogau tâl. Bydd hyn yn cyfarch cynnydd costau cyflogau athrawon o 4% am y 5 mis Ebrill – Awst, sef effaith blwyddyn lawn cytundeb tâl Medi 2025, a hefyd cost cynnydd pellach o 3% amcangyfrifir ar gyfer cytundeb tâl Medi 2026 (am y 7 mis Medi 2026 – Mawrth 2027). Mae cynnydd cyflog staff ategol Ebrill 2025 hefyd wedi'i gynnwys ac amcan pellach o 3% Ebrill 2026.

3. **Chwyddiant Arall**: Bydd y gyllideb ysgolion yn cynyddu **£599k** ar gyfer cynnydd chwyddiant cyffredinol eraill, yn bennaf a'r gostau ynni.

4. **Pensiwn Staff Ategol:** Bydd lleihad yn y gyfradd cyfraniad cyflogwr ar bensiwn staff ategol o 3% o Ebrill 2026, yn arwain at leihad cost o (£455k).

5. **Incrementau Cyflog Staff:** Ychwanegir £562k i gyllideb ar gyfer 2026/27 i ymdrin ag incrementau a lleihad trosiant staff o (£340k).

6. **Demograffi (niferoedd disgyblion):** Bydd y gyllideb ysgolion yn lleihau eleni oherwydd yr addasiadau "demograffi" arferol, sy'n deillio o newidiadau mewn niferoedd disgyblion. Defnyddir gwir nifer disgyblion Medi 2025 i gyfrifo dyraniadau 2026/27. Mae'r sefyllfa yn amrywio o ysgol i ysgol, ond ar y cyfan mae effaith lleihad niferoedd disgyblion yn golygu y byddai'r gyllideb ysgolion yn ei gyfanrwydd yn lleihau (£846k) , sy'n cynnwys lleihad (£637k) i'r sector Gynradd, lleihad (£659k) i'r sector Uwchradd, a chynnydd o £450k yn yr ysgolion arbennig. Bydd ysgolion unigol yn disgwyl cynnydd / gostyngiad yn eu dyraniadau yn gymesur â'r newid mewn niferoedd disgyblion yn yr ysgolion.

7. **Bidiau Argymhellir eu Cymeradwyo:** Gweler yn y rhan bidiau (Atodiad 2) o'r adroddiad hwn fod argymhelliad i gytuno i ariannu 'bidiau' parhaol 2026/27 i'r Adran Addysg gwerth cyfanswm o **£2,158k**, gan gynnwys tuag at gludiant ysgolion ac anghenion dysgu ychwanegol ac integreiddio.

8. **Arbedion a Thoriadau:** Ar ôl gweithredu toriadau â cyfanswm o £1.966m yn 2023/24 a 2024/25, nid oes bwriad gweithredu arbedion pellach ar ysgolion yn 2025/26 na 2026/27.

9. **Grantiau Penodol Addysg:** Ymddengys y bydd grantiau penodol gan Lywodraeth Cymru yn parhau ym maes Addysg yn 2026/27 gan ddilyn yr un sail dyrannu â 2025/26.

10. **Casgliad Cyffredinol:** Wedi cymryd yr holl ffactorau uchod i ystyriaeth, bydd y gyllideb ysgolion yn uwch yn 2026/27 o'i gymharu gyda 2025/26.

**ATODIAD 6**

**TRETH CYNGOR**

1. Mae'n benderfyniad allweddol i aelodau'r Cyngor Llawn ei wneud, yn sgil yr ystyriaethau a gyflwynir yn yr adroddiad yma, i sefydlu union lefel y cynnydd Treth Cyngor ar gyfer 2026/27. Yr allwedd i hyn yw cael balans priodol rhwng yr angen i wario ar wasanaethau i'r rhai mwyaf bregus yn ein cymdeithas, a'r cynnydd treth sydd yn addas i'w godi ar drigolion Gwynedd.

2. Yn y tybiaethau hanesyddol a wnaed yn ein strategaeth ariannol tymor canolig, defnyddiwyd ffigwr o 5% fel amcangyfrif o'r cynnydd cyfartalog yng Nghymru. Fodd bynnag, mae'r lefel bu'n rhaid ei godi yn amrywio'n flynyddol, a hynny i raddau helaeth i adlewyrchu'r bwlch oedd yn bodoli yn sgil setliad grant Llywodraeth Cymru.

3. Nodir isod y cynnydd a welwyd yn Nhreth Cyngor Gwynedd, a'r cynnydd a welwyd ar gyfartaledd ar draws Cymru, ers 2016/17:

| **Blwyddyn** | **Cyngor Gwynedd** | **Cymru** |
|---|---|---|
| 2025/26 | 8.66% | 7.1% |
| 2024/25 | 9.54% | 7.8% |
| 2023/24 | 4.95% | 5.5% |
| 2022/23 | 2.95% | 2.2% |
| 2021/22 | 3.7% | 3.6% |
| 2020/21 | 3.9% | 4.6% |
| 2019/20 | 5.8% | 6.2% |
| 2018/19 | 4.8% | 4.9% |
| 2017/18 | 2.8% | 3.0% |
| 2016/17 | 4.0% | 3.6% |

Yn 2025/26 roedd lefel Treth Cyngor Band D Cyngor Gwynedd yn £1,907 tra roedd lefel treth gyfartalog siroedd Cymru yn £1,747.

Ceir mwy o fanylion yn y ddogfen yma (sydd ar gael yn Saesneg yn unig): Council Tax levels: April 2025 to March 2026 | GOV.WALES

4. Eleni, argymhellir codi'r dreth 5.17% ar gyfer 2026/27. Byddai hynny'n cynhyrchu £116m o dreth (o'i gymharu â £108m yn 2025/26), sy'n cynnwys £9.9m o gynnyrch Premiwm. Byddai hynny'n gyfystyr â chynnydd yn y Dreth Cyngor o £98.62 i eiddo mewn Band D, neu £1.90 yr wythnos. Bydd y dreth a godir gan y Comisiynydd Heddlu a Throsedd (cynnydd o 7.01% ar gyfer 2026/27) a'r cynghorau cymuned (% amrywiol) yn ychwanegol i hyn wrth gwrs.

5. Mae dros 8,335 o dai yn derbyn elfen o gymorth tuag at eu Treth Cyngor trwy'r Cynllun Gostyngiad Treth Cyngor, ac mae dros 61% o eiddo Gwynedd mewn bandiau is na band D. Yn ogystal â hynny, mae ystod eang o eithriadau a disgowntiau statudol yn bodoli, sy'n berthnasol i statws yr eiddo.

6. Ni wyddom yn union eto beth fydd y cynnydd cyfartalog ar draws Cymru yn 2026/27, ond yr wybodaeth ddiweddaraf yw y bydd amrediad eithaf eang ar draws Cymru. Mae'r cynnig gerbron i godi'r dreth 5.17% yn gyson â'r sefyllfa ar draws y gogledd. Byddai pob 1% ychwanegol o dreth yn addasu'r bwlch ariannol y byddem angen ei ddarganfod o tua £1,100,040. Felly, byddai 3.5% yn golygu addasu'r bwlch ariannol tua £3,850,150 tra byddai 5% yn golygu addasu'r bwlch ariannol o tua £5,500,210.

7. Mae'r dewis rhwng cynnal gwasanaethau a threthu o hyd yn un anodd, wrth gwrs, a mater i'r holl aelodau yw pwyso a mesur a dod i'r balans y maent yn ystyried sy'n briodol. Fodd bynnag, ymhellach i drafodaethau anffurfiol mewn fforymau aelodau, **argymhellir cynnydd Treth Cyngor o 5.17%, fyddai'n gynnydd wythnosol o £1.90 neu £98.62 yn flynyddol, gyda threth Band D o £2,006.11 am 2026/27.**

**CYNNYRCH PREMIWM TRETH CYNGOR AR EIDDO GWAG AC AIL GARTREFI**

8. Yng nghyfarfod y Cyngor Llawn ar 4 Rhagfyr 2025, penderfynwyd parhau gyda'r premiwm o 150% ar ail gartrefi ac i gynyddu'r premiwm ar eiddo sydd wedi bod yn wag am 12 mis neu fwy o 100% i 150% ar gyfer 2026/27. Amcangyfrifir y bydd y Cyngor yn derbyn £9.9m o incwm yn 2026/27 trwy'r premiwm, sy'n gynnydd o £0.9m. Mae £6.9m o'r arian wedi ei neilltuo i gronfa er mwyn gweithredu'r Cynllun Gweithredu Tai, fydd yn anelu i ddarparu tai ar gyfer pobl ifanc yn ein cymunedau, a £3m i'r gyllideb digartrefedd.

9. Rhaid ymgorffori'r holl incwm a chyfarch gwariant perthnasol yng nghyllideb 2026/27.

**ATODIAD 7**

**BALANSAU**

1. Mae awdurdodau lleol angen lefel darbodus o 'gyfalaf gweithredol' i gynnal llif arian digonol ac i gyfarch gwariant annisgwyl. Rhagwelir y bydd gan y Cyngor falansau cyffredinol o tua £7.9m ar ddiwedd y flwyddyn ariannol hon, yn cynrychioli tua 1.3% o wariant refeniw gros y Cyngor.

2. Rydym wedi nodi, ar fwy nag un achlysur, oherwydd yr amgylchiadau tymhestlog y byddwn yn eu hwynebu dros y blynyddoedd i ddod, ei fod yn briodol cadw symiau wrth gefn er mwyn medru ymdrin â phroblemau a allai godi.

3. Nid oes unrhyw beth wedi digwydd yn y cyfamser i newid y farn yma, galw am wasanaethau gofal, digartrefedd a gwastraff yn parhau sydd yn golygu fod y risg yn parhau. Felly, mae'r angen i sicrhau fod gennym falansau priodol i fedru dygymod gydag unrhyw sioc ariannol dal yn berthnasol.

4. **Mae gan y Cyngor nifer o reserfau penodol** sydd wedi eu sefydlu i gwrdd ag anghenion gwariant penodol. Mae'r rhain hefyd yn rhan o gyllideb y Cyngor, wrth gwrs, ac wedi'u craffu yn flynyddol. Rhoddwyd sylw i'r reserfau penodol gan y Cabinet ar 13 Mai 2025 a gan y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio ar 22 Mai 2025, pan gymeradwywyd i drosglwyddo £3.775 miliwn o gronfeydd amrywiol i'r Gronfa Trawsffurfio, gan hefyd dad ymrwymo gwerth £375,000 o'r Gronfa Trawsffurfio ac hynny ar gyfer ariannu blaenoriaethau'r Cyngor a chyllido bidiau un-tro i'r dyfodol. Rwy'n adolygu lefel y reserfau yma'n barhaus, a **bwriedir cynnal adolygiad eto erbyn Mai 2026**, i ystyried faint o le fydd yna i'r Cyngor newid ei flaenoriaethau y tu mewn i'r reserfau yma.

5. Yn ei adroddiad "Ymdrin â'r Heriau Ariannol sy'n wynebu Llywodraeth Leol yng Nghymru" (2014), mae **Archwilio Cymru wedi datgan** (ym mharagraff 1.8):

   *"Gall cynghorau ddefnyddio cronfeydd wrth gefn i'w helpu i gydbwyso eu cyllidebau lle nad yw cynlluniau arbedion yn cyflawni'r canlyniadau disgwyliedig neu lle mae'r incwm yn llai na'r disgwyl. Fodd bynnag,* ***ni fyddai fel arfer yn briodol cyllido gwariant rheolaidd o gronfeydd wrth gefn.*** *Mae lefel synhwyrol o gronfeydd wrth gefn y gellir eu defnyddio yn elfen allweddol o sefydlogrwydd ariannol; bydd isafswm y lefel briodol yn amrywio gan ddibynnu ar rwymedigaethau hysbys a phosibl awdurdod a'i gynlluniau gwariant. Ceir arwyddion bod ambell gyngor yn dibynnu gormod ar gronfeydd wrth gefn cyffredinol i ymdrin â diffyg yn y gyllideb, yn hytrach na cheisio mabwysiadu dulliau mwy cynaliadwy, sy'n aml yn golygu gwneud penderfyniadau amhoblogaidd."*

6. Ategwyd y neges yma ymhellach gan Archwilio Cymru, sydd wedi adrodd yn Hydref 2020 ar gynaliadwyedd ariannol awdurdodau lleol Cymru. Tra mae cronfeydd wrth gefn

defnyddiadwy Cyngor Gwynedd ymysg chwartel uchaf yr amrediad o awdurdodau lleol Cymru (yn nhermau maint eu cronfeydd defnyddiadwy), **barn Archwilio Cymru yw:**

> *“(9) fod rhai cynghorau mewn sefyllfa well o lawer na’i gilydd i ddod drwy her ariannol fel y pandemig. Enghreifftir hyn yn fwyaf amlwg gan y lefelau amrywiol o gronfeydd wrth gefn defnyddiadwy a oedd yn cael eu dal gan gynghorau”, a (18)* ***bod “lefel y cronfeydd wrth gefn defnyddiadwy sydd ar gael i gyngor yn un o ddangosyddion allweddol cydnerthedd a chynaliadwyedd ariannol”.***

Mae copi o’r adroddiad i’w gael yma:
Cynaliadwyedd Ariannol Llywodraeth Leol o ganlyniad i'r Pandemig COVID-19 | Audit Wales

Yn fwy diweddar ym Medi 2025, yn eu hadroddiad “Rheolaeth Strategol ar Falansau a Chronfeydd wrth Gefn” ar reolaeth strategol ar falansau a chronfeydd wrth gefn y Cyngor. Barn Archwilio Cymru oedd fod y Cyngor gyda trefniadau llywodraethu clir a strwythuredig ar gyfer rheoli ei gronfeydd wrth gefn. Ac mai cryfder allweddol yw’r broses "gynaeafu" barhaus, sy'n adolygu cronfeydd wrth gefn ar sawl adeg drwy gydol y flwyddyn.

Mae copi o’r adroddiad i’w gael yma:
Cyngor Gwynedd – Rheolaeth Strategol ar Falansau a Chronfeydd wrth Gefn | Audit Wales

7. Rwy’n argyhoeddedig fod defnydd y Cyngor o falansau yn weithred gwbl briodol.

8. Mae balansau’r Cyngor wedi bod yn arf allweddol. Gan y bydd y Cyngor â balansau o tua £7.9 miliwn, byddwn wedi cadw’r swmp o’r balansau wrth gefn eto, fel eu bod ar gael i ‘bontio’r’ sefyllfa ariannol os bydd angen.

**ATODIAD 8**

# Asesu'r Effaith ar Nodweddion Cydraddoldeb, y Gymraeg ac Anfantais Economaidd-Gymdeithasol

Mae'n ofynnol i'r Cyngor (dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010) ystyried yr effaith fydd newid mewn unrhyw bolisi neu weithdrefn (neu greu polisi neu weithdrefn o'r newydd), yn ei gael ar bobl hefo nodweddion cydraddoldeb gwarchodedig. Mae gan y Cyngor hefyd ddyletswyddau cyffredinol ychwanegol i sicrhau tegwch a meithrin perthnasau da. Rhaid felly gwneud asesiad amserol cyn gwneud penderfyniad ar unrhyw newid perthnasol (h.y. sy'n cael effaith ar bobl hefo nodwedd warchodedig).

Mae hefyd yn ofynnol i'r Cyngor, dan ofynion Safonau'r Gymraeg (Adran 44 Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011) ystyried yr effaith fydd newid mewn unrhyw bolisi neu weithdrefn (neu greu polisi neu weithdrefn o'r newydd), yn ei gael ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg ac i sicrhau nad yw'r Gymraeg yn cael ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg. Mae'r ddogfen hon felly yn sicrhau bod y penderfyniadau yma'n diogelu ac yn hyrwyddo'r defnydd a wneir o'r Gymraeg.

O Ebrill 1af 2021 ymlaen mae gan y Cyngor ddyletswydd i roi sylw dyledus i ddod i'r afael ag anfantais economaidd-gymdeithasol mewn penderfyniadau strategol.

## 1) Manylion

### 1.1 Beth yw enw'r polisi / gwasanaeth dan sylw?

Cyllideb y Cyngor ar gyfer 2026/27.

### 1.2 Beth ydi pwrpas y polisi/gwasanaeth sy'n cael ei greu neu ei newid? Pa newidiadau sy'n cael eu hystyried?

Mae gosod cyllideb flynyddol yn ofyn statudol ar y Cyngor, yn ogystal â bod yn gam allweddol yn y drefn o gynnal stiwardiaeth ariannol dda.

### 1.3 Pwy sy'n gyfrifol am yr asesiad yma?

Dewi Morgan, Pennaeth Cyllid.

### 1.4 Pryd wnaethoch chi gychwyn yr asesiad? Pa fersiwn yw hwn?

Mawrth 2025, wrth ystyried rhagolygon ariannol y Cyngor ar gyfer y cyfnod 2026/27 hyd 2028/29 yn syth ar ôl sefydlu Cyllideb 2025/26.

Cymeradwywyd Cynllun Ariannol Tymor Canolig y Cyngor gan y Cabinet ar 16 Medi 2025 – roedd y cynllun hwn yn adnabod bwlch sylweddol fyddai angen ei lenwi trwy gyfuniad o gynnydd Treth Cyngor a thoriadau petai'r setliad yn aros heb fawr o gynnydd, fel oedd yn cael ei awgrymu ar y pryd.

Mae'r gwaith manwl wedi cychwyn ar 24 Tachwedd 2025, sef dyddiad cyhoeddi setliad refeniw a chyfalaf llywodraeth leol: dros dro 2026 i 2027.

Yn dilyn cyhoeddiad y setliad ariannol ar gyfer 2026/27, mae'r rhagolygon bellach yn llai argyfyngus na'r hyn oedd wedi ei ragweld yn wreiddiol. Er mai Gwynedd sydd yn y safle 20 o'r 22 o Gynghorau, mae'r cyhoeddiad bod llawr o 4.1% yn golygu nad oes angen brysio i weithredu arbedion ar gyfer 2026/27, ond bydd angen parhau i adnabod arbedion ar gyfer blynyddoedd dilynol sydd yn debygol o fod yn llawer fwy heriol. Bydd pob un o'r cynlluniau arbed unigol yn destun asesiad effaith cydraddoldeb.

## 2) Gweithredu

### 2.1 Pwy yw'r budd-ddeiliaid neu bartneriaid fydd yn rhaid gweithio hefo nhw i wneud yr asesiad yma?

Mae nifer o gamau gweithredu wedi eu cymryd wrth baratoi'r gyllideb yma:

- Trafodaethau rhwng cyfrifwyr gwasanaeth ac uwch swyddogion yr adrannau i ystyried bidiau a chynlluniau arbed.
- Holl aelodau'r Cyngor wedi cael eu gwahodd i seminar cyllideb ar 27 Ionawr 2026.
- Cydweithio agos rhwng y Prif Weithredwr, y Cyfarwyddwyr Corfforaethol, a swyddogion cyllid wrth ystyried bidiau.
- Aelodau'r Cabinet wedi cael cyfle i fynegi barn ar yr asesiad o'r bidiau.
- Y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio yn cael cyfle i graffu'r gyllideb ar 3 Chwefror.
- Y Cabinet i ystyried y gyllideb ddrafft ar 10 Chwefror a gwneud argymhelliad i'r Cyngor Llawn.
- Y Cyngor Llawn i osod y gyllideb ar gyfer 2026/27 a phennu cyfradd Treth Cyngor ar 5 Mawrth.

### 2.2 Pa gamau ydych chi wedi ei cymryd i ymgysylltu gyda pobl hefo nodweddion gwarchodedig, ynglŷn â'r iaith Gymraeg neu â chymunedau (un ai oherwydd lleoliad neu oherwydd angen) sy'n byw ag anfantais economaidd-gymdeithasol?

Mae'r gyllideb a amlinellir yma yn ceisio parhau i ddarparu deilliannau priodol i holl drigolion y sir. Nid yw'r cynnydd yng ngrant y Llywodraeth eleni yn ddigonol i gwrdd â'r galw am

wasanaethau yn ogystal â chwyddiant, felly er mwyn sefydlu cyllideb gytbwys rhaid codi'r dreth cyngor a chwilio am arbedion ariannol.

Mae pob cynllun arbedion sydd yn y rhaglen i'w weithredu wedi bod yn destun asesiad ariannol ac asesiad cyfreithiol Effaith Cydraddoldeb ar yr adeg y cafodd ei gyflwyno. Mae cydnabyddiaeth fod posibilrwydd i ni gael ardrawiad fyddai'n effeithio'n anghymesur ar rai gyda nodweddion gwarchodedig, ond lle'n bosib mae'r adrannau sy'n berchen ar yr arbedion wedi cynnig cynlluniau arbedion effeithlonrwydd yn hytrach na thoriadau. Hefyd, mae'r cynlluniau arbedion unigol wedi bod yn destun asesiadau effaith priodol sy'n cefnogi'r penderfyniadau ariannol gerbron yma.

### 2.3 Beth oedd canlyniad yr ymgysylltu?

Ni fu proses ymgynghori.

**2.4 Ar sail pa dystiolaeth arall ydych chi'n gweithredu?**

| |
|---|
| Mae cyllideb 2026/27 wedi ei lunio ar egwyddor "gynyddol". Hynny yw, defnyddir cyllideb 2025/26 fel cyllideb sylfaenol, gan wneud nifer o addasiadau cyn dod at gyllideb ddrafft ar gyfer 2026/27:<br><br>• Chwyddiant Cyflogau Staff<br>• Chwyddiant Arall (cyflenwyr)<br>• Cynnydd mewn ardollau<br>• Addasiadau i adlewyrchu newidiadau mewn demograffi<br>• Bidiau ariannol i ymdrin â phwysau ar wasanaethau<br>• Addasiadau technegol i'r gyllideb<br>• Cynnydd neu ostyngiad mewn costau benthyca a llog ar falansau<br>• Gwireddu arbedion sydd eisoes wedi cael eu cytuno<br>• Adnabod arbedion pellach sy'n rhaid eu cyflwyno<br><br>Mae pob un o'r bidiau ariannol a chynlluniau arbed wedi bod yn destun asesiadau effaith cydraddoldeb eu hunain.<br><br>Wrth gynllunio ein cyllidebau ar gyfer parhad gwasanaethau'r Cyngor, mae ein cyfrifwyr wedi rhoi ystyriaeth i gydraddoldeb ar bob lefel, gan ddefnyddio data a thystiolaeth am ddemograffi a thueddiadau wrth gynllunio ar lefel strategol. Yn yr un modd (ond yn fwy penodol) wrth ddod i benderfyniad ar gynlluniau arbedion unigol, mae penaethiaid adrannau'r Cyngor wedi dadansoddi effaith cynlluniau ar wasanaethau, a monitro'r effaith yn briodol.<br><br>Yn ogystal â chwrdd â phwysau chwyddiant, mae gan bob gwasanaeth yr hawl i gyflwyno cais am adnodd os yw'n ystyried fod angen cyllideb ychwanegol i sicrhau fod gwasanaethau'n parhau. Mae'r symiau a welir o dan y pennawd "pwysau ar wasanaethau" yn gydnabyddiaeth fod y Cyngor yn darparu cyllid digonol er mwyn sicrhau nad yw ein trefniadau ariannol yn cael effaith andwyol ar lefel y gwasanaethau a ddarperir. Fe geir manylion llawn yn Atodiad 2 ac fe welir fod rhan sylweddol o'r cyfanswm bidiau refeniw parhaol yn mynd i'r maes gofal cymdeithasol. |

**2.5 Oes yna unrhyw fylchau yn y dystiolaeth sydd angen ei gasglu?**

| |
|---|
| Na |

## 3) Adnabod yr Effaith

**3.1 Mae'n rhaid i'r Cyngor roi sylw dyledus i'r effaith fydd unrhyw newidiadau'n ei gael ar bobl hefo nodweddion cydraddoldeb isod. Beth yw'r effaith fydd y polisi/gwasanaeth newydd neu'r newidiadau arfaethedig yn ei gael ar bobl efo'r nodweddion hyn? Mae hefyd angen ystyried yr effaith ar anfantais economaidd-gymdeithasol ac ar y Gymraeg.**

| **Nodweddion** | **Sut fath o effaith? *** | **Ym mha ffordd? Beth yw'r dystiolaeth?** |
|---|---|---|
| **Hil (gan gynnwys cenedligrwydd)** | Positif | Hanfod ein cyllideb, a'r drefn sy'n arwain i fyny iddo, yw cael effaith bositif ar fywydau pobl Gwynedd. |
| **Anabledd** | Positif | Mae'r drefn bidiau sydd wedi ei fanylu yn Atodiad 2 yn cynnwys gwariant ychwanegol ar y gwasanaethau cymdeithasol, ac yn oedi neu ddileu arbedion yn y maes yma. |
| **Rhyw** | Positif | Hanfod ein cyllideb, a'r drefn sy'n arwain i fyny iddo, yw cael effaith bositif ar fywydau pobl Gwynedd. |
| **Oedran** | Positif | Mae'r gyllideb a argymhellir yn cynnwys cynnydd arwyddocaol yng nghyllideb yr Adran Oedolion, Iechyd a Llesiant. |
| **Cyfeiriadedd rhywiol** | Positif | Hanfod ein cyllideb, a'r drefn sy'n arwain i fyny iddo, yw cael effaith bositif ar fywydau pobl Gwynedd. |
| **Crefydd neu gred (neu ddiffyg cred)** | Positif | Hanfod ein cyllideb, a'r drefn sy'n arwain i fyny iddo, yw cael effaith bositif ar fywydau pobl Gwynedd. |
| **Ailbennu rhywedd** | Positif | Hanfod ein cyllideb, a'r drefn sy'n arwain i fyny iddo, yw cael effaith bositif ar fywydau pobl Gwynedd. |
| **Beichiogrwydd a mamolaeth** | Positif | Hanfod ein cyllideb, a'r drefn sy'n arwain i fyny iddo, yw cael effaith bositif ar fywydau pobl Gwynedd. |
| **Priodas a phartneriaeth sifil** | Positif | Hanfod ein cyllideb, a'r drefn sy'n arwain i fyny iddo, yw cael effaith bositif ar fywydau pobl Gwynedd. |

| | | |
|---|---|---|
| **Yr iaith Gymraeg** | Positif | Mae cyllideb y Cyngor yn cynnwys sicrhau fod adnoddau wedi cael eu rhoi yn eu lle i gefnogi gwasanaethau dwyieithog llwyr.<br><br>Cynllun Corfforaethol y Cyngor yw prif ddogfen polisi'r Cyngor ac mae'n cynnwys nifer o gynlluniau sy'n hyrwyddo'r Gymraeg. Mae'r gyllideb yn cael ei llunio er mwyn gweithredu'r polisi hwnnw.<br><br>Wrth lunio'r gyllideb rhoddwyd sylw penodol i Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol, gan gynnwys y saith nod llesiant. Mae hynny'n cynnwys rhoi sylw i'r chweched nod sef 'Diwylliant a'r Gymraeg'. |
| **Anfantais Economaidd-Gymdeithasol** | Positif | Mae natur gwasanaethau'r Cyngor yn golygu fod y pwysau ar wasanaethau yn diwallu anghyfartaledd economaidd-gymdeithasol gan fod y mesurau a argymhellir i ymdrin â phwysau ar wasanaethau yn cymryd hyn i ystyriaeth.<br><br>Mae cyllidebau'r Cyngor, ac yn enwedig y bidiau llwyddiannus, wedi eu llunio i sicrhau fod yr awdurdod yn gallu parhau i gyfeirio adnoddau i leihau gwahaniaethu ar sail anfantais economaidd-gymdeithasol.<br><br>Mae unrhyw gynnydd yn y gyfradd Treth Cyngor yn bwysau ariannol ar bobl Gwynedd, ond mae dros 8,100 yn derbyn peth cymorth tuag at eu Treth Cyngor drwy'r Cynllun Gostyngiad Treth Cyngor. Bydd yr aelodau etholedig yn dod i benderfyniad ar y balans briodol i'w gael rhwng cynnydd yn y Dreth Cyngor a'r angen i ddarparu gwasanaethau i bobl Gwynedd. |

**3.2 Mae'n ddyletswydd ar y Cyngor dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010 i gyfrannu'n bositif i gymdeithas decach trwy hybu cydraddoldeb a pherthynas dda yn ei weithgareddau ym meysydd oedran, rhyw, cyfeiriadedd rhywiol, crefydd, hil, trawsrywedd, anabledd a beichiogrwydd a mamolaeth. Mae'n rhaid i'r Cyngor roi sylw dyledus i'r ffordd mae unrhyw newid yn effeithio'r dyletswyddau yma.**

| **Dyletswyddau Cyffredinol y Ddeddf Cydraddoldeb** | **A yw'n cael effaith?*** | **Ym mha ffordd? Beth yw'r dystiolaeth?** |
|---|---|---|
| **Cael gwared â cham-wahaniaethu anghyfreithlon, aflonyddu ac erledigaeth** | Nac ydi | Ni chredir bydd unrhyw effaith a soniwyd amdano yn 3.1 yn arwain at gamwahaniaethu, aflonyddu, nac erledigaeth. |
| **Hyrwyddo cyfleoedd cyfartal** | Positif | Mae'r gwaith o osod y gyllideb yn seiliedig ar waith sylweddol dros nifer o flynyddoedd o sicrhau fod cyllideb yn ei le sydd yn adlewyrchu anghenion a gofynion pobl Gwynedd. |
| **Meithrin perthnasau da** | Niwtral | Mae'r gwaith o osod cyllideb yn cael ei wneud o fewn ffiniau clir, ac mae'r balans o fidiau llwyddiannus ac arbedion yn ymateb i'r gwir bwysau sydd ar wasanaethau. |

**3.3 Sut mae eich cynnig yn sicrhau eich bod yn gweithio yn unol â gofynion Safonau'r Iaith Gymraeg (Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011), i sicrhau na chaiff y Gymraeg ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg, ac y manteisir ar bob cyfle i hyrwyddo'r Gymraeg (y tu hwnt i ddarparu gwasanaethau'n ddwyieithog) a chynyddu cyfleoedd i ddefnyddio a dysgu'r iaith yn y gymuned?**

Cynllun y Cyngor yw prif ddogfen polisi'r Cyngor ac mae'n cynnwys nifer o gynlluniau sy'n hyrwyddo'r Gymraeg. Cafodd Cynllun Cyngor Gwynedd 2023-28 ei fabwysiadu gan y Cyngor Llawn ar 2 Mawrth 2023 a'i adolygu ym Mawrth 2024 ac ym Mawrth 2025. Mae'r gyllideb yn cael ei llunio er mwyn gweithredu'r polisi hwnnw.

Eleni, wrth lunio Cyllideb 2026/27, bu'n rhaid i'r Cyngor ystyried ymarferoldeb yr arbedion oedd wedi cael eu hadnabod yn flaenorol fel rhai i'w tynnu o gyllidebau'r adrannau ac oedd eisoes wedi eu cymeradwyo mewn blynyddoedd blaenorol. Roedd y prosesau statudol yn cynnwys cwblhau asesiad cydraddoldeb sy'n cynnwys cwestiwn am effaith ar yr iaith Gymraeg. Wrth drin penderfyniadau am arbedion yn adroddiad Cyllideb 2020/21, casglwyd fod **dim effaith** wedi ei ganfod ar yr iaith Gymraeg ond fod angen cadw golwg wrth weithredu.

Wrth baratoi adroddiadau Cyllideb yn flynyddol ers 2021/2022 rhoddir ystyriaeth ar effaith arfaethedig y cyllidebau hyn ar y Gymraeg. Yn unol â'r arfer cwblhawyd asesiad cydraddoldeb sy'n cynnwys cwestiwn am yr effaith ar yr iaith Gymraeg. Mae'r drefn yma yn parhau ar gyfer 2026/27.

**3.4 Pa fesurau neu newidiadau eraill y gallech eu cynnwys i gryfhau neu newid y polisi / arfer er mwyn cael effaith gadarnhaol ar gyfleoedd pobl i ddefnyddio'r Gymraeg, ac i leihau neu atal unrhyw effeithiau andwyol y gallai'r polisi/ymarfer ei gael ar yr iaith Gymraeg?**

Polisi ariannol yw hwn, a chredwn fod y polisi cyfredol yn mynd hyd eithaf ein gallu cyfreithiol a statudol yn hynny o beth o safbwynt cael effaith bositif ar yr iaith.

**3.5 Sut mae'r cynnig yn dangos eich bod wedi rhoi sylw dyledus i'r angen i fynd i'r afael ag anghyfartaledd o achos anfantais economaidd-gymdeithasol? (Sylwch fod hyn yn ymwneud â chau bylchau anghydraddoldeb yn hytrach na gwella canlyniadau i bawb yn unig).**

Mae'r drefn o sefydlu cyllideb y Cyngor yn ganlyniad i gamau penodol sy'n ystyried cyllideb sylfaenol y flwyddyn flaenorol a'r camau sydd angen eu cymryd wedyn i adlewyrchu addasiadau sydd angen eu hystyried i ymdrin â phwysau ar y gyllideb ar gyfer y flwyddyn ddilynol. Yn ychwanegol i hynny mae sefyllfa gyllidebol holl wasanaethau'r Cyngor yn destun adolygiad manwl dair gwaith y flwyddyn, er mwyn adnabod unrhyw feysydd lle mae angen gweithredu i ymdrin â thanwariant neu orwariant – yn enwedig os nad ydi cyllidebau yn ddigonol i ymdrin â phwysau ar wasanaethau. Mae natur gwasanaethau'r Cyngor yn golygu fod y pwysau ar wasanaethau yn lleihau anghyfartaledd economaidd-gymdeithasol gan fod y mesurau i ymdrin â phwysau ar wasanaethau yn cymryd hyn i ystyriaeth.

Mae rhai o'r bidiau yr argymhellir eu hariannu yn cynnwys nifer sydd wedi eu cynllunio yn benodol i leihau anghyfartaledd o achos anfantais economaidd-gymdeithasol. Mae'r rhain wedi eu manylu yn Atodiad 2.

**3.6 Pa fesurau neu newidiadau eraill y gallech eu cynnwys i gryfhau neu newid y polisi / arfer i ddangos eich bod wedi rhoi sylw dyledus i'r angen i leihau canlyniadau anghyfartal o ganlyniad i anfantais economaidd-gymdeithasol, yn unol â'r Ddeddf Economaidd-Gymdeithasol?**

Mae'r ceisiadau am wariant ychwanegol i ymdrin â phwysau ar wasanaethau ("bidiau") wedi bod yn destun asesiadau manwl gan nifer o swyddogion ac aelodau ac felly rydym yn hyderus fod pob cam sy'n ymarferol bosib i leihau anfantais economaidd-gymdeithasol wrth lunio'r gyllideb wedi cael eu cymryd.

## 4) Dadansoddi'r canlyniadau

### 4.1 Ydi'r polisi felly'n debygol o gael effaith sylweddol, bositif ar unrhyw un o'r uchod? Beth yw'r rheswm am hyn?

Bydd effaith cyffredinol bositif o barhad y gwasanaethau ystyriwyd yn flaenoriaeth i'w hamddiffyn a'u hariannu i'r lefel galw ychwanegol.

### 4.2 Ydi'r polisi felly'n debygol o gael effaith sylweddol, negyddol ar unrhyw un o'r uchod? Beth yw'r rheswm am hyn?

Mae unrhyw gynnydd mewn Treth Cyngor am gael effaith ar sefyllfa ariannol pobl Gwynedd, ac argymhellir cynnydd uwch na'r arfer, sydd yn angenrheidiol er mwyn sicrhau fod sefyllfa ariannol y Cyngor yn parhau'n gynaliadwy ar gyfer y dyfodol.

### 4.3 Beth ddylid ei wneud?

Dewiswch un o'r canlynol:

| | |
|---|---|
| Parhau gyda'r polisi / gwasanaeth gan ei fod yn gadarn | ✓ |
| Addasu'r polisi i ddileu unrhyw rwystrau | |
| Atal a dileu'r polisi gan fod yr effeithiau niweidiol yn rhy fawr | |
| Parhau a'r polisi oherwydd gellir cyfiawnhau unrhyw effaith niweidiol | |
| Dim camau pellach ar hyn o bryd, mae'n gynamserol i benderfynu, neu does dim digon o dystiolaeth | |

### 4.4 Os yn parhau efo'r cynllun, pa gamau fyddwch chi'n cymryd i leihau neu liniaru unrhyw effeithiau negyddol?

Bydd yr adrannau yn gweithio i sicrhau eu bod yn lliniaru unrhyw effeithiau negyddol.

**4.5 Os nad ydych yn gweithredu ymhellach i ddileu neu leihau effeithiau negyddol, esboniwch pam yma.**

Bydd yr aelodau etholedig yn dod i benderfyniad ar y balans briodol i'w gael rhwng cynnydd yn y Dreth Cyngor a'r angen i ddarparu gwasanaethau i bobl Gwynedd.

## 5) Monitro

**5.1 Pa gamau fyddwch chi'n gymryd i fonitro effaith ac effeithiolrwydd y polisi neu wasanaeth (cynllun gweithredu)?**

Bydd rhaid cael penderfyniad y Cyngor Llawn yn flynyddol ar osod y gyllideb a chyfradd y dreth.

Bydd yr arbedion yn cael eu herio yn y Cyfarfodydd Herio Perfformiad dair gwaith y flwyddyn ac yn cael eu hadrodd i'r Pwyllgorau Craffu perthnasol fel rhan o adroddiadau perfformiad yr Aelodau Cabinet unigol. Hefyd, bydd adroddiad Trosolwg Arbedion yn cael ei gyflwyno i'r Cabinet ac i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio dair gwaith y flwyddyn.

**ATODIAD 9**

**DEDDF LLESIANT CENEDLAETHAU'R DYFODOL (CYMRU) 2015**

1. Mae'r gwaith o gynllunio a pharatoi'r argymhellion wedi digwydd yng nghyd-destun gofynion y Ddeddf uchod. Er bod yr argymhellion yn deillio o ddewisiadau ariannol anodd, mae'r Cyngor wedi gweithredu ar seiliau'r egwyddor o weithredu mewn modd sydd yn cyfarch y ddyletswydd statudol yn Adran 3 i ymgymryd â datblygu cynaliadwy a chyflawni Amcanion Llesiant y Cyngor. Mae hyn yn cael ei gyfarch wrth adnabod a chloriannu'r dewisiadau o ran arbedion, ond hefyd wrth wneud penderfyniadau a dewisiadau o safbwynt darparu adnoddau digonol er mwyn cynnal lefel briodol o wasanaethau.

2. Mae'r gyllideb hon yn adlewyrchu'r pum ffordd ganlynol o weithio y mae'r Cyngor yn eu hystyried wrth gymhwyso datblygu cynaliadwy.

   - Edrych i'r tymor hir – Mae'r gyllideb yn cynllunio ar gyfer y dyfodol, gan adnabod anghenion a galw am wasanaethau yn y dyfodol, nid ar gyfer 2026/27 yn unig, ac yn cymryd agwedd strategol i sicrhau bod gwasanaethau'n gynaliadwy.
   - Deall problemau a'u hatal - Mae'r broses gyllidebu yn hwyluso dealltwriaeth o'r sefyllfa ariannol, fel y gellir mynd i'r afael â gwreiddiau materion. Hefyd, mae'r Seminar Cyllideb ar gyfer Aelodau wedi hwyluso eu dealltwriaeth o'r strategaeth ariannol.
   - Cymryd agwedd integredig – Mae polisïau ac arferion cyllidebu Cyngor Gwynedd, a'r cynigion cyllideb eleni, wedi'u hystyried o safbwynt yr holl nodau llesiant.
   - Gweithio gydag eraill mewn ffordd gydweithredol - Lle gellir darparu gwasanaethau gwell trwy gydweithredu, a gweithio gyda phartneriaid, mae'r broses gyllidebol a'r strategaeth arbedion yn annog hyn, yn fewnol ac allanol, lle mae hynny'n fwy cynaliadwy.
   - Cynnwys y boblogaeth mewn penderfyniadau - Mae rhan o'r broses gyllidebu wedi cynnwys ymgysylltu â thrigolion, cwsmeriaid a phartneriaid.

3. Prif gasgliadau am gyllideb 2026/27 ynglŷn â'r 7 nod llesiant:

   - Llewyrchus – Niwtral (ychwanegu at adnoddau gwasanaethau sy'n rhoi diwedd ar dlodi)
   - Cydnerth - Positif (agwedd ddarbodus, hir-dymor at ariannu gwasanaethau a galluogi Cynllun y Cyngor)
   - Iachach – Positif (ariannu gofynion ychwanegol gwasanaethau 'gofal')
   - Mwy Cyfartal – Positif (trethu er mwyn ariannu gwasanaethau 'lles')
   - Cymunedau Cydlynus – Niwtral (parhau i ariannu gwasanaethau sy'n cadw pobl yn ddiogel)
   - Diwylliant a'r Gymraeg – Positif (drwy ariannu gwasanaethau dwyieithog)

- Byd-eang Gyfrifol – Niwtral (parhau i ariannu prosiectau digidol, amgylcheddol, cydweithredol)

4. Ynglŷn â chynlluniau arbedion ariannol penodol, fel rhan o'r gyfundrefn arbedion corfforaethol ac adrannol mewn blynyddoedd blaenorol pan gymeradwywyd y cynlluniau arbedion, lle'n briodol bu asesiad llesiant penodol fesul cynllun unigol.

5. Yn gyffredinol, wedi'i gyplysu gyda Chynllun y Cyngor a'r Amcanion Llesiant, mae'r gyllideb yma'n cefnogi'r Cyngor i wireddu amcanion strategol.

**ATODIAD 10**

**DATGANIAD Y SWYDDOG CYLLID STATUDOL AR GADERNID YR AMCANGYFRIFON**

1. Darperir y datganiad hwn yn unol ag Adran 25 o Ddeddf Llywodraeth Leol 2003, sy'n ei gwneud yn ofynnol i Brif Swyddog Ariannol y Cyngor adrodd i'r Aelodau ar:

   - Gadernid yr amcangyfrifon a wnaed at ddibenion cyfrifiadau cyllideb y Cyngor.
   - Ddigonolrwydd y cronfeydd ariannol arfaethedig.

2. Mae'n ofynnol i'r Aelodau roi sylw i'r adroddiad hwn wrth ystyried y gyllideb a'r dreth gyngor ar gyfer y flwyddyn ariannol sydd i ddod.

3. Mae Atodiad 7 yn amlinellu sefyllfa'r balansau a'r cronfeydd wrth gefn, tra bod y datganiad hwn yn cadarnhau cadernid yr amcangyfrifon cyllidebol sy'n sail i'r gyllideb.

4. Mae'r amcangyfrifon cyllideb yn seiliedig ar ragdybiaethau am wariant ac incwm yn y dyfodol ac yn anochel yn cynnwys elfen o risg o ragdybiaethau. Gellir lliniaru effaith y risg hon trwy gynlluniau wrth gefn, cyllidebau wrth gefn, a chronfeydd wrth gefn ariannol.

**Cyd-destun economaidd**

5. Mabwysiadwyd Cynllun Ariannol Tymor Canolig (CATC) diwygiedig gan y Cabinet ar 16 Medi 2025, sy'n nodi'r rhagolygon ariannol ar gyfer y cyfnod o 3 blynedd sy'n dechrau ar 1 Ebrill 2026. Roedd yr amcangyfrifon o fewn yr CATC yn seiliedig ar y rhagolygon diweddaraf sydd ar gael ar y newid mewn incwm y bydd y Cyngor yn ei dderbyn dros y cyfnod (trwy Grant y Llywodraeth a Treth Cyngor), a'r gofynion gwariant ychwanegol dros yr un cyfnod.

6. Wrth fabwysiadu'r CATC diwygiedig, roedd diffyg eglurder ynglŷn â'r cynnydd mewn Cyllid Allanol Cyfun ("setliad") ar gyfer 2026/27. Ar y naill law, nodwyd bod ychwanegiad at gyllideb y sector cyhoeddus gan lywodraeth San Steffan y llynedd yn gam cyntaf tuag at fynd i'r afael ag effaith tanfuddsoddi dros ddegawd neu fwy. Ar y llaw arall, cyhoeddwyd rhybudd na all y Llywodraeth yng Nghaerdydd gynyddu gwariant cyhoeddus o dan yr amgylchiadau economaidd presennol.

7. Fodd bynnag, yn dilyn cytundeb cyllidebol rhwng Llywodraeth Cymru a Phlaid Cymru, mae Cyngor Gwynedd wedi derbyn cynnydd o 4.1% yn ei setliad ar gyfer 2026/27 ar ôl i'r sylfaen ar gyfer 2025/26 gael ei haddasu wrth lunio'r setliad. Felly, mae'r Cyngor mewn sefyllfa gryfach yn 2026/27 nag a ragwelwyd yn wreiddiol, er mai'r cynnydd mewn setliadau fel canran yw'r ail isaf yng Nghymru cyn ystyried y llawr cyllido a roddwyd ar waith.

8. Mae etholiadau i'r Senedd ym mis Mai 2026 ac mae ansicrwydd sylweddol o hyd ynglŷn â chyllid Llywodraeth Cymru yn y dyfodol y tu hwnt i 2026/27.

**Hanes rheoli ariannol**

9. Dros y ddwy flynedd ariannol ddiwethaf, nid yw'r Cyngor wedi gallu cadw o fewn ei gyllideb. Roedd adolygiad y gyllideb refeniw ar ddiwedd mis Tachwedd 2025 yn rhagweld y byddai adrannau'r Cyngor yn gorwario £5.3 miliwn erbyn diwedd blwyddyn ariannol 2025/26, fel a ganlyn:

| Adrannau | £'000 |
|---|---:|
| Oedolion, Iechyd a Lles | 3,062 |
| Plant a Theuluoedd | 1,856 |
| Priffyrdd, Peirianneg ac YGC | 492 |
| Amgylchedd | 685 |
| Tai ac Eiddo | 248 |
| Adrannau Eraill | (1,012) |
| **Cyfanswm Gorwariant a ragwelir ar gyfer 2025/26** | **5,331** |

10. Roedd y Cynllun Ariannol Tymor Canolig yn cynnwys rhaglen waith fanwl i fynd i'r afael â'r sefyllfa ariannol sy'n wynebu'r Cyngor.

11. Mae'r CATC yn adlewyrchu'r parhad disgwyliedig o bwysau a arweinir gan y galw, yn enwedig mewn gofal cymdeithasol ac atal digartrefedd. Mae'r rhain yn parhau i gael eu modelu gan ddefnyddio data tueddiadau.

12. Yn eu hadroddiad *Adolygiad Cynaliadwyedd Ariannol – Cyngor Gwynedd*, nododd Archwilio Cymru " Ar y cyfan canfuom bod cynnydd sylweddol yn y nifer o adrannau’r Cyngor sydd yn gorwario yn y ddwy flwyddyn ariannol ddiwethaf, a mae wedi datblygu trefniadau i adolygu ei gyllidebau. Nid yw eto i nodi sut y bydd yn mynd i'r afael â bylchau cyllid yn y dyfodol."

13. Mae gwaith wedi'i wneud i edrych yn fanwl ar y gorwariant ym meysydd gofal cymdeithasol (sy'n cynrychioli 76% o'r holl orwariant), ac mae'r gwaith hwnnw'n parhau.

14. Felly, mae'r gyllideb hon yn cael ei chyflwyno mewn cyd-destun lle nad yw'r Cyngor wedi gallu darparu gwasanaethau o fewn ei gyllideb, yn enwedig yn y meysydd y galw mawr.

**Cydymffurfio â'r codau a'r safonau**

15. Er gwaethaf hyn, mae gan y Cyngor hanes profedig o allu dangos cydymffurfiaeth â safonau a chodau ariannol, gydag adroddiadau prydlon a rheolaethau mewnol cadarn. Fodd bynnag, mae gwaith annibynnol wedi'i wneud gan CIPFA i adolygu gwytnwch ariannol hirdymor y Cyngor yn ogystal â chydymffurfiaeth â Chod Rheoli Ariannol CIPFA.

**<u>Cadernid amcangyfrifon</u>**

**Chwyddiant**

16. Mae chwyddiant cyffredinol wedi aros yn uwch na tharged Banc Lloegr o 2% yn ystod 2025/26 ac mae rhagolygon annibynnol a dderbyniwyd yn dangos bod disgwyl i gyfraddau chwyddiant aros felly yn 2026/27. Yn seiliedig ar ragolygon Banc Lloegr a'r cyngor annibynnol a gafwyd gan Arlingclose, ein cynghorwyr rheoli trysorlys annibynnol sydd wedi adolygu rhagdybiaethau’r Banc, credwn y bydd chwyddiant cyffredinol yn aros rhwng 2% a 3% ar gyfartaledd yn ystod y flwyddyn.

17. Mae'r rhagolygon cytundeb cyflog sydd wedi'i gynnwys yn y gyllideb yn adlewyrchu'r rhagolygon diweddaraf. Yn seiliedig ar dueddiadau diweddar a'r rhagolygon economaidd, mae cynnydd a ragwelir yn 2026/27 o gytundeb cyflog o 4% i athrawon a 3.4% ar gyfer gweddill y gweithlu wedi'i gynnwys yn y gyllideb. Rwy'n fodlon bod amcangyfrifon darbodus o lefelau chwyddiant wedi'u defnyddio.

**Rhagdybiaethau incwm**

18. Mae'r gyllideb yn seiliedig ar gyflawni cynnydd penodol mewn incwm o ffioedd sy'n cyfateb i'r cynnydd mewn costau cymwys.

19. Fel arfer, mae chwyddiant wedi'i ychwanegu at y targedau incwm o ffioedd a thaliadau am wasanaethau'r Cyngor ac yn y mwyafrif o achosion disgwylir y bydd y ffioedd unigol yn cael eu cynyddu yn unol â chwyddiant yn unol â'r Rheolau Gweithdrefn Ariannol. Pan nad yw ffioedd yn cynyddu yn unol â chwyddiant, rwy'n fodlon bod trefniadau cadarn ar waith i ddod i gasgliad ar lefel briodol, gan gynnwys ymgynghori â'r Adran Gyllid.

20. Os bydd y galw am wasanaethau'r Cyngor yn gostwng, ac na fydd targedau incwm yn cael eu cyflawni, gall hynny arwain at orwariant ar gyllidebau adrannol. Bydd angen monitro'r sefyllfa gyllideb wirioneddol yn agos yn ystod y flwyddyn ac, os oes angen, torri gwariant i gyd-fynd â'r gostyngiad mewn incwm. Ni fydd hynny'n bosibl gyda rhai cyllidebau corfforaethol mawr, lle mae'n rhaid gosod amcangyfrifon incwm ar lefel ddarbodus.

**Rhagdybiaethau grant**

21. Mae'r Cyngor yn derbyn ystod o grantiau unigol ac rwy'n fodlon bod trefniadau priodol yn gyffredinol o fewn yr awdurdod i ddelio â grantiau, ond mae archwilwyr mewnol y Cyngor wedi mynd i'r afael ag ychydig o feysydd lle mae lle i wella. Os bydd y Cyngor yn derbyn grant setliad ychwanegol yn ystod y flwyddyn, neu ar ôl i'r gyllideb hon gael ei phasio, mae trefniadau llywodraethu priodol ar waith o fewn Cyfansoddiad y Cyngor i ddod i benderfyniad ar ei ddefnydd.

22. Fodd bynnag, mae risgiau sy'n gysylltiedig â'r nifer fawr o grantiau penodol gan Lywodraeth Cymru a chyrff eraill sy'n cefnogi cyfran o wariant y Cyngor. Rydym wedi derbyn grantiau penodol sylweddol mewn gofal cymdeithasol yn ystod y blynyddoedd ariannol diwethaf, gydag ymrwymiadau cysylltiedig, sy'n gwneud cynllunio cyllidol yn anodd. Yn gyffredinol, bydd yn rhaid i'r gwariant cysylltiedig orffen pan fydd grant yn dod i ben, ond gall telerau contract olygu na ellir torri gwariant mor gyflym â'r grant, neu fod costau diswyddo i'w ariannu. Ar ben hynny, gall gweithgarwch a ariennir fod mor bwysig i gyflawni blaenoriaethau'r Cyngor ei hun, fel bod y Cyngor yn penderfynu parhau â'r gwariant.

**Risg Arbedion**

23. Ar 20 Chwefror 2024, cymeradwyodd y Cabinet werth £5.2m o arbedion ar gyfer cyllideb 2024/25 ymlaen. Dangosir proffil y rhaglen yn Atodiad 3 adroddiad y gyllideb, sy'n dangos bod gwerth £343,090 o arbedion wedi'u proffilio ar gyfer 2026/27. Gweithredwyd y £5.2m cyfan yng nghyllideb 2024/25, gydag arbedion y blynyddoedd dilynol yn cael eu pontio o gronfeydd. Felly, nid yw arbedion 2025/26 a 2026/27 yn helpu i leihau'r bwlch ariannol yn y blynyddoedd hynny.

24. Mae dau gynllun arbedion gwerth £91,000 gan yr Adran Priffyrdd, Peirianneg a YGC, un cynllun gwerth £98,500 gan yr Adran Addysg ac un cynllun gwerth £50,000 gan yr Adran Gwasanaethau Corfforaethol, sydd yn deillio o raglenni blaenorol o arbedion ond sydd yn berthnasol i 2026/27.

25. Yn ychwanegol i hyn mae gwerth £81,000 o gynlluniau arbedion sydd wedi eu cymeradwyo yn 2025/26 ac wedi eu proffilio i 2026/27.

26. Mae gan rai o adrannau'r Cyngor hanes o anallu i gyflawni eu cynlluniau arbed ac mae hynny'n cyflwyno risg sylweddol i gynaliadwyedd ariannol hirdymor. Rwy'n credu mai dyma'r risg fwyaf wrth osod y gyllideb hon. Yn unol â'r weithdrefn arferol, byddwn yn lliniaru'r risg trwy sicrhau bod adrannau ac aelodau'r Cabinet yn berchnogaeth o'r cynlluniau arbed, ac yn monitro'r cynnydd perthnasol yn rheolaidd. Mae'r gyllideb hefyd yn cynnwys strategaeth o ddarparu 10% o werth cynlluniau arbed newydd dros oes y rhaglen i ddelio â sefyllfaoedd lle mae llithriad mewn rhaglenni arbed.

**Risgiau Cyfradd Llog**

27. Gall cyfraddau llog effeithio ar y gyllideb refeniw trwy log a enillir – h.y. byddai cynnydd yn y gyfradd llog yn golygu mwy o incwm. Yn unol â Strategaeth Fuddsoddi'r Cyngor, nid yw'r gyllideb yn dibynnu ar enillion rhy uchel. Disgwylir i gyfraddau llog barhau i ostwng yn raddol ym mlwyddyn ariannol 2026/27. Fodd bynnag, oherwydd ffactorau fel cyfraddau llog yn newid a’r arian sydd ar gael ar gyfer buddsoddi, rydym yn rhagweld derbyn dros £89k yn fwy o log yn 2026/27 nag yn 2025/26.

**Digonolrwydd cronfeydd wrth gefn**

28. Dangosodd y Datganiad Cyfrifon archwiliedig diweddaraf ar gyfer Cyngor Gwynedd mai lefel gyffredinol y cronfeydd wrth gefn wedi'u clustnodi ar ddyddiad y fantolen (31 Mawrth 2025) oedd £110.8 miliwn, i fyny o £101.8 miliwn ar 31 Mawrth 2024. Mae'r cronfeydd wrth gefn yn cynnwys Cronfa Strategaeth Ariannol y Cyngor sydd ar waith i fod ar gael i ddelio â gorwariant o fewn adrannau. Rhagwelir y bydd tua £18 miliwn yn y gronfa hon ar 1 Ebrill 2026, ac rwy'n credu ei bod yn lefel ddigonol ar gyfer 2026/27.

29. Ymhellach, mae gan Gyngor Gwynedd £7.9 miliwn o falansau cyffredinol ar gyfer sefyllfaoedd argyfwng go iawn. Rwy'n credu bod y lefel hon yn ddigonol ar gyfer cynhyrchu cyllideb 2026/27 ond bydd y lefel yn cael ei hadolygu ymhellach yn gynnar yn y flwyddyn ariannol.

30. Cyhoeddodd Archwilio Cymru eu hadroddiad *Rheoli Balansau a Chronfeydd Wrth Gefn Strategol – Cyngor Gwynedd* ym mis Medi 2025; ystyriwyd yr adroddiad gan Bwyllgor Llywodraethu ac Archwilio'r Cyngor ar 11 Medi 2025.

31. Roedd y gwaith wedi'i gwblhau yn ystod mis Mai a Mehefin 2025 yn manylu ar ffigurau diwedd blwyddyn ar gyfer 2024/25. Daeth yr adroddiad i'r casgliad bod gan "Gyngor Gwynedd drefniadau llywodraethu clir a strwythuredig ar gyfer rheoli ei gronfeydd wrth gefn. Mae Prif Swyddog Cyllid y Cyngor yn cynghori aelodau a swyddogion yn rheolaidd ar lefelau a defnydd cronfeydd wrth gefn. Cryfder allweddol yw proses "gynaeafu" barhaus y Cyngor, sy'n adolygu cronfeydd wrth gefn ar sawl adeg drwy gydol y flwyddyn. Fodd bynnag, nid oes strategaeth na fframwaith ffurfiol i arwain penderfyniadau ar lefelau cronfeydd wrth gefn, a allai helpu i sicrhau bod cronfeydd wrth gefn yn cael eu defnyddio'n effeithiol a rhoi sicrwydd eu bod yn gyson yn cyd-fynd ag amcanion y Cyngor".

32. Mewn ymateb i'r adroddiad, rwyf wedi ymrwymo i ddatblygu strategaeth cronfeydd wrth gefn – i osod cyfeiriad trwy fabwysiadu strategaeth i sicrhau eglurder ar y defnydd o gronfeydd wrth gefn – erbyn 31 Mawrth 2026.

**Barn y Swyddog Cyllid Statudol**

**Ar ôl ystyried yr holl risgiau a nodir uchod a'r lliniaru, rwy'n ystyried bod y cyllidebau yn gadarn, yn ddigonol ac yn gyraeddadwy.**

**(i) Penderfyniad drafft y Dreth Cyngor yn seiliedig ar argymhelliad y Cabinet i'r Cyngor ar gyfer ei gyfarfod ar 5 Mawrth 2026** (ar sail cynnydd o 5.17%)

**(ii) Tablau yn dangos lefel y Dreth Cyngor a'r cynnydd fesul cymuned**

........................................................................................

**(i) Draft Council Tax resolution based on the Cabinet's recommendation to the Council for its meeting on 5 March 2026** (on the basis of a 5.17% increase)

**(ii) Tables showing the level of Council Tax and increases by community**

**Penderfynwyd**

1. Cymeradwyo'r argymhellion a gyflwynir gan y Cabinet fel y nodir yn yr adroddiad.

2. Nodi fod yr Aelod Cabinet dros Gyllid, drwy daflen benderfyniad dyddiedig 9 Chwefror 2026, wedi cymeradwyo cyfrifiad y symiau a ganlyn ar gyfer y flwyddyn 2026/27 yn unol â'r rheoliadau a luniwyd dan Adran 33 (5) o Ddeddf Cyllid Llywodraeth Leol 1992 ("Y Ddeddf"):-

   (a) 57,669.68 yw'r swm a gyfrifwyd fel ei Sylfaen Dreth Cyngor am y flwyddyn yn unol â'r Rheoliadau Awdurdodau Lleol (Cyfrifo Sylfaen y Dreth Cyngor) (Cymru) 1995 fel y'i diwygiwyd.

   (b) Rhan o ardal y Cyngor – Sylfaen Drethiannol Cymuned –

| | | | |
|---|---|---|---|
| Aberdaron | 670.17 | Llanddeiniolen | 1,888.60 |
| Aberdyfi | 1,336.17 | Llandderfel | 558.22 |
| Abergwyngregyn | 120.09 | Llanegryn | 169.30 |
| Abermaw (Barmouth) | 1,337.70 | Llanelltyd | 337.92 |
| Arthog | 706.13 | Llanengan | 2,861.00 |
| Y Bala | 806.79 | Llanfair | 379.49 |
| Bangor | 4,186.93 | Llanfihangel y Pennant | 268.21 |
| Beddgelert | 381.36 | Llanfrothen | 244.41 |
| Betws Garmon | 156.41 | Llangelynnin | 488.48 |
| Bethesda | 1,749.91 | Llangywer | 157.24 |
| Bontnewydd | 468.82 | Llanllechid | 363.31 |
| Botwnnog | 485.84 | Llanllyfni | 1,485.31 |
| Brithdir a Llanfachreth | 484.51 | Llannor | 963.95 |
| Bryncrug | 349.69 | Llanrug | 1,147.14 |
| Buan | 239.39 | Llanuwchllyn | 339.69 |
| Caernarfon | 3,685.95 | Llanwnda | 840.13 |
| Clynnog Fawr | 498.73 | Llanycil | 214.29 |
| Corris | 325.01 | Llanystumdwy | 981.04 |
| Criccieth | 1,038.04 | Maentwrog | 332.11 |
| Dolbenmaen | 670.19 | Mawddwy | 386.36 |
| Dolgellau | 1,363.11 | Nefyn | 1,740.58 |
| Dyffryn Ardudwy | 884.96 | Pennal | 245.57 |
| Y Felinheli | 1,192.33 | Penrhyndeudraeth | 862.97 |
| Ffestiniog | 1,858.53 | Pentir | 1,302.63 |
| Y Ganllwyd | 93.24 | Pistyll | 308.41 |
| Harlech | 904.83 | Porthmadog | 2,341.29 |
| Trefor a Llanaelhaearn | 481.86 | Pwllheli | 1,866.20 |
| Llanbedr | 385.11 | Talsarnau | 394.32 |
| Llanbedrog | 897.59 | Trawsfynydd | 535.08 |
| Llanberis | 812.92 | Tudweiliog | 532.10 |
| Llandwrog | 1,099.29 | Tywyn | 1,787.26 |
| Llandygai | 1,051.63 | Waunfawr | 623.84 |

sef y symiau a gyfrifwyd fel symiau Sylfaen y Dreth Cyngor ar gyfer y flwyddyn ar gyfer tai annedd yn y rhannau hynny o'i ardal lle bo un eitem arbennig neu fwy'n berthnasol.

3. Bod y symiau a ganlyn yn cael eu cyfrifo yn awr gan y Cyngor ar gyfer y flwyddyn 2026/27 yn unol ag Adrannau 32 i 36 o'r Ddeddf:-

| | | |
|---|---|---|
| (a) | £577,245,460 | Sef cyfanswm y symiau y mae'r Cyngor yn eu hamcangyfrif ar gyfer yr eitemau a nodwyd yn Adran 32(2)(a) i (e) o'r Ddeddf (gwariant gros). |
| (b) | £194,325,420 | Sef cyfanswm y symiau y mae'r Cyngor yn eu hamcangyfrif ar gyfer yr eitemau a nodwyd yn Adran 32(3)(a) i (c) o'r Ddeddf (incwm). |
| (c) | £382,920,040 | Sef y swm sy'n cyfateb i'r gwahaniaeth rhwng cyfanswm 3(a) uchod a chyfanswm 3(b) uchod, a gyfrifwyd gan y Cyngor, yn unol ag Adran 32(4) o'r Ddeddf, fel ei ofynion cyllideb ar gyfer y flwyddyn (cyllideb net). |
| (ch) | £263,513,727 | Sef cyfanswm y symiau y mae'r Cyngor yn amcangyfrif y byddant yn daladwy yn ystod y flwyddyn i'w gronfa ar gyfer cyfan o'r Dreth Annomestig Genedlaethol a Grant Cynnal Refeniw, llai amcangyfrif o'r gost i'r Cyngor o ryddhad dewisol o'r dreth annomestig a ganiateir. |
| (d) | £2,070.52 | Sef y swm yn 3(c) uchod llai'r swm yn 3(ch) uchod, y cyfan wedi ei rannu gan y swm a nodir yn 2(a) uchod, a gyfrifwyd gan y Cyngor yn unol ag Adran 33(1) o'r Ddeddf, sef swm sylfaenol ei Dreth Cyngor am y flwyddyn (treth Cyngor Gwynedd a threth cyfartalog cynghorau cymuned). |
| (dd) | £3,714,588.48 | Sef cyfanswm yr holl eitemau arbennig y cyfeirir atynt yn Adran 34(1) o'r Ddeddf (praeseptau'r cynghorau cymuned). |
| (e) | £2,006.11 | Sef y swm yn 3(d) uchod llai'r canlyniad a geir wrth rannu'r swm yn 3(dd) uchod â'r swm yn 2(a) uchod, a gyfrifwyd gan y Cyngor, yn unol ag Adran 34(2) fel swm sylfaenol ei Dreth Cyngor am y flwyddyn ar gyfer tai annedd yn y rhannau hynny o'i ardal lle nad oes unrhyw eitem arbennig yn berthnasol (Band D ar gyfer treth Cyngor Gwynedd yn unig). |

(f) Ar gyfer rhannau o ardal y Cyngor –

| | | | |
|---|---|---|---|
| Aberdaron | 2,033.71 | Llanddeiniolen | 2,035.76 |
| Aberdyfi | 2,044.41 | Llandderfel | 2,032.98 |
| Abergwyngregyn | 2,043.58 | Llanegryn | 2,052.48 |
| Abermaw (Barmouth) | 2,060.31 | Llanelltyd | 2,041.62 |
| Arthog | 2,031.60 | Llanengan | 2,031.63 |
| Y Bala | 2,043.29 | Llanfair | 2,055.65 |
| Bangor | 2,156.89 | Llanfihangel y Pennant | 2,056.82 |
| Beddgelert | 2,046.62 | Llanfrothen | 2,060.53 |
| Betws Garmon | 2,026.25 | Llangelynnin | 2,037.12 |
| Bethesda | 2,108.44 | Llangywer | 2,050.63 |
| Bontnewydd | 2,045.57 | Llanllechid | 2,054.45 |
| Botwnnog | 2,019.49 | Llanllyfni | 2,043.14 |
| Brithdir a Llanfachreth | 2,035.01 | Llannor | 2,028.41 |
| Bryncrug | 2,044.29 | Llanrug | 2,110.72 |
| Buan | 2,024.91 | Llanuwchllyn | 2,058.51 |
| Caernarfon | 2,128.21 | Llanwnda | 2,046.70 |
| Clynnog Fawr | 2,086.31 | Llanycil | 2,028.28 |
| Corris | 2,064.57 | Llanystumdwy | 2,027.52 |
| Criccieth | 2,072.58 | Maentwrog | 2,027.84 |
| Dolbenmaen | 2,032.97 | Mawddwy | 2,044.93 |
| Dolgellau | 2,064.80 | Nefyn | 2,063.56 |
| Dyffryn Ardudwy | 2,068.26 | Pennal | 2,079.41 |
| Y Felinheli | 2,052.01 | Penrhyndeudraeth | 2,113.78 |
| Ffestiniog | 2,146.01 | Pentir | 2,050.64 |
| Y Ganllwyd | 2,049.01 | Pistyll | 2,045.02 |
| Harlech | 2,100.05 | Porthmadog | 2,038.58 |
| Trefor a Llanaelhaearn | 2,089.12 | Pwllheli | 2,081.13 |
| Llanbedr | 2,081.41 | Talsarnau | 2,092.33 |
| Llanbedrog | 2,039.53 | Trawsfynydd | 2,047.23 |
| Llanberis | 2,059.85 | Tudweiliog | 2,024.90 |
| Llandwrog | 2,086.35 | Tywyn | 2,066.59 |
| Llandygai | 2,043.92 | Waunfawr | 2,025.35 |

sef y symiau a geir trwy ychwanegu symiau'r eitem neu eitemau arbennig sy'n berthnasol i dai annedd yn y rhannau hynny o ardal y Cyngor y cyfeiriwyd atynt uchod, at y swm a geir yn 3(e) uchod wedi'u rhannu ym mhob achos gan y swm yn 2(b) uchod, a gyfrifwyd gan y Cyngor yn unol ag Adran 34(3) o'r Ddeddf, fel symiau sylfaenol ei Dreth Cyngor am y flwyddyn ar gyfer tai annedd yn y rhannau hynny o'i ardal lle bo un eitem arbennig neu fwy'n berthnasol.

(ff) Ar gyfer rhannau o ardal y Cyngor, y ffigyrau a nodir yn **Atodiad 1,** sef y symiau a geir trwy luosi'r symiau yn 3(f) uchod â'r rhif sydd yn ôl y cyfrannau a nodir yn Adran 5 (1) o'r Ddeddf, yn berthnasol i dai annedd a restrir mewn band prisio arbennig wedi'i rannu â'r rhif sydd yn ôl y cyfrannau hynny'n berthnasol i dai a restrir ym mand prisio D, a gyfrifir gan y Cyngor, yn unol ag Adran 36(1) o'r Ddeddf, yn symiau sydd i'w hystyried ar gyfer y flwyddyn ar gyfer y categorïau o dai annedd a restrir yn y gwahanol fandiau prisio.

4. Nodi ar gyfer y flwyddyn 2026/27 fod Comisiynydd Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru wedi nodi'r symiau a ganlyn mewn praesept a roddwyd i'r Cyngor, yn unol ag Adran 40 o'r Ddeddf ar gyfer pob un o'r categorïau o dai annedd a ddangosir isod:

| **Band A** | **Band B** | **Band C** | **Band D** | **Band E** | **Band F** | **Band G** | **Band H** | **Band I** |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| 265.50 | 309.75 | 354.00 | 398.25 | 486.75 | 575.25 | 663.75 | 796.50 | 929.25 |

5. Wedi pennu'r cyfanswm ym mhob achos o'r symiau 3(ff) a 4 uchod, bod y Cyngor, yn unol ag Adran 30(2) o'r Ddeddf trwy hyn, yn pennu'r symiau a nodir yn **Atodiad 2** ar gyfer y Dreth Cyngor yn y flwyddyn 2026/27 ar gyfer pob categori o dai annedd a ddangosir yn yr Atodiad.

**Resolved**

1. To approve the recommendations of the Cabinet as noted in the report.

2. It be noted that the Cabinet Member for Finance, in a decision notice dated 9 February 2026, approved the calculation of the following amounts for 2026/27 in accordance with Regulations made under Section 33 (5) of the Local Government Finance Act 1992 ("The Act"):-

   (a) 57,669.68 being the amount calculated in accordance with the Local Authorities (Calculation of Council Tax Base) (Wales) Regulations 1995 as amended, as its Council Tax Base for the year.

   (b) Parts of the Council's Area – Community Tax Base -

| | | | |
|---|---:|---|---:|
| Aberdaron | 670.17 | Llanddeiniolen | 1,888.60 |
| Aberdyfi | 1,336.17 | Llandderfel | 558.22 |
| Abergwyngregyn | 120.09 | Llanegryn | 169.30 |
| Abermaw (Barmouth) | 1,337.70 | Llanelltyd | 337.92 |
| Arthog | 706.13 | Llanengan | 2,861.00 |
| Y Bala | 806.79 | Llanfair | 379.49 |
| Bangor | 4,186.93 | Llanfihangel y Pennant | 268.21 |
| Beddgelert | 381.36 | Llanfrothen | 244.41 |
| Betws Garmon | 156.41 | Llangelynnin | 488.48 |
| Bethesda | 1,749.91 | Llangywer | 157.24 |
| Bontnewydd | 468.82 | Llanllechid | 363.31 |
| Botwnnog | 485.84 | Llanllyfni | 1,485.31 |
| Brithdir & Llanfachreth | 484.51 | Llannor | 963.95 |
| Bryncrug | 349.69 | Llanrug | 1,147.14 |
| Buan | 239.39 | Llanuwchllyn | 339.69 |
| Caernarfon | 3,685.95 | Llanwnda | 840.13 |
| Clynnog Fawr | 498.73 | Llanycil | 214.29 |
| Corris | 325.01 | Llanystumdwy | 981.04 |
| Criccieth | 1,038.04 | Maentwrog | 332.11 |
| Dolbenmaen | 670.19 | Mawddwy | 386.36 |
| Dolgellau | 1,363.11 | Nefyn | 1,740.58 |
| Dyffryn Ardudwy | 884.96 | Pennal | 245.57 |
| Y Felinheli | 1,192.33 | Penrhyndeudraeth | 862.97 |
| Ffestiniog | 1,858.53 | Pentir | 1,302.63 |
| Y Ganllwyd | 93.24 | Pistyll | 308.41 |
| Harlech | 904.83 | Porthmadog | 2,341.29 |
| Trefor & Llanaelhaearn | 481.86 | Pwllheli | 1,866.20 |
| Llanbedr | 385.11 | Talsarnau | 394.32 |
| Llanbedrog | 897.59 | Trawsfynydd | 535.08 |
| Llanberis | 812.92 | Tudweiliog | 532.10 |
| Llandwrog | 1,099.29 | Tywyn | 1,787.26 |
| Llandygai | 1,051.63 | Waunfawr | 623.84 |

being the amounts calculated as the amounts of its Council Tax Base for the year for dwellings in those parts of its area to which one or more special items relate.

3. That the following amounts be now calculated by the Council for the year 2026/27 in accordance with Sections 32 to 36 of the Act:-

| | | |
|---|---|---|
| (a) | £577,245,460 | Being the aggregate of the amounts which the Council estimates for the items set out in Section 32(2)(a) to (e) of the Act (gross expenditure). |
| (b) | £194,325,420 | Being the aggregate of the amounts which the Council estimates for the items set out in Section 32(3)(a) to (c) of the Act (income). |
| (c) | £382,920,040 | Being the amount by which the aggregate at 3(a) above exceeds the aggregate at 3(b) above, calculated by the Council, in accordance with Section 32(4) of the Act, as its budget requirement for the year (net budget). |
| (d) | £263,513,727 | Being the aggregate of the sums which the Council estimates will be payable during the year into its fund in respect of the National Non-Domestic Rates and Revenue Support Grant, less the estimated cost to the Council of discretionary non-domestic rate relief granted. |
| (e) | £2,070.52 | Being the amount at 3(c) above less the amount at 3(d) above, all divided by the amount at 2(a) above, calculated by the Council, in accordance with Section 33(1) of the Act, as the basic amount of its council tax for the year. (Cyngor Gwynedd tax and average community council tax). |
| (f) | £3,714,588.48 | Being the aggregate amount of all special items referred to in Section 34(1) of the Act (community council precepts). |
| (g) | £2,006.11 | Being the amount at 3(e) above less the result given by dividing the amount at 3(f) above by the amount at 2(a) above, calculated by the Council, in accordance with Section 34(2) of the Act, as the basic amount of its Council Tax for the year for dwellings in those parts of its area to which no special item relates (Band D for Cyngor Gwynedd tax only). |

(h) Parts of the Council's Area – Community

| | | | |
|---|---|---|---|
| Aberdaron | 2,033.71 | Llanddeiniolen | 2,035.76 |
| Aberdyfi | 2,044.41 | Llandderfel | 2,032.98 |
| Abergwyngregyn | 2,043.58 | Llanegryn | 2,052.48 |
| Abermaw (Barmouth) | 2,060.31 | Llanelltyd | 2,041.62 |
| Arthog | 2,031.60 | Llanengan | 2,031.63 |
| Y Bala | 2,043.29 | Llanfair | 2,055.65 |
| Bangor | 2,156.89 | Llanfihangel y Pennant | 2,056.82 |
| Beddgelert | 2,046.62 | Llanfrothen | 2,060.53 |
| Betws Garmon | 2,026.25 | Llangelynnin | 2,037.12 |
| Bethesda | 2,108.44 | Llangywer | 2,050.63 |
| Bontnewydd | 2,045.57 | Llanllechid | 2,054.45 |
| Botwnnog | 2,019.49 | Llanllyfni | 2,043.14 |
| Brithdir & Llanfachreth | 2,035.01 | Llannor | 2,028.41 |
| Bryncrug | 2,044.29 | Llanrug | 2,110.72 |
| Buan | 2,024.91 | Llanuwchllyn | 2,058.51 |
| Caernarfon | 2,128.21 | Llanwnda | 2,046.70 |
| Clynnog Fawr | 2,086.31 | Llanycil | 2,028.28 |
| Corris | 2,064.57 | Llanystumdwy | 2,027.52 |
| Criccieth | 2,072.58 | Maentwrog | 2,027.84 |
| Dolbenmaen | 2,032.97 | Mawddwy | 2,044.93 |
| Dolgellau | 2,064.80 | Nefyn | 2,063.56 |
| Dyffryn Ardudwy | 2,068.26 | Pennal | 2,079.41 |
| Y Felinheli | 2,052.01 | Penrhyndeudraeth | 2,113.78 |
| Ffestiniog | 2,146.01 | Pentir | 2,050.64 |
| Y Ganllwyd | 2,049.01 | Pistyll | 2,045.02 |
| Harlech | 2,100.05 | Porthmadog | 2,038.58 |
| Trefor & Llanaelhaearn | 2,089.12 | Pwllheli | 2,081.13 |
| Llanbedr | 2,081.41 | Talsarnau | 2,092.33 |
| Llanbedrog | 2,039.53 | Trawsfynydd | 2,047.23 |
| Llanberis | 2,059.85 | Tudweiliog | 2,024.90 |
| Llandwrog | 2,086.35 | Tywyn | 2,066.59 |
| Llandygai | 2,043.92 | Waunfawr | 2,025.35 |

being the amounts given by adding to the amount at 3(g) above the amounts of the special item or items relating to dwellings in those parts of the Council's area mentioned above divided in each case by the amount of 2(b) above, calculated by the Council, in accordance with Section 34(3) of the Act, as the basic amounts of its Council Tax for the year for dwellings in those parts of its area to which one or more special items relate.

(i) In respect of parts of the Council's area, the figures noted in **Appendix 1,** being the amounts given by multiplying the sums specified in 3(h) above by the number which, in the proportion set out in Section 5 (1) of the Act, is applicable to dwellings listed in a particular valuation band divided by the number which in that proportion is applicable to dwellings listed in valuation band D, calculated by the Council, in accordance with Section 36(1) of the Act, as the amounts to be taken into account for the year in respect of categories of dwellings listed in different valuation bands.

4. That it be noted that for the year 2026/27 the Police and Crime Commissioner for North Wales have stated the following amounts in a precept issued to the Council, in accordance with Section 40 of the Local Government Finance Act, 1992, for each of the categories of dwellings shown below.

| **Band A** | **Band B** | **Band C** | **Band D** | **Band E** | **Band F** | **Band G** | **Band H** | **Band I** |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| 265.50 | 309.75 | 354.00 | 398.25 | 486.75 | 575.25 | 663.75 | 796.50 | 929.25 |

5. That, having calculated the aggregate in each case of the amounts at 3(i) and 4 above, the Council, in accordance with Section 30(2) of the Local Government Finance Act, 1992, hereby sets the amounts noted in **Appendix 2** as the amounts of Council Tax for the year 2026/27 for each of the categories of dwellings shown therein.

**ATODIAD 1 / APPENDIX 1**

## Treth Cyngor: Cyngor Gwynedd + Cyngor Cymuned
## Council Tax : Cyngor Gwynedd + Community Council

| | Band A | Band B | Band C | Band D | Band E | Band F | Band G | Band H | Band I |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Aberdaron | 1,355.81 | 1,581.77 | 1,807.74 | 2,033.71 | 2,485.65 | 2,937.58 | 3,389.52 | 4,067.42 | 4,745.32 |
| Aberdyfi | 1,362.94 | 1,590.10 | 1,817.25 | 2,044.41 | 2,498.72 | 2,953.04 | 3,407.35 | 4,088.82 | 4,770.29 |
| Abergwyngregyn | 1,362.39 | 1,589.45 | 1,816.52 | 2,043.58 | 2,497.71 | 2,951.84 | 3,405.97 | 4,087.16 | 4,768.35 |
| Abermaw (Barmouth) | 1,373.54 | 1,602.46 | 1,831.39 | 2,060.31 | 2,518.16 | 2,976.00 | 3,433.85 | 4,120.62 | 4,807.39 |
| Arthog | 1,354.40 | 1,580.13 | 1,805.87 | 2,031.60 | 2,483.07 | 2,934.53 | 3,386.00 | 4,063.20 | 4,740.40 |
| Y Bala | 1,362.19 | 1,589.23 | 1,816.26 | 2,043.29 | 2,497.35 | 2,951.42 | 3,405.48 | 4,086.58 | 4,767.68 |
| Bangor | 1,437.93 | 1,677.58 | 1,917.24 | 2,156.89 | 2,636.20 | 3,115.51 | 3,594.82 | 4,313.78 | 5,032.74 |
| Beddgelert | 1,364.41 | 1,591.82 | 1,819.22 | 2,046.62 | 2,501.42 | 2,956.23 | 3,411.03 | 4,093.24 | 4,775.45 |
| Betws Garmon | 1,350.83 | 1,575.97 | 1,801.11 | 2,026.25 | 2,476.53 | 2,926.81 | 3,377.08 | 4,052.50 | 4,727.92 |
| Bethesda | 1,405.63 | 1,639.90 | 1,874.17 | 2,108.44 | 2,576.98 | 3,045.52 | 3,514.07 | 4,216.88 | 4,919.69 |
| Bontnewydd | 1,363.71 | 1,591.00 | 1,818.28 | 2,045.57 | 2,500.14 | 2,954.71 | 3,409.28 | 4,091.14 | 4,773.00 |
| Botwnnog | 1,346.33 | 1,570.71 | 1,795.10 | 2,019.49 | 2,468.27 | 2,917.04 | 3,365.82 | 4,038.98 | 4,712.14 |
| Brithdir & Llanfachreth | 1,356.67 | 1,582.79 | 1,808.90 | 2,035.01 | 2,487.23 | 2,939.46 | 3,391.68 | 4,070.02 | 4,748.36 |
| Bryncrug | 1,362.86 | 1,590.00 | 1,817.15 | 2,044.29 | 2,498.58 | 2,952.86 | 3,407.15 | 4,088.58 | 4,770.01 |
| Buan | 1,349.94 | 1,574.93 | 1,799.92 | 2,024.91 | 2,474.89 | 2,924.87 | 3,374.85 | 4,049.82 | 4,724.79 |
| Caernarfon | 1,418.81 | 1,655.27 | 1,891.74 | 2,128.21 | 2,601.15 | 3,074.08 | 3,547.02 | 4,256.42 | 4,965.82 |
| Clynnog Fawr | 1,390.87 | 1,622.69 | 1,854.50 | 2,086.31 | 2,549.93 | 3,013.56 | 3,477.18 | 4,172.62 | 4,868.06 |
| Corris | 1,376.38 | 1,605.78 | 1,835.17 | 2,064.57 | 2,523.36 | 2,982.16 | 3,440.95 | 4,129.14 | 4,817.33 |
| Criccieth | 1,381.72 | 1,612.01 | 1,842.29 | 2,072.58 | 2,533.15 | 2,993.73 | 3,454.30 | 4,145.16 | 4,836.02 |
| Dolbenmaen | 1,355.31 | 1,581.20 | 1,807.08 | 2,032.97 | 2,484.74 | 2,936.51 | 3,388.28 | 4,065.94 | 4,743.60 |
| Dolgellau | 1,376.53 | 1,605.96 | 1,835.38 | 2,064.80 | 2,523.64 | 2,982.49 | 3,441.33 | 4,129.60 | 4,817.87 |
| Dyffryn Ardudwy | 1,378.84 | 1,608.65 | 1,838.45 | 2,068.26 | 2,527.87 | 2,987.49 | 3,447.10 | 4,136.52 | 4,825.94 |
| Y Felinheli | 1,368.01 | 1,596.01 | 1,824.01 | 2,052.01 | 2,508.01 | 2,964.01 | 3,420.02 | 4,104.02 | 4,788.02 |
| Ffestiniog | 1,430.67 | 1,669.12 | 1,907.56 | 2,146.01 | 2,622.90 | 3,099.79 | 3,576.68 | 4,292.02 | 5,007.36 |
| Y Ganllwyd | 1,366.01 | 1,593.67 | 1,821.34 | 2,049.01 | 2,504.35 | 2,959.68 | 3,415.02 | 4,098.02 | 4,781.02 |
| Harlech | 1,400.03 | 1,633.37 | 1,866.71 | 2,100.05 | 2,566.73 | 3,033.41 | 3,500.08 | 4,200.10 | 4,900.12 |
| Trefor & Llanaelhaearn | 1,392.75 | 1,624.87 | 1,857.00 | 2,089.12 | 2,553.37 | 3,017.62 | 3,481.87 | 4,178.24 | 4,874.61 |
| Llanbedr | 1,387.61 | 1,618.87 | 1,850.14 | 2,081.41 | 2,543.95 | 3,006.48 | 3,469.02 | 4,162.82 | 4,856.62 |
| Llanbedrog | 1,359.69 | 1,586.30 | 1,812.92 | 2,039.53 | 2,492.76 | 2,945.99 | 3,399.22 | 4,079.06 | 4,758.90 |
| Llanberis | 1,373.23 | 1,602.11 | 1,830.98 | 2,059.85 | 2,517.59 | 2,975.34 | 3,433.08 | 4,119.70 | 4,806.32 |
| Llandwrog | 1,390.90 | 1,622.72 | 1,854.53 | 2,086.35 | 2,549.98 | 3,013.62 | 3,477.25 | 4,172.70 | 4,868.15 |
| Llandygai | 1,362.61 | 1,589.72 | 1,816.82 | 2,043.92 | 2,498.12 | 2,952.33 | 3,406.53 | 4,087.84 | 4,769.15 |
| Llanddeiniolen | 1,357.17 | 1,583.37 | 1,809.56 | 2,035.76 | 2,488.15 | 2,940.54 | 3,392.93 | 4,071.52 | 4,750.11 |
| Llandderfel | 1,355.32 | 1,581.21 | 1,807.09 | 2,032.98 | 2,484.75 | 2,936.53 | 3,388.30 | 4,065.96 | 4,743.62 |
| Llanegryn | 1,368.32 | 1,596.37 | 1,824.43 | 2,052.48 | 2,508.59 | 2,964.69 | 3,420.80 | 4,104.96 | 4,789.12 |
| Llanelltyd | 1,361.08 | 1,587.93 | 1,814.77 | 2,041.62 | 2,495.31 | 2,949.01 | 3,402.70 | 4,083.24 | 4,763.78 |
| Llanengan | 1,354.42 | 1,580.16 | 1,805.89 | 2,031.63 | 2,483.10 | 2,934.58 | 3,386.05 | 4,063.26 | 4,740.47 |
| Llanfair | 1,370.43 | 1,598.84 | 1,827.24 | 2,055.65 | 2,512.46 | 2,969.27 | 3,426.08 | 4,111.30 | 4,796.52 |
| Llanfihangel y Pennant | 1,371.21 | 1,599.75 | 1,828.28 | 2,056.82 | 2,513.89 | 2,970.96 | 3,428.03 | 4,113.64 | 4,799.25 |
| Llanfrothen | 1,373.69 | 1,602.63 | 1,831.58 | 2,060.53 | 2,518.43 | 2,976.32 | 3,434.22 | 4,121.06 | 4,807.90 |
| Llangelynnin | 1,358.08 | 1,584.43 | 1,810.77 | 2,037.12 | 2,489.81 | 2,942.51 | 3,395.20 | 4,074.24 | 4,753.28 |
| Llangywer | 1,367.09 | 1,594.93 | 1,822.78 | 2,050.63 | 2,506.33 | 2,962.02 | 3,417.72 | 4,101.26 | 4,784.80 |
| Llanllechid | 1,369.63 | 1,597.91 | 1,826.18 | 2,054.45 | 2,510.99 | 2,967.54 | 3,424.08 | 4,108.90 | 4,793.72 |
| Llanllyfni | 1,362.09 | 1,589.11 | 1,816.12 | 2,043.14 | 2,497.17 | 2,951.20 | 3,405.23 | 4,086.28 | 4,767.33 |
| Llannor | 1,352.27 | 1,577.65 | 1,803.03 | 2,028.41 | 2,479.17 | 2,929.93 | 3,380.68 | 4,056.82 | 4,732.96 |
| Llanrug | 1,407.15 | 1,641.67 | 1,876.20 | 2,110.72 | 2,579.77 | 3,048.82 | 3,517.87 | 4,221.44 | 4,925.01 |
| Llanuwchllyn | 1,372.34 | 1,601.06 | 1,829.79 | 2,058.51 | 2,515.96 | 2,973.40 | 3,430.85 | 4,117.02 | 4,803.19 |
| Llanwnda | 1,364.47 | 1,591.88 | 1,819.29 | 2,046.70 | 2,501.52 | 2,956.34 | 3,411.17 | 4,093.40 | 4,775.63 |
| Llanycil | 1,352.19 | 1,577.55 | 1,802.92 | 2,028.28 | 2,479.01 | 2,929.74 | 3,380.47 | 4,056.56 | 4,732.65 |
| Llanystumdwy | 1,351.68 | 1,576.96 | 1,802.24 | 2,027.52 | 2,478.08 | 2,928.64 | 3,379.20 | 4,055.04 | 4,730.88 |
| Maentwrog | 1,351.89 | 1,577.21 | 1,802.52 | 2,027.84 | 2,478.47 | 2,929.10 | 3,379.73 | 4,055.68 | 4,731.63 |
| Mawddwy | 1,363.29 | 1,590.50 | 1,817.72 | 2,044.93 | 2,499.36 | 2,953.79 | 3,408.22 | 4,089.86 | 4,771.50 |
| Nefyn | 1,375.71 | 1,604.99 | 1,834.28 | 2,063.56 | 2,522.13 | 2,980.70 | 3,439.27 | 4,127.12 | 4,814.97 |
| Pennal | 1,386.27 | 1,617.32 | 1,848.36 | 2,079.41 | 2,541.50 | 3,003.59 | 3,465.68 | 4,158.82 | 4,851.96 |
| Penrhyndeudraeth | 1,409.19 | 1,644.05 | 1,878.92 | 2,113.78 | 2,583.51 | 3,053.24 | 3,522.97 | 4,227.56 | 4,932.15 |
| Pentir | 1,367.09 | 1,594.94 | 1,822.79 | 2,050.64 | 2,506.34 | 2,962.04 | 3,417.73 | 4,101.28 | 4,784.83 |
| Pistyll | 1,363.35 | 1,590.57 | 1,817.80 | 2,045.02 | 2,499.47 | 2,953.92 | 3,408.37 | 4,090.04 | 4,771.71 |
| Porthmadog | 1,359.05 | 1,585.56 | 1,812.07 | 2,038.58 | 2,491.60 | 2,944.62 | 3,397.63 | 4,077.16 | 4,756.69 |
| Pwllheli | 1,387.42 | 1,618.66 | 1,849.89 | 2,081.13 | 2,543.60 | 3,006.08 | 3,468.55 | 4,162.26 | 4,855.97 |
| Talsarnau | 1,394.89 | 1,627.37 | 1,859.85 | 2,092.33 | 2,557.29 | 3,022.25 | 3,487.22 | 4,184.66 | 4,882.10 |
| Trawsfynydd | 1,364.82 | 1,592.29 | 1,819.76 | 2,047.23 | 2,502.17 | 2,957.11 | 3,412.05 | 4,094.46 | 4,776.87 |
| Tudweiliog | 1,349.93 | 1,574.92 | 1,799.91 | 2,024.90 | 2,474.88 | 2,924.86 | 3,374.83 | 4,049.80 | 4,724.77 |
| Tywyn | 1,377.73 | 1,607.35 | 1,836.97 | 2,066.59 | 2,525.83 | 2,985.07 | 3,444.32 | 4,133.18 | 4,822.04 |
| Waunfawr | 1,350.23 | 1,575.27 | 1,800.31 | 2,025.35 | 2,475.43 | 2,925.51 | 3,375.58 | 4,050.70 | 4,725.82 |

## Treth Cyngor: Cyngor Gwynedd + Cyngor Cymuned + Comisiynydd Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru
## Council Tax : Cyngor Gwynedd + Community Council + North Wales Police and Crime Commissioner

| | Band A | Band B | Band C | Band D | Band E | Band F | Band G | Band H | Band I |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Aberdaron | 1,621.31 | 1,891.52 | 2,161.74 | 2,431.96 | 2,972.40 | 3,512.83 | 4,053.27 | 4,863.92 | 5,674.57 |
| Aberdyfi | 1,628.44 | 1,899.85 | 2,171.25 | 2,442.66 | 2,985.47 | 3,528.29 | 4,071.10 | 4,885.32 | 5,699.54 |
| Abergwyngregyn | 1,627.89 | 1,899.20 | 2,170.52 | 2,441.83 | 2,984.46 | 3,527.09 | 4,069.72 | 4,883.66 | 5,697.60 |
| Abermaw (Barmouth) | 1,639.04 | 1,912.21 | 2,185.39 | 2,458.56 | 3,004.91 | 3,551.25 | 4,097.60 | 4,917.12 | 5,736.64 |
| Arthog | 1,619.90 | 1,889.88 | 2,159.87 | 2,429.85 | 2,969.82 | 3,509.78 | 4,049.75 | 4,859.70 | 5,669.65 |
| Bala | 1,627.69 | 1,898.98 | 2,170.26 | 2,441.54 | 2,984.10 | 3,526.67 | 4,069.23 | 4,883.08 | 5,696.93 |
| Bangor | 1,703.43 | 1,987.33 | 2,271.24 | 2,555.14 | 3,122.95 | 3,690.76 | 4,258.57 | 5,110.28 | 5,961.99 |
| Beddgelert | 1,629.91 | 1,901.57 | 2,173.22 | 2,444.87 | 2,988.17 | 3,531.48 | 4,074.78 | 4,889.74 | 5,704.70 |
| Betws Garmon | 1,616.33 | 1,885.72 | 2,155.11 | 2,424.50 | 2,963.28 | 3,502.06 | 4,040.83 | 4,849.00 | 5,657.17 |
| Bethesda | 1,671.13 | 1,949.65 | 2,228.17 | 2,506.69 | 3,063.73 | 3,620.77 | 4,177.82 | 5,013.38 | 5,848.94 |
| Bontnewydd | 1,629.21 | 1,900.75 | 2,172.28 | 2,443.82 | 2,986.89 | 3,529.96 | 4,073.03 | 4,887.64 | 5,702.25 |
| Botwnnog | 1,611.83 | 1,880.46 | 2,149.10 | 2,417.74 | 2,955.02 | 3,492.29 | 4,029.57 | 4,835.48 | 5,641.39 |
| Brithdir & Llanfachreth | 1,622.17 | 1,892.54 | 2,162.90 | 2,433.26 | 2,973.98 | 3,514.71 | 4,055.43 | 4,866.52 | 5,677.61 |
| Bryncrug | 1,628.36 | 1,899.75 | 2,171.15 | 2,442.54 | 2,985.33 | 3,528.11 | 4,070.90 | 4,885.08 | 5,699.26 |
| Buan | 1,615.44 | 1,884.68 | 2,153.92 | 2,423.16 | 2,961.64 | 3,500.12 | 4,038.60 | 4,846.32 | 5,654.04 |
| Caernarfon | 1,684.31 | 1,965.02 | 2,245.74 | 2,526.46 | 3,087.90 | 3,649.33 | 4,210.77 | 5,052.92 | 5,895.07 |
| Clynnog Fawr | 1,656.37 | 1,932.44 | 2,208.50 | 2,484.56 | 3,036.68 | 3,588.81 | 4,140.93 | 4,969.12 | 5,797.31 |
| Corris | 1,641.88 | 1,915.53 | 2,189.17 | 2,462.82 | 3,010.11 | 3,557.41 | 4,104.70 | 4,925.64 | 5,746.58 |
| Criccieth | 1,647.22 | 1,921.76 | 2,196.29 | 2,470.83 | 3,019.90 | 3,568.98 | 4,118.05 | 4,941.66 | 5,765.27 |
| Dolbenmaen | 1,620.81 | 1,890.95 | 2,161.08 | 2,431.22 | 2,971.49 | 3,511.76 | 4,052.03 | 4,862.44 | 5,672.85 |
| Dolgellau | 1,642.03 | 1,915.71 | 2,189.38 | 2,463.05 | 3,010.39 | 3,557.74 | 4,105.08 | 4,926.10 | 5,747.12 |
| Dyffryn Ardudwy | 1,644.34 | 1,918.40 | 2,192.45 | 2,466.51 | 3,014.62 | 3,562.74 | 4,110.85 | 4,933.02 | 5,755.19 |
| Y Felinheli | 1,633.51 | 1,905.76 | 2,178.01 | 2,450.26 | 2,994.76 | 3,539.26 | 4,083.77 | 4,900.52 | 5,717.27 |
| Ffestiniog | 1,696.17 | 1,978.87 | 2,261.56 | 2,544.26 | 3,109.65 | 3,675.04 | 4,240.43 | 5,088.52 | 5,936.61 |
| Y Ganllwyd | 1,631.51 | 1,903.42 | 2,175.34 | 2,447.26 | 2,991.10 | 3,534.93 | 4,078.77 | 4,894.52 | 5,710.27 |
| Harlech | 1,665.53 | 1,943.12 | 2,220.71 | 2,498.30 | 3,053.48 | 3,608.66 | 4,163.83 | 4,996.60 | 5,829.37 |
| Trefor & Llanaelhaearn | 1,658.25 | 1,934.62 | 2,211.00 | 2,487.37 | 3,040.12 | 3,592.87 | 4,145.62 | 4,974.74 | 5,803.86 |
| Llanbedr | 1,653.11 | 1,928.62 | 2,204.14 | 2,479.66 | 3,030.70 | 3,581.73 | 4,132.77 | 4,959.32 | 5,785.87 |
| Llanbedrog | 1,625.19 | 1,896.05 | 2,166.92 | 2,437.78 | 2,979.51 | 3,521.24 | 4,062.97 | 4,875.56 | 5,688.15 |
| Llanberis | 1,638.73 | 1,911.86 | 2,184.98 | 2,458.10 | 3,004.34 | 3,550.59 | 4,096.83 | 4,916.20 | 5,735.57 |
| Llandwrog | 1,656.40 | 1,932.47 | 2,208.53 | 2,484.60 | 3,036.73 | 3,588.87 | 4,141.00 | 4,969.20 | 5,797.40 |
| Llandygai | 1,628.11 | 1,899.47 | 2,170.82 | 2,442.17 | 2,984.87 | 3,527.58 | 4,070.28 | 4,884.34 | 5,698.40 |
| Llanddeiniolen | 1,622.67 | 1,893.12 | 2,163.56 | 2,434.01 | 2,974.90 | 3,515.79 | 4,056.68 | 4,868.02 | 5,679.36 |
| Llandderfel | 1,620.82 | 1,890.96 | 2,161.09 | 2,431.23 | 2,971.50 | 3,511.78 | 4,052.05 | 4,862.46 | 5,672.87 |
| Llanegryn | 1,633.82 | 1,906.12 | 2,178.43 | 2,450.73 | 2,995.34 | 3,539.94 | 4,084.55 | 4,901.46 | 5,718.37 |
| Llanelltyd | 1,626.58 | 1,897.68 | 2,168.77 | 2,439.87 | 2,982.06 | 3,524.26 | 4,066.45 | 4,879.74 | 5,693.03 |
| Llanengan | 1,619.92 | 1,889.91 | 2,159.89 | 2,429.88 | 2,969.85 | 3,509.83 | 4,049.80 | 4,859.76 | 5,669.72 |
| Llanfair | 1,635.93 | 1,908.59 | 2,181.24 | 2,453.90 | 2,999.21 | 3,544.52 | 4,089.83 | 4,907.80 | 5,725.77 |
| Llanfihangel y Pennant | 1,636.71 | 1,909.50 | 2,182.28 | 2,455.07 | 3,000.64 | 3,546.21 | 4,091.78 | 4,910.14 | 5,728.50 |
| Llanfrothen | 1,639.19 | 1,912.38 | 2,185.58 | 2,458.78 | 3,005.18 | 3,551.57 | 4,097.97 | 4,917.56 | 5,737.15 |
| Llangelynnin | 1,623.58 | 1,894.18 | 2,164.77 | 2,435.37 | 2,976.56 | 3,517.76 | 4,058.95 | 4,870.74 | 5,682.53 |
| Llangywer | 1,632.59 | 1,904.68 | 2,176.78 | 2,448.88 | 2,993.08 | 3,537.27 | 4,081.47 | 4,897.76 | 5,714.05 |
| Llanllechid | 1,635.13 | 1,907.66 | 2,180.18 | 2,452.70 | 2,997.74 | 3,542.79 | 4,087.83 | 4,905.40 | 5,722.97 |
| Llanllyfni | 1,627.59 | 1,898.86 | 2,170.12 | 2,441.39 | 2,983.92 | 3,526.45 | 4,068.98 | 4,882.78 | 5,696.58 |
| Llannor | 1,617.77 | 1,887.40 | 2,157.03 | 2,426.66 | 2,965.92 | 3,505.18 | 4,044.43 | 4,853.32 | 5,662.21 |
| Llanrug | 1,672.65 | 1,951.42 | 2,230.20 | 2,508.97 | 3,066.52 | 3,624.07 | 4,181.62 | 5,017.94 | 5,854.26 |
| Llanuwchllyn | 1,637.84 | 1,910.81 | 2,183.79 | 2,456.76 | 3,002.71 | 3,548.65 | 4,094.60 | 4,913.52 | 5,732.44 |
| Llanwnda | 1,629.97 | 1,901.63 | 2,173.29 | 2,444.95 | 2,988.27 | 3,531.59 | 4,074.92 | 4,889.90 | 5,704.88 |
| Llanycil | 1,617.69 | 1,887.30 | 2,156.92 | 2,426.53 | 2,965.76 | 3,504.99 | 4,044.22 | 4,853.06 | 5,661.90 |
| Llanystumdwy | 1,617.18 | 1,886.71 | 2,156.24 | 2,425.77 | 2,964.83 | 3,503.89 | 4,042.95 | 4,851.54 | 5,660.13 |
| Maentwrog | 1,617.39 | 1,886.96 | 2,156.52 | 2,426.09 | 2,965.22 | 3,504.35 | 4,043.48 | 4,852.18 | 5,660.88 |
| Mawddwy | 1,628.79 | 1,900.25 | 2,171.72 | 2,443.18 | 2,986.11 | 3,529.04 | 4,071.97 | 4,886.36 | 5,700.75 |
| Nefyn | 1,641.21 | 1,914.74 | 2,188.28 | 2,461.81 | 3,008.88 | 3,555.95 | 4,103.02 | 4,923.62 | 5,744.22 |
| Pennal | 1,651.77 | 1,927.07 | 2,202.36 | 2,477.66 | 3,028.25 | 3,578.84 | 4,129.43 | 4,955.32 | 5,781.21 |
| Penrhyndeudraeth | 1,674.69 | 1,953.80 | 2,232.92 | 2,512.03 | 3,070.26 | 3,628.49 | 4,186.72 | 5,024.06 | 5,861.40 |
| Pentir | 1,632.59 | 1,904.69 | 2,176.79 | 2,448.89 | 2,993.09 | 3,537.29 | 4,081.48 | 4,897.78 | 5,714.08 |
| Pistyll | 1,628.85 | 1,900.32 | 2,171.80 | 2,443.27 | 2,986.22 | 3,529.17 | 4,072.12 | 4,886.54 | 5,700.96 |
| Porthmadog | 1,624.55 | 1,895.31 | 2,166.07 | 2,436.83 | 2,978.35 | 3,519.87 | 4,061.38 | 4,873.66 | 5,685.94 |
| Pwllheli | 1,652.92 | 1,928.41 | 2,203.89 | 2,479.38 | 3,030.35 | 3,581.33 | 4,132.30 | 4,958.76 | 5,785.22 |
| Talsarnau | 1,660.39 | 1,937.12 | 2,213.85 | 2,490.58 | 3,044.04 | 3,597.50 | 4,150.97 | 4,981.16 | 5,811.35 |
| Trawsfynydd | 1,630.32 | 1,902.04 | 2,173.76 | 2,445.48 | 2,988.92 | 3,532.36 | 4,075.80 | 4,890.96 | 5,706.12 |
| Tudweiliog | 1,615.43 | 1,884.67 | 2,153.91 | 2,423.15 | 2,961.63 | 3,500.11 | 4,038.58 | 4,846.30 | 5,654.02 |
| Tywyn | 1,643.23 | 1,917.10 | 2,190.97 | 2,464.84 | 3,012.58 | 3,560.32 | 4,108.07 | 4,929.68 | 5,751.29 |
| Waunfawr | 1,615.73 | 1,885.02 | 2,154.31 | 2,423.60 | 2,962.18 | 3,500.76 | 4,039.33 | 4,847.20 | 5,655.07 |

**Cynnydd yn y Dreth Cygor fesul Cymuned / Increase in Council Tax by Community**

| Cymuned/ Community | Sylfaen Drethiannol / Taxbase (Band D) | Praesept / Precept £ | Treth Cymuned / Community Tax | Treth Gwynedd / Gwynedd Tax | Treth Heddlu / Police Tax | Cyfanswm / Total (Band D) 2026/27 | Band D 2025/26 £ | Cynnydd / Increase 25/26 - 26/27 | Cynnydd / Increase % |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Aberdaron | 670.17 | 18,500 | 27.60 | 2,006.11 | 398.25 | 2,431.96 | 2,307.78 | 124.18 | 5.4% |
| Aberdyfi | 1,336.17 | 51,181 | 38.30 | 2,006.11 | 398.25 | 2,442.66 | 2,317.76 | 124.90 | 5.4% |
| Abergwyngregyn | 120.09 | 4,500 | 37.47 | 2,006.11 | 398.25 | 2,441.83 | 2,316.56 | 125.27 | 5.4% |
| Abermaw (Barmouth) | 1,337.70 | 72,500 | 54.20 | 2,006.11 | 398.25 | 2,458.56 | 2,332.31 | 126.25 | 5.4% |
| Arthog | 706.13 | 18,000 | 25.49 | 2,006.11 | 398.25 | 2,429.85 | 2,301.20 | 128.65 | 5.6% |
| Y Bala | 806.79 | 30,000 | 37.18 | 2,006.11 | 398.25 | 2,441.54 | 2,314.45 | 127.09 | 5.5% |
| Bangor | 4,186.93 | 631,302 | 150.78 | 2,006.11 | 398.25 | 2,555.14 | 2,421.30 | 133.84 | 5.5% |
| Beddgelert | 381.36 | 15,450 | 40.51 | 2,006.11 | 398.25 | 2,444.87 | 2,320.17 | 124.70 | 5.4% |
| Betws Garmon | 156.41 | 3,150 | 20.14 | 2,006.11 | 398.25 | 2,424.50 | 2,301.18 | 123.32 | 5.4% |
| Bethesda | 1,749.91 | 179,060 | 102.33 | 2,006.11 | 398.25 | 2,506.69 | 2,343.29 | 163.40 | 7.0% |
| Bontnewydd | 468.82 | 18,500 | 39.46 | 2,006.11 | 398.25 | 2,443.82 | 2,319.58 | 124.24 | 5.4% |
| Botwnnog | 485.84 | 6,500 | 13.38 | 2,006.11 | 398.25 | 2,417.74 | 2,293.07 | 124.67 | 5.4% |
| Brithdir & Llanfachreth | 484.51 | 14,000 | 28.90 | 2,006.11 | 398.25 | 2,433.26 | 2,304.94 | 128.32 | 5.6% |
| Bryncrug | 349.69 | 13,350 | 38.18 | 2,006.11 | 398.25 | 2,442.54 | 2,317.20 | 125.34 | 5.4% |
| Buan | 239.39 | 4,500 | 18.80 | 2,006.11 | 398.25 | 2,423.16 | 2,298.01 | 125.15 | 5.4% |
| Caernarfon | 3,685.95 | 450,055 | 122.10 | 2,006.11 | 398.25 | 2,526.46 | 2,395.09 | 131.37 | 5.5% |
| Clynnog Fawr | 498.73 | 40,000 | 80.20 | 2,006.11 | 398.25 | 2,484.56 | 2,351.09 | 133.47 | 5.7% |
| Corris | 325.01 | 19,000 | 58.46 | 2,006.11 | 398.25 | 2,462.82 | 2,339.08 | 123.74 | 5.3% |
| Criccieth | 1,038.04 | 69,000 | 66.47 | 2,006.11 | 398.25 | 2,470.83 | 2,338.64 | 132.19 | 5.7% |
| Dolbenmaen | 670.19 | 18,000 | 26.86 | 2,006.11 | 398.25 | 2,431.22 | 2,307.21 | 124.01 | 5.4% |
| Dolgellau | 1,363.11 | 80,000 | 58.69 | 2,006.11 | 398.25 | 2,463.05 | 2,338.19 | 124.86 | 5.3% |
| Dyffryn Ardudwy | 884.96 | 55,000 | 62.15 | 2,006.11 | 398.25 | 2,466.51 | 2,342.57 | 123.94 | 5.3% |
| Y Felinheli | 1,192.33 | 54,729 | 45.90 | 2,006.11 | 398.25 | 2,450.26 | 2,323.42 | 126.84 | 5.5% |
| Ffestiniog | 1,858.53 | 260,000 | 139.90 | 2,006.11 | 398.25 | 2,544.26 | 2,415.34 | 128.92 | 5.3% |
| Y Ganllwyd | 93.24 | 4,000 | 42.90 | 2,006.11 | 398.25 | 2,447.26 | 2,316.57 | 130.69 | 5.6% |
| Harlech | 904.83 | 85,000 | 93.94 | 2,006.11 | 398.25 | 2,498.30 | 2,377.25 | 121.05 | 5.1% |
| Trefor & Llanaelhaearn | 481.86 | 40,000 | 83.01 | 2,006.11 | 398.25 | 2,487.37 | 2,332.19 | 155.18 | 6.7% |
| Llanbedr | 385.11 | 29,000 | 75.30 | 2,006.11 | 398.25 | 2,479.66 | 2,360.22 | 119.44 | 5.1% |
| Llanbedrog | 897.59 | 30,000 | 33.42 | 2,006.11 | 398.25 | 2,437.78 | 2,313.64 | 124.14 | 5.4% |
| Llanberis | 812.92 | 43,684 | 53.74 | 2,006.11 | 398.25 | 2,458.10 | 2,330.22 | 127.88 | 5.5% |
| Llandwrog | 1,099.29 | 88,210 | 80.24 | 2,006.11 | 398.25 | 2,484.60 | 2,355.88 | 128.72 | 5.5% |
| Llandygai | 1,051.63 | 39,760 | 37.81 | 2,006.11 | 398.25 | 2,442.17 | 2,317.11 | 125.06 | 5.4% |
| Llanddeiniolen | 1,888.60 | 56,000 | 29.65 | 2,006.11 | 398.25 | 2,434.01 | 2,295.91 | 138.10 | 6.0% |
| Llandderfel | 558.22 | 15,000 | 26.87 | 2,006.11 | 398.25 | 2,431.23 | 2,308.00 | 123.23 | 5.3% |
| Llanegryn | 169.30 | 7,850 | 46.37 | 2,006.11 | 398.25 | 2,450.73 | 2,324.55 | 126.18 | 5.4% |
| Llanelltyd | 337.92 | 12,000 | 35.51 | 2,006.11 | 398.25 | 2,439.87 | 2,318.33 | 121.54 | 5.2% |
| Llanengan | 2,861.00 | 73,000 | 25.52 | 2,006.11 | 398.25 | 2,429.88 | 2,303.26 | 126.62 | 5.5% |
| Llanfair | 379.49 | 18,800 | 49.54 | 2,006.11 | 398.25 | 2,453.90 | 2,329.27 | 124.63 | 5.4% |
| Llanfihangel y Pennant | 268.21 | 13,600 | 50.71 | 2,006.11 | 398.25 | 2,455.07 | 2,329.69 | 125.38 | 5.4% |
| Llanfrothen | 244.41 | 13,300 | 54.42 | 2,006.11 | 398.25 | 2,458.78 | 2,333.57 | 125.21 | 5.4% |
| Llangelynnin | 488.48 | 15,150 | 31.01 | 2,006.11 | 398.25 | 2,435.37 | 2,309.35 | 126.02 | 5.5% |
| Llangywer | 157.24 | 7,000 | 44.52 | 2,006.11 | 398.25 | 2,448.88 | 2,311.05 | 137.83 | 6.0% |
| Llanllechid | 363.31 | 17,563 | 48.34 | 2,006.11 | 398.25 | 2,452.70 | 2,325.97 | 126.73 | 5.4% |
| Llanllyfni | 1,485.31 | 55,000 | 37.03 | 2,006.11 | 398.25 | 2,441.39 | 2,315.66 | 125.73 | 5.4% |
| Llannor | 963.95 | 21,500 | 22.30 | 2,006.11 | 398.25 | 2,426.66 | 2,301.71 | 124.95 | 5.4% |
| Llanrug | 1,147.14 | 120,000 | 104.61 | 2,006.11 | 398.25 | 2,508.97 | 2,366.28 | 142.69 | 6.0% |
| Llanuwchllyn | 339.69 | 17,800 | 52.40 | 2,006.11 | 398.25 | 2,456.76 | 2,329.84 | 126.92 | 5.4% |
| Llanwnda | 840.13 | 34,100 | 40.59 | 2,006.11 | 398.25 | 2,444.95 | 2,318.25 | 126.70 | 5.5% |
| Llanycil | 214.29 | 4,750 | 22.17 | 2,006.11 | 398.25 | 2,426.53 | 2,301.86 | 124.67 | 5.4% |
| Llanystumdwy | 981.04 | 21,000 | 21.41 | 2,006.11 | 398.25 | 2,425.77 | 2,301.51 | 124.26 | 5.4% |
| Maentwrog | 332.11 | 7,215 | 21.73 | 2,006.11 | 398.25 | 2,426.09 | 2,301.14 | 124.95 | 5.4% |
| Mawddwy | 386.36 | 15,000 | 38.82 | 2,006.11 | 398.25 | 2,443.18 | 2,314.26 | 128.92 | 5.6% |
| Nefyn | 1,740.58 | 100,000 | 57.45 | 2,006.11 | 398.25 | 2,461.81 | 2,335.65 | 126.16 | 5.4% |
| Pennal | 245.57 | 18,000 | 73.30 | 2,006.11 | 398.25 | 2,477.66 | 2,355.10 | 122.56 | 5.2% |
| Penrhyndeudraeth | 862.97 | 92,914 | 107.67 | 2,006.11 | 398.25 | 2,512.03 | 2,400.80 | 111.23 | 4.6% |
| Pentir | 1,302.63 | 58,000 | 44.53 | 2,006.11 | 398.25 | 2,448.89 | 2,321.61 | 127.28 | 5.5% |
| Pistyll | 308.41 | 12,000 | 38.91 | 2,006.11 | 398.25 | 2,443.27 | 2,319.84 | 123.43 | 5.3% |
| Porthmadog | 2,341.29 | 76,015 | 32.47 | 2,006.11 | 398.25 | 2,436.83 | 2,311.61 | 125.22 | 5.4% |
| Pwllheli | 1,866.20 | 140,000 | 75.02 | 2,006.11 | 398.25 | 2,479.38 | 2,349.29 | 130.09 | 5.5% |
| Talsarnau | 394.32 | 34,000 | 86.22 | 2,006.11 | 398.25 | 2,490.58 | 2,372.68 | 117.90 | 5.0% |
| Trawsfynydd | 535.08 | 22,000 | 41.12 | 2,006.11 | 398.25 | 2,445.48 | 2,317.45 | 128.03 | 5.5% |
| Tudweiliog | 532.10 | 10,000 | 18.79 | 2,006.11 | 398.25 | 2,423.15 | 2,298.86 | 124.29 | 5.4% |
| Tywyn | 1,787.26 | 108,100 | 60.48 | 2,006.11 | 398.25 | 2,464.84 | 2,338.72 | 126.12 | 5.4% |
| Waunfawr | 623.84 | 12,000 | 19.24 | 2,006.11 | 398.25 | 2,423.60 | 2,299.80 | 123.80 | 5.4% |

| Awdurdod | 2026/27 | 2025/26 | | Authority |
|---|---|---|---|---|
| **Cyngor Gwynedd** | **2,006.11** | **1,907.49** | **5.17%** | **Gwynedd Council** |
| **Comisiynydd Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru** | **398.25** | **372.15** | **7.01%** | **North Wales Police & Crime Commissioner** |
| **Cynghorau Cymuned (Cyfartaledd)** | **64.41** | **60.58** | **6.32%** | **Community Councils (Average)** |
| **Cyfanswm** | **2,468.77** | **2,340.22** | **5.5%** | **Total** |

| | |
|---|---|
| CYFARFOD: | **CYNGOR LLAWN** |
| DYDDIAD: | **5 MAWRTH 2026** |
| PWNC: | **STRATEGAETH GYFALAF 2026/27 (YN CYNNWYS STRATEGAETHAU BUDDSODDI A BENTHYG)** |
| PWRPAS: | **MABWYSIADU'R STRATEGAETH GYFALAF AR GYFER 2026/27** |
| SWYDDOG CYSWLLT: | **DEWI MORGAN, PENNAETH CYLLID** |
| AELOD CABINET: | **Y CYNGHORYDD HUW WYN JONES, AELOD CABINET CYLLID** |

---

**PENDERFYNIAD A GEISIR**

Derbyn yr adroddiad a chymeradwyo'r Strategaeth Gyfalaf ar gyfer 2026/27

---

**CYFLWYNIAD**

1. Mae'r adroddiad strategaeth gyfalaf hwn yn rhoi trosolwg lefel uchel ar y modd y mae gwariant cyfalaf, ariannu cyfalaf a gweithgaredd rheolaeth trysorlys yn cyfrannu at ddarparu gwasanaethau cyhoeddus lleol. Mae hefyd yn rhoi trosolwg o sut rheolir y risgiau cysylltiedig, a'r goblygiadau i gynaliadwyedd ariannol yn y dyfodol. Fe'i hysgrifennwyd mewn arddull rwydd er mwyn hwyluso dealltwriaeth aelodau o'r meysydd hyn sy'n dechnegol ar brydiau.

2. Bydd penderfyniadau ar reolaeth cyfalaf a thrysorlys a wneir eleni yn cael effaith ariannol ar y Cyngor am nifer o flynyddoedd i'r dyfodol. Maent felly o dan reolaeth fframwaith cenedlaethol a fframwaith polisi lleol, fel a grynhoir yn yr adroddiad hwn.

**GWARIANT CYFALAF A CHYLLIDO**

3. Gwariant cyfalaf yw pan mae'r Cyngor yn gwario arian ar asedau, megis eiddo neu gerbydau, a fydd yn cael eu defnyddio am fwy na blwyddyn. Mewn llywodraeth leol mae hyn yn cynnwys gwario ar asedau sy'n eiddo i gyrff eraill, a rhoi benthyciadau a grantiau i gyrff eraill i'w galluogi nhw i brynu asedau.

4. Yn 2026/27, mae'r Cyngor yn bwriadu gwneud gwariant cyfalaf o £40.2m, fel a grynhoir isod:

*Tabl 1: Dangosydd Darbodus: Amcangyfrifon o Wariant Cyfalaf mewn £ miliynau*

| | **Gwir 2024/25 £m** | **Amcan 2025/26 £m** | **Cyllideb 2026/27 £m** | **Cyllideb 2027/28 £m** | **Cyllideb 2028/29 £m** |
|---|---|---|---|---|---|
| Gwasanaethau Cronfa Gyffredinol | 85.0 | 94.1 | 40.2 | 18.9 | 8.9 |
| Prydlesu Cronfa Gyffredinol * | 5.3 | 0.0 | 0.0 | 0.0 | 0.0 |
| **CYFANSWM** | **90.3** | **94.1** | **40.2** | **18.9** | **8.9** |

** Daw £5.3m o wariant cyfalaf 2024/25 oherwydd newid yn y dull cyfrifo am brydlesau a nid yw'n cynrychioli gwariant arian parod.*

5. Mae prif brosiectau cyfalaf y Gronfa Gyffredinol yn 2026/27 yn cynnwys:
   - Cynlluniau Cymunedau Dysgu Cynaliadwy - £8.2m
   - Cerbydau Adrannol - £6.5m
   - Cynlluniau /Strategaeth Tai - £5.0m
   - Cynlluniau Cronfa Ffyniant Bro/Cyffredin - £4.9m
   - Ffyrdd, Pontydd a Bwrdeistrefol - £3.6m
   - Cartrefi / Canolfannau Oedolion a Phlant- £4.5m

6. **Llywodraethu**: Mae gan y Cyngor Strategaeth Asedau 10 mlynedd, sef cynllun o flaenoriaethau gwariant cyfalaf y Cyngor yn seiliedig ar anghenion yr adrannau. Mae'r strategaeth yn cynnwys cyfran heb ei chlustnodi. O'r gyfran hon, mae modd i adrannau wneud cais yn flynyddol am arian ar gyfer cynlluniau cyfalaf. Yr Adran Gyllid sy'n cydlynu'r ceisiadau. Mae'r Cabinet yn gwerthuso pob cais yn seiliedig ar flaenoriaethau, ac yn gwneud argymhellion. Cyflwynir ceisiadau cyfalaf a strategaeth asedau i'r Cabinet a'r Cyngor llawn yn flynyddol.

   - Am ragor o wybodaeth am raglen gyfalaf y Cyngor, ewch i **Atodiad A**.

7. Rhaid ariannu pob gwariant cyfalaf naill ai o ffynonellau allanol (grantiau gan y llywodraeth a chyfraniadau eraill), adnoddau'r Cyngor (refeniw, cronfeydd a derbyniadau cyfalaf), neu ddyled (benthyca, prydlesu, a Menter Cyllid Preifat (MCP)). Bwriedir ariannu'r gwariant uchod fel a ganlyn:

*Tabl 2: Cyllido Cyfalaf mewn £ miliynau*

| | **Gwir 2024/25** | **Amcan 2025/26** | **Cyllideb 2026/27** | **Cyllideb 2027/28** | **Cyllideb 2028/29** |
|---|---|---|---|---|---|

| | £m | £m | £m | £m | £m |
|---|---|---|---|---|---|
| Ffynonellau Allanol | 66.5 | 53.3 | 14.4 | 4.9 | 2.5 |
| Adnoddau ein Hunain | 11.5 | 26.4 | 16.6 | 9.6 | 2.0 |
| Dyled * | 12.3 | 14.4 | 9.2 | 4.4 | 4.4 |
| **CYFANSWM** | **90.3** | **94.1** | **40.2** | **18.9** | **8.9** |

** Daw £5.3m o wariant cyfalaf 2024/25 oherwydd newid yn y dull cyfrifo am brydlesau a nid yw'n cynrychioli gwariant arian parod.*

8. Cyllid dros dro yn unig yw dyled, gan fod rhaid talu benthyciadau a phrydlesau yn ôl. Mae hwn, felly, yn cael ei ddisodli mewn amser gyda mathau gwahanol o ariannu, fel arfer o refeniw. Gelwir hyn yn ddarpariaeth lleiafswm refeniw (DLlR). Fel arall, gellir defnyddio enillion a ddaw o werthu asedau cyfalaf (a elwir yn dderbyniadau cyfalaf) i ddisodli dyled ariannol. Mae'r defnydd o'r derbyniadau cyfalaf a'r DLlR bwriedig fel a ganlyn:

*Tabl 3: Disodli Dyled mewn £ miliynau*

| | **Gwir 2024/25 £m** | **Amcan 2025/26 £m** | **Cyllideb 2026/27 £m** | **Cyllideb 2027/28 £m** | **Cyllideb 2028/29 £m** |
|---|---|---|---|---|---|
| Darpariaeth Lleiafswm Refeniw | **5.9** | **6.9** | **6.8** | **7.0** | **6.9** |

- Ceir Datganiad Darpariaeth Lleiafswm Refeniw cyflawn y Cyngor yn **Atodiad B** y Datganiad Strategaeth Cyfalaf. Mae'r datganiad yma wedi ei addasu ar gyfer 2026/27.

9. Mesurir cyllid sy'n ariannu dyled cronnus y Cyngor yn ôl y gofyn cyllido cyfalaf (GCC). Mae hyn yn cynyddu gyda gwariant cyfalaf newydd a ariennir drwy ddyled, ac mae'n lleihau gyda DLlR a derbyniadau cyfalaf a ddefnyddir i ddisodli dyled. Disgwylir y bydd y GCC yn cynyddu £2.4m yn ystod 2026/27. Yn seiliedig ar y ffigyrau gwariant ac ariannu uchod, mae GCC amcangyfrifedig y Cyngor fel a ganlyn:

*Tabl 4: Dangosydd Darbodus: Amcangyfrifon o'r Gofyn Cyllido Cyfalaf mewn £ miliynau*

| | **Gwir 31.3.2025 £m** | **Amcan 31.3.2026 £m** | **Cyllideb 31.3.2027 £m** | **Cyllideb 31.3.2028 £m** | **Cyllideb 31.3.2029 £m** |
|---|---|---|---|---|---|

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| Gwasanaethau Cronfa Gyffredinol * | 179.9 | 187.4 | 189.8 | 187.2 | 184.7 |

** Daw £5.3m o gynnydd yn y Gofyn Cyllido Cyfalaf am 2024/25 ac ymlaen oherwydd newid yn y dull cyfrifo am brydlesau.*

10. **Rheoli Asedau:** Er mwyn sicrhau bod asedau cyfalaf yn parhau'n ddefnyddiol yn y tymor hir, mae gan y Cyngor strategaeth rheoli asedau. Mae'r Cynllun Asedau ar gyfer y cyfnod 10 mlynedd o 2024/25 hyd 2033/24 wedi cael ei adolygu a chafodd ei gymeradwyo gan y Cyngor llawn ar 11/07/2024, gweler Eitem 7 ar y rhaglen:

    Rhaglen ar gyfer Y Cyngor ar Dydd Iau, 11eg Gorffennaf, 2024, 2.00 y.h.

11. **Gwaredu Asedau:** Pan nad oes angen yr ased cyfalaf mwyach, gellir ei werthu er mwyn gwario'r derbyniadau cyfalaf yma ar asedau newydd neu i ad-dalu dyled. Mae ad-dalu grantiau cyfalaf, benthyciadau a buddsoddiadau hefyd yn creu derbyniadau cyfalaf. Bwriad y Cyngor yw derbyn derbyniadau cyfalaf fel a ddengys yn y tabl isod:

*Tabl 5: Derbyniadau Cyfalaf mewn £ miliynau*

| | **Gwir 2024/25 £m** | **Amcan 2025/26 £m** | **Cyllideb 2026/27 £m** | **Cyllideb 2027/28 £m** | **Cyllideb 2028/29 £m** |
|---|---|---|---|---|---|
| Gwerthu Asedau | 0.3 | 0.1 | 0.0 | 0.1 | 0.0 |
| Ad-dalu Benthyciad | 0.0 | 0.1 | 0.1 | 0.0 | 0.1 |
| **CYFANSWM** | **0.3** | **0.2** | **0.1** | **0.1** | **0.1** |

**RHEOLAETH TRYSORLYS**

12. Mae rheolaeth trysorlys yn ymwneud â chadw digonedd ond nid gormodedd o arian parod i ddiwallu anghenion gwariant y Cyngor, gan reoli'r risgiau cysylltiedig. Buddsoddir arian dros ben nes bydd galw amdano, ac ymdrinnir â phrinder arian drwy fenthyg, er mwyn sicrhau nad yw'r gweddill credyd na'r gorddrafft yn y cyfrif banc cyfredol yn ormod. Mae'r Cyngor fel arfer yn gyfoethog mewn arian parod yn y tymor byr gan fod incwm refeniw'n cael ei dderbyn cyn cael ei wario. Ond yn y tymor hir mae'n ariannol dlawd, gan fod gwariant cyfalaf yn digwydd cyn canfod yr arian i dalu amdano. Caiff gormodedd arian parod refeniw ei osod yn erbyn diffygion arian parod cyfalaf er mwyn lleihau faint a fenthycir yn gyffredinol.

13. Oherwydd y penderfyniadau a wnaethpwyd yn y gorffennol, ar hyn o bryd mae benthyciadau'r Cyngor yn £75.7m, gyda chyfradd llog cyfartalog o 5.49%, a buddsoddiadau trysorlys o £130.7m ar gyfradd gyfartalog o 4.13%.

14. **Y Strategaeth Fenthyca:** Prif amcanion y Cyngor wrth fenthyg yw canfod cost benthyca sy'n isel ond sy'n benodedig, gan gynnal hyblygrwydd pe bai cynlluniau yn newid yn y dyfodol. Yn aml, mae'r amcanion hyn yn gwrthdaro. Mae'r Cyngor, felly, yn ceisio cael cydbwysedd rhwng benthyciadau rhad, tymor byr a benthyciadau tymor hir ar gyfradd sefydlog lle mae'r gost yn y dyfodol yn hysbys ond yn uwch.

    Nid yw’r Cyngor yn benthyca i fuddsoddi ar gyfer y prif bwrpas o ddychweliadau ariannol ac felly gyda mynediad llawn i’r PWLB.

15. Gweler lefelau rhagamcanedig o gyfanswm dyled y Cyngor sy'n weddill (sy’n cynnwys benthyciadau, ymrwymiadau MCP a phrydlesau) isod, o'u cymharu â'r gofyn cyllido cyfalaf (gweler uchod).

*Tabl 6: Dangosydd Darbodus: Dyled Gros a’r Gofyn Cyllido Cyfalaf mewn £ miliynau*

| | **Gwir 31.3.2025 £m** | **Amcan 31.3.2026 £m** | **Cyllideb 31.3.2027 £m** | **Cyllideb 31.3.2028 £m** | **Cyllideb 31.3.2029 £m** |
|---|---|---|---|---|---|
| Dyled (gan gynnwys MCP a phrydlesau) | 100.1 | 79.0 | 73.4 | 71.0 | 70.1 |
| Gofyn Cyllido Cyfalaf | 179.9 | 187.4 | 189.8 | 187.2 | 184.7 |

16. Yn ôl y canllaw statudol, dylai dyled aros islaw'r gofyn cyllido cyfalaf, ac eithrio yn y tymor byr. Fel y gwelir yn nhabl 6, mae'r Cyngor yn disgwyl y bydd yn cydymffurfio â hyn yn y tymor canolig.

17. **Meincnod Ymrwymiad:** Er mwyn cymharu faint mae'r Cyngor wedi'i fenthyg mewn gwirionedd yn erbyn strategaeth amgen, mae meincnod ymrwymiad wedi'i gyfrifo sy'n dangos y lefel risg isaf o fenthyg. Mae hyn yn tybio fod balansau arian parod a buddsoddiadau yn cael eu cadw ar o leiaf £21.5m ar ddiwedd pob blwyddyn.

*Tabl 7: Benthyca a'r Meincnod Ymrwymiad mewn £ miliynau*

| | **Gwir 31.3.2025** | **Amcan 31.3.2026** | **Cyllideb 31.3.2027 £m** | **Cyllideb 31.3.2028** | **Cyllideb 31.3.2029** |
|---|---|---|---|---|---|

| | £m | £m | | £m | £m |
|---|---|---|---|---|---|
| Benthyciadau | 94.2 | 73.9 | 69.4 | 68.0 | 67.8 |
| Meincnod Ymrwymiad | -31.4 | 59.1 | 84.4 | 81.8 | 79.3 |

18. Mae'r tabl yn dangos fod y Cyngor yn disgwyl i'w fenthyciadau fod yn uwch na’i feincnod ymrwymiad hyd at 2026. Mae hyn oherwydd bod gan y Cyngor reserfau, ac mae allbynnau arian parod wedi bod yn is na'r disgwyl pan fenthycwyd yr arian.

19. **Terfyn Benthyg Fforddiadwy:** Mae'n ofyn cyfreithiol i'r Cyngor bennu terfyn benthyg fforddiadwy (fe'i gelwir hefyd y terfyn dyled awdurdodedig ar gyfer dyled allanol) bob blwyddyn. Yn unol â chanllaw statudol, pennir "ffin gweithredol" is. Dyma'r lefel rhybudd os bydd dyled yn dynesu at y terfyn.

*Tabl 8: Dangosyddion Darbodus: Y Terfyn Awdurdodedig a’r Ffin Gweithredol ar gyfer Dyledion Allanol mewn £m*

| | Terfyn 2025/26 £m | Terfyn 2026/27 £m | Terfyn 2027/28 £m | Terfyn 2028/29 £m |
|---|---|---|---|---|
| Terfyn Awdurdodedig - Cyfanswm Dyledion Allanol | 200 | 200 | 200 | 200 |
| Ffin Gweithredol - Cyfanswm Dyledion Allanol | 190 | 190 | 190 | 190 |

- Mae manylion pellach ar fenthyciadau ar gael yn Strategaeth Rheolaeth y Trysorlys yn **Atodiad C**.

20. **Y Strategaeth Fuddsoddi Trysorlys:** Mae buddsoddiadau'r trysorlys yn digwydd drwy dderbyn arian parod cyn iddo gael ei dalu allan eto. Fel arfer, ni ystyrir fod buddsoddiadau a wneir am resymau gwasanaeth neu er elw ariannol yn unig yn rhan o reolaeth y trysorlys.

21. Polisi'r Cyngor ar fuddsoddiadau'r trysorlys yw blaenoriaethu diogelwch a hylifedd dros gynnyrch; sef, canolbwyntio ar leihau risg yn hytrach nac uchafu enillion. Mae arian parod sy'n debygol o gael ei wario yn y dyfodol agos yn cael ei fuddsoddi'n ddiogel, er enghraifft gyda'r llywodraeth, awdurdodau lleol eraill, neu fanciau ansawdd uchel penodedig, er mwyn lleihau'r perygl o golled. Bydd arian a gedwir yn hwy yn cael ei fuddsoddi'n ehangach, gan gynnwys mewn bondiau, cyfranddaliadau ac eiddo, er mwyn cydbwyso'r perygl o golled gyda'r perygl o gael enillion sy'n is na chwyddiant. Gellir cadw buddsoddiadau dyfodol agos a thymor hwy mewn cronfeydd wedi'u pwlio, lle mae rheolwr

cronfa allanol yn penderfynu pa fuddsoddiadau penodol i'w prynu ac fe all y Cyngor ofyn am ei bres yn ôl ar fyr rybudd.

*Tabl 9: Buddsoddiadau Rheolaeth y Trysorlys mewn £ miliynau*

| | **Gwir 31.3.2025 £m** | **Amcan 31.3.2026 £m** | **Cyllideb 31.3.2027 £m** | **Cyllideb 31.3.2028 £m** | **Cyllideb 31.3.2029 £m** |
|---|---|---|---|---|---|
| Buddsoddiadau'r Dyfodol Agos | 141.0 | 83.5 | 55.0 | 45.0 | 35.0 |
| Buddsoddiadau'r Tymor Hwy | 11.9 | 13.0 | 13.0 | 13.0 | 13.0 |
| **CYFANSWM** | **152.9** | **96.5** | **68.0** | **58.0** | **48.0** |

- Ceir manylion pellach ar fuddsoddiadau'r trysorlys yn Strategaeth Rheolaeth y Trysorlys yn **Atodiad C**.

22. **Rheolaeth Risg:** Mae rheoli a rheoli risg yn effeithiol yn brif amcan gweithgareddau rheolaeth trysorlys y Cyngor. Felly mae'r strategaeth rheolaeth trysorlys yn nodi amryw o ddangosyddion a therfynau i gyfyngu ar y risg o golledion annisgwyl ac yn manylu i ba raddau y gellir defnyddio deilliadau ariannol i reoli risgiau trysorlys.

- Mae'r dangosyddion darbodus rheolaeth trysorlys ar dudalennau 5 a 15 i 17 o Strategaeth Rheolaeth Trysorlys yn **Atodiad C.**

23. **Llywodraethu:** Gwneir penderfyniadau ar fuddsoddi a benthyg yn ddyddiol; felly, fe'u dirprwyir i Bennaeth a staff yr Adran Gyllid, sy'n gweithredu yn unol â'r Strategaeth Rheolaeth y Trysorlys a gymeradwywyd gan y Cyngor llawn. Cyflwynir adroddiadau chwarterol ar weithgaredd rheolaeth trysorlys i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio. Y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio sy'n gyfrifol am graffu penderfyniadau rheolaeth trysorlys. Mae aelodau y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio a Cyngor llawn yn derbyn cyflwyniad mewn seminar blynyddol gan Arlingclose, ein ymgynghorwyr ariannol, gafodd ei gynnal ar y 30ain o Ionawr a 26ain o Chwefror 2026 ar gyfer y flwyddyn ariannol 2026/27

**BUDDSODDIADAU ER DIBENION GWASANAETH**

24. Gall y Cyngor wneud buddsoddiadau i gynorthwyo gwasanaethau cyhoeddus lleol, gan gynnwys gwneud benthyciadau i fusnesau bychain er mwyn hyrwyddo twf economaidd a chefnogi'r strategaeth dai. Yn sgil yr amcan gwasanaeth cyhoeddus, mae'r Cyngor yn fodlon cymryd mwy o risg na gyda buddsoddiadau'r trysorlys. Fodd bynnag, mae'n dal i gynllunio na fydd buddsoddiadau o'r fath yn gwneud colled hyd yn oed ar ôl talu'r holl gostau.

25. **Llywodraethu:** Gwneir penderfyniadau ar fuddsoddiadau gan y Pennaeth Gwasanaeth priodol mewn ymgynghoriaeth â Phennaeth yr Adran Gyllid. Mae mwyafrif y benthyciadau'n rhai gwariant cyfalaf a byddant hefyd yn cael eu cymeradwyo fel rhan o'r rhaglen gyfalaf. Mae'r Pennaeth Gwasanaeth perthnasol yn gyfrifol am sicrhau bod diwydrwydd dyladwy yn cael ei gwblhau cyn bod buddsoddiad yn cael ei wneud.

**YMRWYMIADAU**

26. Yn ogystal â'r ddyled y manylir arno uchod, mae'r Cyngor wedi'i ymrwymo i wneud taliadau yn y dyfodol i unioni'r diffyg yn ei gronfa bensiwn fel mae'n codi (gwerth o £0m ar hyn o bryd). Mae hefyd wedi clustnodi £7.5m er mwyn cyflenwi risgiau'r darpariaethau, sy'n ymwneud â Safleoedd Gwastraff. Mae perygl hefyd y gall y Cyngor orfod talu ymrwymiadau dibynnol yn ymwneud â chapio a gofynion ôl-ofal ar gyfer Safleoedd Tirlenwi'r Cyngor, a hefyd ymrwymiadau yswiriant potensial sy'n ymwneud â threfniadau yswiriant yr awdurdodau a'i rhagflaenodd, a chau Cronfa Yswiriant Municipal Mutual (MMI). Yn unol â'r gofynion cyfrifeg, ni chlustnodwyd unrhyw arian ar gyfer ymrwymiadau dibynnol o'r fath.

27. **Llywodraethu:** Penaethiaid Gwasanaethau sy'n gwneud penderfyniadau newydd ar ymrwymiadau dewisol mewn ymgynghoriaeth â'r Pennaeth Cyllid. Mae'r Adran Gyllid yn monitro'r perygl y bydd ymrwymiadau'n dod yn wir ac y bydd angen taliad. Adroddir ar ymrwymiadau materol newydd i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio.

- Ceir manylion pellach yr ymrwymiadau ar dudalen 11 Datganiad o'r Cyfrifon 2024/25

  https://www.gwynedd.llyw.cymru/cy/Cyngor/Dogfennau-Cyngor/Perfformiad-y-Cyngor/Datganiad-or-cyfrifon-2024-25/Datganiad-or-Cyfrifon-2024-25.pdf

**GOBLYGIADAU CYLLIDEB REFENIW**

28. Er nad yw'r gyllideb refeniw yn talu am wariant cyfalaf yn uniongyrchol, mae'r llog sy'n daladwy ar fenthyciadau a DLlR yn gost ar refeniw, a'i osod yn erbyn unrhyw incwm buddsoddi a dderbynnir. Gelwir y ffi net flynyddol yn gostau ariannu. Cymharir hyn gyda'r ffrwd refeniw net h.y. y swm a gyllidir drwy Dreth Cyngor, Trethi Annomestig Cenedlaethol a grantiau cyffredinol gan y llywodraeth.

*Tabl 10: Dangosydd Darbodus: Cyfran Costau Ariannu i'r Llif Refeniw Net*

| | Gwir 2024/25 | Amcan 2025/26 | Cyllideb 2026/27 | Cyllideb 2027/28 | Cyllideb 2028/29 |
|---|---|---|---|---|---|
| Costau Ariannu * (£m) | 8.5 | 10.2 | 9.9 | 9.7 | 9.6 |
| Cyfran y Llif Refeniw Net (%) | 2.5% | 2.9% | 2.6% | 2.5% | 2.4% |

** Mae'r costau ariannu am 2024/25 yn cynnwys £0.9m o gynnydd oherwydd newid yn y dull cyfrifo am brydlesau. Adlewyrchir y newid hwn yn y blynyddoedd dilynol hefyd.*

- Caiff manylion pellach goblygiadau refeniw gwariant cyfalaf eu cynnwys yng Nghyllideb 2026/27:

  https://democratiaeth.gwynedd.llyw.cymru/ielistmeetings.aspx?cid=136&year=0&

29. **Cynaliadwyedd:** Oherwydd natur hirdymor gwariant ac ariannu cyfalaf, bydd goblygiadau cyllideb refeniw'r gwariant a wneir yn y blynyddoedd nesaf yn ymestyn 50 mlynedd a mwy i'r dyfodol. Mae'r Pennaeth Cyllid yn fodlon fod y rhaglen gyfalaf a gynigir yn ddarbodus, yn fforddiadwy ac yn gynaliadwy yn y tymor hir.

**GWYBODAETH A SGILIAU**

30. Mae'r Cyngor yn cyflogi staff profiadol mewn swyddi uwch a chanddynt gymwysterau proffesiynol; mae ganddynt gyfrifoldeb dros wneud penderfyniadau gwariant cyfalaf, benthyca, a buddsoddi. Er enghraifft, mae'r Pennaeth Cyllid yn gyfrifydd cymwysiedig gyda blynyddoedd o brofiad, ac mae Pennaeth Cynorthwyol Tai ac Eiddo yn syrfëwr siartredig ac yn aelod o Sefydliad Brenhinol Syrfewyr Siartredig. Mae'r Cyngor efo staff cymwysedig ac yn talu i staff i astudio tuag at gymwysterau proffesiynol perthnasol megis CIPFA, ACCA ac AAT.

31. Ar hyn o bryd, mae'r Cyngor yn talu cwmni Arlingclose i fod yn ymgynghorwyr rheolaeth y trysorlys. Mae'r ffordd hon yn un fwy cost effeithiol na chyflogi staff o'r fath yn uniongyrchol, ac mae'n sicrhau bod gan y Cyngor fynediad at wybodaeth a sgiliau sy'n gymesur â'i awch am risg.

32. Mae staff perthnasol yn mynychu digwyddiadau hyfforddiant CIPFA ac Arlingclose er mwyn sicrhau ein bod yn ymwybodol o'r datblygiadau diweddaraf, a bod gwybodaeth a sgiliau yn gyfredol.

**ARGYMHELLIAD**

33. Gofynnir i'r Cyngor fabwysiadu'r Strategaeth Cyfalaf ar gyfer 2026/27.

---

**Barn y Swyddogion Statudol**

**Y Swyddog Monitro:**

Dim sylwadau i'w hychwanegu o safbwynt priodoldeb

**Y Pennaeth Cyllid:**

Rwyf wedi cydweithio gyda'r Aelod Cabinet i baratoi'r adroddiad yma ac yn cadarnhau'r cynnwys.

**CYFALAF**

1. Tra bod cyllidebau refeniw awdurdodau lleol yn wynebu cyfyngiadau, mae cyllidebau cyfalaf hefyd dan bwysau, ac mae ymhlygiadau refeniw i wariant cyfalaf sydd heb ei ariannu drwy grant penodol.

2. Gosodir isod raglen arfaethedig ar gyfer y cynlluniau am y dair mlynedd nesaf:

| **RHAGLEN GYFALAF** | | | |
|---|---|---|---|
| | **2026/27 £'000** | **2027/28 £'000** | **2028/29 £'000** |
| **Cynlluniau'r Cyngor :** | | | |
| Cynlluniau Cymunedau Dysgu Cynaliadwy | 8,218 | 3,451 | 0 |
| Unedau Diwydiannol | 1,407 | 122 | 0 |
| Cynlluniau Cronfa Ffyniant Bro a Chyffredin | 4,917 | 708 | 0 |
| Cynlluniau Morwrol a Hamdden | 2,322 | 1,215 | 1,650 |
| Cartrefi/ Canolfannau Oedolion a Phlant | 3,464 | 700 | 0 |
| Ffyrdd, Pontydd a Bwrdeistrefol | 3,641 | 1,300 | 1,006 |
| Atal Llifogydd Arfordirol | 760 | 2,998 | 0 |
| Cynlluniau Amgylchedd a Gwastraff | 1,911 | 60 | 60 |
| Cynlluniau/Strategaeth Tai | 4,967 | 3,860 | 3,860 |
| Cynlluniau Eiddo | 244 | 194 | 194 |
| Cerbydau Adrannol | 6,532 | 1,879 | 244 |
| Cyfarpar Digidol | 785 | 1,249 | 976 |
| Cynlluniau Eraill | 511 | 712 | 362 |
| Bidiau Cyfalaf (Heb ddosrannu) | 500 | 500 | 500 |
| **CYFANSWM Y RHAGLEN** | **40,179** | **18,948** | **8,852** |

3. Bydd y rhaglen yn cael ei ariannu fel a ganlyn:

| **ARIANNU'R RHAGLEN GYFALAF** | | | |
|---|---|---|---|
| | **2026/27 £'000** | **2027/28 £'000** | **2028/29 £'000** |
| Benthyca Gyda Chefnogaeth | 4,063 | 4,063 | 4,063 |
| Benthyca Arall | 5,123 | 362 | 362 |
| Grantiau a Chyfraniadau | 14,410 | 4,878 | 2,547 |
| Derbyniadau Cyfalaf | 0 | 0 | 0 |
| Refeniw Adrannol a Chorfforaethol | 0 | 0 | 0 |
| Cronfa Cyfalaf | 9,076 | 4,350 | -670 |
| Cronfeydd Adnewyddu ac Eraill | 7,507 | 5,295 | 2,550 |
| **CYFANSWM ARIANNU'R RHAGLEN** | **40,179** | **18,948** | **8,852** |

4. Sefydlwyd strategaeth asedau o 2019/20 ymlaen gan y Cyngor ar 7 Mawrth 2019. Ar 11 Gorffennaf 2024 fe sefydlwyd strategaeth wedi ei ddiweddaru gan y Cyngor llawn gyda'r cyfnod wedi ei ymestyn hyd at 2033/34. Fe'i ymgorfforir fel rhan o'r Rhaglen Gyfalaf.

5. Sefydlwyd proffiliau i'r Cynlluniau gan y Prif Weithredwr mewn ymgynghoriad gyda'r Pennaethiaid Adrannau ac yn ddibynnol ar ofynion y cynlluniau a'r adnoddau ar gael.

6. Mae'r tabl uchod felly yn adlewyrchu'n fras y gofynion cyfalaf (ynghyd â'r ariannu) ar gyfer gosod cyllideb 2026/27 i 2028/29, tra bod y manylder ar y cynlluniau unigol wedi ei sefydlu gan y Cyngor yn y strategaeth asedau 10 mlynedd 2024/25 hyd 2033/34.

7. Mae'r ffigwr Benthyca Gyda Chefnogaeth a'r Grant Cyfalaf Cyffredinol yn y setliad ariannol gan Lywodraeth Cymru yn fwy yn 2026/27 na'r hyn a dybiwyd pan yn sefydlu'r strategaeth asedau ac mae'r rhaglen wedi ei addasu i gydfynd.

8. Felly, gofynnir i'r Cyngor llawn sefydlu rhaglen gyfan gwerth £40,179,430 ar gyfer 2026/27, i'w ariannu o'r ffynonellau a nodir yn y tabl o dan rhan 3 uchod.

**ATODIAD B**

## DATGANIAD DARPARIAETH LLEIAFSWM REFENIW BLYNYDDOL 2026/27

1. Pan fo'r Cyngor yn ariannu gwariant cyfalaf trwy ddyled, rhaid iddo roi adnoddau o'r neilltu er mwyn ad-dalu'r ddyled yn ddiweddarach. Mae'r swm gaiff ei godi ar y gyllideb refeniw ar gyfer ad-dalu'r ddyled yn cael ei adnabod fel y Ddarpariaeth Lleiafswm Refeniw (DLlR neu MRP), er nad oes lleiafswm statudol wedi bod ers 2008. Mae Deddf Llywodraeth Leol 2003 yn gofyn i'r Cyngor roi ystyriaeth i Ganllaw Llywodraeth Cymru *Canllaw ar y Ddarpariaeth Lleiafswm Refeniw* (Canllaw LlC) a gyhoeddwyd ddiwethaf yn 2018.

2. Nod cyffredinol Canllaw LlC yw sicrhau y caiff y ddyled ei had-dalu dros gyfnod sydd naill ai'n cyfateb yn rhesymol i'r cyfnod y mae'r gwariant cyfalaf yn darparu buddion ynddo, neu, yn achos benthyca gaiff ei gefnogi gan Grant Cynnal Refeniw'r Llywodraeth, dros gyfnod sy'n cyfateb yn rhesymol i'r cyfnod sydd dan sylw wrth bennu'r grant.

3. Mae Canllaw LlC yn gofyn i'r Cyngor gymeradwyo Datganiad DLlR yn flynyddol, ac yn darparu nifer o opsiynau ar gyfer cyfrifo swm darbodus o DLlR, ond nid yw'n atal defnyddio ddulliau eraill addas. Mae'r datganiad a ganlyn yn ymgorffori opsiynau a argymhellir yn y Canllaw yn ogystal â dulliau darbodus a benderfynwyd yn lleol.

4. Mae DLlR yn cael ei gyfrifo trwy gyfeirio at y gofyniad cyllido cyfalaf (GCC), sef cyfanswm gwariant cyfalaf y gorffennol sydd eto i'w ariannu'n barhaol. Nodir bod yn rhaid ad-dalu dyled ac felly ffurf ariannu dros dro yn unig ydyw. Cyfrifir y GCC o fantolen y Cyngor yn unol â Chôd Darbodus y Sefydliad Siartredig Cyllid Cyhoeddus a Chyfrifyddiaeth ar gyfer Gwariant Cyfalaf mewn Awdurdodau Lleol, rhifyn 2021.

   - Ar gyfer gwariant cyfalaf a wnaed cyn 1 Ebrill 2008, ac ar gyfer gwariant cyfalaf wedi'i gefnogi a wnaed ar y dyddiad hwnnw neu wedi hynny, caiff y DLlR ei bennu trwy godi'r gwariant dros oes ddefnyddiol ddisgwyliedig yr asedau mewn taliadau hafal yn cychwyn yn y flwyddyn ar ôl gwneud y gwariant cyfalaf. Mesur darbodus o oes ddefnyddiol ddisgwyliedig yr ystod amrywiol o asedau yw 50 mlynedd ac yn unol â'r rheoliadau blaenorol oedd yn berthnasol ar 31 Mawrth 2008, yn ymgorffori "Addasiad A" o £1.9m.

   - Ar gyfer gwariant cyfalaf heb ei gefnogi a wnaed ar ôl 31 Mawrth 2008, caiff y DLlR ei bennu trwy godi'r gwariant dros oes ddefnyddiol ddisgwyliedig yr asedau perthnasol mewn taliadau hafal yn cychwyn yn y flwyddyn ar ôl i'r ased ddod yn weithredol. Caiff DLlR ar dir rhydd-

ddaliadol a brynir ei godi dros 50 mlynedd. Caiff DLlR ar wariant nad yw'n perthyn i asedau sefydlog ond sydd yn wariant cyfalaf yn ôl rheoliadau neu gyfarwyddiadau ei godi dros 20 mlynedd.

- Ar gyfer asedau a geir trwy brydlesau cyllidol neu'r Fenter Gyllid Preifat, pennir bod y DLlR yn hafal i'r elfen o rent neu ffi gaiff ei hysgrifennu yn erbyn yr ymrwymiad ar y fantolen.
- Ble rhoddir asedau, a oedd yn arfer bod yn brydlesau gweithredol, ar y fantolen oherwydd mabwysiadu SAARh 16, Safon Cyfrifeg Prydlesau, a ble mae gwerth yr asedau hyn wedi eu haddasu i ystyried croniadau, taliadau o flaen llaw, premiwm a/neu gymhelliant, yna addasir y gost DLlR fel bod y tâl ar gyfer DLlR dros oes y brydles yn adlewyrchu gwerth yr ased hawl-ddefnydd a gydnabyddir ar drosglwyddiad yn hytrach na'r ymrwymiad.
- Ar gyfer benthyciadau gwariant cyfalaf i drydydd parti, sy'n cael eu had-dalu mewn rhandaliadau blynyddol neu amlach, ni fydd y Cyngor yn gwneud DLlR. Yn hytrach bydd yn rhoi derbyniadau cyfalaf sy'n deillio o'r ad-daliadau prifswm o'r neilltu i leihau y Gofyn Cyllido Cyfalaf (GCC).

5. Ni fydd gwariant cyfalaf a wneir yn 2026/27 yn destun ffi DLlR hyd nes 2027/28 neu'n ddiweddarach.

6. Yn seiliedig ar amcangyfrif diweddaraf y Cyngor o'i Ofyn Cyllido Cyfalaf ar 31 Mawrth 2026, mae'r gyllideb ar gyfer DLlR wedi ei bennu fel a ganlyn:

| | **31.03.2026 Amcan GCC £m** | **2026/27 Amcan DLlR £m** |
|---|---|---|
| Gwariant cyfalaf cyn 01.04.2008 a gwariant cyfalaf gyda chefnogaeth wedi 31.03.2008 | 134.3 | 2.8 |
| Gwariant cyfalaf heb gefnogaeth wedi 31.03.2008 | 48.1 | 3.0 |
| Prydlesau a Menter Cyllid Preifat | 5.0 | 1.0 |
| **Cyfanswm Cronfa Gyffredinol** | **187.4** | **6.8** |

7. <u>Derbyniadau Cyfalaf</u> – Mae enillion o werthu asedau cyfalaf yn cael eu dynodi fel derbyniadau cyfalaf, ac yn cael eu defnyddio fel arfer i ariannu gwariant cyfalaf newydd. Yn lle hynny, pan fydd y Cyngor yn penderfynu defnyddio'r

derbyniadau cyfalaf i ad-dalu dyled a thrwy hynny lleihau'r GCC, bydd y cyfrifiad DLlR yn cael ei addasu fel a ganlyn:

- Bydd derbyniadau cyfalaf sy'n codi o dderbyn ad-daliadau prifswm ar fenthyciadau cyfalaf i drydydd parti yn cael eu defnyddio i ostwng y tâl DLlR ar yr un benthyciadau yn y flwyddyn y'u derbynnir, os o gwbl.

- Bydd derbyniadau cyfalaf sy'n codi o dderbyn ad-daliadau prifswm ar brydlesau cyllidol sy'n dderbyniadwy yn cael eu defnyddio i ostwng tâl DLlR ar y swm caffael yr ased wedi ei brydlesu yn y flwyddyn y'u derbynnir, os o gwbl.

- Bydd derbyniadau cyfalaf sy'n deillio o asedau eraill a adnabyddir fel rhan o gyfrifiad DLlR y Cyngor yn cael eu defnyddio i leihau'r tâl DLlR mewn perthynas â'r un asedau dros gyfnod hyd at oes ddefnyddiol sy'n weddill, gan ddechrau yn y flwyddyn ar ôl cymhwyso'r dderbynneb.

- Bydd unrhyw dderbyniadau cyfalaf eraill a gymhwysir i ad-dalu dyled yn cael eu defnyddio i leihau DLlR mewn hyd at 10 rhandaliad cyfartal gan ddedchrau yn y flwyddyn ar ôl cymhwyso'r dderbynneb.

**ATODIAD C**

## Datganiad Strategaeth Rheolaeth Trysorlys 2026/27

## 1. Cyflwyniad

**1.1** Rheolaeth trysorlys yw rheolaeth llif arian, benthyca a buddsoddiadau'r Cyngor a'r risgiau cysylltiol. Mae'r Cyngor wedi benthyg a buddsoddi symiau sylweddol o arian ac felly yn agored i risgiau ariannol gan gynnwys colli buddsoddiadau a'r effaith refeniw o'r newidiadau mewn cyfraddau llog. Mae adnabod, monitro a rheoli risg ariannol yn llwyddiannus felly yn ganolog i reolaeth ariannol bwyllog y Cyngor.

**1.2** Mae rheolaeth risg trysorlys yn y Cyngor yn rhan o fframwaith y Sefydliad Siartredig Cyllid Cyhoeddus a Chyfrifiaeth *Rheolaeth Trysorlys yn y Gwasanaethau Cyhoeddus: Cod Ymarfer Rhifyn 2021* (Cod CIPFA) sy'n gofyn i'r Cyngor gymeradwyo strategaeth rheolaeth trysorlys cyn dechrau pob blwyddyn ariannol. Yn ogystal, fe wnaeth Llywodraeth Cymru (LlC) gyhoeddi canllaw diwygiedig ym mis Tachwedd 2019 sef y *Canllaw ar Fuddsoddiadau Awdurdodau Lleol* sy'n gofyn i'r Cyngor gymeradwyo strategaeth fuddsoddi cyn dechrau pob blwyddyn ariannol. Mae'r adroddiad hwn yn cyflawni cyfrifoldeb cyfreithiol y Cyngor dan *Ddeddf Llywodraeth Leol 2003* i roi ystyriaeth i'r ddau beth hyn, sef Cod CIPFA a Chanllaw LlC.

**1.3** Yn unol ag Arweiniad LlC, gofynnir i'r Cyngor gymeradwyo Datganiad Strategaeth Rheolaeth Trysorlys diwygiedig os yw'r tybiaethau sydd yn sail i'r adroddiad hwn yn newid yn sylweddol. Byddai amgylchiadau o'r fath yn cynnwys, er enghraifft, newid mawr annisgwyl mewn cyfraddau llog, newid yn rhaglen gyfalaf y Cyngor neu yn lefel ei balans buddsoddi, neu golled sylweddol yng ngwerth teg buddsoddiad anariannol a nodwyd fel rhan o'r prosesau paratoi ac archwilio cyfrifon diwedd blwyddyn.

## 2. Y Cyd-destun Allanol

### 2.1 Cefndir Economaidd

Disgwylir i'r effeithiau mwyaf arwyddocaol ar strategaeth rheoli trysorlys yr Cyngor ar gyfer 2026/27 gynnwys: dylanwad Cyllideb Hydref 2025 y llywodraeth, cyfraddau llog tymor byr is ochr yn ochr â chyfraddau tymor canolig a hirdymor uwch, twf economaidd arafach, ynghyd ag ansicrwydd parhaus ynghylch yr economi fyd-eang, teimlad y farchnad stoc, a materion geopoliticaidd.

Yn ôl y disgwyl, torrodd Pwyllgor Polisi Ariannol Banc Lloegr (MPC) y cyfradd Banc i 3.75% yn Rhagfyr 2025. Y bleidlais i dorri oedd 5-4, gyda'r lleiafrif yn hytrach yn ffafrio cadw cyfraddau ar 4.0%. Roedd yr aelodau hynny eisiau toriad

yn barnu bod chwyddiant croes wedi'i sefydlu tra bod y rhai sy'n well ganddynt ddal Cyfradd Banc yn dadlau bod risgiau chwyddiant yn parhau i fod yn ddigon materol i adael cyfraddau heb eu cyffwrdd ar hyn o bryd.

Dangosodd ffigyrau gan y Swyddfa Ystadegau Gwladol fod economi'r DU wedi ehangu 0.1% yn nhrydydd chwarter y flwyddyn galendr, nid oedd hyn wedi'i adolygu o'r amcangyfrif cychwynnol. Mae'r Adroddiad Polisi Ariannol diweddaraf (Tachwedd) yn rhagweld twf economaidd cymedrol, gyda disgwyl i CMC godi 0.2% yn chwarter olaf calendr 2025. Rhagwelir y bydd twf blynyddol yn lleddfu o 1.4% cyn gwella eto yn ddiweddarach, sy'n adlewyrchu effeithiau oedi cyfraddau llog is, amodau ariannol llac, gweithgaredd byd-eang cryfach, a gwariant defnyddwyr uwch. Adleisiwyd y farn o dwf economaidd cymedrol yn y dyfodol gan y Swyddfa Cyfrifoldeb Cyllidebol yn ei rhagolygon Economaidd a Cyllidol a gyhoeddwyd yn unol â Datganiad yr Hydref a adolygodd ei amcangyfrif o CMC real blynyddol i tua 1.5% ar gyfartaledd rhwng 2025 a 2030.

Roedd chwyddiant CPI yn 3.2% ym mis Tachwedd 2025, i lawr o 3.6% yn y mis blaenorol ac yn is na'r 3.5% a ddisgwylir. Gostyngodd CPI craidd i 3.2% o 3.4%, yn groes i'r rhagolygon o aros ar 3.6%. Wrth edrych ymlaen, mae'r MPC yn parhau i ddisgwyl i chwyddiant ostwng, i oddeutu 3% yn Ch1 calendr 2026, cyn dychwelyd yn raddol i'r targed o 2% erbyn diwedd 2026 neu ddechrau 2027.

Mae'r farchnad lafur yn parhau i leddfu gyda diweithdra cynyddol, lleihad mewn swyddi gwag ac anweithgarwch gwastad. Yn y tri mis hyd at Hydref 2025, cynyddodd y gyfradd ddiweithdra i 5.1%, sydd yn uwch na'r lefel a ddisgwyliwyd yn flaenorol gan Banc Lloegr, tra bod y gyfradd gyflogaeth wedi llithro i 74.9%. Llaciodd twf cyflog ar gyfer yr un cyfnod yn gymedrol, gyda chyfanswm enillion (gan gynnwys taliadau bonws) yn 4.7% ac er bod cyflog rheolaidd yn 4.6%.

Parhaodd Cronfa Ffederal yr Unol Daleithiau hefyd i dorri cyfraddau, gan gynnwys lleihau'r ystod darged ar gyfer y Gyfradd Cronfeydd Ffederal 0.25% yn ei gyfarfod ym mis Rhagfyr 2025, i 3.50%-3.75%, yn unol â'r disgwyliadau. Nododd cofnodion y cyfarfod fod y rhan fwyaf o wneuthurwyr polisi Fed yn barnu y byddai toriadau cyfradd pellach yn debygol yn 2026 os yw chwyddiant yn parhau i leddfu, fodd bynnag, roeddent yn dal i fod wedi'u rhannu yn eu hasesiad o'r risgiau rhwng chwyddiant a diweithdra.

Cadwodd Banc Canolog Ewrop (ECB) ei gyfraddau llog allweddol yn ddigyfnewid ym mis Rhagfyr am bedwerydd cyfarfod yn olynol, gan gynnal y gyfradd adneuo ar 2.0% a'r brif gyfradd ail-ariannu ar 2.15%. Dywedodd yr ECB y bydd penderfyniadau polisi yn y dyfodol yn parhau i fod yn ddibynnol ar ddata, bod chwyddiant yn agos at ei tharged o 2% a bod economi ardal yr ewro yn parhau i ehangu er gwaethaf amgylchedd byd-eang heriol, gan gynnwys risgiau geopolitical uwch a thensiynau masnach.

## 2.2 Rhagolygon credyd

Mae prisiau Cyfnewid Diffyg Credyd (CDS), a gynyddodd ym mis Ebrill 2025 yn dilyn cyhoeddiadau tariff 'Diwrnod Rhyddhad' yr Arlywydd Trump, wedi tueddu i

fod yn is ers hynny, gan ddychwelyd i lefelau sy'n gyson yn fras â'u cyfartaledd 2024. Er bod prisiau CDS wedi codi'n gymedrol yn ystod mis Hydref a mis Tachwedd, mae'r rhagolygon credyd cyffredinol yn parhau i fod yn sefydlog, a disgwylir i amodau credyd aros yn agos at yr ystod a welwyd dros y ddwy flynedd ddiwethaf.

Er y gall cyfraddau llog is bwyso ar elw y banciau, mae sefyllfaoedd cyfalaf cryf, chwyddiant sy'n lleddfu, twf economaidd cyson, diweithdra isel, a chostau benthyca llai i aelwydydd a busnesau i gyd yn cefnogi rhagolygon ffafriol ar gyfer credydrwydd sefydliadau ar rhestr gwrthbartion Arlingclose (ymgynghorwyr rheolaeth trysorlys y Cyngor). Mae cyngor Arlingclose ar wrthbartïon cymeradwy a chyfnodau buddsoddi a argymhellir yn cael ei adolygu'n barhaus a bydd yn parhau i adlewyrchu amodau economaidd a chredyd sy'n bodoli.

**2.3 Rhagolygon cyfraddau llog (Rhagfyr 2025)**

Ar hyn o bryd mae Arlingclose yn rhagweld y bydd Pwyllgor Polisi Ariannol Banc Lloegr yn parhau i leihau Cyfradd y Banc yn 2026, gan gyrraedd tua 3.25%. Mae'r rhagolwg hwn yn adlewyrchu diwygiadau a wnaed yn dilyn Cyllideb yr Hydref ac asesiad o'r mesurau cyllidol a'u goblygiadau'r farchnad, ac yn dilyn cyfarfod BoE MPC a gynhaliwyd ar 18 Rhagfyr.

Disgwylir i enillion gilt tymor hir, ac felly cyfraddau llog sy'n daladwy ar fenthyca tymor hir, aros yn sefydlog ar gyfartaledd yn gyffredinol, er gyda anwadalrwydd parhaus, ac i ddod â'r cyfnod rhagolwg i ben ychydig yn is na'r lefelau presennol. Mae cynnyrch yn debygol o aros yn uwch nag yn yr oes tynhau cyn meintiol, sy'n adlewyrchu gostyngiad mantolen barhaus a bondiau gyda uchel. Disgwylir i amrywiadau tymor byr barhau mewn ymateb i ddatganiadau data economaidd a datblygiadau geopolitical.

Mae rhagolwg economaidd a chyfraddau llog mwy manwl a ddarparwyd gan Arlingclose i'w weld yn **Atodiad 1**.

**2.4** Er diben gosod y gyllideb, tybiwyd bod buddsoddiadau rheolaeth trysorlys newydd yn cael eu gwneud ar gyfradd o 3.0% ar gyfartaledd, ac na fydd angen unrhyw fenthyciadau tymor hir newydd yn 2026/27.

## 3. Y Cyd-destun Lleol

**3.1** Ar 31 Rhagfyr 2025, roedd gan y Cyngor fenthyciadau o £75.7m a £130.7m o fuddsoddiadau. Ceir rhagor o fanylder yn **Atodiad 2**. Mae tabl 1 isod yn ddadansoddiad mantolen sy'n dangos y newidiadau a ragwelir i'r symiau hyn.

**Tabl 1: Crynodeb mantolen a'r rhagolwg**

| | 31.3.25 Gwir £m | 31.3.26 Amcan £m | 31.3.27 Rhagolwg £m | 31.3.28 Rhagolwg £m | 31.3.29 Rhagolwg £m |
|---|---|---|---|---|---|
| **Gofyn Cyllido Cyfalaf** | **179.9** | **187.4** | **189.8** | **187.2** | **184.7** |
| Llai: Ymrwymiadau arall * | -6.0 | -5.0 | -4.1 | -3.1 | -2.3 |
| **Benthyca GCC** | **173.9** | **182.4** | **185.7** | **184.1** | **182.4** |
| Llai: Benthyca allanol ** | -94.2 | -73.9 | -69.4 | -68.0 | -67.8 |
| **Benthyca mewnol** | **79.8** | **108.4** | **116.4** | **116.2** | **114.6** |
| Llai: Adnoddau mantolen | -232.8 | -149.8 | -126.9 | -126.9 | -126.9 |
| **Buddsoddiadau Trysorlys (neu fenthyciadau newydd)** | **153.0** | **41.4** | **10.5** | **10.7** | **12.3** |

* ymrwymiadau PFI
**yn dangos dim ond benthyciadau y mae'r Cyngor wedi ymrwymo iddynt heb gynnwys ail gyllido dewisol

**3.2** Caiff yr angen sylfaenol i fenthyca er dibenion cyfalaf ei fesur gan y Gofyn Cyllido Cyfalaf (GCC), tra mai'r adnoddau mantolen yw'r adnoddau sylfaenol sydd ar gael i'w buddsoddi. Strategaeth gyfredol y Cyngor yw cynnal benthyciadau a buddsoddiadau islaw eu lefelau sylfaenol, a elwir weithiau yn benthyca mewnol.

**3.3** Mae Tabl 1 yn dangos nad oes angen i'r Cyngor fenthyca yn y tymor hir yn ystod y tair blynedd nesaf. Os oes angen, bydd benthyca tymor byr yn cael ei ddefnyddio er mwyn lleihau'r gyfradd llog.

**3.4** Mae'r *Cod Darbodus ar gyfer Cyllid Cyfalaf mewn Awdurdodau Lleol* gan CIPFA yn argymell y dylai cyfanswm dyledion y Cyngor fod yn is na'i GCC uchaf posib yn ôl y rhagolygon dros y tair blynedd nesaf. Dengys tabl 1 fod y Cyngor yn disgwyl cydymffurfio â'r argymhelliad hwn yn ystod 2026/27.

## 4. Meincnod Ymrwymiadau

**4.1** Er mwyn cymharu gwir fenthyciadau'r Cyngor yn erbyn strategaeth arall, mae meincnod ymrwymiadau wedi cael ei chyfrifo sy'n dangos lefel benthyca gyda risg isaf. Mae hyn yn tybio'r un rhagolygon a tabl 1 uchod, ond bod balansau arian a buddsoddiadau yn aros ar lefel isafswm o £21.5m ar ddiwedd bob blwyddyn er mwyn cynnal digon o hylifedd ond lleihau'r risg credyd.


Mae'r meincnod ymrwymiadau yn arf pwysig i helpu i sefydlu a yw'r Cyngor yn debygol o fod yn fenthyciwr hirdymor neu'n fuddsoddwr hirdymor yn y dyfodol, ac felly siapio ei ffocws strategol a'i benderfyniadau. Mae'r meincnod ymrwymiadau ei hun yn cynrychioli amcangyfrif o swm cronnus y benthyca allanol y mae'n

rhaid i'r Cyngor ei ddal i ariannu ei gynlluniau cyfalaf a refeniw cyfredol tra'n cadw buddsoddiadau'r trysorlys ar y lefel isaf sy'n ofynnol i reoli llif arian o ddydd i ddydd.

**Tabl 2: Dangosydd Darbodus: Meincnod Ymrwymiadau**

| | 31.3.25 Gwir £m | 31.3.26 Amcan £m | 31.3.27 Rhagolwg £m | 31.3.28 Rhagolwg £m | 31.3.29 Rhagolwg £m |
|---|---|---|---|---|---|
| **GCC** | **179.9** | **187.4** | **189.8** | **187.2** | **184.7** |
| Llai: Adnoddau mantolen | -232.8 | -149.8 | -126.9 | -126.9 | -126.9 |
| **Gofynion benthyciadau net** | **-52.9** | **37.6** | **62.9** | **60.3** | **57.8** |
| Ychwanegu: Lwfans hylifedd | 21.5 | 21.5 | 21.5 | 21.5 | 21.5 |
| **Meincnod Ymrwymiadau** | **-31.4** | **59.1** | **84.4** | **81.8** | **79.3** |

**4.2** Gan ddilyn o’r rhagolygon tymor canolig yn nhabl 2 uchod, mae'r meincnod tymor hir yn rhagdybio dim gwariant cyfalaf pellach wedi’i ariannu gan fenthyciadau, lleiafswm darpariaeth refeniw ar wariant cyfalaf newydd yn seiliedig ar ddull llinell syth dros 50 mlynedd. Dangosir hyn yn y siart canlynol gyda benthyciadau cyfredol y Cyngor:




Mae’r siart yn dangos na fydd angen benthyca yn y tymor hir yn seiliedig ar rhagamcanion cyfredol, ond efallai y bydd gofyn tymor byr ar draws diwedd y flwyddyn.

## 5. Y Strategaeth Fenthyca

**5.1** Mae gan y Cyngor £75.7 miliwn o fenthyciadau ar hyn o bryd fel rhan o'i strategaeth ar gyfer ariannu rhaglenni cyfalaf y blynyddoedd cynt. Mae rhagolygon y fantolen yn nhabl 1 yn dangos nad yw'r Cyngor angen benthyca arian tymor hir yn 2026/27 ond efallai y bydd angen benthyg tymor byr oherwydd rhesymau llif arian. Yn y dyfodol, gall y Cyngor hefyd fenthyg symiau ychwanegol i ariannu gofynion y blynyddoedd i ddod ymlaen llaw ar yr amod nad yw hyn yn uwch na'r terfyn awdurdodedig ar gyfer benthyca.

### 5.2 Amcanion

Prif amcan y Cyngor wrth fenthyca arian yw cael cydbwysedd risg isel priodol rhwng sicrhau costau llog isel ac ennill sicrwydd cost dros y cyfnod mae angen yr arian. Yn ail amcan i hyn yw'r hyblygrwydd i ail negodi benthyciadau pe bai cynlluniau tymor hir y Cyngor yn newid.

### 5.3 Strategaeth

Yn wyneb y toriadau sylweddol i wariant cyhoeddus, ac yn arbennig i'r cyllid ar gyfer llywodraeth leol, mae strategaeth benthyca'r Cyngor yn parhau i fynd i'r afael â'r mater allweddol o fforddiadwy heb beryglu sefydlogrwydd tymor hir y portffolio dyledion. Mae cyfraddau llog tymor byr wedi gostwng yn y flwyddyn diwethaf, a disgwylir iddynt ddisgyn ychydig ymhellach, ac felly mae'n debygol o fod yn fwy cost effeithiol dros y tymor canolig naill ai i ddefnyddio adnoddau mewnol, neu i fenthyg benthyciadau tymor byr yn lle hynny. Bydd risgiau'r dull hwn yn cael eu rheoli drwy gadw amlygiad cyfradd llog y Cyngor o fewn y terfyn a bennir yn y dangosyddion darbodus rheoli'r trysorlys, gweler isod.

Drwy wneud hyn, gall y Cyngor leihau costau benthyca net (er yn hepgor yr incwm o fuddsoddiadau) a lleihau'r risg trysorlys cyffredinol. Bydd y buddion o fenthyca mewnol a/neu dymor byr yn cael eu monitro'n rheolaidd yn erbyn y potensial o greu costau ychwanegol trwy ohirio benthyca tan y dyfodol, pan ragwelir y bydd cyfraddau benthyca tymor hir yn codi yn gymedrol. Bydd Arlingclose yn cynorthwyo'r Cyngor gyda'r 'gost cario' a'r dadansoddiad elw. Gall yr allbwn o hwn bennu p'un a fydd y Cyngor yn benthyca symiau ychwanegol ar gyfraddau sefydlog hirdymor yn 2026/27 gyda'r bwriad o gadw costau llog y dyfodol yn isel, hyd yn oed os bydd hyn yn creu cost ychwanegol yn y tymor byr.

Yn flaenorol, mae'r Cyngor wedi codi'r mwyafrif o'i fenthyca tymor hir o'r PWLB ond bydd yn ystyried benthyciadau tymor hir o ffynonellau eraill gan gynnwys banciau, pensiynau ac awdurdodau lleol, a bydd yn ymchwilio i'r posibilrwydd o gyflwyno bondiau ac offerynnau tebyg, er mwyn gostwng costau llog a lleihau

gorddibyniaeth ar un ffynhonnell cyllid yn unol â Chod CIPFA. Nid yw benthyciadau PWLB bellach ar gael i awdurdodau lleol sy'n bwriadu prynu asedau buddsoddi yn bennaf ar gyfer cynnyrch; mae'r Cyngor yn bwriadu osgoi'r gweithgaredd hwn er mwyn cadw ei fynediad at fenthyciadau PWLB.

Fel arall, gall y Cyngor drefnu benthyciadau sy'n cychwyn yn ei flaen, gyda'r cyfradd llog wedi ei sefydlu ymlaen llaw, ond bod yr arian yn cael ei dderbyn mewn blynyddoedd i ddod. Byddai hyn yn rhoi sicrwydd cost heb ddioddef y gost cario yn y cyfamser.

Yn ogystal â hyn, mae'n bosib y bydd y Cyngor yn benthyca benthyciadau tymor byr i gwrdd â diffygion annisgwyl yn y llif arian.

### 5.4 Ffynonellau benthyca

Dyma'r ffynonellau sydd wedi'u cymeradwyo ar gyfer benthyciadau tymor byr a thymor hir:

- Cyfleuster Benthyca PWLB Trysorlys EM (Bwrdd Benthyciadau Gwaith Cyhoeddus gynt)
- National Wealth Fund Ltd (UK Infrastructure Bank Ltd gynt)
- unrhyw sefydliad a gymeradwywyd ar gyfer buddsoddi (gweler isod)
- unrhyw fanc, cymdeithas adeiladau neu cwmni yswiriant sydd wedi'u hawdurdodi i weithredu yn y DU
- unrhyw gorff cyhoeddus yn y DU
- cronfeydd pensiwn cyhoeddus a preifat yn y DU (eithrio Cronfa Bensiwn Gwynedd)
- Buddsoddwyr bondiau marchnad cyfalaf
- Buddsoddwyr manwerthu trwy lwyfan '*peer-to-peer'* wedi'i reoleiddio
- Cwmnïau gyda pwrpas arbennig wedi'u creu i alluogi bondiau awdurdodau lleol

### 5.5 Ffynonellau eraill arian dyled

Yn ogystal, gellir codi cyllid cyfalaf drwy'r dulliau canlynol sydd ddim yn fenthyciadau, ond y gellir eu cyfrif fel ymrwymiadau dyledion eraill:

- Prydlesau
- Hur-bwrcasu
- Menter Cyllid Preifat
- Gwerthu ac adlesu
- Cyllid tebyg yn seiliedig ar asedau

**5.6 Benthyciadau tymor byr a chyfradd newidiol**

Mae'r benthyciadau yma yn gadael y Cyngor yn agored i'r risg o gynnydd tymor byr yn y gyfradd llog, ac felly yn agored i derfynau amlygiadau cyfradd llog y dangosyddion rheolaeth trysorlys isod. Gellir defnyddio deilliadau ariannol i rheoli y risg cyfradd llog (gweler yr adran isod).

**5.7 Aildrefnu dyledion**

Mae'r PWLB yn caniatáu i awdurdodau ad-dalu benthyciadau cyn iddynt aeddfedu, ac un ai talu premiwm neu dderbyn disgownt yn unol â fformiwla a osodwyd yn seiliedig ar gyfraddau llog presennol. Hwyrach y bydd rhai benthycwyr yn barod i drafod telerau ad-dalu cynnar. Gall y Cyngor gymryd mantais o hyn ac amnewid rhai benthyciadau am fenthyciadau newydd, neu ad-dalu benthyciadau heb eu hamnewid, lle y disgwylir y bydd hyn yn arwain at arbediad cyffredinol neu leihad cyffredinol mewn risg. Mae'r cynnydd diweddar mewn cyfraddau llog yn golygu y dylai cyfleoedd mwy ffafriol i aildrefnu dyled godi nag yn y blynyddoedd blaenorol.

**6. Y Strategaeth Fuddsoddi Trysorlys**

**6.1** Mae'r Cyngor wedi buddsoddi arian sylweddol, sy'n cynrychioli incwm a dderbynnir cyn ei wario ynghyd â'r balansau a'r cronfeydd wrth gefn a ddelir ar gyfer y Cyngor, Cronfa Bensiwn Gwynedd a grant UKSPF. Yn y 12 mis diwethaf, mae balans buddsoddiadau'r Cyngor wedi amrywio rhwng £74.3 a £194.8 miliwn, a disgwylir i'r lefelau fod yn debyg dros y flwyddyn i ddod.

**6.2 Amcanion**

Mae Cod CIPFA a Chanllaw LIC yn ei gwneud yn ofynnol i'r Cyngor fuddsoddi ei gronfeydd trysorlys yn ddarbodus, gan roi ystyriaeth i ddiogelwch a hylifedd ei fuddsoddiadau cyn ceisio am y gyfradd enillion neu'r cynnyrch uchaf. Amcan y Cyngor wrth fuddsoddi arian yw taro'r cydbwysedd cywir rhwng risg ac enillion, gan leihau'r risg o golledion drwy buddsoddiadau'n diffygdalu a'r risg o dderbyn incwm sy'n anaddas o isel ar fuddsoddiadau. Pan ddisgwylir i falansau cael eu buddsoddi am fwy na blwyddyn, bydd y Cyngor yn anelu i dderbyn dychweliad cyfan sydd yn gyfartal neu'n uwch na chyfradd gyffredinol chwyddiant, er mwyn cynnal grym gwario'r swm a fuddsoddir. Nod y Cyngor yw bod yn fuddsoddwr cyfrifol a bydd yn ystyried materion amgylcheddol, cymdeithasol a llywodraethu (ESG) wrth fuddsoddi.

## 6.3 Strategaeth

Fel y dangosir gan y meincnod ymrwymiadau uchod, mae'r Cyngor yn disgwyl bod yn fuddsoddwr hirdymor ac felly bydd buddsoddiadau trysorlys yn cynnwys offerynnau risg isel tymor byr i reoli llif arian o ddydd i ddydd ac offerynnau tymor hwy lle derbynnir risg ychwanegol gyfyngedig am incwm buddsoddi uwch i gefnogi gwsanaethau cyhoeddus lleol.

## 6.4 Ystyriaethau amgylcheddol, cymdeithasol a llywodraethu (ESG)

Mae ystyriaethau amgylcheddol, cymdeithasol a llywodraethu (ESG) yn gynyddol yn ffactor ym mhenderfyniadau buddsoddwyr byd-eang, ac mae Cyngor Gwynedd yn ymrwymiedig i fod yn fuddsoddwr cyfrifol. Bydd y Cyngor yn mynd ati i geisio buddsoddi mewn sefydliadau sy'n lleihau eu heffaith ar y byd wrth ystyried ffactorau amgylcheddol, cymdeithasol a llywodraethu pan yn buddsoddi gyda gwrthbarti presennol neu newydd. Wrth fuddsoddi mewn banciau a chronfeydd, bydd y Cyngor yn blaenoriaethu banciau sydd wedi llofnodi Egwyddorion Bancio Cyfrifol y Cenhedloedd Unedig a chronfeydd a weithredir gan reolwyr sydd wedi llofnodi Egwyddorion Buddsoddi Cyfrifol y Cenhedloedd Unedig, y Gynghrair Rheolwyr Asedau Sero Net a/neu Cod Stiwardiaeth y DU.

## 6.5 Modelau busnes

O dan y safon IFRS 9 newydd mae'r gyfrifeg ar gyfer buddsoddiadau penodol yn dibynnu ar "model busnes" y Cyngor i'w rheoli. Mae'r Cyngor yn anelu i ennill gwerth gan ei fuddsoddiadau trysorlys sydd yn cael eu rheoli'n fewnol gyda model busnes o gasglu llif arian cytundebol ac felly, ble mae'r meini prawf yn cael ei cwrdd, mae'r buddsoddiadau yn dal i gael eu cyfrifo ar gost wedi ei amorteiddio.

## 6.6 Gwrthbartïon cymeradwy

Gall y Cyngor fuddsoddi ei gronfeydd dros ben gyda unrhyw o'r gwrthbartïon yn nhabl 3 isod, yn amodol ar y terfynau arian (fesul gwrthbarti) a'r cyfyngiadau amser a ddangosir.

**Tabl 3: Gwrthbartïon Buddsoddi sydd wedi'u Cymeradwyo a'r terfynau**

| Sector | Terfyn amser** | Terfyn gwrthbarti | Terfyn sector |
|---|---|---|---|
| Llywodraeth y DU | 50 mlynedd | Diderfyn | d/b |
| Awdurdodau lleol ac endidau llywodraeth eraill | 25 mlynedd | £10m | Diderfyn |
| Buddsoddiadau â sicrwydd- cefnogaeth llywodraeth | 25 mlynedd | £10m | Diderfyn |
| Buddsoddiadau â sicrwydd – collateral arall* | 25 mlynedd | £10m | Diderfyn |
| Banciau (ansicredig) * | 13 mis | £5m | Diderfyn |
| Cymdeithasau adeiladu (ansicredig) * | 13 mis | £5m | £10m |
| Darparwyr cofrestredig (ansicredig) * | 5 mlynedd | £5m | £25m |
| Cronfeydd marchnad arian * | d/b | £10m | Diderfyn |
| Cronfeydd cyfun strategol | d/b | £10m | £50m |
| Ymddiriedolaethau buddsoddi ystâd real | d/b | £10m | £25m |
| Buddsoddiadau eraill * | 5 mlynedd | £5m | £10m |

Rhaid darllen y tabl hwn mewn cysylltiad â'r nodiadau canlynol.

***Isafswm Statws Credyd** - Dim ond gydag endidau nad yw eu statws credyd hirdymor cyhoeddedig isaf yn is nag A- y gwneir buddsoddiadau'r Trysorlys yn y sectorau a nodir â *. Defnyddir y statws credyd sy'n berthnasol i'r buddsoddiad penodol neu'r dosbarth o fuddsoddiad pan fo hwnnw ar gael, ac fel arall defnyddir statws credyd y gwrthbarti. Fodd bynnag, nid yw penderfyniadau buddsoddi yn cael eu gwneud ar sail statws credyd yn unig, mae'r holl ffactorau perthnasol gan gynnwys cyngor allanol yn cael eu hystyried.

** **Terfyn amser** – Mae'r rhain yn dechrau ar y cynharaf o'r dyddiad y mae'r Cyngor wedi ymrwymo i wneud y buddsoddiadau a'r dyddiad y trosglwyddir arian parod i'r gwrthbarti

## 6.7 Llywodraeth DU

Mae buddsoddiadau sterling sydd wedi eu gwarantu gan Llywodraeth y DU gan gynnwys y Swyddfa Rheoli Dyledion, biliau a giltiau'r trysorlys. Ystyrir bod y rhain yn risg credyd sero oherwydd gallu'r llywodraeth i greu arian ychwanegol ac felly gellir buddsoddi gyda nhw mewn symiau ddiderfyn am hyd at 50 mlynedd.

## 6.8 Awdurdodau lleol a sefydliadau eraill y llywodraeth

Benthyciadau i, a bondiau a biliau a gyhoeddir neu a warantir gan lywodraethau cenedlaethol eraill, rhanbarthol, awdurdodau lleol a banciau datblygol amlochrog. Nid yw'r buddsoddiadau yma yn destun *'bail-in'*, ac yn gyffredinol bychan iawn yw'r risg o ansolfedd, er nad ydynt yn ddi-risg.

## 6.9 Buddsoddiadau â Sicrwydd

Mae'r buddsoddiadau hyn wedi'u sicrhau ar asedau'r benthyciwr, sy'n cyfyngu'r colledion potensial petai methdaliad. Bydd maint ac ansawdd y diogelwch yn ffactor allweddol yn y penderfyniad buddsoddi. Mae bondiau gorchuddiedig, adneuon wedi'i diogelu a chytundebau adbrynu o chwith gyda banciau a chymdeithasau adeiladu wedi'u heithrio rhag '*bail-in'.* Lle nad oes statws credyd penodol ar gyfer y buddsoddiad, ond bod gan y cyfochrog y sicrheir y buddsoddiad arno statws credyd, defnyddir yr uchaf o'r statws credyd cyfochrog a statws credyd y gwrthbarti. Ni fydd cyfanswm y buddsoddiadau â sicrwydd a'r buddsoddiadau ansicredig mewn unrhyw un banc yn fwy na'r cyfyngiad arian parod ar gyfer buddsoddiadau â sicrwydd. Mae terfyn uwch yn berthnasol ar gyfer buddsoddiadau wedi'u diogelu'n llawn ar *collateral* y DU neu lywodraeth arall.

## 6.10 Banciau a Chymdeithasau Adeiladu (ansicredig)

Cyfrifon, adneuon, tystysgrifau adneuon a bondiau ansicredig uwch gyda banciau a chymdeithasau adeiladu, ac eithrio banciau datblygu amlochrog. Mae'r buddsoddiadau'n agored i risg o golli credyd drwy gyfrwng '*bail-in'* petai'r rheoleiddiwr yn penderfynu bod banc yn methu neu'n debygol o fethu. Gweler isod am drefniadau sy'n ymwneud â chyfrifon banc gweithredol.

## 6.11 Darparwyr cofrestredig (ansicredig)

Benthyciadau a bondiau a gyhoeddir, neu a warantir gan, neu sydd wedi'u sicrhau ar asedau darparwyr tai cymdeithasol cofrestredig, a elwid gynt yn gymdeithasau tai. Caiff y cyrff hyn eu rheoleiddio gan yr Rheoleiddiwr Tai Cymdeithasol (yn Lloegr), Rheoleiddiwr Tai yn yr Alban, Llywodraeth Cymru ac

yr Adran ar gyfer y Gymuned (yn Gogledd Iwerddon). Fel darparwyr gwasanaethau cyhoeddus, maent yn debygol iawn o barhau i dderbyn cymorth gan y llywodraeth os bydd angen.

**6.12 Cronfeydd Marchnad Arian**

Cronfeydd cyfun sy’n cynnig hylifedd yr un diwrnod neu fyr rybudd ac anweddolrwydd prisiau isel iawn neu ddim o gwbl trwy fuddsoddi mewn marchnadoedd arian tymor byr. Mae ganddyn nhw’r fantais dros gyfrifon banc o ddarparu gwasgariad ehangach o risgiau buddsoddi, ynghyd â gwasanaethau rheolwr cronfa broffesiynol am ffi fach. Er nad oes unrhyw derfyn sector yn berthnasol i gronfeydd marchnad arian, bydd y Cyngor yn cymryd gofal i arallgyfeirio ei fuddsoddiadau hylif dros amrywiaeth o ddarparwyr i sicrhau mynediad at arian parod bob amser.

**6.13 Cronfeydd Cyfun Strategol**

Cronfeydd bondiau, ecwiti ac eiddo, yn cynnwys cyfnewid arian a fasnachwyd, sy’n cynnig enillion gwell dros y tymor hir ond sy’n fwy anwadal yn y tymor byr. Mae’r rhain yn caniatáu i’r Cyngor ehangu i ddosbarthiadau o asedau ar wahân i arian parod heb yr angen i fod yn berchen ar y buddsoddiadau gwaelodol a’u rheoli. Gan nad oes dyddiad aeddfedu pendant ar gyfer y cronfeydd hyn, ond gellir ei dynnu'n ôl ar ôl cyfnod rhybudd neu ei werthu ar gyfnewidfa, a'u bod ar gael i'w tynnu allan ar ôl cyfnod o rybudd, bydd eu perfformiad a'u haddasrwydd i barhau i gwrdd ag amcanion buddsoddi'r Cyngor yn cael eu monitro’n gyson.

**6.14 Ymddiriedolaethau Buddsoddi Ystâd Real**

Cyfranddaliadau mewn cwmnïau sy’n buddsoddi’n bennaf mewn ystâd real ac sy’n talu’r mwyafrif o’u hincwm rhent i fuddsoddwyr mewn modd tebyg i gronfeydd eiddo cyfun. Yn yr un modd â chronfeydd eiddo, mae ymddiriedolaethau buddsoddi ystâd real yn cynnig enillion gwell dros y tymor hir, ond maent yn fwy anwadal yn enwedig gan fod pris y cyfranddaliadau yn adlewyrchu’r galw newidiol am y cyfranddaliadau ynghyd â newidiadau yng ngwerth yr eiddo sylfaenol.

**6.15 Buddsoddiadau eraill**

Mae’r categori yma yn cynnwys buddsoddiadau trysorlys nad ydynt wedi’u rhestru uchod, er enghraifft bondiau corfforaethol ansicredig a benthyciadau cwmni a benthyciadau ansicredig i gwmnïau neu prifysgolion. Nid yw cwmnïau heblaw banciau yn destun *‘bail-in’* ond gallent fynd yn fethdalwr gan roi buddsoddiad y Cyngor mewn perygl.

## 6.16 Cyfrifon banc gweithredol

Gall y Cyngor ddelio gydag unrhyw fanc yn y DU gyda statws credyd dim is na BBB - a chydag asedau mwy na £25 biliwn, a hynny, er enghraifft, drwy gyfrifon cyfredol, cyfrifon casglu a gwasanaethau caffael masnachwyr. Nid yw'r rhain yn cael eu cyfrif fel buddsoddiadau, ond maent yn parhau yn agored i risgiau '*bail-in'*, ac felly bydd y balansau yn cael eu cadw'n is na £900,000 fesul banc. Mae Banc Lloegr wedi datgan petai yna fethiant, y byddai banciau gydag asedau sy'n fwy na £25 biliwn yn fwy tebygol o fod yn destun *'bail-in'* na chael eu gwneud yn fethdalwyr, gan gynyddu'r tebygolrwydd y byddai'r Cyngor yn gallu parhau i weithredu.

## 6.17 Asesu risg a statws credyd

Mae ymgynghorwyr trysorlys y Cyngor yn derbyn ac yn monitro'r graddfeydd credyd, a byddant yn hysbysu unrhyw newid yn y statws wrth iddynt ddigwydd. Mae'r asiantaethau statws credyd sy'n cael eu defnyddio ar hyn o bryd wedi'u rhestru yn nogfen Arferion Rheolaeth Trysorlys. Pan fo statws credyd endid yn cael ei israddio, ac yn methu â diwallu'r meini prawf ar gyfer buddsoddi:

- ni wneir unrhyw fuddsoddiadau newydd;
- bydd unrhyw fuddsoddiadau presennol yn cael eu hadalw neu eu gwerthu os gellir gwneud hynny heb unrhyw gost, a
- rhoddir ystyriaeth lawn i adalw neu werthu'r holl fuddsoddiadau presennol eraill gyda'r gwrthbarti a effeithiwyd.

Pan fo asiantaeth sy'n graddio credyd yn cyhoeddi bod statws credyd rhyw sefydliad yn cael ei adolygu er mwyn ei israddio o bosib (gelwir hyn hefyd yn "*rating watch negative*" neu "*credit watch negative*") fel y gall ddisgyn islaw'r meini prawf cymeradwy ar gyfer y statws credyd, yna dim ond buddsoddiadau y gellir eu tynnu allan ar y diwrnod gwaith nesaf fydd yn cael eu gwneud gyda'r sefydliad hwnnw hyd nes y cyhoeddir canlyniad yr adolygiad. Ni fydd y polisi hwn yn berthnasol i ragolygon negatif, sy'n awgrymu newid cyfeiriad yn yr hir dymor yn hytrach na newid statws credyd ar unwaith.

## 6.18 Agweddau ar enw da

Mae'r Cyngor yn ymwybodol y gallai buddsoddi gyda gwrthbartïon penodol, er ei fod yn cael ei ystyried yn ddiogel o safbwynt ariannol yn unig, ei adael yn agored i feirniadaeth, yn ddilys neu fel arall, a allai effeithio ar ei enw da cyhoeddus, ac felly bydd y risg hon yn cael ei hystyried wrth wneud penderfyniadau buddsoddi.

## 6.19 Gwybodaeth arall ar ddiogelwch buddsoddiadau

Pan fo amodau'n dirywio yn y farchnad ariannol ac yn effeithio ar ansawdd credyd yr holl sefydliadau, fel y digwyddodd yn 2008, 2020 a 2022, nid yw'r elfen hon ar y cyfan yn cael ei adlewyrchu mewn graddau statws credyd, ond gellir ei gweld mewn mesurau marchnad eraill. Yn yr amgylchiadau hyn, bydd y Cyngor yn cyfyngu ei fuddsoddiadau i'r sefydliadau hynny a chanddynt ansawdd credyd uwch, ac yn lleihau ar gyfnod hiraf ei fuddsoddiadau er mwyn cynnal y lefel diogelwch angenrheidiol. Bydd graddau'r cyfyngiadau hyn yn unol â'r amodau presennol yn y farchnad ariannol. Os yw'r cyfyngiadau hyn yn golygu nad oes digon o sefydliadau masnachol o ansawdd credyd uchel ar gael i fuddsoddi balansau arian y Cyngor, yna caiff yr arian dros ben ei adneuo gyda Llywodraeth y DU, trwy'r Swyddfa Rheoli Dyledion er enghraifft, neu gydag awdurdodau lleol eraill. Bydd hyn yn achosi i'r enillion ar fuddsoddiadau ostwng, ond bydd yn diogelu'r prif swm a fuddsoddwyd.

## 6.20 Cyfyngiadau Buddsoddi

Rhagwelir bydd gan y Cyngor £109 miliwn mewn cronfeydd refeniw ar 31 Mawrth 2026 fydd ar gael i dalu am unrhyw golledion buddsoddi. Er mwyn sicrhau nad yw mwy na 9.2% o'r cronfeydd hyn mewn perygl oherwydd diffygdalu unigol, yr uchafswm gellir ei fenthyca i unrhyw un sefydliad (heblaw Llywodraeth y DU) yw £10 miliwn. O ran y cyfyngiad yma bydd grŵp o endidau o dan yr un perchnogaeth yn cael eu trin fel sefydliad unigol.

Mae datguddiadau risg credyd sy'n deillio o fuddsoddiadau ar wahân i'r trysorlys, deilliadau ariannol a balansau sy'n fwy na £500,000 mewn cyfrifon banc gweithredol yn cyfrif yn erbyn y terfynau buddsoddi perthnasol.

Gosodir terfynau hefyd ar reolwyr cronfeydd, buddsoddiadau mewn cyfrifon enwebai broceriaid a gwledydd tramor fel y nodir isod. Nid yw buddsoddiadau mewn cronfeydd cyfun a banciau datblygu amlochrog yn cyfrif yn erbyn y terfyn ar gyfer unrhyw wlad dramor unigol, gan fod y risg yn amrywio dros lawer o wledydd.

**Tabl 4: Terfynau ychwanegol**

| | **Cyfyngiad arian** |
|---|---|
| Unrhyw grŵp o gronfeydd cyfunedig dan yr un rheolaeth | £20m fesul rheolwr |
| Buddsoddiadau mewn cyfrif enwebedig brocer | £20m fesul brocer |
| Gwledydd tramor | £8m fesul gwlad |

### 6.21 Rheoli hylifedd

Mae'r Cyngor yn defnyddio technegau rhagolwg darbodus ar gyfer llif arian er mwyn pennu'r cyfnod hwyaf y gellir ymrwymo cronfeydd yn ddarbodus. Caiff y rhagolygon eu llunio ar y sail bod benthyca tymor byr yn cael ei ddefnyddio i gwmpasu ei ymrwymiadau ariannol os oes angen. Mae'r cyfyngiadau ar fuddsoddiadau tymor hir yn cael eu gosod ar sail cynllun ariannol tymor canolig a rhagolwg llif arian y Cyngor.

Bydd y Cyngor yn lledaenu ei arian parod hylifol dros o leiaf bedwar darparwr (e.e. cyfrifon banc a chronfeydd marchnad arian), ble bydd o leiaf dau wedi ei leoli yn y DU, i sicrhau bod mynediad at arian parod yn cael ei gynnal os bydd anawsterau gweithredol mewn unrhyw un darparwr.

## 7. Dangosyddion Darbodus Rheolaeth Trysorlys

Mae'r Cyngor yn mesur ac yn rheoli pa mor agored ydyw i risgiau rheolaeth trysorlys gan ddefnyddio'r dangosyddion a ganlyn.

### 7.1 Diogelwch

Mae'r Cyngor wedi mabwysiadu mesur gwirfoddol i ddangos ei sensitifrwydd i risg credyd trwy fonitro sgôr credyd cyfartalog wedi'i bwysoli o ran gwerth ei bortffolio buddsoddi. Caiff hyn ei gyfrifo trwy roi sgôr i bob buddsoddiad (AAA=1, AA+=2, ac ati) a chymryd y cyfartaledd rhifyddol, gan bwyso'r cyfartaledd yn ôl maint pob buddsoddiad. Rhoddir sgôr i fuddsoddiadau heb sgôr yn seiliedig ar eu risg ganfyddedig.

| **Dangosydd risg credyd** | **Targed** |
|---|---|
| Sgôr credyd cyfartalog y portffolio | 6.0 |

### 7.2 Hylifedd

Mae'r Cyngor wedi mabwysiadu mesur gwirfoddol i ddangos ei sensitifrwydd i risg hylifedd trwy fonitro faint o arian sydd ar gael i gwrdd â thaliadau annisgwyl mewn cyfnod penodol, heb fenthyca ychwanegol.

| **Dangosydd risg hylifedd** | **Targed** |
|---|---|
| Cyfanswm arian ar gael o fewn 3 mis | £10m |

### 7.3 Datguddiad Cyfraddau Llog

Nod y dangosydd hwn yw rheoli datguddiad y Cyngor i risg cyfradd llog. Y terfynau uchaf ar effaith refeniw dros flwyddyn yn dilyn codiad neu gwymp o 1% ar gyfraddau llog fyddai:

| **Dangosydd risg cyfradd llog** | **Cyfyngiad** |
|---|---|
| Y terfyn uchaf ar effaith refeniw blwyddyn gyda chodiad o 1% yng nghyfraddau llog | £1,105,508 |
| Y terfyn uchaf ar effaith refeniw blwyddyn gyda chwymp o 1% yng nghyfraddau llog | £1,105,508 |

Caiff effaith newid mewn cyfraddau llog ei gyfrifo ar y dybiaeth y bydd benthyciadau a buddsoddiadau sy'n aeddfedu yn cael eu hamnewid ar y cyfraddau marchnad newydd.

### 7.4 Strwythur Aeddfedrwydd Benthyciadau

Nod y dangosydd hwn yw rheoli pa mor agored yw'r Cyngor i risg ail gyllido. Bydd y terfynau uchaf ac isaf ar strwythur aeddfedrwydd benthyciadau fel a ganlyn:

| **Dangosydd risg cyfradd ail gyllido** | **Cyfyngiad Uchaf** | **Cyfyngiad Isaf** |
|---|---|---|
| Dan 12 mis | 25% | 0% |
| 12 mis ac o fewn 24 mis | 25% | 0% |
| 24 mis ac o fewn 5 mlynedd | 50% | 0% |
| 5 mlynedd ac o fewn 10 mlynedd | 75% | 0% |
| 10 mlynedd a mwy | 100% | 0% |

Mae'r cyfnodau amser yn dechrau ar ddiwrnod cyntaf pob blwyddyn ariannol. Y dyddiad aeddfedrwydd ar fenthyciadau yw'r dyddiad cynharaf y gall y sawl sydd wedi rhoi'r benthyciad fynnu bod y benthyciad yn cael ei ad-dalu.

### 7.5 Prif Symiau a Fuddsoddir am Gyfnodau sy’n Hwy na flwyddyn

Pwrpas y dangosydd hwn yw rheoli pa mor agored yw’r Cyngor i’r risg o fynd i golledion trwy geisio ad-daliadau buan ar ei fuddsoddiadau. Y terfynau darbodus ar fuddsoddiadau rheolaeth trysorlys hirdymor fydd:

| Dangosydd risg pris | 2026/27 | 2027/28 | 2028/29 | Dim dyddiad penodol |
|---|---|---|---|---|
| Y terfyn ar y prif swm a fuddsoddwyd tu hwnt i ddiwedd y flwyddyn | £40m | £20m | £20m | £20m |

Mae buddsoddiadau hirdymor heb ddyddiad aeddfedu penodol yn cynnwys cronfeydd cyfun strategol ac ymddiriedolaethau buddsoddi ystâd real ond nid ydynt yn cynnwys cronfeydd marchnad arian a chyfrifon banc heb ddyddiad aeddfedu penodol gan fod y rhain yn cael eu hystyried yn rhai tymor byr.

## 8. Materion Cysylltiedig

**8.1** Mae nifer o eitemau ychwanegol y mae’n rhaid i’r Cyngor eu cynnwys yn ei Strategaeth Rheolaeth Trysorlys, yn ôl CIPFA.

### 8.2 Cytundebau Deilliadau

Gallai awdurdodau lleol fod wedi defnyddio deilliadau ariannol yn y gorffennol wedi’u hymgorffori mewn benthyciadau a buddsoddiadau i leihau risg cyfraddau llog (e.e. coleri cyfradd llog a blaendaliadau) ac i leihau costau neu gynyddu incwm ar draul mwy o risg (e.e. benthyciadau LOBO ac adneuon y gellir eu galw). Mae’r pŵer cymhwysedd cyffredinol yn adran 24 o Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 yn dileu llawer o’r ansicrwydd ynghylch defnydd awdurdodau lleol o ddeilliadau ariannol annibynnol (h.y. y rhai nad ydynt wedi’u hymgorffori mewn benthyciad neu fuddsoddiad).

Bydd y Cyngor ond yn defnyddio deilliadau ariannol annibynnol (fel cyfnewidiadau, blaensymiau, dyfodol ac opsiynau) lle gellir dangos yn glir eu bod yn lleihau lefel gyffredinol y risgiau ariannol y mae'r Cyngor yn agored iddynt. Bydd risgiau ychwanegol a gyflwynir, megis amlygiad credyd i wrthbartïon deilliadol, yn cael eu hystyried wrth bennu lefel gyffredinol y risg. Ni fydd y polisi hwn yn berthnasol i ddeilliadau mewnosodedig, gan gynnwys y rhai sy'n bresennol mewn cronfeydd cyfun a thrafodion sy'n cychwyn ymlaen llaw, er y bydd y risgiau a gyflwynir ganddynt yn cael eu rheoli yn unol â strategaeth gyffredinol rheoli risg y trysorlys.

Gellir trefnu trafodion deilliadol ariannol gydag unrhyw sefydliad sy'n bodloni'r meini prawf buddsoddi cymeradwy, a asesir gan ddefnyddio'r statws credyd priodol ar gyfer datguddiadau deilliadol. Bydd lwfans ar gyfer risg credyd a gyfrifir gan ddefnyddio'r fethodoleg yn y ddogfen Arferion Rheoli'r Trysorlys yn cyfrif yn erbyn y terfyn credyd gwrthbarti a'r terfyn gwlad dramor perthnasol.

Yn unol â Chod CIPFA, bydd y Cyngor yn ceisio cyngor allanol ac yn ystyried y cyngor hwnnw cyn ymrwymo i ddeilliadau ariannol i sicrhau ei fod yn deall y goblygiadau yn llawn.

**8.3 Cronfeydd Allanol**

Yn gynwysedig ym malansau'r Cyngor mae balansau ar gyfer Cronfa Bensiwn Gwynedd a Cronfa'r Degwm.Dyrennir yr incwm llog i bob sefydliad yn seiliedig ar falansau dyddiol.

**8.4 Cyfarwyddeb Marchnadoedd mewn Offerynnau Ariannol**

Mae'r Cyngor wedi dewis cael statws cleient proffesiynol gyda'i darparwyr gwasanaethau ariannol, gan gynnwys ymgynghorwyr, banciau, broceriaid a rheolwyr buddsoddi, er mwyn caniatáu mynediad at amrediad mwy o wasanaethau ond heb y diogelwch rheoleiddio uwch sydd ar gael i unigolion a chwmnïau bychan. Oherwydd maint ac ystod gweithgareddau rheolaeth trysorlys y Cyngor, mae'r Pennaeth Cyllid yn credu mai hwn yw'r statws priodol gorau.

**9. Arweiniad Llywodraeth Cymru**

Mae materion pellach sy'n ofynnol gan ganllawiau Llywodraeth Cymru wedi'u cynnwys yn **Atodiad 3**.

**10. Goblygiadau Ariannol**

**10.1** Y gyllideb ar gyfer incwm buddsoddi yn 2026/27 yw £1.0 miliwn, yn seiliedig ar gyfartaledd portffolio buddsoddi o £32.6 miliwn ar gyfradd llog o 3.0% ar gyfer adneuon a £13 miliwn o gronfeydd cyfun ar enillion o 3.7%. Y gyllideb ar gyfer y llog ar ddyledion yn 2026/27 yw £4.4 miliwn, yn seiliedig ar gyfartaledd portffolio dyledion o £73 miliwn ar gyfradd llog cyfartalog o 5.7%. Os bydd lefelau gwirioneddol y buddsoddiadau a'r benthyciadau a'r cyfraddau llog yn wahanol i'r rhagolygon, yna bydd gwahaniaeth cyfatebol yn y perfformiad yn erbyn y gyllideb.

## 11. Ystyried Opsiynau Eraill

**11.1** Nid yw Cod CIPFA yn pennu unrhyw strategaeth rheoli trysorlys penodol i awdurdodau lleol ei fabwysiadu. Ar ôl ymgynghori gyda'r Aelod Cabinet dros Gyllid, mae'r Pennaeth Cyllid yn credu fod y strategaeth uchod yn cynnig cydbwysedd addas rhwng rheoli risgiau a chost-effeithiolrwydd. Isod, rhestrir rhai strategaethau eraill, ynghyd â'u hoblygiadau ariannol a rheoli risgiau.

| Dewis Arall | Effaith ar incwm a gwariant | Effaith ar reoli risgiau |
|---|---|---|
| Buddsoddi mewn amrediad mwy cyfyng o wrthbartïon ac/neu am gyfnodau byrrach | Bydd incwm llog yn is | Llai o berygl o golledion o ganlyniad i ddiffygdalu'n ymwneud â chredyd, ond byddai unrhyw golledion yn fwy |
| Buddsoddi mewn amrediad ehangach o wrthbartïon ac/neu am gyfnodau hirach | Bydd incwm llog yn uwch | Mwy o risg o golledion o ganlyniad i ddiffygdalu'n ymwneud â chredyd, ond byddai unrhyw golledion yn llai |
| Benthyca symiau ychwanegol ar gyfraddau llog sefydlog hirdymor | Bydd costau llog dyledion yn codi; mae'n annhebygol y gellid gwrthbwyso hyn drwy incwm buddsoddi uwch | Balans buddsoddi uwch yn arwain at fwy o effaith petai ddiffygdalu; fodd bynnag byddai'r costau llog hirdymor yn fwy sicr |
| Cymryd benthyciadau byrdymor newidiol yn hytrach na chyfraddau sefydlog hirdymor | Bydd costau llog dyledion yn is i gychwyn | Bydd y cynnydd yn y costau llog ar ddyledion yn cael eu gwrthbwyso i raddau helaeth gan y cynnydd yn yr incwm buddsoddi yn y tymor canolig, ond bydd mwy o ansicrwydd am y costau hirdymor |
| Lleihau lefel y benthyciadau | Mae'r arbediad ar log y ddyled yn debygol o fod yn fwy na'r incwm buddsoddi a gollir | Balans buddsoddi is yn arwain at lai o effaith petai ddiffygdalu; fodd bynnag byddai'r costau llog hirdymor yn llai sicr |

**Atodiad 1 – Rhagolygon Economaidd a Chyfraddau Llog Arlingclose, Rhagfyr 2025**

**Tybiaethau sylfaenol:**

• Cyflawnodd Banc Lloegr eu disgwyliadau ar gyfer toriad cyfradd ym mis Rhagfyr, ond, er gwaethaf data economaidd meddalach dros y pythefnos diwethaf, mae'r cofnodion yn tynnu sylw at fwy o rybudd ynghylch y rhagolygon chwyddiant a chyflymder llacio yn y dyfodol. Gyda phleidlais agos o 5-4 o blaid gostyngiad cyfradd, mae hyn yn awgrymu y gallai'r bar ar gyfer llacio ariannol pellach fod yn uwch nag a feddyliwyd yn flaenorol er gwaethaf y posibilrwydd y bydd y gyfradd CPI yn gostwng i'r targed yn 2026.

• Bydd polisïau cyllideb ac effeithiau sylfaenol yn lleihau'r gyfradd CPI yn fecanyddol yn 2026, ar ben y pwysau i lawr sy'n deillio o dwf economaidd meddal a'r farchnad lafur llac. Fodd bynnag, mae llawer o wneuthurwyr polisi yn ymddangos yn pryderu bod chwyddiant aelwydydd a busnesau a disgwyliadau prisio yn profi'n heriol yn dilyn pyliau diweddar o dwf prisiau a chyflog uchel, a allai ganiatáu i bwysau chwyddiant sylfaenol aros yn uchel. Er bod mesur y Banc o ddisgwyliadau aelwydydd yn is ym mis Rhagfyr, mae'n parhau i fod yn uwch na'r lefelau sy'n gyson â'r targed o 2% ar 3.5%.

• Er bod gan wneuthurwyr polisi bryderon dilys, mae'r rhain yn ymddangos braidd yn wahanol i'r amodau presennol; gostyngodd chwyddiant CPI i 3.2% ym mis Tachwedd, parhaodd twf cyflog y sector preifat i leddfu yng nghanol y gyfradd ddiweithdra uchaf ers y pandemig, ac mae'r economi wedi crebachu ym mis Hydref ar ôl twf isel yn Ch3. Dangosodd arolygon busnes weithgarwch ychydig yn gryfach a bwriadau prisio ym mis Rhagfyr ond awgrymodd hefyd nad oedd y sefyllfa cyn y Gyllideb yn un dros dro. Mae'r data hyn yn parhau i gefnogi'r awgrymiad bod amodau economaidd heriol yn bwydo i mewn i osod cyflogau a prisiau.

• Mae risgiau i'r rhagolygon twf a chwyddiant yn isel, a allai yn y pen draw gyflawni Cyfradd Banc is na'n hachos canolog. Fodd bynnag, mae'r cofnodion yn awgrymu bod y lefel i ganiatáu toriadau cyfradd ymhellach na 3.25% yn uwch a bod ac mae'r risgiau i fyny yn y tymor byr i'n rhagolwg Cyfradd Banc wedi cynyddu. Wedi dweud hynny, Credwn y bydd disgwyliadau chwyddiant yn gostwng yn naturiol ochr yn ochr â chyfraddau chwyddiant pennawd.

• Mae'n ymddangos bod buddsoddwyr wedi rhoi rhywfaint o le i lywodraeth y DU yn dilyn y Gyllideb, gyda chynnyrch tymor hir yn parhau i fasnachu ar lefelau ychydig yn is nag ar ddiwedd yr haf / dechrau'r hydref. Hyd yn oed felly, mae benthyca trwm parhaus ar draws economïau datblygedig, y DMO yn symud tuag at gyhoeddi giltiau gyda aeddfedrwydd llai ac amheuon am gynlluniau treth y llywodraeth yn cadw cynnyrch tymor byr a canolig uwchlaw'r lefelau a awgrymir gan ddisgwyliadau cyfradd llog yn unig.

**Rhagolygon:**

• Yn unol â'n rhagolwg hirsefydlog, cafodd Cyfradd y Banc ei dorri i 3.75% ym mis Rhagfyr.

• Gyda chwyddiant croes, diweithdra cynyddol, twf cyflog llai a hyder isel, awgrymir bydd y polisi ariannol yn parhau i gael ei lacio.

• Mae Arlingclose yn disgwyl i Gyfradd Banc gael ei dorri i 3.25% erbyn canol 2026. Fodd bynnag, mae risgiau tymor byr i'r rhagolygon wedi cynyddu.

• Mae cynnyrch giltiau tymor canolig a tymor hir wedi parhau i gwmpasu premiwm ar gyfer hygrededd llywodraeth y DU, ansicrwydd byd-eang a chyhoeddi sylweddol. Efallai na fydd y materion hyn yn cael eu datrys yn gyflym ac rydym yn disgwyl i gynnyrch aros yn uwch.

| | Current | Mar-26 | Jun-26 | Sep-26 | Dec-26 | Mar-27 | Jun-27 | Sep-27 | Dec-27 | Mar-28 | Jun-28 | Sep-28 | Dec-28 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Official Bank Rate | | | | | | | | | | | | | |
| Upside risk | 0.00 | 0.25 | 0.50 | 0.50 | 0.50 | 0.50 | 0.50 | 0.50 | 0.50 | 0.50 | 0.50 | 0.50 | 0.50 |
| Central Case | 3.75 | 3.50 | 3.25 | 3.25 | 3.25 | 3.25 | 3.25 | 3.25 | 3.25 | 3.25 | 3.25 | 3.25 | 3.25 |
| Downside risk | 0.00 | 0.00 | -0.25 | -0.50 | -0.50 | -0.50 | -0.50 | -0.50 | -0.50 | -0.50 | -0.50 | -0.50 | -0.50 |
| 3-month money market rate | | | | | | | | | | | | | |
| Upside risk | 0.00 | 0.25 | 0.50 | 0.50 | 0.50 | 0.50 | 0.50 | 0.50 | 0.50 | 0.50 | 0.50 | 0.50 | 0.50 |
| Central Case | 3.82 | 3.55 | 3.30 | 3.30 | 3.30 | 3.30 | 3.30 | 3.30 | 3.30 | 3.30 | 3.35 | 3.35 | 3.35 |
| Downside risk | 0.00 | 0.00 | -0.25 | -0.50 | -0.50 | -0.50 | -0.50 | -0.50 | -0.50 | -0.50 | -0.50 | -0.50 | -0.50 |
| 5yr gilt yield | | | | | | | | | | | | | |
| Upside risk | 0.00 | 0.40 | 0.45 | 0.50 | 0.55 | 0.60 | 0.65 | 0.70 | 0.70 | 0.70 | 0.70 | 0.70 | 0.70 |
| Central Case | 3.96 | 3.85 | 3.80 | 3.75 | 3.75 | 3.75 | 3.75 | 3.75 | 3.75 | 3.75 | 3.80 | 3.80 | 3.80 |
| Downside risk | 0.00 | -0.50 | -0.60 | -0.70 | -0.80 | -0.85 | -0.85 | -0.85 | -0.85 | -0.85 | -0.85 | -0.85 | -0.85 |
| 10yr gilt yield | | | | | | | | | | | | | |
| Upside risk | 0.00 | 0.40 | 0.45 | 0.50 | 0.55 | 0.60 | 0.65 | 0.70 | 0.70 | 0.70 | 0.70 | 0.70 | 0.70 |
| Central Case | 4.52 | 4.40 | 4.35 | 4.30 | 4.30 | 4.30 | 4.30 | 4.30 | 4.30 | 4.30 | 4.35 | 4.35 | 4.35 |
| Downside risk | 0.00 | -0.50 | -0.60 | -0.70 | -0.80 | -0.85 | -0.85 | -0.85 | -0.85 | -0.85 | -0.85 | -0.85 | -0.85 |
| 20yr gilt yield | | | | | | | | | | | | | |
| Upside risk | 0.00 | 0.40 | 0.45 | 0.50 | 0.55 | 0.60 | 0.65 | 0.70 | 0.70 | 0.70 | 0.70 | 0.70 | 0.70 |
| Central Case | 5.16 | 5.00 | 4.95 | 4.90 | 4.90 | 4.90 | 4.90 | 4.90 | 4.90 | 4.90 | 4.95 | 4.95 | 4.95 |
| Downside risk | 0.00 | -0.50 | -0.60 | -0.70 | -0.80 | -0.85 | -0.85 | -0.85 | -0.85 | -0.85 | -0.85 | -0.85 | -0.85 |
| 50yr gilt yield | | | | | | | | | | | | | |
| Upside risk | 0.00 | 0.40 | 0.45 | 0.50 | 0.55 | 0.60 | 0.65 | 0.70 | 0.70 | 0.70 | 0.70 | 0.70 | 0.70 |
| Central Case | 4.74 | 4.65 | 4.60 | 4.60 | 4.60 | 4.60 | 4.60 | 4.60 | 4.60 | 4.60 | 4.65 | 4.65 | 4.65 |
| Downside risk | 0.00 | -0.50 | -0.60 | -0.70 | -0.80 | -0.85 | -0.85 | -0.85 | -0.85 | -0.85 | -0.85 | -0.85 | -0.85 |

PWLB Standard Rate = Gilt yield + 1.00%
PWLB Certainty Rate = Gilt yield + 0.80%
PWLB HRA Rate = Gilt yield + 0.40%
National Wealth Fund (NWF) Rate = Gilt yield + 0.40%

**Atodiad 2- Sefyllfa Portffolio Buddsoddi a Dyled Bresennol**

| | **31.12.2025 Gwir Bortffolio £m** | **31.12.2025 Cyfradd Cyfartalog %** |
|---|---|---|
| **Benthyca Allanol:** | | |
| Bwrdd Benthyciadau Gwaith Cyhoeddus (PWLB) | 75.7 | 5.49 |
| **Cyfanswm benthyca allanol** | **75.7** | **5.49** |
| **Ymrwymiadau tymor hir arall:** | | |
| Prydlesau | 1.6 | 0.00 |
| **Cyfanswm ymrwymiadau tymor hir arall** | **1.6** | **0.00** |
| **Cyfanswm dyled gros allanol** | **77.3** | **5.49** |
| **Buddsoddiadau trysorlys:** | | |
| Banciau a Chymdeithasau adeiladu (ansicredig) | 1.2 | 3.15 |
| Llywodraeth DU | 39.0 | 3.80 |
| Awdurdodau Lleol | 36.5 | 4.18 |
| Cronfeydd Marchnad Arian | 41.0 | 3.91 |
| Cronfeydd wedi'u pŵlio | 13.0 | 5.69 |
| **Cyfanswm buddsoddiadau trysorlys** | **130.7** | **4.13** |
| **Buddsoddiadau Net** | **-53.4** | |

**Atodiad 3- Gofynion ychwanegol Canllawiau Buddsoddi Llywodraeth Cymru**

Cyhoeddodd Llywodraeth Cymru (LlC) Ganllaw Buddsoddi diwygiedig ym mis Tachwedd 2019 sy'n gosod gofynion adrodd ychwanegol ar awdurdodau lleol nad ydynt yn rhan annatod o brosesau rheoli trysorlys y Cyngor hwn. Mae'r canllawiau hefyd yn cynnwys buddsoddiadau nad ydyn nhw'n rhan o reoli trysorlys, er enghraifft eiddo buddsoddi a benthyciadau i sefydliadau lleol.

**Cyfraniad:** Mae buddsoddiadau'r Cyngor yn cyfrannu at ei amcanion darparu gwasanaeth a / neu i hyrwyddo lles fel a ganlyn:

- mae buddsoddiadau rheoli trysorlys yn cefnogi gweithgareddau rheoli trysorlys effeithiol,
- mae benthyciadau i sefydliadau lleol yn darparu cymorth ariannol i'r sefydliadau hynny i'w galluogi i ddarparu gwasanaethau cyhoeddus lleol a fyddai fel arall yn cael eu darparu'n uniongyrchol gan y Cyngor, a
- mae eiddo buddsoddi yn darparu gwarged ariannol net sy'n cael ei ail-fuddsoddi mewn gwasanaethau cyhoeddus lleol.

**Newid yn yr hinsawdd:** Mae penderfyniadau buddsoddi'r Cyngor yn ystyried risgiau hinsawdd tymor hir i gefnogi economi carbon isel i'r graddau, os oes buddsoddiad carbon isel cyfwerth ar gael gyda'r un enillion, yna byddai'n well gan y Cyngor y buddsoddiad carbon isel.

**Buddsoddiadau penodedig**: Mae Canllawiau LlC yn diffinio buddsoddiadau penodedig fel y rheini:

- wedi'i enwi mewn punt sterling,
- i fod i gael ei ad-dalu cyn pen 12 mis ar ôl y trefniant oni bai bod y gwrthbarti yn awdurdod lleol,
- heb ei ddiffinio fel gwariant cyfalaf gan ddeddfwriaeth, a
- buddsoddi gydag un o:
    - Llywodraeth y DU,
    - Awdurdod lleol, cyngor plwyf neu gyngor cymunedol yn y DU, neu
    - Corff neu gynllun buddsoddi o “ansawdd credyd uchel”.

Mae'r Cyngor yn diffinio sefydliadau a gwarantau “ansawdd credyd uchel” fel y rhai sydd â statws credyd o A- neu uwch sy'n hanu o'r DU neu wlad dramor sydd â sgôr sofran o AA + neu'n uwch. Ar gyfer cronfeydd marchnad arian a chronfeydd cyfun eraill, diffinnir “ansawdd credyd uchel” fel y rhai sydd â statws credyd o A- neu uwch.

**Benthyciadau**: Mae Canllawiau LlC yn diffinio benthyciad fel cytundeb ysgrifenedig neu lafar lle mae'r Cyngor yn trosglwyddo arian dros dro i drydydd parti, menter ar y

cyd, is-gwmni neu aelod cyswllt sy'n cytuno ar enillion yn ôl telerau ac amodau derbyn y benthyciad, ac eithrio pan fydd y trydydd parti yn awdurdod lleol arall.

Gall y Cyngor ddangos bod ei amlygiad ariannol i fenthyciadau i fentrau lleol, elusennau lleol, cwmnïau dan berchnogaeth lwyr a mentrau ar y cyd yn gymesur trwy osod y terfynau yn nhabl 3a. Mae'r rhain yn sicrhau nad yw cyfanswm yr amlygiad yn fwy na 20% o gronfeydd wrth gefn y Cyngor y gellir eu defnyddio. Ar hyn o bryd mae llyfr benthyciadau'r Cyngor o fewn y terfynau hunanasesedig hyn.

*Tabl 3a: Terfynau Benthyg*

| **Benthyciwr** | **Terfyn arian** |
|---|---|
| Mentrau lleol ac elusennau lleol | £3m |
| Cwmnïau dan berchnogaeth lwyr a mentrau ar y cyd | £3m |
| Benthyciadau ceir a beics i weithwyr | £3m |
| Buddsoddiadau rheolaeth trysorlys sy'n cwrdd â'r diffiniad o fenthyciad | Diderfyn |

Mae'r Cyngor yn defnyddio model 'colled credyd disgwyliedig' a ganiateir ar gyfer benthyciadau a symiau derbyniadwy fel y nodir yn Safon Adrodd Ariannol Ryngwladol 9: Offerynnau Ariannol fel y'i mabwysiadwyd gan arferion priodol i fesur risg credyd ei bortffolio benthyciadau. Rhoddir ystyriaeth briodol i reolau cymorth gwladwriaethol a chyfraith cystadleuaeth. Mae gan y Cyngor drefniadau rheoli credyd priodol i adennill ad-daliadau hwyr.

**Buddsoddiadau amhenodol:** Mae unrhyw fuddsoddiad ariannol nad yw'n cwrdd â'r diffiniad o fuddsoddiad neu fenthyciad penodol yn cael ei ddosbarthu fel un amhenodol. O ystyried y diffiniad eang o fenthyciad, mae'r categori hwn yn berthnasol i unedau mewn cronfeydd cyfun a chyfranddaliadau mewn cwmnïau yn unig. Dangosir cyfyngiadau ar fuddsoddiadau amhenodol yn nhabl 3b; mae'r Cyngor yn cadarnhau bod ei fuddsoddiadau amhenodol cyfredol yn aros o fewn y terfynau hyn.

*Tabl 3b: Terfynau buddsoddiadau amhenodol*

| | **Terfyn arian** |
|---|---|
| Unedau mewn cronfeydd cyfun heb statws credyd neu wedi'u graddio islaw A- | £20m |
| Cyfranddaliadau mewn ymddiriedolaethau buddsoddi ystâd real | £10m |
| Cyfanswm buddsoddiadau amhenodol | £30m |

**Buddsoddiadau anariannol:** Mae'r categori hwn yn cynnwys asedau anariannol a ddelir yn bennaf neu'n rhannol i gynhyrchu elw, eiddo buddsoddi yn bennaf. Penderfynir ar ddiogelwch trwy gymharu pris prynu pob ased â'i werth teg gan ddefnyddio'r model yn Safon Gyfrifyddu Ryngwladol 40: Eiddo Buddsoddi fel y'i haddaswyd gan arferion

priodol. Ar asesiad ar 31 Mawrth 2024, mae'r Cyngor o'r farn nad yw graddfa ei fuddsoddiadau anariannol yn sylweddol.

**Hylifedd**: Ar gyfer buddsoddiadau ariannol nad ydynt yn fuddsoddiadau neu fenthyciadau rheoli trysorlys, mae gan y Cyngor weithdrefnau yn eu lle i sicrhau bod y cronfeydd yn cael eu hymrwymo'n ddarbodus am y cyfnod hiraf o amser.

**Ymgynghorwyr Buddsoddi:** Mae'r Cyngor wedi penodi Arlingclose fel ymgynghorwyr rheolaeth trysorlys ac yn derbyn cyngor penodol ar faterion buddsoddi, dyled a chyllid cyfalaf. Mae ansawdd y gwasanaeth hwn yn cael ei fonitro gan y Pennaeth Cyllid a'r Rheolwr Buddsoddi yn rheolaidd.

**Benthyg cyn yr angen:** Canllawiau Llywodraeth Cymru yw na ddylai awdurdodau lleol fenthyca mwy na blaen eu hanghenion er mwyn elwa o fuddsoddiad y symiau ychwanegol a fenthycwyd. Mae'r Cyngor, ar ôl ystyried y canllawiau, wedi penderfynu gwyro oddi wrth ddarpariaeth benodol.

**Trefniant masnachol:** Os bydd trefniant masnachol, mae'r unigolion sy'n gwneud y fargen yn ymwybodol o egwyddorion craidd y fframwaith darbodus a'r drefn reoleiddio y mae'r Cyngor yn gweithredu oddi mewn iddi.

**Capasiti, sgiliau a llywodraethu corfforaethol:** Gwahoddwyd aelodau etholedig a swyddogion i gyflwyniad gan Arlingclose ym mis Chwefror a Mawrth 2025. Mae'r wybodaeth a'r drafodaeth yn y cyflwyniad yn sicrhau bod gan yr aelodau'r sgiliau a'r wybodaeth briodol i'w galluogi i:

- Wneud penderfyniadau gwybodus ynghylch a ddylid ymrwymo i fuddsoddiad penodol.
- Asesu asesiadau unigol yng nghyd-destun amcanion strategol a phroffil risg y Cyngor.
- Deall sut mae cwantwm y penderfyniadau hyn wedi newid amlygiad risg cyffredinol yr awdurdod lleol.

Mae swyddogion hefyd yn mynychu cyrsiau hyfforddi, seminarau a chynadleddau a ddarperir gan Arlingclose a CIPFA yn rheolaidd. Anogir staff perthnasol hefyd i astudio cymwysterau proffesiynol gan CIPFA, ACA a sefydliadau priodol eraill.

| Cyfarfod | CYNGOR LLAWN |
|---|---|
| **Dyddiad:** | **5 Mawrth, 2026** |
| **Teitl:** | **Adroddiad Blynyddol – Polisi Tâl y Cyngor** |
| **Pwrpas:** | **Mabwysiadu Polisi Tâl ar gyfer 2026/2027** |
| **Awdur:** | **Dafydd Gibbard, Prif Weithredwr** |
| **Cadeirydd y Pwyllgor Penodi Prif Swyddogion** | **Cyng. Ioan Thomas** |

**Penderfyniad a geisir**

a) Fod y Cyngor Llawn yn mabwysiadu'r Datganiad o Bolisi Tâl drafft ar gyfer 2026/27.

**Cefndir**

1. Ers 2012, mae yna ddyletswydd statudol ar bob Cyngor i fabwysiadu polisi tâl yn flynyddol. Mae'r gofyn statudol hwn yn nodi mai swyddogaeth i'r Cyngor llawn yw cymeradwyo'r polisi tâl.

2. Wrth fabwysiadu'r polisi tâl ar gyfer 2012/13, penderfynodd y Cyngor llawn ofyn i'r Pwyllgor Penodi Prif Swyddogion i gynnal adolygiad blynyddol o gynaladwyedd y polisi tâl i'r dyfodol a chyflwyno argymhellion i gyfarfod o'r Cyngor llawn ym mis Mawrth pob blwyddyn.

3. Gofynnwyd i'r Pwyllgor hwn felly ystyried cynnwys y drafft o bolisi tâl ar gyfer 2026/27 yn ei gyfarfod ar 11 Chwefror a chyflwyno argymhelliad i gyfarfod o'r Cyngor llawn.

**Prif Swyddogion**

4. Mae codiadau cyflog blynyddol ar gyfer swyddi prif swyddogion yn cael eu pennu gan y Cyd-Gyngor Cenedlaethol ar gyfer Prif Swyddogion. Mae'r rhain yn delerau cytundebol y mae'n rhaid i bob cyflogwr weithredu arnynt ac felly mae gan bob swyddog yr hawl i'r codiadau cyflog sy'n cael eu pennu. Gyda hyn mewn golwg, mae'r drafft polisi tâl yn datgan *'fod gan y Prif Swyddogion a gyflogir o dan amodau a thelerau y Cyd-Gyngor Cenedlaethol yr hawl cytundebol i unrhyw godiad cyflog cenedlaethol a ddyfernir gan y corff hwnnw a bydd y Cyngor felly yn talu'r rhain yn unol â gofynion cytundebol presennol'*. Wrth fabwysiadu'r polisi tâl blynyddol felly, mae'r Cyngor yn cymeradwyo'r codiadau cyflog cenedlaethol hyn. Ym mis Gorffennaf 2025 daeth y cyflogwyr a'r undebau sydd yn cynrychioli prif swyddogion i gytundeb ar gynnydd tâl ar gyfer y flwyddyn 2025/26, sef cynnydd o 3.2% ar gyflog blynyddol pob prif swyddog. Mae hi'n ddyddiau cynnar ar y trafodaethau ar gyfer 2026/27, gyda'r broses negodi rhwng y cyflogwr a'r undebau ar lefel y DU yn cymryd lle ar hyn o bryd.

**Swyddi o dan lefel prif swyddog**

5. Mae cyflogau staff sydd yn gweithio mewn swyddi o dan lefel prif swyddogion yn cael eu pennu gan y Cyd-Gyngor Cenedlaethol ar Gyfer Gweithlu Llywodraeth Leol. Yn union fel prif swyddogion, mae gan staff sydd yn gweithio i'r telerau hyn yr hawl cytundebol i'r codiadau cyflog sydd yn cael eu pennu. Yn ystod haf 2025 daeth yr undebau a'r cyflogwr i gytundeb ym mis  ar gynnydd o 3.2% ar gyflog blynyddol pob aelod staff. Cytunwyd hefyd i ddileu pwynt 2 o'r strwythur tâl, gyda hynny i ddod yn weithredol o fis Ebrill 2026 ymlaen. Yn yr un modd ag ar gyfer prif swyddogion, mae hi'n ddyddiau cynnar ar y  trafodaethau ar gyfer 2026/27.

**Argymhelliad**

6. Bod y Pwyllgor yn cynnig y Datganiad o Bolisi Tâl drafft i'r Cyngor fel un i'w fabwysiadu ar gyfer 2026/27.

Barn y swyddogion statudol

**Y Dirprwy Swyddog Monitro**

Mae Deddf Lleoliaeth 2011 yn gosod gofyn statudol ar y Cyngor i fabwysiadu Polisi Tâl blynyddol sydd yn cyfarch y gofynion yn y Ddeddf. Penderfyniad y Cyngor llawn yw hyn. Rwy'n fodlon fod y Polisi a argymhellir ar gyfer ei fabwysiadu gan y Pwyllgor Penodi Prif Swyddogion yn cyfarch y gofynion statudol.

**Y Pennaeth Cyllid Cynorthwyol (Dirprwy Swyddog a151)**

Mae'r adnoddau ar gyfer ariannu ymhlygiadau'r Polisi Tâl yma wedi'u darparu yn y Gyllideb ar gyfer 2026/27, sy'n eitem ar wahân ar raglen y cyfarfod yma.

# Polisi Tâl – 2026 / 27

## 1. CYFLWYNIAD

Yn unol ag Adran 38(1) Deddf Lleoliaeth 2011, mae gofyn i bob Cyngor baratoi datganiad polisi tâl. Rhaid i'r datganiad hwn gyfleu beth yw polisïau'r Awdurdod ar nifer o faterion sy'n ymwneud â thâl ei weithlu, yn enwedig ei uwch staff (neu 'brif swyddogion') a'r gweithwyr sy'n cael y cyflogau isaf. Rhaid paratoi datganiad polisi tâl ar gyfer pob blwyddyn ariannol a rhaid iddo gael ei gymeradwyo gan y Cyngor llawn cyn dechrau'r flwyddyn ariannol newydd.

Mae Cyngor Gwynedd yn cydnabod pa mor allweddol yw rheoli cydnabyddiaeth ariannol mewn modd teg, cyson a thryloyw ac mae'r penderfyniadau a wneir yn y cyswllt hwn yn greiddiol i sicrhau cyflog cyfartal a chydraddoldeb ar draws y Cyngor.

## 2. POLISI TÂL AR GYFER PRIF SWYDDOGION

Mae'r Cyngor yn diffinio ei brif swyddogion fel a ganlyn: y Prif Weithredwr, y Cyfarwyddwyr Corfforaethol a'r Penaethiaid Adran. Mae'r Cyngor yn gorff cyflogi atebol ar gyfer Asiantaeth Cefnffyrdd Gogledd a Chanolbarth Cymru hefyd, ac o ganlyniad mae swyddi prif swyddogion y cyrff hynny yn cael eu hystyried fel rhai sy'n disgyn o fewn gofynion y polisi hwn.

Mae'r Cyngor yn cyflogi ei brif weithredwr o dan amodau a thelerau'r Cyd-Gyngor Cenedlaethol ar gyfer Prif Weithredwyr Llywodraeth Leol, tra cyflogir y gweddill o'i brif swyddogion o dan amodau a thelerau'r Cyd-Gyngor Cenedlaethol ar gyfer Prif Swyddogion Llywodraeth Leol. Mae'r telerau hyn wedi eu hymgorffori yn y cytundebau gwaith perthnasol. Mae'r ddau Gyd-Gyngor Cenedlaethol yn negodi codiad cyflog blynyddol cenedlaethol ar sail costau byw. Mae gan y Prif Weithredwr a'r Prif Swyddogion eraill a gyflogir o dan amodau a thelerau'r Cyd-Gyngor Cenedlaethol perthnasol yr hawl cytundebol i unrhyw godiad cyflog cenedlaethol a ddyfernir gan y corff hwnnw, a bydd y Cyngor felly yn talu'r rhain yn unol â gofynion cytundebol.

## 3. CYFLOGAU

Mabwysiadwyd y polisi sy'n ymwneud â chyflogau'r Cyfarwyddwyr Corfforaethol a'r Penaethiaid Adran am y tro cyntaf yng nghyfarfod y Cyngor llawn ym mis Hydref 2009 ac yna ym Mehefin 2012, fel rhan o'r adolygiad blynyddol o'r Polisi Tâl yn ei gyfanrwydd. Cynhaliwyd adolygiad rhannol pellach o'r polisi ym Mawrth 2015 er mwyn adlewyrchu newidiadau strwythurol o fewn y Cyngor. Bryd hynny, roedd cyflogau prif swyddogion yn seiliedig ar adroddiad annibynnol gan gwmni *Korn Ferry* (*Hay Group* yn flaenorol) ac ar eu cynllun arfarnu swyddi hwy.

Ym mis Chwefror 2021, cynhaliwyd adolygiad o gyflogau prif swyddogion y Cyngor, gyda'r adolygiad hwnnw wedi ei seilio ar gymharu cyflogau â swyddi cyfatebol yn y farchnad swyddi ranbarthol er mwyn i unrhyw asesiad adlewyrchu y sefyllfa sydd yn wir berthnasol i ogledd a chanolbarth Cymru. Adolygwyd y sefyllfa ymhellach ym mis Hydref 2022.

Mae tâl ar gyfer y Prif Weithredwr wedi ei osod yn unol â'r raddfa £123,945 - £133,306.

Nid yw'r Cyngor yn talu unrhyw daliadau bonws neu dâl sy'n seiliedig ar berfformiad i'w Brif Swyddogion. Mae amodau a thelerau gwaith lleol y Cyngor yn berthnasol i'w Brif Swyddogion, yn yr un modd ag ar gyfer gweddill y staff, oni nodir yn wahanol yn y polisïau unigol.

Mae cyflogau Prif Swyddogion y Cyngor ar gael ar wefan y Cyngor (Gweler Atodiad 1).

Mae Llywodraeth Cymru wedi ffurfio Panel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol. Mae gan y Panel hwn yr awdurdod i roi barn ac argymhelliad i gynghorau wrth iddynt ystyried addasu telerau cyflogi swyddi Prif Weithredwyr. Mewn sefyllfa pan fo'r Cyngor yn bwriadu newid lefel cyflog y Prif Weithredwr, a phan nad yw'r newid hwnnw yn cyd-fynd hefo newid i gyflogau swyddi gweddill cyflogeion y Cyngor, mae gofyn ymgynghori â'r Panel ynglŷn â'r newid arfaethedig cyn cymryd y penderfyniad terfynol.

## 4. SWYDDI O DAN LEFEL PRIF SWYDDOG

Mae polisi tâl y Cyngor ar gyfer gweddill ei staff yn seiliedig ar bolisi tâl cyfartal y Cyngor a'i gytundeb torfol â'r undebau llafur cydnabyddedig, ddaeth yn weithredol ar y 1af o Ebrill 2008. Mae strwythurau tâl y Cyngor yn destun archwiliadau tâl cyfartal.

Mae'r Cyngor wedi mabwysiadu meini prawf Cynllun Arfarnu Swyddi GLPC fel sail i osod graddfa cyflog ar gyfer pob swydd sydd o dan Amodau Gwaith Gweithwyr Llywodraeth Leol. Mae'r Cyngor wedi ymrwymo i dalu cyflogau yn unol â deddfwriaeth cyflog cyfartal a'r cytundeb "statws sengl" rhwng cyflogwyr llywodraeth leol a'r undebau llafur cydnabyddedig a luniwyd yn 1997.

Nid yw'r Cyngor yn talu unrhyw daliadau bonws neu dâl sy'n seiliedig ar berfformiad i'w weithwyr.

Mae'r berthynas rhwng tâl ei Brif Swyddogion a'i weithwyr eraill wedi ei ddylunio i alluogi'r Cyngor i recriwtio a chadw'r gweithwyr addas gorau yn ei swyddi amrywiol, tra'n cynnal y pwyntiau gwahaniaethol a arfarnwyd yn yr arfarniad swyddi.

Mae Adolygiad Hutton o Gyflog Teg yn y Sector Gyhoeddus yn argymell cymhareb o ddim mwy na 1:20 rhwng y cyflog uchaf a'r cyflog isaf (llawn-amser). Mae'r gymhareb hon ar hyn o bryd yn **1 : 5.4 (pump pwynt pedwar)**

Mae'r gymhareb yma yn seiliedig ar raddfa'r gwahaniaeth rhwng y cyflog uchaf yn y sefydliad (sef graddfa'r Prif Weithredwr, yn achos Cyngor Gwynedd) a'r cyflog isaf yn y sefydliad ar gyfer swydd llawn-amser (sef pwynt cyflog SCP2 ar y raddfa cyflog GPTaCh). Ar hyn o bryd mae'r naill 5.4 gwaith yn uwch na'r llall; dyma yw sail y gymhareb sef 1 : 5.4.

## 5. TÂL CYCHWYNNOL

Mae'r nifer o hicynnau sydd o fewn pob graddfa yn adlewyrchu'r cyfnod posib o ddatblygiad mewn swydd allai fod yn berthnasol i'r unigolion sydd ar y raddfa honno. Bydd aelodau staff yn cael eu penodi i'r pwynt cyflog o fewn y raddfa sydd yn adlewyrchu'r amser fydd ei angen er mwyn datblygu fel eu bod yn gallu ymgymryd â dyletswyddau a chyfrifoldebau'r swydd yn llawn.

Yn arferol, penodir pob gweithiwr i'r pwynt cyflog isaf o fewn y raddfa gyflog briodol. Os yw gweithiwr eisoes yn derbyn tâl uwchben y pwynt cyflog isaf neu os oes tystiolaeth ddigonol i arddangos bod y gweithiwr eisoes yn llawn gymwys i gyflawni nifer o agweddau o'r swydd, gall rheolwr, mewn ymgynghoriad â'r Pennaeth Gwasanaethau Corfforaethol neu ddirprwy, benodi ar bwynt cyflog uwch o fewn y raddfa gyflog briodol.

Os oes lle o fewn graddfa'r swydd, bydd pob aelod staff yn gymwys i dderbyn hicyn cyflog blynyddol ar y cyntaf o Ebrill, ar yr amod eu bod wedi'u penodi i'w swydd bresennol am fwy na chwe mis cyn y dyddiad hwnnw.

## 6. COSTAU AIL-LEOLI

Mewn sefyllfa pan ei bod yn angenrheidiol i weithiwr ail-leoli er mwyn ymgymryd â swydd, gall y Cyngor, o dan amgylchiadau arbennig, gyfrannu tuag at ad-daliad costau ail-leoli. Mae'r cynllun yn berthnasol i weithwyr a benodir o ganlyniad i hysbyseb neu'n dilyn ad-drefnu mewnol lle bydd rhaid iddynt symud tŷ.
Rhaid i gartref presennol y gweithiwr fod ymhellach na 20 milltir o'r ganolfan weinyddol cyn y gellir ystyried cais i ad-dalu costau.

O dan yr amgylchiadau hyn, telir cost symud dodrefn ac eiddo yn llawn, yn ddarostyngedig i dderbyn yr isaf o dri dyfynbris ynghyd â chost lawn storio dodrefn hyd at dri mis. Gellir gwneud cyfraniad hyd at £3,270 ar gyfer costau cyfreithiol, ffioedd arwerthwr tai, costau carpedi a llenni a mân gostau symud eraill yn amodol ar ddangos derbynebau perthnasol.

## 7. YCHWANEGIAD Y FARCHNAD

Mae graddfa cyflog pob swydd o dan lefel pennaeth adran wedi ei seilio ar gynllun arfarnu swyddi'r Cyngor. Golyga hyn fod y system o dalu aelodau staff wedi ei seilio ar gydraddoldeb yn unol â'r diffiniad yn Neddf Cyflog Cyfartal 1970 ac yn sicrhau cysondeb o ran penderfyniadau sydd yn ymwneud â thâl. O ganlyniad fe allai unrhyw wyro o'r system hon greu risg sydd angen ei reoleiddio'n gadarn. Mae'n rhaid bod rhesymau pendant a chlir os am gyfiawnhau unrhyw wyro o'r trefniant hwn.

Fodd bynnag, fe allai sefyllfa godi pan fo pwysau'r farchnad yn creu problemau recriwtio a/neu gadw staff yng nghyswllt swydd benodol. Gall y Cyngor mewn rhai achosion eithriadol, ac er mwyn denu a/neu gadw unigolyn i swydd benodol, gynnig taliad ychwanegol i'r raddfa gyflog a fabwysiadwyd gan y Cyngor.

Yn y cyswllt hwn dim ond pan fydd tystiolaeth ddogfennol ddigonol o fethiant i recriwtio a/neu gadw aelod staff y bydd ychwanegiad y farchnad yn cael ei ddefnyddio. Nid yw ychwanegiad y farchnad yn ychwanegiad parhaol i gyflog swydd. Os yw'r amgylchiadau sydd yn berthnasol i'r ychwanegiad yn newid, neu os yw aelod staff yn cael ei drosglwyddo gan y Cyngor i swydd arall nad yw'n denu ychwanegiad y farchnad, yna bydd hawl yr unigolyn hwnnw/honno i'r taliad yn peidio, a bydd yr atodiad yn cael ei atal yn unol â'r rhybudd priodol.

Mae'r Cyngor, yn ei gyfarfod ar y 9fed o Hydref, 2014, wedi cymeradwyo caniatáu darpariaeth ychwanegiad y farchnad o hyd at £3,000 ar gyfer Prif Swyddogion pan fo hynny wedi'i gyfiawnhau gan achos busnes. Nid oes nenfwd wedi'i osod yng nghyswllt lefel ychwanegiad y farchnad ar gyfer swyddi eraill.

## 8. CYDNABYDDIAETH ARIANNOL (YMGYMRYD Â CHYFRIFOLDEBAU YCHWANEGOL)

Gellir caniatáu taliad ychwanegol pan fo aelod staff yn cytuno i gais i ymgymryd â chyfran o ddyletswyddau a chyfrifoldebau sydd y tu hwnt i ddyletswyddau a chyfrifoldebau arferol ei swydd ar sail dros dro. Mae'n rhaid i'r gyfran o ddyletswyddau a chyfrifoldebau uwch fod yn sylweddol, yn cael eu harfarnu ar lefel cyflog uwch a thros gyfnod estynedig cyn y gellir cynnig cydnabyddiaeth ariannol ychwanegol dros-dro.

## 9. TALIADAU AR-DDYLETSWYDD, AR ALWAD A GALW ALLAN

Mae'r Cyngor yn ymrwymedig i ddarparu gwasanaethau yn unol ag anghenion pobl Gwynedd. Golyga hyn y bydd adegau pan fo gofyn i aelodau staff ymgymryd â dyletswyddau oddi allan i'r patrwm gwaith arferol ac ar adegau anghymdeithasol. Mae'r Cyngor yn cwrdd â'r anghenion ar gyfer y gwasanaethau hyn trwy:

- sicrhau fod staff cymwys ar gael i gymryd galwadau a phenderfynu ar weithredu priodol
- sicrhau fod gweithlu cymwys ar gael i fod ar alwad ac yn barod i gael eu galw allan ar fyr rybudd er mwyn ymateb i waith mewn argyfwng

- cydnabod y staff uchod trwy daliadau addas mewn cydnabyddiaeth o'r anghyfleustra a'r ymyrraeth mae gwaith o'r fath yn ei greu.

Diffinnir **ar ddyletswydd** fel cyfnod o amser pan fo swyddog ar ddyletswydd oddi allan i'r oriau gwaith arferol ar gyfer cyfnod penodol o amser, a'u bod **ar gael** i ymateb i alwadau gan drigolion, gwasanaethau brys a.y.b.
Diffinnir **ar alwad** fel cyfnod penodol o amser mae swyddog **ar gael** i'w alw allan y tu allan i'r oriau gwaith arferol.

Mewn rhai achosion bydd bod ar alwad neu ar ddyletswydd yn ffurfio rhan o gyflog sylfaenol swyddogion. Mewn achos o'r fath bydd y cytundeb cyflogaeth yn nodi hynny'n glir. Ni fydd gan y swyddogion hynny yr hawl i daliad ychwanegol pan ar alwad/ar ddyletswydd. Bydd swyddogion eraill yn derbyn tâl ar ffurf taliad ychwanegol a fydd yn adlewyrchu lefel yr anghyfleustra ar gyfer bod ar gael i ymateb i alwad tu hwnt i oriau gwaith arferol. Bydd y swyddogion hynny yn derbyn lleiafswm o ddwy awr ar y cyflog priodol pob tro maent yn cael eu galw allan (gan gynnwys amser teithio).

Mae taliadau ar alwad/ar ddyletswydd yn cael eu diweddaru'n flynyddol i adlewyrchu'r cynnydd cyflog blynyddol yn unol â'r hyn a gytunir gan y Cyd-gyngor Cenedlaethol ar gyfer Gwasanaethau Llywodraeth Leol.

**10. FFIOEDD PROFFESIYNOL**

Ad-delir un ffi'r flwyddyn i Swyddogion ar gyfer aelodaeth o gorff cydnabyddedig sy’n berthnasol i’w swyddogaeth broffesiynol a phan fo’r aelodaeth hwnnw yn ofyniad gan y Cyngor.

**11. DEFNYDDWYR CAR**

Dynodir pob gweithiwr fel defnyddiwr car achlysurol a thelir ad-daliadau am deithiau busnes ar sail graddfeydd Swyddfa Cyllid y Wlad.

**12. TREULIAU CYNHALIAETH**

Telir ad-daliadau cynhaliaeth, ar gyflwyniad derbynneb, os yw aelod staff yn teithio tu allan i'r Sir ar gyfer brecwast, cinio, te a swper, a hynny hyd at yr uchafswm ar gyfer lwfansau cynhaliaeth. Ar gyfer y staff hynny sydd â'u gwaith yn golygu eu bod yn teithio ar draws mwy nag un Sir e.e. Gwynedd a Môn, diffinnir "y tu allan i'r Sir" fel y tu allan i'r ardal waith arferol.

**13. GWEITHIO ORIAU YCHWANEGOL**

Telir gweithwyr, a gyflogir ar bwynt 22 neu is, ar sail unwaith a hanner o’r cyflog sylfaenol yr awr pan yn gweithio mwy na 37 awr mewn wythnos (trefniadau amgen ar gyfer gweithwyr gyda phatrymau gwaith pan fo’r oriau a weithir ar sail pythefnos/misol neu flynyddol). Caniateir tâl sylfaenol neu amser yn ei le i staff a gyflogir ar bwynt uwch na 22 pan eu bod yn gweithio mwy na 37 awr, neu os yw Pennaeth Adran wedi cymeradwyo’r gwaith ychwanegol ymlaen llaw yna gellir awdurdodi tâl ar sail amser a hanner.

**14. GWEITHIO ORIAU ANGHYMDEITHASOL**

Telir cyflog ar y raddfa sylfaenol am waith, oddi fewn i’r 37 awr, a gyflawnir ar y penwythnos. Telir tâl chwyddedig o dâl sylfaenol a thraean rhan o’r cyflog am waith a gyflawnir rhwng 10 y nos a 6 y bore i weithwyr sy’n gweithio yn ystod yr oriau hynny.

Telir cyflog yn unol â’r cytundeb cenedlaethol ar gyfer gwaith a gyflawnir ar wyliau banc a gwyliau statudol ychwanegol.

**15. LWFANS CYMORTH CYNTAF**

Telir lwfans blynyddol i weithwyr sydd yn gweithredu fel Cymorthyddion Cyntaf dynodedig.

**16. DYLETSWYDDAU ETHOLIADAU LLEOL**

Mae ffioedd y Cyngor ar gyfer taliadau i'r Swyddog Canlyniadau a'r Dirprwy Swyddog Canlyniadau am ddyletswyddau etholiadau lleol wedi'u cynnwys yn Atodiad 2.

**17. DISWYDDO AC YMDDEOL**

Mae cynlluniau diswyddo ac ymddeol y Cyngor yn cael eu gweithredu'n gyfartal a theg i bob aelod staff, waeth beth fo'u graddfa cyflog, eu hoedran neu eu rhyw ac fe'i gweithredir yn unol â rheoliadau'r cynlluniau pensiwn perthnasol. Nid oes unrhyw eithriadau i Brif Swyddogion. Mae'r polisïau perthnasol ar gael ar wefan y Cyngor.

**18. CYNLLUN COLLED ARIANNOL**

Diffinnir colled ariannol fel colled o ganlyniad i newid mewn graddfa cyflog ac amodau a thelerau cytundebol. Mae'r Cyngor yn darparu cymorth ariannol i staff sy'n wynebu sefyllfa o golled ariannol (yn sgil ail-strwythuro neu ail-ddyrannu cyfrifoldebau) am gyfnod o ddwy flynedd oddi ar ddyddiad gweithredol y newid i'w pecyn cyflogaeth, gyda 100% o warchodaeth yn y flwyddyn gyntaf a 50% yn yr ail. Bydd y cymorth ariannol hwnnw yn dod i ben ar ôl dwy flynedd oni bo'r aelod staff unigol yn y cyfamser wedi'i benodi i swydd arall ple nad yw o/hi yn wynebu'r golled ariannol.

**19. AIL-GYFLOGI**

Bydd y Cyngor yn ystyried pob ymgeisydd yn ôl ei r(h)inweddau ei hun a bydd yn penodi gyda'r bwriad o gyflawni'r effeithlonrwydd gorau ar gyfer y gwasanaeth a'r gwerth gorau ar gyfer ei drethdalwyr. Byddai'r fath benodiad, os byddai'n cael ei wneud, yn destun unrhyw leihad a nodir yn y Rheoliadau Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol.

Yn unol â deddfwriaeth trethiant, rhaid i reolwyr sicrhau ym mhob achos fod unrhyw drefniant i dalu unigolyn am waith trwy 'gytundeb o wasanaeth' wedi bod yn destun prawf statws cyflogaeth fel sy'n ymddangos ar wefan CThEM, a chynhelir y prawf yma yn hollol wrthrychol.

**20. PENODI PRIF SWYDDOG NEWYDD (CYFLOG O £100,000 A THROSODD)**

Bydd y Cyngor llawn yn cymeradwyo unrhyw newid i becyn cyflog swydd o'r fath cyn yr eir ati i recriwtio. Byddai angen cyfeirio'r mater at Banel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol hefyd, yn unol â rhan 3 o'r polisi hwn.

Hysbysebir yn allanol ar gyfer llenwi swydd o'r fath.

# Cyflogau Prif Swyddogion 2026/27

## Nid oes cytundeb cynnydd cyflog yn ei le ar gyfer 2026/27 eto.

| | | |
|---|---|---|
| 1 | Prif Weithredwr | £123,945 - £133,306 |
| 2 | Cyfarwyddwr Corfforaethol | £101,074 - £112,070 |
| 3 | Pennaeth Addysg | £94,709 - £104,999 |
| 4 | Pennaeth Cyllid | £86,115 - £95,446 |
| 5 | Pennaeth Economi a Chymuned, Gwasanaethau Corfforaethol, Oedolion, Iechyd a Llesiant, Plant a Chefnogi Teuluoedd, Priffyrdd, Peirianneg a YGC, Amgylchedd, Tai ac Eiddo | £84,480 - £93,163 |
| 6 | Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol / Swyddog Monitro | £76,575 – £84,005 |

Mae Cyngor Gwynedd yn gweithredu fel yr awdurdod lletya a chyflogwr ar gyfer y swydd ganlynol:

| | | |
|---|---|---|
| 7 | Pennaeth Asiantaeth Cefnffyrdd Gogledd a Chanolbarth Cymru | £84,480 - £93,163 |

**TREULIAU'R CYNLLUN TALIADAU ETHOLIADAU FEL A GYMERADWYWYD GAN GYNGOR GWYNEDD**

**Ffioedd ar gyfer cynnal yr etholiad yn gyffredinol a chwblhau'r holl ddyletswyddau ble bo angen i Swyddog Canlyniadau weithredu dan unrhyw orchymyn neu ymddeddfiad sy'n ymwneud ag ethol Cynghorwyr.**

| **Ffioedd Swyddog Canlyniadau a'r Dirprwy Swyddog Canlyniadau** | **Wedi eu herio** | **Heb eu Herio** |
|---|---|---|
| Swyddog Canlyniadau | 125.00 | |
| Am gynnal yr etholiad yn gyffredinol a chwblhau'r holl ddyletswyddau ble bo angen i Swyddog Canlyniadau weithredu dan unrhyw orchymyn neu ymddeddfiad sy'n ymwneud ag ethol Cynghorwyr | | |
| Ar gyfer pob Rhanbarth Etholiadol, Cyngor Cymuned / Tref, Ward Cyngor Cymuned / Tref | | 75.00 |
| Dirprwy Swyddog Canlyniadau | 85.00 | |
| Dyletswyddau penodol i gynnwys bod yn bresennol i dderbyn papurau pleidleisio, eu harchwilio a beirniadu a ydynt yn ddilys; ymdrin gydag ymgeiswyr; hysbysu ymgeiswyr am benderfyniadau gydag enwebiadau; cyhoeddi datganiadau am bobl a enwebwyd, a bod yn bresennol i dderbyn unrhyw achos o dynnu yn ôl a rheoli'r cyfrif | | |
| Ar gyfer pob Rhanbarth Etholiadol, Cyngor Cymuned / Tref, Ward Cyngor Cymuned / Tref. | | |
| Isetholiadau | | |

| | | |
|---|---|---|
| Mewn unrhyw isetholiad lle y cyflogir Dirprwy Swyddog Canlyniadau i reoli'r cyfrif:<br><br>Ar gyfer pob Rhanbarth Etholiadol, Cyngor Cymuned / Tref, Ward Cyngor Cymuned / Tref. | 34.00 | |

| | |
|---|---|
| CYFARFOD: | **Y CYNGOR LLAWN** |
| DYDDIAD: | **5 MAWRTH 2026** |
| TEITL: | **PARTNERIAETH PENSIWN CYMRU (PPC) – DIWEDDARU'R CYTUNDEB RHYNG-AWDURDOD (IAA)** |
| SWYDDOG CYSWLLT: | **DEWI MORGAN, PENNAETH CYLLID** |
| AELOD: | **CYNGHORYDD ELIN HYWEL, CADEIRYDD PWYLLGOR PENSIYNAU** |

---

**Penderfyniad a Geisir**

**Gofynnir i'r Cyngor:**

**Dderbyn y diwygiadau i'r Gytundeb Rhyng-Awdurdod (IAA) ar gyfer Partneriaeth Pensiwn Cymru.**

**Awdurdodi y Pennaeth Cyfreithiol mewn ymgynghoriad a'r Pennaeth Cyllid i gymryd y camau angenrheidiol i gwblhau y cytundeb**

---

## 1. Cyflwyniad

1.1 Y Cytundeb Rhyng-Awdurdod (IAA) yw'r fframwaith cyfreithiol a llywodraethu ffurfiol sy'n rhwymo wyth awdurdod gweinyddu Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol Cymru (CPLlL) i Bartneriaeth Pensiwn Cymru (PPC). Nid yw hwn yn gytundeb newydd ond mae wedi'i adolygu a'i ddiwygio yng ngoleuni'r Cytundeb Cyfranddalwyr (SHA) a Chytundeb Gwasanaethau Cleientiaid (CSA) sydd newydd eu llunio er mwyn sicrhau ei fod yn parhau i fod yn briodol ac yn addas i'w ddiben.

1.2 Bydd trefniadau a fforymau presennol PPC, gan gynnwys y Cyd-bwyllgor Llywodraethu (JGC) a'r Gweithgor Swyddogion (OWG) yn parhau i a) chwarae rôl ganolog o ran hyrwyddo llywodraethu effeithiol ar draws awdurdodau gweinyddu Cymru, a b) yn cynnwys yr un cynrychiolwyr ag y maent heddiw.

1.3 O ystyried gofynion yr ymgynghoriad *Addas ar gyfer y Dyfodol* a'r newid sydd ar fin digwydd yn y gyfraith, gan gynnwys Rheoliadau Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol (Cyfuno, Rheoli a Buddsoddi Cronfeydd) 2026 sydd ar y gweill, mae angen diweddaru'r IAA presennol i adlewyrchu'r strwythur pŵlio cyfreithiol newydd.

Yn gryno, byddai'r strwythur newydd yn golygu fod:

I. Cwmni Rheoli Buddsoddi Partneriaeth Pensiwn Cymru (WPP IM Co) yn gyfrifol am reoli asedau'r gronfa a bydd yn gyfrifol am benodi unrhyw ddarparwyr trydydd parti i gyflawni'r rheolaeth honno a gweithredu strategaethau buddsoddi ar gyfer awdurdodau gweinyddu.

II. Mae llywodraethu gan gyfranddalwyr WPP IM Co yn cael ei lywodraethu gan y Cytundeb Cyfranddalwyr (SHA).

III. Mae'r Cytundeb Gwasanaethau Cleientiaid (CSA) yn darparu'r gwasanaethau cleientiaid rhwng IM Co a phob awdurdod gweinyddu unigol; a

IV. Bydd yr IAA presennol yn cael ei addasu fel bod cylch gwaith y Cyd-bwyllgor Llywodraethu yn canolbwyntio ar lywodraethu cleientiaid a materion cleientiaid cyffredin, tra'n dogfennu'r cyswllt rhwng y Cyd-bwyllgor Llywodraethu ac awdurdodau gweinyddu ar faterion cyfranddalwyr trwy fforwm y Bwrdd Cyfranddalwyr.

1.4 Mae cymeradwyaeth ffurfiol yr IAA yn fater neilltuedig i'r Cyngor Llawn ac mae'r Pwyllgor Pensiynau, yn ei gyfarfod 26 Chwefror, wedi penderfynu argymell y newidiadau hyn i'r Cyngor llawn.

Mae ystyriaeth a chymeradwyaeth yr SHA a'r CSA wedi'i ddirprwyo i'r Pwyllgor Pensiynau gan y Cyngor Llawn ar 3 Gorffennaf 2025. Cafodd rhain eu cymeradwyo gan y Pwyllgor Pensiynau yn ei gyfarfod 26 Chwefror 2026.

1.5 Mae ymgynghorydd goruchwylio a llywodraethu PPC, Hymans Robertson, wedi paratoi nodyn sicrwydd i'r holl awdurdodau gweinyddu yn dilyn eu mewnbwn a'u goruchwyliaeth o'r ymarferiad ailddrafftio hwn. Mae'r nodyn sicrwydd yn crynhoi'r newidiadau a'r diwygiadau allweddol arfaethedig fel rhan o'r argymhelliad yma. Mae copi o'r nodyn hwn ar gael yn Atodiad 1 yr adroddiad.

1.6 Mae Atodiad 2 i'r adroddiad hwn yn nodyn a baratowyd gan Burges Salmon, cynghorydd cyfreithiol PPC, sy'n cynnwys crynodeb o'r holl ddiwygiadau arfaethedig i'r IAA presennol. Yna atodir fersiwn lân o'r IAA diwygiedig arfaethedig o fewn Atodiad 3.

## 2. Cefndir a Chyd-destun

2.1 Wedi'i sefydlu gyntaf yn 2017, yr IAA yw'r fframwaith cyfreithiol a llywodraethu ffurfiol sy'n rhwymo'r wyth awdurdod gweinyddol Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol Cymru (CPLl) at ei gilydd i Bartneriaeth Pensiwn Cymru. Mae pob awdurdod gweinyddu sylfaenol yn cael ei gynrychioli ar y Cyd-bwyllgor Llywodraethu PPC (JGC) sy'n gwneud penderfyniadau gan ei Gadeiryddion Pwyllgorau Cronfeydd Pensiwn priodol, gyda chefnogaeth a chynghori gan Gweithgor Swyddogion (OWG) sy'n cynnwys Swyddogion Adran 151 (S151) ac Ymarferwyr Cronfeydd Pensiwn.

2.2 Cymeradwywyd y strwythur presennol gan yr Adran Cymunedau a Llywodraeth Leol (bellach y Weinyddiaeth Tai, Cymunedau a Llywodraeth Leol ("MHCLG")) mewn llythyr dyddiedig 23 Tachwedd 2016. Ers ei sefydlu, bu mân welliannau i'r IAA sydd wedi gofyn am gymeradwyaeth ffurfiol gan y Pwyllgor Pensiynau.

2.3 Yn ymarferol, ar lefel uchel mae'r IAA presennol:

- Yn ymrwymiad cyfreithiol gan yr wyth gronfa CPLlL yng Nghymru i gydweithio
- Sefydlu sut mae cyfuno buddsoddiadau yn gweithredu yng Nghymru
- Yn nodi strwythur Llywodraethu PPC, gan gynnwys:
  - I. Y Cyd-bwyllgor Llywodraethu (JGC)
  - II. Y Gweithgor Swyddogion (OWG)
- Diffinio rolau, trefniadau pleidleisio, gwneud penderfyniadau a chyfrifoldebau adrodd.

2.4 O ystyried yr ymgynghoriad Addas i'r Dyfodol, mae PPC wedi gorfod esblygu yn sylweddol i sicrhau y gall gydymffurfio â gofynion Llywodraeth y DU a deddfwriaeth yn y dyfodol mewn perthynas â chyfuno asedau, buddsoddiad lleol a llywodraethu. Er mwyn sicrhau cydymffurfiaeth, sefydlwyd ac ymgorfforwyd y cwmni rheoli buddsoddiadau "WPP IM Co" ym mis Awst 2025, ac mae ei drefniadau llywodraethu allweddol wedi'u dogfennu yn y Cytundeb Cyfranddalwyr a'r Cytundeb Gwasanaethau Cleientiaid.

2.5 Mae wedi bod yn angenrheidiol cynnal adolygiad cynhwysfawr o'r IAA i sicrhau ei fod yn parhau i fod yn briodol ac yn cyd-fynd â'r newidiadau a gyflwynwyd gan yr SHA a'r CSA, ac mae'r adolygiad hwn wedi'i arwain gan Burges Salmon sy'n gweithredu ar ran yr holl awdurdodau gweinyddol. O ganlyniad i gyflwyno'r ddwy ddogfen lywodraethu newydd, a'r newidiadau a osodwyd gan Lywodraeth y DU fel rhan o'r ymgynghoriad *Addas ar gyfer y Dyfodol*, mae rhai o'r cyfrifoldebau a manylwyd yn flaenorol yn yr IAA bellach yn bodoli mewn mannau eraill yn un o'r cytundebau newydd.

## 3. Crynodeb o'r newidiadau allweddol

3.1 Mae cyfres o ddiwygiadau wedi'u gwneud i'r IAA, fel y crynhoir yn Atodiad 1 a 2, gyda'r newidiadau mwyaf perthnasol gan gynnwys:

- Diweddariadau i adlewyrchu'r fframwaith cyfreithiol diwygiedig, gan ddileu terminoleg sydd wedi dyddio nad yw'n berthnasol mwyach
- Cylch Gorchwyl wedi'i ddiweddaru ar gyfer yr OWG a'r JGC, a'r manylion priodol sy'n gysylltiedig â phob corff
- Amserlenni wedi'u diweddaru i adlewyrchu dileu swyddogaethau sy'n gysylltiedig â Gweithredwyr, cwmpas llywodraethu cleientiaid newydd, materion a gedwir wedi'u cadw diwygiedig, cylch gwaith OWG diwygiedig, trefniadau cyfarfodydd, a chyfrifoldebau polisi wedi'u diweddaru
- Eglurder ar rôl yr Awdurdod Lletyol yn y dyfodol
- Cymeradwyo Cynllun Busnes PPC (gan gynnwys y gyllideb a ddisgrifir yn y Cynllun Busnes)
- Pwynt adolygu i sicrhau bod yr IAA yn parhau i fod yn addas i'r diben (amserlen arfaethedig o 12-18 mis ar ôl cytundeb ar gyfer adolygiad manwl)
- Sawl diweddariad ffeithiol a mân ddiwygiadau yn dilyn yr adolygiad ehangach.

3.2 Gellir dod o hyd i grynodeb manwl o'r holl ddiwygiadau a wnaed i'r IAA yn y nodyn wedi'i baratoi gan Burges Salmon, ymgynghorydd cyfreithiol PPC, o fewn Atodiad 2. Gellir dod o hyd i fersiwn lân o'r IAA diwygiedig yn Atodiad 3.

## 4. Argymhelliad

4.1 Gofynnir i'r Cyngor gymeradwyo'r Cytundeb Rhyng- Awdurod diwygiedig fel a amlinellir yn Atodiad 3.

**Barn y Swyddogion Statudol**

**Swyddog Monitro:**
Mae’r cytundeb a’r argymhellion yma wedi bod yn destun arweiniad cyfreithiol arbenigol. Gan fod y cytundeb yn addasu Cylch Gorchwyl y Cyd Bwyllgor fel mater o gyfraith mae hwn yn benderfyniad Cyngor Llawn yn unol ac Adrannau 101 a 102 o Deddf Llywodraeth Leol 1972. Rwy’n fodlon gyda priodoldeb yr argymhelliad

**Pennaeth Cyllid:**
Gallaf gadarnhau fod yr addasiadau a argymhellir i’r Gytundeb Rhyng-Awdurdod wedi bod yn destun gwaith manwl, gan gynnwys mewnbwn gan gyfreithwyr allanol, arbenigwyr pensiynau, swyddogion monitro a swyddogion cyllid statudol. Mae

cynnwys yr adroddiad yn addas a phriodol ac yn gwarchod buddiannau Cyngor Gwynedd ac aelodau Cronfa Bensiwn Gwynedd.

**ATODIADAU**

Atodiad 1 – Cyfuno Buddsoddiadau WPP: Trosolwg o Lywodraethu (Nodyn Sicrwydd Hymans Robertson)

Atodiad 2 – Crynodeb o'r newidiadau IAA gan Burges Salmon

Atodiad 3 – IAA Diwygiedig

# Cronni Buddsoddi PPC: Trosolwg o Lywodraethu

## Pwrpas y papur hwn

Mae'r papur hwn wedi'i gyfeirio at yr Awdurdodau Cyfansoddol sy'n cymryd rhan ym Mhartneriaeth Pensiynau Cymru (PPC). Gofynnwyd i ni roi trosolwg o newidiadau i drefniadau llywodraethu pwlio buddsoddiadau PPC, gan gynnwys newidiadau i'r Cytundeb Rhyng-Awdurdod (IAA) y mae'n rhaid eu cymeradwyo gan bob Awdurdod Cyfansoddol.

Y trefniadau llywodraethu a ystyrir yn y trosolwg hwn yn bennaf yw'r trefniadau llywodraethu ar gyfer Awdurdodau Cyfansoddol fel cyfranddalwyr a chleientiaid y Cwmni Rheoli Buddsoddi PPC newydd (IM Co). Nid yw llywodraethu mewnol IM Co wedi’i gynnwys yn y trosolwg hwn.


## Cyflwyniad

Ar hyn o bryd mae PPC yn sefydlu Cwmni Rheoli Buddsoddi (IM Co) a reoleiddir gan FCA i fodloni gofynion newidiadau "Addas ar gyfer y Dyfodol" y llywodraeth i Gronfa Buddsoddi CPLIL. Yn unol â'r gofynion hyn, bydd yr IM Co yn:

- gweithredu pob agwedd ar strategaethau buddsoddi'r Awdurdodau Cyfansoddol (y rhai yn y trefniadau pwlio cyfredol PPC a'r holl asedau "etifeddiaeth" nad ydynt eto mewn cerbydau cyfunol PPC)
- darparu cyngor buddsoddi i'r Awdurdodau Cyfansoddol gan gynnwys dyrannu asedau strategol
- cael rheolaeth unig o wneud penderfyniadau buddsoddi a gweithredu strategaeth fuddsoddi
- contract gyda darparwyr gwasanaethau e.e. Waystone sy'n darparu gwasanaethau gweithredwyr cronfeydd ar gyfer Cynllun Cytundebol Awdurdodedig PPC (ACS)
- fod yn eiddo llwyr i'r Awdurdodau Cyfansoddol PPC.

## Trosolwg o Strwythur Llywodraethu PPC Newydd

Mae'r diagram isod yn dangos strwythur llywodraethu PPC o 1 Ebrill 2026.




Mae'r Bwrdd Cyfranddalwyr ar ochr y cyfranddalwyr / cleient (Fforwm Cyfranddalwyr) yn newydd. Mae'n bodoli i ystyried hawliau'r Awdurdodau Cyfansoddol **fel perchnogion** y IM Co (e.e. penodi a dileu uwch Gyd-gyfarwyddwyr IM, cymeradwyo cyllideb IM Co, cymeradwyo polisi taliadau, ac ati). Bydd ei aelodau (S151s, uwch

swyddogion CPLlL neu eu cynrychiolwyr enwebedig) yn gwneud penderfyniadau'n unigol ar ran eu hawdurdod Cyfansoddol eu hunain (yn ei rhinwedd fel awdurdod gweinyddu eu Cronfa CPLlL) fel Cyfranddalwr. Gall aelodau'r Fforwm Cyfranddalwyr ystyried barn gyfunol y JGC ond nid ydynt yn rhwym gan farn y JGC.

O dan y trefniadau presennol, mae'r OWG yn cynrychioli barn yr Awdurdodau Cyfansoddol **fel cleientiaid** darparwyr gwasanaeth PPC gan gynnwys Waystone (gweithredwr ACS), Rheolwyr Buddsoddi (Russell, GCM, Schroders, ac ati) a chynghorwyr. Mae rôl yr OWG yn y dyfodol yn debyg, gan gynrychioli safbwyntiau cyfunol Awdurdodau Cyfansoddol **fel cleientiaid** yr IM Co. Bydd yn craffu ac yn goruchwylio perfformiad yr IM Co wrth ddarparu gwasanaethau i'r Awdurdodau Cyfansoddol a bydd yn fforwm ar gyfer trafod anghenion cleientiaid gyda'r IM Co, gan gynnwys gweithredu polisi Buddsoddi Cyfrifol.

Ar hyn o bryd mae'r JGC yn ystyried materion fel penodi gweithredwr ACS a darparwyr gwasanaeth eraill, cyllideb PPC a pholisi Buddsoddi Cyfrifol, gan wneud argymhellion i'w cymeradwyo gan eu pwyllgorau pensiynau priodol.

Yn y dyfodol, bydd yr IM Co yn gyfrifol am benodi gweithredwr ACS a darparwyr gwasanaeth eraill fel Rheolwyr Buddsoddi. Bydd y JGC yn parhau i ystyried penodi ei gynghorwyr ei hun (gan gynnwys cynghorwyr cyfreithiol a goruchwylio) a pholisïau cyffredin ar gyfer yr Awdurdodau Cyfansoddol fel cleientiaid (yn bwysig, polisi Buddsoddi Cyfrifol).

Cyfrifoldeb newydd ychwanegol y JGC fydd darparu barn ar "faterion neilltuol" cyfranddalwyr (penodiadau uwch IM Co, polisi tâl IM Co, cyllideb IM Co) i'r Bwrdd Cyfranddalwyr (Fforwm Cyfranddalwyr) fel y gall cynrychiolwyr y Fforwm Cyfranddalwyr roi sylw i farn gyfunol yr Awdurdodau Cyfansoddol. Fodd bynnag, mae'n bwysig dweud eto nad yw safbwyntiau'r JGC ar "faterion a gedwir wedi'u cadw" yn rhwymol ar unrhyw Awdurdodau Cyfansoddol a bydd aelodau'r Fforwm Cyfranddalwyr yn gwneud penderfyniadau ar ran eu Awdurdodau Cyfansoddol eu hunain.

Dangosir amlinelliad o Rolau a Chyfrifoldebau mewn pwlio buddsoddiadau PPC o 1 Ebrill 2026 isod. Nid yw hwn yn ddatganiad cynhwysfawr o rolau a chyfrifoldebau ond bwriad yw rhoi syniad o'r rolau priodol o:

- Bwrdd IM Co (newydd);
- y Bwrdd / Fforwm Cyfranddalwyr (newydd);
- y Cyd-bwyllgor Llywodraethu (JGC); ac
- Gweithgor Swyddogion (OWG).

| Bwrdd IM Co | OWG (Grŵp Cleient) | JGC<br><br>(Goruchwyliaeth Cleient / Cyfranddalwyr) | Fforwm Cyfranddalwyr (Goruchwylio'r Cyfranddalwyr) |
|---|---|---|---|
| Llywodraethu'r IM Co | Goruchwyliaeth ar y cyd o IM Co fel cleientiaid. Darparu mewnbwn technegol/sialens/ goruchwylio<br><br>Cylch gorchwyl yr OWG a nodir yn yr IAA | Mae'r JGC yn fforwm politicaidd/ cyhoeddus sydd yn goruchwylio darparu gwasanaeth cleientiaid ac yn ffurfio barn ar y cyd ar faterion cyfranddalwyr<br><br>Materion JGC fel a nodir yn yr IAA | Goruchwylio IM Co fel cyfranddalwyr y<br><br>Corff swyddogol sydd yn ymwneud a 'materion a gadwyd'<br><br>Cylch gorchwyl y Fforwm Cyfranddalwyr fel a nodir yn yr IAA |
| Cyfrifoldebau yn cynnwys:<br><br>1) Strategaeth IM Co<br><br>2) Cynllun Busnes IM Co<br><br>3) Cydymffurfiaeth reoleiddiol<br><br>4) Rheoli risg<br><br>5) Gweithrediadau<br><br>6) Darparu gwasanaeth i gleientiaid<br><br>7) Penodiadau uwch*<br><br>*Cynigion i gyfranddalwyr ar faterion neilltuedig sy'n gofyn am gymeradwyaeth cyfranddalwyr, gan gynnwys:<br><br>Cyllideb Blynyddol<br>Apwyntio Prif Swyddog/ Cadeirydd<br>Polisi Tal | **Fel cleientiaid....**<br><br>1) Cwrdd a cynrychiolwyr IM Co i drafod darparu gwasanaeth, rheoli risg, perfformiad, cyllideb, adnoddau, datblygu polisïau a dyhead yn unol â dyletswydd ymddiriedolwyr<br><br>2) I sicrhau bod y gwasanaeth yn cael ei ddarparu yn unol a disgwyliadau'r awdurdodau cyfansoddol. Uwch gyfeirio pryderon cleientiaid i IM Co.<br><br>3) Uwch gyfeirio unrhyw faterion materol i'r Bwrdd Cyfranddalwyr neu JGC am y cefnogaeth yn unol â hynny<br><br>4) Adrodd i'r JGC ar berfformiad IM Co (buddsoddiadau, cost ayyb) a gweithredu polisïau cyffredin<br><br>5) Gwneud argymhelliad i'r JGC ar bolisïau cyffredin | **Fel cleientiaid....**<br><br>1) Ystyried polisïau cyffredin yr Awdurdodau Cyfansoddol e.e. Buddsoddi Cyfrifol a Lleol<br><br>2) Rhannu adborth cleient gyda cynrychiolwyr yr IM Co a cynyddu pwysigrwydd materion cleient y cyfranddalwyr fel yn briodol<br><br>**Fel cyfranddalwyr....**<br><br>1) Gwneud argymhellion i Bwrdd y Cyfranddalwyr mewn perthynas i faterion cyfranddalwyr<br><br>2) Sicrhau bod materion cyfranddalwyr yn cael ei ymdrin â yn gyson gyda disgwyliadau'r Awdurdodau Cyfansoddol ac o fewn pwerau dirprwyedig | **Fel cyfranddalwyr....**<br><br>Ymarfer hawliau cyfranddalwyr gan gynnwys:<br><br>1) Cytuno strategaeth IM Co<br><br>2) Ymgynghori gyda'r JGC/ Awdurdodau Cyfansoddol cyn gwneud penderfyniad ar rhan yr awdurdodau<br><br>3) Cymeradwyo'r 'materion a gadwyd' yn ffurfiol fel a ddiffinnir yn yr SHA, yn cynnwys:<br><br>-Cynllun Busnes IM Co/ cyllideb<br><br>-Apwyntio'r Cadeirydd a Prif Swyddog Gweithredol<br><br>- Diddymu unrhyw gyfarwyddwr yr IM Co<br><br>- polisi tal uwch |
| Cadeirydd Annibynnol, gweithredwr IM Co, Cyfarwyddwyr allanol (cynrychiolwyr cyfranddalwyr a arbenigwyr diwydiant) | Swyddogion | Aelodau Etholedig (Cadeiryddion o'r Pwyllgorau Pensiwn I01) Cynrychiolydd aelodau | S151, Uwch Swyddog CPLIL neu eu cynrychiolydd enwebedig |

### Rôl a chyfrifoldebau Pwyllgorau Pensiwn Awdurdodau Cyfansoddol S101 unigol o dan pwlio buddsoddiadau

Mewn perthynas â buddsoddiadau cronfa, mae cyfrifoldebau'r Awdurdodau Cyfansoddol unigol yn cynnwys penderfynu ar y Dyraniad Asedau Strategol a goddefgarwch risg ar gyfer eu Cronfa (ar ôl derbyn prif gyngor gan yr IM Co). Bydd yr Awdurdodau Cyfansoddol hefyd yn penderfynu dyraniad eu Cronfa i fuddsoddiad lleol.

Bydd Awdurdodau Cyfansoddol unigol hefyd yn gwneud penderfyniadau ar "faterion neilltuedig" o dan y Cytundeb Cyfranddalwyr. Maent yn arfer yr hawliau hyn trwy eu cynrychiolydd eu hunain ar y Fforwm Cyfranddalwyr.

Mae gan Awdurdodau Cyfansoddol unigol rôl wrth gytuno ar bolisïau cyffredin (gan gynnwys Buddsoddi Cyfrifol) trwy eu Cadeirydd Pwyllgor Pensiynau S101 fel aelod o'r JGC; goruchwyliaeth ar y cyd o ddarparu gwasanaeth IM Co trwy eu cynrychiolwyr swyddogion ar OWG; a chyfrannu at ffurfio safbwyntiau ar y cyd ar faterion eraill trwy eu Cadeirydd ar y JGC.

Mae cyfrifoldebau eraill sy'n parhau i fod gyda Phwyllgorau Pensiwn Awdurdodau Cyfansoddol S101 yn cynnwys paratoi Datganiad Strategaeth Fuddsoddi (ISS), Datganiad Strategaeth Ariannu (FSS), gosod cyfraddau cyfraniadau cyflogwyr, gweinyddu aelodau a gofynion llywodraethu'r Gronfa o dan Reoleiddio a chanllawiau.

### Elfennau llywodraethu sydd heb eu newid


Bydd rhai agweddau ar lywodraethu pwlio buddsoddiadau PPC cyfredol yn esblygu ond yn aros i raddau helaeth fel y maent, gan gynnwys:

- Gweithgor Swyddogion (OWG)
- Y Cyd-bwyllgor Llywodraethu (JGC)
- Cytundeb Rhyng-Awdurdod (IAA), er bod angen newidiadau i adlewyrchu'r trefniadau cyfuno buddsoddi ar ôl Ebrill 2026 ac ychwanegu Fforwm Cyfranddalwyr.

### Newidiadau i lywodraethu pwlio buddsoddiadau PPC

Mae'r newidiadau sy'n ofynnol i lywodraethu bwlio buddsoddiadau PPC gan gynnwys:

- Creu Cytundeb Cyfranddalwyr (SHA), rhwng y IM Co a Chyfranddalwyr (yr wyth Awdurdod Cyfansoddol)
- Creu Fforwm Cyfranddalwyr, sy'n cynnwys swyddogion Awdurdodau Cyfansoddol sy'n cymeradwyo'n ffurfiol "materion neilltuol" cyfranddalwyr
- Diwygio'r Cytundeb Rhyng-Awdurdod (IAA)
- Creu Cytundeb Gwasanaethau Cleientiaid (CSA) – bydd gan bob Awdurdod Cyfansoddol CSA gyda'r IM Co


IM Co
Cytundeb Cyfranddalwyr (SHA)
NEWYDD
Cytundeb Gwasanaeth Clientiaid (CSA)
NEWYDD
Cronfeydd PPC/ Awdurdodau Cyfansoddol
Ar y Cyd
Cytundeb Rhyng Awdurdod (IAA)
WEDI'I DDIWYGIO
Cronfeydd PPC/ Awdurdodau Cyfansoddol
Unigol

## Cytundeb Rhyng-Awdurdod (IAA)

Mae wedi bod yn angenrheidiol diwygio'r IAA i:

- dileu cyfrifoldebau nad ydynt bellach yn berthnasol (e.e. cyfrifoldebau mewn perthynas â materion sy'n symud i'r IM Co megis penodi Waystone fel "gweithredwr" yr ACS a darparwyr gwasanaeth eraill);
- ychwanegu cyfrifoldebau newydd (megis ystyriaeth ar y cyd o ddarparu gwasanaethau IM Co a materion a gadwyd gan gyfranddalwyr ac unrhyw argymhellion i'r Fforwm Cyfranddalwyr newydd);
- gosod Cylch Gorchwyl diwygiedig ar gyfer JGC ac OWG ac ychwanegu Cylch Gorchwyl ar gyfer y Fforwm Cyfranddalwyr newydd.

Mae rôl a chyfrifoldebau'r JGC yn cwmpasu agweddau sy'n gysylltiedig â chleientiaid a chyfranddalwyr ar drefniadau pwlio buddsoddiadau PPC. Mae rhai cyfrifoldebau'r JGC yn parhau i fod yn ddigyfnewid, gan gynnwys ystyried polisïau cyffredin (Buddsoddiad Cyfrifol, ac ati) a phenodi cynghorwyr i'r JGC.

Mae'r materion a gwmpesir gan yr IAA diwygiedig yn cynnwys:

- aelodaeth a chylch gwaith y JGC (gan gynnwys materion nad ydynt o fewn ei gylch gwaith megis strategaeth fuddsoddi ar gyfer Awdurdodau Cyfansoddol a gwneud penderfyniadau ffurfiol mewn perthynas â materion a gadwyd gan gyfranddalwyr, er bod yn rhaid ymgynghori ag ef ar yr olaf)
- cynllun busnes a chyllideb ar gyfer cyllideb lywodraethu PPC ("ochr cleient", nid cyllideb IM Co)
- trefniadau awdurdod cynnal (bydd Cyngor Sir Caerfyrddin yn parhau i hwyluso llywodraethu ochr y cleient)
- cytundeb i rannu costau
- dirprwyaethau i'r JGC (gweler "Materion JGC")
- ychwanegu Awdurdodau Cyfansoddol newydd neu ymadael â Awdurdodau Cyfansoddol presennol
- Ceisiadau Rhyddid Gwybodaeth (cydnabyddiaeth bod rhain yn berthnasol i'r JGC a phrotocolau ar gyfer ystyried y materion yma)

Mae'r amserlenni'n cynnwys:

- Atodlen 1. Rhestr Gyswllt (bydd yn cynnwys y Rhestr Gyswllt gyfredol ar ddyddiad yr IAA)
- Atodlen 2. Materion a gedwir ar gyfer Awdurdodau Cyfansoddol (penodi neu ddisodli IM Co, cymeradwyo gwariant dros 30% o'r Gyllideb Flynyddol PPC y cytunwyd arno, strategaeth fuddsoddi ar gyfer Cronfa CPLlL ei hun, diwygio a therfynu'r IAA, enwebu cynrychiolydd JGC)
- Atodlen 3. Materion JGC (argymhellion i IM Co ar faterion cleientiaid cyffredin, argymhellion i Gadeirydd y Fforwm Cyfranddalwyr ar faterion a gadwyd gan gyfranddalwyr, cytuno ar bolisïau cyffredin a restrir yn Atodlen 5, penodi cynghorwyr i'r JGC, dirprwyo tasgau i'r OWG, cysylltu â Byrddau Pensiwn, cymeradwyo Cynllun Busnes a Chyllideb Flynyddol PPC – nid Cynllun Busnes a Chyllideb IM Co)
- Atodlen 4 JGC - Cylch Gorchwyl (manylion)

- Atodlen 5 Polisïau (bydd polisïau cyffredin yn cael eu cytuno gan JGC ac yn cynnwys polisïau y bydd yr IM Co yn eu gweithredu ar ran yr Awdurdodau Cyfansoddol fel cleientiaid e.e. Buddsoddi Cyfrifol, Hinsawdd, Pleidleisio, ac ati)
- Atodlen 6 Gweithdrefn JGC (trefniadau a phrotocolau cyfarfodydd)
- Atodlen 8 Cylch gwaith OWG (diwygiedig i adlewyrchu trefniadau pwlio newydd gydag IM Co)
- Atodlen 9 Fforwm Cyfranddalwyr - Cylch Gorchwyl (gan gynnwys aelodaeth, ymrwymiadau i ddefnyddio ymdrechion rhesymol i ymgynghori â JGC ar faterion a gadwyd gan gyfranddalwyr)

Nid yw safbwyntiau cyfunol JGC ar faterion a gadwyd gan gyfranddalwyr yn rhwymol ar gynrychiolwyr Awdurdodau Cyfansoddol ar y Fforwm Cyfranddalwyr gan fod y cynrychiolwyr swyddogion ar y Fforwm Cyfranddalwyr yn gynrychiolwyr o'u Awdurdodau Cyfansoddol eu hunain a rhaid iddynt bleidleisio yn unol â safbwyntiau a dewisiadau eu Awdurdodau Cyfansoddol eu hunain ar faterion a gedwir cyfranddalwyr.

Fodd bynnag, mae'r Fforwm Cyfranddalwyr yn gwneud yn glir yr ymrwymiad bod yn rhaid i'r Fforwm Cyfranddalwyr ddefnyddio ymdrechion rhesymol i gynnal "ymgynghoriad ystyrlon" gyda'r JGC ar faterion a gadwyd ac i "roi sylw" i argymhellion y JGC.

## Crynodeb

Mae'r IAA wedi'i ddiwygio i:

- dileu cyfrifoldebau nad ydynt bellach yn berthnasol (e.e. cyfrifoldebau mewn perthynas â materion sy'n symud i'r IM Co megis penodi Waystone fel "gweithredwr" yr ACS a darparwyr gwasanaeth eraill);
- ychwanegu cyfrifoldebau newydd (megis ystyriaeth ar y cyd o ddarparu gwasanaeth IM Co ac ystyried materion a gadwyd gan gyfranddalwyr ac unrhyw argymhellion i'r Fforwm Cyfranddalwyr);
- gosod Cylch Gorchwyl diwygiedig ar gyfer JGC ac OWG ac ychwanegu Cylch Gorwyl ar gyfer y Fforwm Cyfranddalwyr newydd.

Nid yw safbwyntiau cyfunol JGC ar faterion a gadwyd gan gyfranddalwyr yn rhwymol ar gynrychiolwyr Awdurdodau Cyfansoddol ar y Fforwm Cyfranddalwyr gan fod y cynrychiolwyr swyddogion ar y Fforwm Cyfranddalwyr yn gynrychiolwyr o'u Awdurdod Cyfansoddol eu hunain a rhaid iddynt bleidleisio yn unol â safbwyntiau a dewisiadau eu Awdurdodau Cyfansoddol eu hunain ar faterion a gedwir cyfranddalwyr.

Bydd adolygiad o drefniadau llywodraethu newydd a'r dogfennau cyfreithiol cysylltiedig (IAA, SHA a CSA) yn cael ei gynnal ymhen 12-18 mis. Dylai hyn fod yn ddigon o amser i weld sut mae'r trefniadau'n gweithio yn ymarferol, unrhyw ddysgiadau ac a ddylid gwneud newidiadau. Mae gofyniad ar gyfer yr adolygiad hwn wedi'i ymgorffori yn fersiynau terfynol yr IAA, SHA a CSA.

John Wright, Partner

Ar ran ac ar ran Hymans Robertson LLP

16th Chwefror 2026

## Dibyniaeth a chyfyngiadau

Mae'r papur hwn wedi'i gyfeirio at yr wyth awdurdod gweinyddu CPLlL (yr Awdurdodau Cyfansoddol) sy'n cymryd rhan ym Mhartneriaeth Pensiynau Cymru (PPC) gan gynnwys Pwyllgorau Pensiwn S101 yr Awdurdodau Cyfansoddol, y Cyd-bwyllgor Llywodraethu (JGC), Swyddogion Monitro, Gweithgor Swyddogion (OWG) a'r Grŵp Llywio (SG).

Rydym wedi dibynnu ar y dogfennau canlynol a ddrafftiwyd gan Burges Salmon yn eu rhinwedd fel cynghorwyr cyfreithiol i bob Awdurdodau Cyfansoddol PPC (pob fersiwn diweddaraf ar 13 Chwefror 2026):

1) Cytundeb Rhyng-Awdurdod (IAA)
2) Cytundeb Gwasanaethau Cleientiaid (CSA)
3) Cytundeb Cyfranddalwyr (SHA)

Pwrpas ein hadroddiad yw rhoi trosolwg o newidiadau i drefniadau llywodraethu pwlio buddsoddiadau PPC. Ni ellir defnyddio ein hadroddiad at unrhyw ddiben arall.

Sylwch nad yw Hymans Robertson LLP yn gymwys i roi cyngor cyfreithiol. Mae Burges Salmon yn gweithredu ar gyfer pob Awdurdodau Cyfansoddol PPC wrth ddrafftio'r IAA, CSA a SHA (yn ogystal â IM Co hefyd yn achos y SHA).

Mae materion nad ydynt yn rhan o gwmpas y trosolwg hwn yn cynnwys:

- Trefniadau llywodraethu'r IM Co a Bwrdd IM Co.
- Paraodrwydd IM Co i ddarparu gwasanaethau o 31 Mawrth 2026. Bydd yr FCA yn asesu parodrwydd gweithredol cyn rhoi cymeradwyaeth i IM Co i ddarparu'r gwasanaethau a nodir yn y Cynllun Busnes Rheoleiddio.
- Barn ar ddrafftio cyfreithiol y gwahanol ddogfennau (SHA, CSA ac IAA)

Nid ydym yn derbyn unrhyw atebolrwydd pan fydd y papur yn cael ei ddefnyddio gan, neu ei ryddhau neu ei ddatgelu fel arall i, trydydd parti oni bai ein bod wedi derbyn atebolrwydd o'r fath yn ysgrifenedig. Lle caniateir hyn, dim ond mewn ffurf gyflawn sy'n datgelu ein cyngor a'r sail y rhoddir y papur y gellir ei ryddhau neu ei ddatgelu fel arall.

# Nodyn Crynhoi Diwygiedig y Cytundeb Rhwng-Awdurdodau

## 1 CEFNDIR

**1.1** Ymrwymwyd i'r cytundeb rhwng-awdurdodau presennol yn 2017, rhwng wyth awdurdod gweinyddu Cymru (yr "Awdurdodau Cyfansoddol" a'r "Cytundeb Presennol").

**1.2** Sefydlodd y Cytundeb Presennol gydbwyllgor rhwng yr Awdurdodau Cyfansoddol yn unol â Deddf Llywodraeth Leol 1972 (y "Cydbwyllgor Llywodraethu").

**1.3** Sefydlwyd y Cydbwyllgor Llywodraethu i gael trosolwg ac adrodd ar berfformiad y "Pŵl Buddsoddi" (mae "Pŵl Buddsoddi" wedi'i ddiffinio yn fras fel "*y buddsoddiadau wedi'u pŵlio (p'un a ydynt mewn cronfeydd unigol, is-gronfeydd niferus neu wedi'u cadw mewn strwythurau eraill y tu allan i gerbyd buddsoddi ar y cyd) a ddaw o asedau a ddelir gan yr Awdurdodau Cyfansoddol yn rhinwedd eu rôl fel awdurdodau gweinyddu o fewn y CPLlL er dibenion y Gyfundrefn Buddsoddi ar y Cyd...*").

**1.4** "Partneriaeth Pensiwn Cymru" yw'r enw a roddir i'r trefniadau pŵlio presennol rhwng yr Awdurdodau Cyfansoddol. Cymeradwywyd y strwythur presennol gan yr Adran Cymunedau a Llywodraeth Leol gynt (bellach Y Weinyddiaeth Tai, Cymunedau a Llywodraeth Leol ("**MHCLG**") mewn llythyr dyddiedig 23 Tachwedd 2016.

**1.5** Ar 14 Tachwedd 2024, lansiodd y Llywodraeth ei ymgynghoriadau ar gynigion i drawsffurfio'r Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol (CPLlL), dan y teitl Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol (Cymru a Lloegr): Fit for the future ("**Ymgynghoriad FFtF**"), gydag amcan o roi'r CPLlL ar daflwybr cliriach - "*clearer firmer trajectory to scale and consolidation*". Ymysg prif amcanion polisi Ymgynghoriad FFtF yng nghyd-destun pŵlio oedd:

(a) gofyniad ar Awdurdodau Cyfansoddol i ddirprwyo gweithrediad eu strategaethau buddsoddi i'w pŵl asedau;

(b) gofyniad i'r Awdurdodau Cyfansoddol gymryd eu prif gyngor ynghylch eu strategaethau buddsoddi gan eu pŵl;

(c) gofyniad ar y pŵl asedau i fod yn gwmnïau rheoli buddsoddiadau wedi'u hawdurdodi a'u rheoleiddio gan yr Awdurdod Ymddygiad Ariannol ("**FCA**") gyda'r arbenigedd a'r capasiti i weithredu strategaethau buddsoddi;

(d) gofyniad i'r Awdurdodau Cyfansoddol drosglwyddo'r holl fuddsoddiadau i reolaeth eu pŵl;

(e) gofyniad i bŵliau ddatblygu'r capasiti i gwblhau eu diwydrwydd dyladwy ar fuddsoddiadau lleol ac i reoli buddsoddiadau o'r fath.

**1.6** Ym mis Chwefror 2025, ac ymhellach i ofynion yr Ymgynghoriad FFfT, cyflwynodd yr Awdurdodau Cyfansoddol achos busnes i'r Llywodraeth i lunio achos i barhau â Phartneriaeth Pensiwn Cymru ar y strwythur diwygiedig a amlinellir yn yr Ymgynghoriad FFtF. Cymeradwywyd yr achos busnes hwn gan MHCLG ym mis Ebrill 2025.

**1.7** Mae gofynion polisi'r Ymgynghoriad FFtF wedi'u nodi yn y Bil Cynlluniau Pensiwn 2026 sydd wrthi'n mynd drwy'r broses seneddol. Yn ogystal, mae MHCLG wedi bod yn cynnal ymgynghoriad ar Reoliadau Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol (Pŵlio, Rheoli a Buddsoddi Cronfeydd) 2026 ("**Rheoliadau PMIF**").

**1.8** Fel y gwelir o baragraff 1.5(c) uchod, un o ofynion yr Ymgynghoriad FFtF (ac sy'n ymddangos yn y Rheoliadau PMIF) yw bod yn rhaid i'r Awdurdodau Cyfansoddol bŵlio eu holl asedau CPLlL drwy gwmni rheoli buddsoddiadau sy'n cael ei awdurdodi a'i reoleiddio gan yr FCA. Yn ogystal, mae'r cwmni rheoli buddsoddiadau yn gyfrifol am weithredu strategaeth fuddsoddi pob Awdurdod Cyfansoddol a rhaid iddo fod yn brif ffynhonnell cyngor buddsoddi i bob Awdurdod Cyfansoddol (gan ei fod yn ymwneud ag asedau CPLlL).

**1.9** I fod yn barod ar gyfer y gofynion yma, mae'r Awdurdodau Cyfansoddol wedi ymgorffori Cwmni Rheoli Buddsoddiadau Partneriaeth Pensiwn Cymru Cyfyngedig ("IMCo") fel y cwmni rheoli buddsoddiadau wedi'i awdurdodi gan yr FCA i gyflawni gofynion yr Awdurdodau Cyfansoddol yn unol â'r Bil Cynlluniau Pensiwn 2026 a Rheoliadau PMIF.

**1.10** Yr Awdurdodau Cyfansoddol yw wyth cyfranddalwyr yr IMCo a bydd materion llywodraethu cyfranddalwyr yn cael eu dogfennu a'u rheoli drwy delerau cytundeb cyfranddalwyr rhwng yr Awdurdodau Cyfansoddol a'r IMCo ("**Cytundeb Cyfranddalwyr**").

**1.11** Bydd pob Awdurdod Cyfansoddol hefyd yn ymrwymo i gytundeb gwasanaethau cleient ("CSA") gydag IMCo, fydd yn llywodraethu'r gwasanaethau cleient uniongyrchol sy'n cael eu darparu gan IMCo ar lefel cronfa unigol.

## 2 STRWYTHUR LYWODRAETHOL DDIWYGIEDIG

**2.1** O ystyried gofynion yr Ymgynghoriad FFtF a'r newid yn y gyfraith (i'w ganfod yn y Bil Cynlluniau Pensiwn 2026 a Rheoliadau PMIF), mae angen diweddaru anghenion y Cytundeb Presennol i adlewyrchu'r strwythur pŵlio cyfreithiol newydd. Yn gryno, dyma fydd swyddogaeth y strwythur newydd:

(a) mae IMCo yn gyfrifol am reoli asedau'r pŵl, a bydd yn gyfrifol am benodi unrhyw ddarparwyr trydydd parti i fynd ati i reoli a gweithredu'r strategaethau buddsoddi ar gyfer Awdurdodau Cyfansoddol;

(b) mae llywodraethiant cyfranddalwyr yr IMCo yn cael ei lywodraethu gan y Cytundeb Cyfranddalwyr;

(c) bod y CSA yn darparu ar gyfer y gwasanaethau cleient rhwng IMCo a phob Awdurdod Cyfansoddol unigol; ac

(d) (cynigir), y bydd telerau'r Cydbwyllgor Llywodraethu (ac felly'r Cytundeb Presennol) yn cael eu haddasu fel bod cylch gwaith y Cydbwyllgor Llywodraethu yn canolbwyntio ar lywodraethu cleientiaid a materion cleientiaid cyffredin (tra'n dogfennu'r cyswllt rhwng y Cydbwyllgor Llywodraethu a'r Awdurdodau Cyfansoddol ar faterion cyfranddalwyr drwy'r Fforwm Cyfranddalwyr (gweler isod)).

**2.2** Nid oes gofyn cyfreithiol cael cydbwyllgor llywodraethu o'r Awdurdodau Cyfansoddol, neu i lywodraethu cleientiaid gael ei reoli drwy'r Cydbwyllgor Llywodraethu. Fodd bynnag, rydym yn deall y farn bod budd i gynnal strwythur y Cydbwyllgor Llywodraethu fel wyneb cyhoeddus llywodraethu cleientiaid ac mae hwn yn strwythur gweithio sydd wedi sicrhau cynnydd llwyddiannus Partneriaeth Pensiwn Cymru hyd yma.

## 3 DIWYGIADAU ARFAETHEDIG I'R CYTUNDEB PRESENNOL

**3.1** Gyda'r nodyn crynodeb hwn, rydym wedi atodi "llinell goch" o'r Cytundeb Presennol sy'n dangos y diwygiadau arfaethedig iddo, gan ystyried y strwythur llywodraethu diwygiedig.

**3.2** Gellir crynhoi’r diwygiadau allweddol fel (mae'r cyfeiriadau at gymalau yn cyfeirio at yr hen rifau cymalau sy'n cael eu dangos yn y "llinell goch"):

(a) mae enw cywir Cyngor Gwynedd wedi'i ddiweddaru drwy'r ddogfen;

(b) datganiadau wedi cael eu diweddaru i gyfeirio at y newid mewn gofynion ar gyfer Partneriaeth Pensiwn Cymru a'r Ymgynghoriad FFtF;

(c) mae'r diffiniadau wedi cael eu diweddaru yn cyfeirio at y newid yn y fframwaith gyfreithiol (megis Rheoliadau PMIF (sy'n disodli'r rheoliadau buddsoddi presennol), diffinio IMCo a'r Cytundeb Cyfranddalwyr, a dileu diffiniadau na fydd yn berthnasol mwyach (megis "*Gweithredwr*" a'r "*Dyrannwr*”);

(d) mae cymal 3.2 wedi cael ei ychwanegu i adlewyrchu'r ffaith y bydd yr Awdurdodau Cyfansoddol yn adolygu telerau'r Cytundeb Rhwng-Awdurdodau ar ôl 12-18 mis ac fe all gynnig diwygiadau rhesymol

i'w hystyried gan yr Awdurdodau Cyfansoddol eraill (ac ymgysylltu mewn ymgynghoriad ystyrlon mewn perthynas ag unrhyw newidiadau arfaethedig);

(e) mae cymalau 4 a 5 wedi cael eu diweddaru i adlewyrchu'r newid yn natur y Cytundeb Presennol a ffocws newydd y Cydbwyllgor Llywodraethu i gael trosolwg ac adrodd ar y pŵl "*o safbwynt yr Awdurdodau Cyfansoddol fel cleientiaid yr IMCo*". Mae Cymal 4.1(b) wedi'i gyflwyno i egluro o ran y Cydbwyllgor Llywodraethu "*ni fydd yn gyfrifol am unrhyw faterion sydd i'w penderfynu dan y Cytundeb Cyfranddalwyr*", er mae ei gylch gorchwyl wedi'i ymestyn i gynnwys ymgynghoriad â'r Fforwm Cyfranddalwyr (gweler paragraff (s) isod) a darparu adborth ac argymhellion i'r Fforwm Cyfranddalwyr ar faterion cyfranddalwyr sy'n cael eu cyflwyno gerbron y Cydbwyllgor Llywodraethu. Yng nghymal 4.7, rydym yn cyfeirio at y gofynion gwybodaeth a dealltwriaeth cynyddol ar gyfer aelodau pwyllgorau pensiwn i'w cyflwyno gan Reoliadau Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol (Diwygiadau) 2026 (fydd felly'n berthnasol i'r aelodau etholedig hynny sy'n ffurfio'r Cydbwyllgor Llywodraethu);

(f) mae cymal 5 eto wedi cael ei ddiweddaru i adlewyrchu bod cylch gorchwyl y Gweithgor Swyddogion ("**GS**") yn cael ei addasu'n briodol i adlewyrchu natur ddiwygiedig y Cydbwyllgor Llywodraethu (y mae'r GS yn ei gefnogi);

(g) mae cymal 6.1(b) wedi cael ei ddiweddaru i adlewyrchu mai pwyllgor pensiynau pob Awdurdod Cyfansoddol fyddai fel arfer yn ymdrin â'r materion sydd wedi eu cadw ar gyfer yr Awdurdodau Cyfansoddol (yn amodol ar ofynion cyfansoddiadol yr Awdurdod Cyfansoddol hwnnw);

(h) mae cymal 7 wedi cael ei ddiweddaru i adlewyrchu mai'r cynllun busnes sydd i'w gymeradwyo gan y Cydbwyllgor Llywodraethu yw cynllun busnes gweithredu'r Cydbwyllgor Llywodraethu (gyda ffocws newydd ar lywodraethu cleientiaid), yn hytrach nag achos busnes ehangach yr IMCo (fydd yn cael ei gymeradwyo drwy delerau'r Cytundeb Cyfranddalwyr);

(i) mae cymal 8 wedi cael ei ddiwygio i adlewyrchu mai'r "Awdurdod Lletya" (Cyngor Sir Gâr ar hyn o bryd) fydd yr awdurdod lletya ar gyfer gweithrediad y Cydbwyllgor Llywodraethu, y GS a'r "Fforwm Cyfranddalwyr" (gweler isod). Y dyddiad a awgrymir y daw hyn yn weithredol yw 1 Ebrill 2026. Ni fydd yn gweithredu mewn swyddogaeth gefnogol i'r IMCo. Rydym yn cynnig geiriad sy'n cydnabod y gallai'r Awdurdod Lletya fod angen cysylltu â'r IMCo ar ran yr Awdurdodau Cyfansoddol mewn perthynas â materion cyffredin sy'n ymwneud â chleientiaid (mae'r cyfeiriad at gysylltu â'r Gweithredwr wedi'i dynnu gan mai'r IMCo fyddai angen ei reoli yn y dyfodol). Mae cymal 8.1(g) wedi cael ei ddiwygio i fod yn berthnasol i'r Cydbwyllgor Llywodraethu. Mae cymal 8.5 wedi cael ei ddiwygio (ar y cyd â chymalau 21 a 22) o ran lle mae Awdurdod Cyfansoddol yn rhoi'r gorau i fod yn gyfranddawlyr yn IMCo (dan delerau'r Cytundeb Cyfranddalwyr), bydd yn tynnu'n ôl yn awtomatig o'r Cydbwyllgor Llywodraethu (gellir symleiddio cymalau 8.5, 21 a 22 yn unol â hynny);

(j) mae cymal 8 wedi cael ei ddileu gan y bydd materion sy'n ymwneud â'r "Gweithredwr" yn syrthio ar yr IMCo, ac ni fydd yn parhau i fod yn gyfrifoldeb i'r Cydbwyllgor Llywodraethu;

(k) fel y nodwyd uchod, mae cymalau 21 (Gadael Gwirfoddol) a 22 (Gadael Gorfodol) (ynghyd â chymal 23) wedi cael eu haddasu i fod yn gysylltiedig ag Awdurdod Cyfansoddol yn rhoi'r gorau i fod yn gyfranddalwyr yn IMCo;

(l) byddai cymal 25 (Awdurdod Cyfansoddol Newydd) yn gysylltiedig â cyfranddalwyr newydd IMCo, yn unol â'r Cytundeb Cyfranddalwyr. Byddwn yn rhagweld y byddai unrhyw awdurdod cyfansoddol yn cael ei wahodd gan yr Awdurdodau Cyfansoddol (yn gweithredu yn ôl eu disgresiwn), i ymuno â'r Cydbwyllgor Llywodraethu (er y byddai angen i bob Awdurdod Cyfansoddol gydsynio i hyn);

(m) mae Atodlen 2 (Materion a Gedwir i'r Awdurdodau Cyfansoddol) yn cael ei haddasu i dynnu'r cyfeiriad at y "Gweithredwr". Rydym wedi addasu eitem 1 yn yr Atodlen honno i ddisodli'r cyfeiriad at "Gweithredwr" â chyfeiriad at IMCo. Mae'r cyfeiriadau at "Cynllun Busnes" yn gyfeiriad at gynllun busnes y Cydbwyllgor Llywodraethu (yn hytrach na IMCo). Rydym wedi dileu eitem 7 gan bod y caniatâd ar gyfer unrhyw feini prawf gwerthuso neu sgorio ar gyfer caffael darparwr neu ymgynghorydd bellach yn sefyll gyda'r Cydbwyllgor Llywodraethu yn unig. Rydym wedi cynnwys

cymeradwyaeth awdurdod gweinyddu newydd yn dod yn "Awdurdod Cyfansoddol" neu randdeiliaid yn IMCo (gan nodi bod y trothwyon pleidleisio yn cael eu darparu yn y Cytundeb Cyfranddalwyr) fel mater sy'n cael ei gadw i'r Awdurdodau Cyfansoddol;

(n) mae Atodlen 3 (Materion y Cydbwyllgor Llywodraethu) wedi cael ei haddasu i ddileu'r cyfeiriad at y Gweithredwr, i adlewyrchu rôl ddiwygiedig y Cydbwyllgor Llywodraethu i ganolbwyntio ar lywodraethu cleientiaid a thynnu'r cyfeiriad at gymeradwyo cerbydau a chronfeydd pŵlio newydd (gan y bydd hwn yn fater i'r IMCo yn unig yn unol â'r Rheoliadau PMIF). Mae Eitem 6 wedi cael ei diweddaru fel bod cymeradwyo'r Cynllun Busnes bellach yn eistedd gyda'r Cydbwyllgor Llywodraethu;

(o) mae Atodlen 4 (Cydbwyllgor Llywodraethu - Cylch Gorchwyl) wedi cael ei addasu eto i ddileu'r cyfeiriad at Weithredwr, i adlewyrchu rôl ddiwygiedig y Cydbwyllgor Llywodraethu a chanolbwyntio ar lywodraethu cleientiaid a dileu'r cyfeiriad at gymeradwyo cerbydau a chronfeydd pŵlio newydd (gan y bydd hyn yn fater i'r IMCo yn unig yn unol â'r Rheoliadau PMIF). Bydd adrodd ar berfformiad yn canolbwyntio yn lle hynny ar berfformiad yr IMCo (o safbwynt y cleient). Mae cyfeiriadau at benodi a gwaredu "Dyrannwr" hefyd wedi'i ddileu gan mai mater i'r IMCo fydd hwnnw. Mae paragraff 13 wedi dileu'r gofyniad i werthuso bidiau neu dendrau ar gyfer caffael unrhyw ymgynghorwyr i'r Cydbwyllgor Llywodraethu i'w anfon i'r Awdurdodau Cyfansoddol i'w cymeradwyo (yn unol â'r sylwadau ym mharagraff 3.2(m) uchod);

(p) mae Atodlen 5 (Polisïau a Gweithdrefnau) wedi cael eu cadw, heblaw am ddileu'r cyfeiriad at y "Polisi Ail-gydbwyso ac Addasu" fydd yn hytrach yn fater gweithredol i'r IMCo. Nodwn y bydd angen diweddaru'r polisïau a'r gweithdrefnau gwaelodol i adlewyrchu'r model llywodraethu newydd;

(q) mae Atodlen 6 (Gweithdrefnau'r Cydbwyllgor Llywodraethu) yn cael eu diwygio i adlewyrchu'r lleiafswm o gyfarfodydd fydd eu hangen ac yn cynnwys geiriad newydd yn ymwneud â phresenoldeb hybrid mewn cyfarfodydd;

(r) eto, mae Atodlen 8 (Cylch Gwaith y Gweithgor Swyddogion) wedi cael ei addasu i adlewyrchu cylch gwaith diwygiedig y Cydbwyllgor Llywodraethu (ac felly bydd angen diwygio cylch gwaith y GS yn unol â hynny); ac

(s) mae Atodlen 9 (Fforwm Cyfranddalwyr - Cylch Gorchwyl) newydd, wedi cael ei chyflwyno. Nid oes geiriad safonol ar gyfer y telerau yma ac felly mae'r geiriad wedi cael ei awgrymu sy'n gyson ag Atodlen 4 (Cydbwyllgor Llywodraethu - Cylch Gorchwyl). Fodd bynnag, cydnabyddir bod gwahanol ddibenion i'r rhain ac mae'r drafftio yn bwriadu adlewyrchu hyn. Mae Paragraff 1 yn darparu y bydd cynrychiolwyr yr Awdurdodau Cyfansoddol yn swyddogion a gyflogir gan yr Awdurdod Cyfansoddol perthnasol. Mae Paragraff 2 yn amlinellu mai diben y fforwm cyfranddalwyr yw fel y prif fforwm ar gyfer ymgynghori a gwneud penderfyniad mewn perthynas â materion a gedwir i gyfranddalwyr a materion llywodraethu perthnasol dan y Cytundeb Cyfranddalwyr. Mae rôl a swyddogaeth y fforwm cyfranddalwyr yn cael ei ddarparu ym Mharagraff 3 sy'n nodi'r materion y disgwylir i'r fforwm cyfranddalwyr ymdrin â nhw (Paragraff 3.1), pa wybodaeth y gallai'r fforwm cyfranddalwyr wneud cais amdani gan yr IMCo (Paragraffau 3.2 a 3.3), a rhyngweithiad y fforwm cyfranddalwyr gyda'r Cydbwyllgor Llywodraethu (Paragraff 3.4). Mae manylion gweithrediad y fforwm cyfranddalwyr, e.e. y cworwm, amlder cyfarfodydd, a'r gofynion pleidleisio, i gyd i'w trafod. Y rheswm pam nad yw cylch gorchwyl y fforwm cyfranddalwyr yn ffurfio rhan o'r Cytundeb Cyfranddalwyr yw oherwydd bod y cylch gorchwyl yn fater i'r Awdurdodau Cyfansoddol (fel cyfranddalwyr) ac nid IMCo. Y cytundeb rhwng-awdurdodau diwygiedig hwn yw'r ddogfen awgrymedig i nodi'r cylch gorchwyl yma (gan mai dim ond yr Awdurdodau Cyfansoddol sy'n barti iddo - ni fydd yr IMCo yn barti iddo).

**BURGES SALMON LLP**

**16 Chwefror 2026**

Dyddiedig 2026

# CYTUNDEB RHWNG AWDURDODAU

rhwng

| | |
|---|---|
| CYNGOR SIR GÂR | (1) |
| CYNGOR DINAS A SIR ABERTAWE | (2) |
| CYNGOR CAERDYDD | (3) |
| CYNGOR SIR Y FFLINT | (4) |
| CYNGOR GWYNEDD | (5) |
| CYNGOR SIR POWYS | (6) |
| CYNGOR BWRDEISTREF SIROL RHONDDA CYNON TAF | (7) |
| CHYNGOR BWRDEISTREFOL SIROL TORFAEN, | (8) |

WORK\78964001\v.11
Ref: MH09
Burges Salmon LLP
www.burges-salmon.com
**Tel: +44 (0)117 939 2248**
Fax: +44 (0)117 902 4400

Burges Salmon

**CYNNWYS**

**Cymal** **Pennawd** **Tudalen**

1 DEHONGLIAD2

2 CYCHWYN A THERFYNU'R MEMORANDWM O DDEALLTWRIAETH6

3 FFURFIO'R CYDBWYLLGOR LLYWODRAETHU6

4 GWEITHGOR SWYDDOGION8

5 GWNEUD PENDERFYNIADAU8

6 CYNLLUN BUSNES9

7 AWDURDOD LLETYA10

8 CONTRACT Y GWEITHREDWR**ERROR! BOOKMARK NOT DEFINED.**

9 ATEBOLRWYDD AC INDEMNIAD YR AWDURDOD LLETYA**ERROR! BOOKMARK NOT DEFINED.**

10 YMRWYMIAD YR AWDURDODAU CYFANSODDOL A CHYFRANIADAU12

11 CYFRIFON13

12 COSTAU RHEOLI BUDDSODDIADAU13

13 EIDDO DEALLUSOL13

14 ADRODDIADAU14

15 YSWIRIANT14

16 DYLETSWYDDAU A GRYM14

17 DIRPRWYO15

18 RHWYMEDIGAETHAU AR AWDURDODAU CYFANSODDOL15

19 INDEMNIAD16

20 POLISÏAU A GWEITHDREFNAU16

21 GADAEL GWIRFODDOL (VE)**ERROR! BOOKMARK NOT DEFINED.**

22 GADAEL GORFODOL (CE)17

23 DARPARIAETHAU PELLACH SY'N YMWNEUD AG AWDURDOD VE NEU AWDURDOD CE17

24 AWDURDOD CYFANSODDOL NEWYDD18

25 CYFRINACHEDD18

26 PENSIYNAU19

27 RHYDDID GWYBODAETH19

28 DIOGELU DATA21

29 DIDDYMU21

30 Y CYTUNDEB CYFLAWN21

31 RHYBUDDION22

32 CONTRACTAU (HAWLIAU TRYDYDD PARTI)22

33 DATGYSYLLTU22

34 NEWIDIADAU23

35 CYFRAITH LYWODRAETHU AC AWDURDODAETH23

36 DATRYS ANGHYDFOD MEWN FFORDD AMGEN23

37 GWRTHRANNAU24

Atodlen 1 - Rhestr Cysylltiadau**Error! Bookmark not defined.**

Atodlen 2 - Materion a Gedwir i'r Awdurdodau Cyfansoddol**Error! Bookmark not defined.**

Atodlen 3 - Materion y Cydbwyllgor Llywodraethu**Error! Bookmark not defined.**

Atodlen 4 - Cydbwyllgor Llywodraeth (CBLl) - Cylch Gorchwyl**Error! Bookmark not defined.**

Atodlen 5 - Polisïau a Gweithdrefnau**Error! Bookmark not defined.**

Atodlen 6 - Gweithdrefnau'r Cydbwyllgor Llywodraethu**Error! Bookmark not defined.**

Atodlen 7 - TUPE**Error! Bookmark not defined.**

Atodlen 8 - Cylch Gwaith y Gweithgor Swyddogion**Error! Bookmark not defined.**

GWNEIR **Y WEITHRED HON** ar 2026

GAN

(1) **CYNGOR SIR GÂR,** Neuadd y Sir, Caerfyrddin, Sir Gaerfyrddin, SA31 1JP ("**Cyngor Sir Gâr**")

(2) **CYNGOR DINAS A SIR ABERTAWE,** Neuadd y Ddinas, Abertawe, SA1 4PE ("**Cyngor Abertawe**")

(3) **CYNGOR CAERDYDD,** Neuadd y Sir, Glanfa'r Iwerydd, Caerdydd, CF10 4UW ("**Cyngor Caerdydd**")

(4) **CYNGOR SIR Y FFLINT,** Parc Dewi Sant, Ewlo, CH5 3FF ("**Cyngor Sir y Fflint**")

(5) **CYNGOR GWYNEDD,** Stryd y Jêl, Caernarfon, Gwynedd LL55 1SH ("**Cyngor Gwynedd**")

(6) **CYNGOR SIR POWYS,** Neuadd y Sir, Llandrindod, Powys, LD1 5LG ("**Cyngor Powys**")

(7) **CYNGOR BWRDEISTREF SIROL RHONDDA CYNON TAF,** Y Pafiliynau, Cwm Clydach, Tonypandy, CF40 2XX ("**Cyngor Rhondda**")

(8) **CHYNGOR BWRDEISTREFOL SIROL TORFAEN,** Y Ganolfan Ddinesig, Pont-y-pŵl, Torfaen, NP46YB ("**Cyngor Torfaen**")

(y cyfeirir atynt ar y cyd fel "**Awdurdodau Cyfansoddol**" ac yn unigol fel "**Awdurdod Cyfansoddol**")

**CEFNDIR**

(A) Mae'r Awdurdodau Cyfansoddol oll yn gynghorau sy'n gyfrifol am weinyddu llywodraeth leol o fewn eu hardaloedd fel y nodir yn Neddf Llywodraeth Leol 1972.

(B) Yn 2017, fe wnaeth yr Awdurdodau Cyfansoddol ymrwymo i ddatblygu cydbwyllgor ffurfiol yn unol ag adran 101 ac adran 102 Deddf Llywodraeth Leol 1972 i sicrhau gweithredu'r trefniadau'n effeithiol er mwyn pŵlio asedau o fewn y CPLlL dan fframwaith o drefn lywodraethol fewnol gref i gyflawni darbodion maint ac isadeiledd buddsoddi gwell.

(C) Fe wnaeth yr Adran Cymunedau a Llywodraeth Leol gynt (bellach Y Weinyddiaeth Tai, Cymunedau a Llywodraeth Leol ("MHCLG")), mewn llythyr dyddiedig 23 Tachwedd 2016, gadarnhau bod yr Awdurdodau Cyfansoddol wedi cael caniatâd i bob un o'r Awdurdodau Cyfansoddol unigol barhau i gydweithio gyda phob Awdurdod Cyfansoddol arall i ffurfio pŵl o asedau yng nghyswllt pob un o'u cronfeydd unigol dan y CPLlL.

(D) Ers [*dyddiad cychwyn gwreiddiol i'w fewnosod*], mae'r Awdurdodau Cyfansoddol wedi bwrw ymlaen â'r Gyfundrefn Buddsoddi ar y Cyd (fel y diffinnir isod) dan delerau'r Cytundeb hwn i oruchwylio ei drefn lywodraethu.

(E) Ar 14 Tachwedd 2024, lansiodd y Llywodraeth ei ymgynghoriadau ar gynigion i drawsffurfio'r CPLlL, dan y teitl Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol (Cymru a Lloegr): Fit for the future (“**Ymgynghoriad FFtF**"), gydag amcan o roi'r CPLlL ar daflwybr cliriach - *"on a clearer firmer trajectory to scale and consolidation*”. Ymysg prif amcanion polisi Ymgynghoriad FFtF yng nghyd-destun pŵlio oedd:

(i) gofyniad ar Awdurdodau Cyfansoddol i ddirprwyo gweithrediad eu strategaeth buddsoddi i'w pŵl asedau;

(ii) gofyniad i'r Awdurdodau Cyfansoddol gymryd eu prif gyngor ynghylch eu strategaeth buddsoddi gan eu pŵl asedau;

(iii) gofyniad ar y pŵl asedau i fod yn gwmnïau rheoli buddsoddiadau wedi'u hawdurdodi a'u rheoleiddio gan yr Awdurdod Ymddygiad Ariannol ("**FCA**") gyda'r arbenigedd a'r capasiti i weithredu strategaethau buddsoddi;

(iv) gofyniad i'r Awdurdodau Cyfansoddol drosglwyddo'r holl fuddsoddiadau i reolaeth eu pŵl asedau;

(v) gofyniad i bŵliau asedau ddatblygu'r gallu i gwblhau eu diwydrwydd dyladwy ar fuddsoddiadau lleol ac i reoli buddsoddiadau o'r fath.

(F) Ym mis Chwefror 2025, ac ymhellach i ofynion yr Ymgynghoriad FFfT, cyflwynodd yr Awdurdodau Cyfansoddol achos busnes i'r Llywodraeth i lunio achos i barhau â'r Gyfundrefn Buddsoddi ar y Cyd. Cymeradwywyd yr achos busnes hwn gan MHCLG ym mis Ebrill 2025.

(G) Mae gofynion polisi yr Ymgynghoriad FFtF [bellach wedi'u cyflwyno] i'r gyfraith drwy'r Ddeddf Cynlluniau Pensiwn [2026] ("**Deddf 2026**") a [Rheoliadau Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol (Pŵlio, Rheoli a Buddsoddi Cronfeydd) 2026] ("**Rheoliadau PMIF**”).

(H) Mae'r Awdurdodau Cyfansoddol wedi ymgorffori IMCo fel cwmni rheoli buddsoddiadau awdurdodedig yr FCA i gyflawni gofynion yr Awdurdodau Cyfansoddol yn unol â Deddf 2026 a Rheoliadau PMIF.

**TERMAU Y CYTUNWYD ARNYNT**

## 2 DEHONGLI

2.1 Mae’r diffiniadau a’r rheolau dehongli a ganlyn yn berthnasol yn y Cytundeb hwn.

"**Diwrnod Busnes**" sef unrhyw ddiwrnod heblaw dydd Sadwrn, dydd Sul neu wyliau cyhoeddus yn Lloegr pan fo'r banciau yn Llundain ar agor.

“**Cynllun Busnes**" sef yr ystyr a roir gan gymal 7. 7

"**Cyfraniad Llywodraethu Cleientiaid**" fel y diffinnir yng nghymal 10.1.10.1

"**Dyddiad Cychwyn**" yn golygu [ ] 2017

"**Awdurdodau Cyfansoddol**" sef y partïon i'r Cytundeb hwn, a'r holl awdurdodau gweinyddu eraill o fewn y CPLlL sydd yn bartïon i'r Cytundeb hwn, neu a fydd yn dod yn bartïon ryw bryd.

"**Rhestr Cysylltiadau**" sef dogfen a nodir yn Atodlen 1 ac a ddiweddérir o bryd i'w gilydd gan yr Awdurdod Lletya sy'n nodi'r manylion cyswllt perthnasol ar gyfer pob un o'r Awdurdodau Cyfansoddol.

"**Aelod Cyfetholedig**" sef person (nad yw'n aelod etholedig o Awdurdod Cyfansoddiadol ond sy'n Gynrychiolydd Aelod Pensiwn Awdurdod Cyfansoddiadol), a enwebir gan Awdurdod Cyfansoddiadol neu Fwrdd Pensiwn Awdurdod Cyfansoddiadol, ac a benodir yn Aelod Cyfetholedig o'r Cydbwyllgor Llywodraethu gan yr Aelodau.

"**Blwyddyn Ariannol**" sef, yn achos y Flwyddyn Ariannol gyntaf, y cyfnod o'r Dyddiad Cychwyn hyd at (ac yn cynnwys) y 31 Mawrth dilynol. Ar gyfer Blynyddoedd Ariannol dilynol, y cyfnod rhwng 1 Ebrill a 31 Mawrth (yn gynwysedig) ac ar gyfer y Flwyddyn Ariannol olaf, unrhyw gyfnod llai sy'n angenrheidiol.

"**Awdurdod Lletya**" sef yr Awdurdod Cyfansoddol sydd wedi'i benodi yn unol â chymal 8 ac y mae ei ddyletswyddau wedi'u disgrifio o fewn y cymal hwnnw.8

“**IMCo**" sef Cwmni Rheoli Buddsoddiadau Partneriaeth Pensiwn Cymru Cyfyngedig (rhif cwmni 16645479).

"**Pŵl Buddsoddi**" sef y buddsoddiadau wedi'u pŵlio a reolir gan IMCo (yn unol â'r Rheoliadau PMIF) a ddaw o asedau a ddelir gan yr Awdurdodau Cyfansoddol yn rhinwedd eu rôl fel awdurdodau gweinyddu o fewn y CPLlL er dibenion y Gyfundrefn Buddsoddi ar y Cyd a ddisgrifir gan y Cytundeb hwn.

"**Cydbwyllgor Llywodraethu**" sef y cydbwyllgor a ffurfir gan y Cytundeb hwn.

“**CPLlL**" sef y Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol a sefydlwyd yn unol â rheoliadau a wnaed gan yr Ysgrifennydd Gwladol wrth weithredu pwerau dan adran 7 ac adran 12 Deddf Blwydd-daliadau 1972 a darpariaethau PSPA 2013.

“**Rheoliadau CPLlL**" sef Rheoliadau Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol 2013 (SI 2013/2356).

"**Aelod**" sef pob un o'r aelodau etholedig o'r Awdurdodau Cyfansoddol a enwebwyd i fod yn Aelodau o'r Cydbwyllgor Llywodraethu yn unol â chymal 4.3(a).4.3(a)

"**Swyddog Monitro**" sef y person a glustnodir gan bob Awdurdod Cyfansoddol er dibenion adran 5 Deddf Llywodraeth Leol a Thai 1989.

"**GS**" sef y Gweithgor Swyddogion a ddisgrifir yng nghymal 5.5

"**Bwrdd Pensiwn**" sef bwrdd pensiwn lleol neu fwrdd pensiwn lleol ar y cyd o fewn yr ystyr a roddir i bob cymal drwy reoliad 106 Rheoliadau Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol 2013 ac adran 5 PSPA 2013.

"**Cynrychiolydd Aelod Pensiwn**" sef person a benodir i Fwrdd Pensiwn fel cynrychiolydd aelodau yn unol â rheoliad 107(2)(b) Rheoliadau Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol 2013.

“**Rheoliadau PMIF**" sef [Rheoliadau Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol (Pŵlio, Rheoli a Buddsoddi Cronfeydd) 2026] [(SI 2026/XXXX)]

"**Y Gyfundrefn Buddsoddi ar y Cyd** " sef y trefniadau pŵlio asedau dan y Pŵl Buddsoddi o fewn fframwaith o drefn lywodraethu fewnol gref i gyflawni darbodion maint a buddsoddi gwell mewn isadeiledd a weithredir gan yr Awdurdodau Cyfansoddol fel y disgrifir gan y Cytundeb hwn.

"**PSPA 2013**" sef Deddf Pensiynau'r Gwasanaeth Cyhoeddus 2013.

"**Swyddog A151**" sef y person a benodir gan bob Awdurdod Cyfansoddol er dibenion adran 151 Deddf Llywodraeth Leol 1972.

"**Ysgrifennydd Gwladol**" sef y Weinyddiaeth Tai, Cymunedau a Llywodraeth Leol neu unrhyw adran arall sydd â chyfrifoldeb am y CPLlL.

“**Uwch Swyddog CPLlL**" sydd â'r ystyr a roddir i'r ymadrodd hwnnw gan reoliad 53A o Reoliadau CPLlL.

“**Cytundeb Cyfranddalwyr**" sef y cytundeb rhwng yr Awdurdodau Cyfansoddol ac IMCo mewn perthynas â'r Awdurdodau Cyfansoddol yn gweithredu fel cyfranddalwyr yn IMCo.

“**Fforwm Cyfranddalwyr**" sef y fforwm a ddisgrifir yn Atodlen 9.

"**Cyflwyno**" yw'r achos busnes a gyflwynwyd i MHCLG fel y'i disgrifir yn Natganiad (F) mewn ymateb i'r Ymgynghoriad FFtF.

"**Cylch Gorchwyl**" sef y ddogfen fframwaith llywodraethu ynghylch swyddogaethau a gweithrediadau'r Cydbwyllgor Llywodraethu fel y nodir yn Atodlen 4.**Error! Reference source not found.**

"**TUPE**" sef Rheoliadau Trosglwyddo Ymgymeriadau (Diogelu Cyflogaeth) 2006.

**"Awdurdod sy'n tynnu'n ôl"** sef Awdurdod Cyfansoddol sydd wedi tynnu'n ôl o'r Cytundeb hwn yn unol â chymal 21.21

2.2 Ni fydd penawdau cymalau, atodlenni a pharagraffau yn effeithio ar y dehongliad o'r cytundeb hwn.

2.3 Mae person yn cynnwys person naturiol, corff corfforedig neu anghorfforedig (p'un a oes ganddynt bersonoliaeth gyfreithiol ar wahân neu ddim).

2.4 Mae'r atodlenni'n ffurfio rhan o'r cytundeb hwn a bydd ganddynt yr un effaith â phe baent wedi'u nodi'n llawn yng nghorff y cytundeb hwn. Mae unrhyw gyfeiriad at y cytundeb hwn yn cynnwys yr atodlenni.

2.5 Bydd cyfeiriad at gwmni yn cynnwys unrhyw gwmni, corfforaeth neu gorff corfforedig arall, ble bynnag y mae wedi'i ymgorffori neu ei sefydlu;

2.6 Oni bai bod y cyd-destun yn awgrymu'n wahanol, mae geiriau unigol yn cynnwys y lluosog, a'r lluosog yn cynnwys yr unigol.

2.7 Oni bai bod y cyd-destun yn awgrymu'n wahanol, bydd cyfeiriad at genedl enw o un math yn gyfeiriad at bob cenedl enw.

2.8 Mae cyfeiriad at statud neu ddarpariaeth statudol yn cyfeirio ato fel y mae wedi'i ddiwygio, ei ymestyn neu ei ailddeddfu o bryd i'w gilydd, ac yn cynnwys unrhyw is-ddeddfwriaeth a wneir o bryd i'w gilydd yn ei sgil.

2.9 Mae cyfeiriad at ysgrifennu neu ysgrifenedig yn cynnwys ffacs ac e-bost.

2.10 Mae dogfennau ar ffurf y cytunwyd arni yn ddogfennau yn y ffurf y cytunir arni gan y partïon ac y rhoddwyd llythrennau cyntaf eu henw arnynt neu ar eu rhan er mwyn gallu eu hadnabod.

2.11 Mae cyfeiriadau at gymalau ac atodlenni yn cyfeirio at gymalau ac atodlenni'r Cytundeb hwn; mae cyfeiriadau at baragraffau yn baragraffau yn yr atodlen berthnasol.

2.12 Bydd unrhyw eiriau sy'n dilyn y termau sy'n cynnwys, yn cynnwys, yn benodol neu er enghraifft, neu unrhyw ymadrodd o'r fath, yn cael ei ddehongli fel enghreifftiol ac ni fydd yn cyfyngu ar synnwyr y geiriau, y disgrifiad, y diffiniad, y frawddeg neu'r term sydd o flaen y termau hynny.

2.13 Mae unrhyw rwymedigaeth yn y cytundeb hwn ar berson i beidio â gwneud rhywbeth yn cynnwys ymrwymiad i beidio â chytuno neu ganiatáu gwneud y peth hwnnw.

2.14 Bydd unrhyw gyfeiriad at deitl swyddog neu unrhyw un o'r Awdurdodau Cyfansoddol yn cynnwys unrhyw berson sy'n dal y swydd honno o bryd i'w gilydd dan yr un teitl neu deitl gaiff

ei amnewid wedi hynny, neu unrhyw swyddog arall o'r Awdurdod Cyfansoddol perthnasol y bydd yr Awdurdod Cyfansoddol hwnnw o bryd i'w gilydd yn ei benodi i gyflawni dyletswyddau'r swyddog y cyfeiriwyd ato.

**3 CYCHWYN A THERFYNU'R CYTUNDEB**

3.1 Bydd y Cytundeb yn parhau ar ei delerau tan y cynharaf o'r canlynol:

(a) pan fo'r holl Awdurdodau Cyfansoddol yn cytuno'n ysgrifenedig i'w derfynu; neu

(b) nad oes ond un Awdurdod Cyfansoddol ar ôl nad yw wedi tynnu'n ôl o'r Cytundeb hwn yn unol â chymalau 21 neu 22.2122

3.2 Ar ôl pen-blwydd cyntaf dyddiad y Cytundeb hwn a dim hwyrach na 18 mis o ddyddiad y Cytundeb hwn, bydd yr Awdurdodau Cyfansoddol yn adolygu telerau'r Cytundeb hwn a gallant gynnig diwygiadau rhesymol i'r Cytundeb hwn i'w hystyried gan yr Awdurdodau Cyfansoddol eraill. Mae'r partïon yn cytuno i weithredu'n rhesymol a chymryd rhan mewn ymgynghoriad ystyrlon mewn perthynas ag unrhyw newidiadau a gynigir fel rhan o'r broses adolygu hon ar yr amod y bydd unrhyw ddiwygiad arfaethedig i'r Cytundeb hwn yn parhau i fod yn ddarostyngedig i ddarpariaethau cymal 35 (Diwygiadau).35

**4 CYDBWYLLGOR LLYWODRAETHU**

4.1 Ffurfiodd yr Awdurdodau Cyfansoddol y Cydbwyllgor Llywodraethu yn unol ag adran 101(5) a 102(1) o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972 at ddibenion goruchwylio ac adrodd i'r Awdurdodau Cyfansoddol ar berfformiad y Pŵl Buddsoddi ac, yn ychwanegol o [1 Ebrill 2026] ymlaen, o safbwynt yr Awdurdodau Cyfansoddol fel cleientiaid IMCo. Er mwyn osgoi amheuaeth:

(a) ni fydd y Cydbwyllgor Llywodraethu yn gyfrifol am ffurfio nac adolygu'r strategaeth fuddsoddi a ddisgrifir gan reoliad 10 Rheoliadau PMIF yng nghyswllt bob un neu unrhyw un o'r Awdurdodau Cyfansoddol; ac

(b) ni fydd y Cydbwyllgor Llywodraethu yn gyfrifol am unrhyw faterion sydd i'w penderfynu o dan y Cytundeb Cyfranddalwyr er y bydd yn gyfrifol am ddarparu adborth a gwneud argymhellion ar faterion a gyflwynir iddo gan y Fforwm Cyfranddalwyr (ymhellach i Atodlen 9).

4.2 Mae cyfarfodydd y Cydbwyllgor yn destun darpariaethau Deddf Llywodraeth Leol 1972, gan gynnwys y darpariaethau ar fynediad at wybodaeth, a chyfarfodydd a gynhelir yn gyhoeddus.

4.3 Bydd Aelodaeth y Cydbwyllgor Llywodraethu fel a ganlyn:

(a) un aelod etholedig a enwebir gan bob un o'r Awdurdodau Cyfansoddol a bwrw bod yr aelod a enwebir yn aelod etholedig o'r Awdurdod cyfansoddol ac yn aelod o

bwyllgor pensiynau'r Awdurdod Cyfansoddol hwnnw (neu gorff cyfatebol) er dibenion Rheoliadau Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol 2013; a

(b) un Aelod Cyfetholedig a benodir gan benderfyniad yr Aelodau (neu is-grŵp o Aelodau lle ffurfir is-grŵp o'r fath i ystyried yr ymgeiswyr), a bydd yr Aelod Cyfetholedig yn cael ei ddethol o'r grŵp o ymgeiswyr a enwebir gan bob un o'r Awdurdodau Cyfansoddol neu eu Byrddau Pensiwn.

4.4 At ddibenion cymal 4.3, gall pob Awdurdod Cyfansoddol benodi dirprwy a enwir ar gyfer pob Aelod, y bydd yn rhaid iddo fod yn aelod etholedig o'r un Awdurdod Cyfansoddol ac o bwyllgor pensiynau'r un Awdurdod Cyfansoddol (neu gorff cyfatebol) at ddibenion Rheoliadau Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol 2013 â'r aelod y mae'n dirprwyo ar ei ran. 4.3

4.4A Yn achos yr Aelod Cyfetholedig, penodir dirprwy gan benderfyniad yr Aelodau (neu is-grŵp o Aelodau lle ffurfir is-grŵp o'r fath i ystyried yr ymgeiswyr), a bydd dirprwy yr Aelod Cyfetholedig yn cael ei ddethol o'r grŵp o ymgeiswyr a enwebir gan bob un o'r Awdurdodau Cyfansoddol neu eu Byrddau Pensiwn.

4.5 Bydd y Cydbwyllgor Llywodraethu yn ymgymryd â'i rôl ac yn gweithredu yn unol â'r Cylch Gorchwyl a nodir yn Atodlen 4 ac yn ymgymryd â'r materion a nodir yn Atodlen 3 a bydd yn ceisio ac yn ystyried cyngor y Gweithgor ac unrhyw ymgynghorwyr proffesiynol a benodir i weithredu ei swyddogaethau dan y Cytundeb hwn.

4.6 Bydd pob cyfarfod yn gweithredu dan reolau'r drefn a'r gofynion a nodir yn Atodlen 6.

4.7 Darperir rhaglen o hyfforddiant i Aelodau (a'u dirprwyon) ac Aelodau Cyfetholedig gan ystyried y gofynion ar gyfer gwybodaeth a dealltwriaeth o fewn Rheoliadau CPLlL, a'r hyfforddiant a ddarperir i: (i) Aelodau yn eu rolau ar bwyllgorau pensiwn eu Hawdurdod Cyfansoddol priodol; a (ii) Aelodau Cyfetholedig yn eu rôl fel aelod o Fwrdd Pensiwn. Er mwyn bod yn gymwys i gymryd rhan yn y Cydbwyllgor Llywodraethu, rhaid i'r Aelodau fynychu a chwblhau'r hyfforddiant hwn o fewn cyfnod a nodir gan y Rheoliadau CPLlL neu ganllaw statudol (a beth bynnag ddim hwyrach na 9 mis) o gael eu penodi i'r Cydbwyllgor Llywodraethu a rhaid iddynt fynychu sesiynau diweddaru a gloywi wedi hynny a ddarperir yn gyfnodol fel y pennir yn briodol gan y Cydbwyllgor Llywodraethu. Bydd unrhyw fethiant i ymgymryd â'r hyfforddiant gofynnol yn fater i'w ystyried gan Awdurdod Cyfansoddol yr Aelod perthnasol.

4.8 Gwahoddir yr Aelod Cyfetholedig i'r holl hyfforddiant a ddarperir i Aelodau o dan gymal 4.7 a bydd disgwyl iddo fynychu’r hyfforddiant hynny, lle bo hynny'n bosibl.4.7

## 5 GWEITHGOR SWYDDOGION

5.1 Bydd y Cydbwyllgor Llywodraethu yn penodi'r Gweithgor Swyddogion (y Gweithgor) ar sail y telerau a ganlyn:

(a) “**Pwrpas**": bydd y Gweithgor yn cefnogi ac yn cynghori'r Cydbwyllgor Llywodraethu ar faterion y gall y Cydbwyllgor Llywodraethu wneud cais rhesymol amdanynt o fewn Cylch Gorchwyl y Cydbwyllgor Llywodraethu neu unrhyw faterion yn ymwneud â'r Gyfundrefn Buddsoddi ar y Cyd a godir gan Swyddog Adran 151, Swyddog Monitro neu Uwch Swyddog CPLlL unrhyw Awdurdod Cyfansoddol;

(b) “**Aelodaeth**": bydd pob Awdurdod Cyfansoddol yn enwebu isafswm o un swyddog, ac uchafswm o ddau swyddog, a gyflogir gan yr Awdurdod Cyfansoddol hwnnw fel ei gynrychiolwyr ar y Gweithgor;

(c) “**Cylch Gwaith**": bydd cylch gwaith y Gweithgor fel y nodir yn Atodlen 8;**Error! Reference source not found.**

5.2 Bydd y Gweithgor yn ymgymryd â'i rôl ac yn rhoi ystyriaeth i gylch gorchwyl y Cydbwyllgor Llywodraethu.

5.3 Bydd gan Swyddog Adran 151 a Swyddog Monitro (neu yn eu habsenoldeb eu dirprwyon) bob Awdurdod Cyfansoddol yr hawl, os nad ydynt yn aelodau o'r Gweithgor, i fynychu cyfarfodydd y Gweithgor a derbyn copïau unrhyw bapurau.

## 6 GWNEUD PENDERFYNIADAU

6.1 Mae’r Awdurdodau Cyfansoddol wedi adnabod y ddau gategori a ganlyn o benderfyniadau, ynghyd â’r modd y byddant yn cael eu gwneud:

(a) "**Mater Cydbwyllgor Llywodraethu**": mater y penderfynir arno mewn cyfarfod o’r Cydbwyllgor (rhaid cael cworwm ynddo) gan y rheini sy’n bresennol ac sydd â’r hawl i bleidleisio, a bydd unrhyw benderfyniad o’r fath yn rhwymo’r holl Awdurdodau Cyfansoddol ac mae materion o'r fath wedi'u hadnabod yn Atodlen 3;**Error! Reference source not found.**

(b) "**Materion a Gedwir i’r Awdurdodau Cyfansoddol**": mater a gaiff ei adnabod yn Atodlen 2 y bydd rhaid ei gyfeirio at bob Awdurdod Cyfansoddol er penderfyniad (gan ystyried unrhyw argymhelliad a wneir ar hynny gan y Cydbwyllgor Llywodraethu). Yn ddarostyngedig i ofynion cyfansoddiadol pob Awdurdod Cyfansoddol, bydd y pwyllgor pensiwn ar gyfer pob Awdurdod Cyfansoddol fel arfer yn ymdrin â Materion o'r fath a Gedwir i'r Awdurdodau Cyfansoddiadol, ynghyd â phenderfyniadau eraill gan Awdurdod Cyfansoddiadol o dan y Cytundeb hwn. Ni fydd y Cydbwyllgor Llywodraethu yn ymdrin â materion o'r fath sydd wedi'u cadw i'r Awdurdodau

Cyfansoddol sy'n gofyn am benderfyniad nes bod y mater wedi'i benderfynu gan yr holl Awdurdodau Cyfansoddol. Os nad yw'r Awdurdodau Cyfansoddiadol yn dod i benderfyniad unfrydol mewn perthynas â mater o'r fath, yna cyfeirir y mater o dan gymal 37 (**Error! Reference source not found.***DATRYS ANGHYDFOD MEWN FFORDD AMGEN*) fel anghydfod i'w ddatrys.

## 7 CYNLLUN BUSNES

7.1 Bydd y Cydbwyllgor Llywodraethu yn cynhyrchu Cynllun Busnes drafft, gyda chefnogaeth y Gweithgor, ynghylch y tymor canolig (hyd at dair blynedd) gan ystyried y cylch etholiadol a gofynion gweithredol yr Awdurdodau Cyfansoddol er mwyn ymgynghori gyda'r Awdurdodau Cyfansoddol. Bydd y Cynllun Busnes drafft yn ystyried yr isod:

(a) amcanion y Cydbwyllgor Llywodraethu dros gyfnod perthnasol y Cynllun Busnes;

(b) y gyllideb ariannol ar gyfer cyfnod perthnasol y Cynllun Busnes a/neu unrhyw gyllideb flynyddol a osodir;

(c) gofynion pob un o'r Awdurdodau Cyfansoddol yn unigol fel awdurdod gweinyddu yn unol â Rheoliadau PMIF;

(d) anghenion strategaeth fuddsoddi bob Awdurdod Cyfansoddol;

(e) cyngor ymgynghorwyr proffesiynol sydd wedi'u cymhwyso, eu hawdurdodi a'u rheoleiddio'n briodol;

(f) y canllawiau a gyhoeddir o bryd i'w gilydd gan yr Ysgrifennydd Gwladol fel y cyfeirir atynt yn rheoliad 7(1) y Rheoliadau PMIF;

(g) unrhyw faterion eraill y gall yr Awdurdodau Cyfansoddol eu hystyried yn angenrheidiol i hyrwyddo'r Gyfundrefn Buddsoddi ar y Cyd yn cynnwys (yn amodol ar gymal 10.2), cynnig a datblygu prosiectau ad hoc.10.2

7.2 Bydd ymgynghoriad ar y Cynllun Busnes drafft yn cael ei wneud gan y Gweithgor (gyda IMCo (os yw hynny'n briodol) ac unrhyw barti arall y mae'n eu hystyried yn angenrheidiol) a fydd yn adrodd ar ddeilliannau'r ymgynghoriad hwnnw. Bydd y Cydbwyllgor Llywodraethu yn cynnal cyfarfod i drafod ac, wedi rhoi sylw priodol i'r adroddiad ar yr ymateb i'r ymgynghoriad a chyngor yr ymgynghorwyr proffesiynol sydd wedi'u cymhwyso a'u rheoleiddio'n briodol, yn cytuno ar Gynllun Busnes terfynol a allai gynnwys unrhyw ddiwygiadau i'r drafft y mae'r Cydbwyllgor Llywodraethu yn eu hystyried yn briodol.

7.3 Wedi cael cymeradwyaeth y Cydbwyllgor Llywodraethu, anfonir y Cynllun Busnes i'r holl Awdurdodau Cyfansoddol er eu cymeradwyaeth ysgrifenedig.

7.4 Bydd y Cynllun Busnes yn cael ei adolygu gan y Cydbwyllgor Llywodraethu a'r Awdurdodau Cyfansoddol yn flynyddol. Os yw'r Cydbwyllgor Llywodraethu yn cytuno ar unrhyw ddiwygiadau, caiff y Cynllun Busnes diwygiedig ei anfon i'r holl Awdurdodau Cyfansoddol er mwyn cael eu cymeradwyaeth ysgrifenedig.

7.5 Er mwyn osgoi amheuaeth, bydd cymeradwyo'r Cynllun Busnes yn derfynol yn cael ei drin fel Mater a Gedwir i'r Awdurdodau Cyfansoddol (fel y diffinnir yng nghymal 6 (b)).

## 8 AWDURDOD LLETYA

8.1 Mae Cyngor Sir Gâr yn cydsynio i weithredu fel yr Awdurdod Lletya ar gyfer gweithredu'r Cydbwyllgor Llywodraethu, y Gweithgor a'r Fforwm Cyfranddalwyr a fydd yn cael ei gynnal ar ei gyfer ac ar ei ran ei hun ac mae'r Awdurdodau Cyfansoddol a Chyngor Sir Gâr yn cytuno i weithredu yn y rôl honno yn ddarostyngedig i delerau'r Cytundeb hwn, ac yn unol â nhw ac i'r graddau y darperir ar eu cyfer gan delerau'r Cytundeb hwn. Er mwyn osgoi amheuaeth, mae rôl yr Awdurdod Lletya yn cynnwys:-

(a) gweithredu fel yr awdurdod cyflogi ar gyfer unrhyw staff sy'n rhan o gyflawni swyddogaethau'r Gyfundrefn Buddsoddi ar y Cyd (penodi, cyflogi neu dderbyn secondiadau staff) yn unol â'r Cytundeb hwn;

(b) bod yn bwynt cyswllt er dibenion rheoli'r Gyfundrefn Buddsoddi ar y Cyd;

(c) darparu'r holl adnoddau a chyfleusterau gweinyddol allai fod yn angenrheidiol er dibenion darparu'r Gyfundrefn Buddsoddi ar y Cyd, a dal holl Gyfraniadau Llywodraethu'r Cleient;

(d) darparu'r gwasanaethau llywodraethu a gweinyddol allai fod yn angenrheidiol er dibenion cefnogi'r Gyfundrefn Buddsoddi ar y Cyd gan gynnwys trefnu a chlercio cyfarfodydd;

(e) darparu hyfforddiant i Aelodau ac Aelodau Cyfetholedig i gefnogi eu rôl ar y Cydbwyllgor Llywodraethu yn unol â'r cynllun hyfforddiant ac yn unol â chymal 4.7;4.7

(f) darparu swyddogion (ac ymgynghorwyr proffesiynol allanol) sydd â'r cymwysterau a'r profiad priodol a fydd yn gweithredu fel y prif ymgynghorwyr cyfreithiol ac ariannol i'r Gyfundrefn Buddsoddi ar y Cyd;

(g) at ddibenion y Cydbwyllgor Llywodraethu, bydd gofyn i'r Swyddog Adran 151 a'r Swyddog Monitro (neu yn eu habsenoldeb, eu dirprwyon) sicrhau eu bod yn goruchwylio ac yn adolygu gweithrediad y materion a ddisgrifir o fewn y Cytundeb hwn a phenderfyniadau'r Cydbwyllgor Llywodraethu ar ran yr holl Awdurdodau Cyfansoddol;

(h) y pŵer i ymrwymo i gontractau am nwyddau a gwasanaethau sydd eu hangen at ddibenion y Gyfundrefn Buddsoddi ar y Cyd.

(i) cysylltu ag IMCo ar ran yr Awdurdodau Cyfansoddol mewn perthynas â materion cyffredin sy'n gysylltiedig â chleientiaid (na fydd, er mwyn osgoi amheuaeth, yn cynnwys materion a gwmpesir gan y Cytundeb Cyfranddalwyr).

8.2 Er mwyn osgoi amheuaeth nid yw dyletswyddau a chyfrifoldebau'r Awdurdod Lletya yn unol â'r Cytundeb hwn ond yn ymrwymo'r Awdurdod Lletya cyn belled â bod adnoddau ar ei gyfer gan yr Awdurdodau Cyfansoddol drwy'r Cytundeb hwn.

8.3 Eithr ac oni bai fod y gyfraith yn gofyn yn wahanol, bydd yr holl staff a gyflogir gan yr Awdurdod Lletya yn unol â'r cytundeb hwn yn cael eu cyflogi ar delerau ac amodau cyflogaeth perthnasol yr Awdurdod Lletya, a pholisïau staff cysylltiedig, gan gynnwys strwythurau cyflog.

8.4 Gellir penodi Awdurdod Lletya gwahanol drwy benderfyniad gan fwyafrif yr Awdurdodau Cyfansoddol a bwrw bod yr Awdurdod Lletya olynol yn cytuno.

8.5 Os yw'r Awdurdod Lletya yn tynnu'n ôl o'r Cytundeb hwn yn unol â chymal 21 neu gymal 22, penodir Awdurdod Lletya yn ei le drwy benderfyniad gan fwyafrif yr Awdurdodau Cyfansoddol a bwrw bod yr Awdurdod Lletya olynol yn cytuno. Ni fydd gan yr Awdurdod Lletya sydd wedi tynnu'n ôl yr hawl i bleidleisio yng nghyswllt unrhyw benodiad o'r fath. 2122

8.6 Pan benodir Awdurdod Lletya newydd yn unol â Chymal 8.4 neu 8.5 uchod, darllenir unrhyw gyfeiriad at Gyngor Sir Gâr (yn rhinwedd ei rôl fel yr Awdurdod Lletya cychwynnol) gan gyfeirio at yr Awdurdod Lletya sy'n disodli o ddyddiad effeithiol yr Awdurdod Lletya olynol.8.48.5

8.7 Os yw TUPE yn berthnasol yng nghyswllt penodi unrhyw Gyngor Lletya olynol, bydd yr Awdurdodau Cyfansoddol yn cydymffurfio â darpariaethau Atodlen 7.**Error! Reference source not found.**

8.8 Am hyd y Cytundeb hwn, bydd yr Awdurdod Lletya yn gweithredu'n ddiwyd ac yn ddidwyll ym mhob peth a wna gyda'r Awdurdodau Cyfansoddol eraill.

8.9 Am hyd y Cytundeb hwn, bydd yr Awdurdodau Cyfansoddol eraill yn gweithredu'n ddiwyd ac yn ddidwyll ym mhob peth a wnânt gyda'r Awdurdod Lletya, a byddant yn gwneud pob ymdrech resymol i gynorthwyo'r Awdurdod Lletya i gefnogi'r Gyfundrefn Buddsoddi ar y Cyd.

## 9 ATEBOLRWYDD AC INDEMNIAD YR AWDURDOD LLETYA

9.1 Ni fydd unrhyw beth yn y Cytundeb hwn yn gwneud yr Awdurdod Lletya yn atebol yng nghyswllt unrhyw beth a wnaed neu nas gwnaed gan Awdurdod Cyfansoddol hyd at y Dyddiad Cychwyn.

9.2 Bydd yr Awdurdod Lletya yn cael ei indemnio rhag ac yn erbyn yr holl atebolrwydd, costau, treuliau, iawndal a cholledion (yn cynnwys ond heb fod yn gyfyngedig i unrhyw golled uniongyrchol, anuniongyrchol neu ôl-ddilynol, colli elw, colli enw da a'r holl log, cosbau a chostau cyfreithiol (a gyfrifir ar sail indemniad llawn) a'r holl gostau a threuliau rhesymol eraill) allai godi wrth iddo ymgymryd â'i rôl a awdurdodir yn unol â chymal 8 ac eithrio mewn achos o ddiffyg neu dwyll bwriadol.

**10 YMRWYMIAD YR AWDURDODAU CYFANSODDOL A CHYFRANIADAU**

10.1 Yn amodol ar gymal 10.2, mae'r Awdurdodau Cyfansoddol yn cytuno i dalu'r cyfraniadau a fydd yn cael eu cyfrifo yn gyfartal o'u costau llywodraethu, caffael a gweinyddu a amcangyfrifir ac sydd wedi'u cynnwys o fewn y Cynllun Busnes neu wariant ychwanegol sy'n ofynnol yn ddiweddarach fel rhan o unrhyw gostau llywodraethu, caffael a gweinyddu diwygiedig a amcangyfrifir a ystyrir gan y Cynllun Busnes (y "**Cyfraniadau Llywodraethu Cleientiaid**") oni bai fod y Cynllun Busnes yn darparu fel arall. Fel arall, gall yr Awdurdod Lletya gyfrifo Cyfraniadau Llywodraethu Cleientiaid mewn ôl-ddyled yn unol ag egwyddorion y cymal 10.1 hwn.

10.2 Bydd yr Awdurdodau Cyfansoddol yn cyfarch costau prosiectau ad hoc y maent yn rhan ohonynt yn gyfartal rhwng yr Awdurdodau Cyfansoddol sydd yn rhan ohonynt yn unig ac ni fydd unrhyw Awdurdodau Cyfansoddol nad ydynt yn cymryd rhan yn atebol am unrhyw gyfran o'r costau hynny.

10.3 Mae'r Awdurdodau Cyfansoddol yn cytuno i dalu'r Cyfraniadau Pŵlio i'r Awdurdod Lletya ar ddyddiadau ac amlder fel y pennir gan y Cynllun Busnes neu yn dilyn anfoneb a anfonir gan yr Awdurdod Lletya lle mae Cyfraniadau Llywodraethu Cleientiaid o'r fath yn cael eu casglu mewn ôl-ddyled. Bydd unrhyw gostau a godir cyn cymeradwyo'r Cynllun Busnes yn daladwy ar ôl derbyn anfoneb gan yr Awdurdod Lletya.

10.4 Gwneir yr holl Gyfraniadau Pŵlio drwy daliad i'r cyfrif banc y rhoddir gwybodaeth amdano i'r Awdurdodau Cyfansoddol gan yr Awdurdod Lletya er dibenion y Gyfundrefn Buddsoddi ar y Cyd. Bydd yr Awdurdod Lletya yn cynnal cyfrif neu gyfrifon ar wahân fel sy'n briodol ar gyfer yr holl arian a dderbynnir neu a warir yng nghyswllt y Gyfundrefn Buddsoddi ar y Cyd mewn modd sy'n cydymffurfio â'u trefniadau cyfrifo.

10.5 Yn dilyn terfynu'r Cytundeb hwn, unwaith y telir costau'r Awdurdod Lletya, bydd y swm sy'n sefyll i gredyd y cyfrif neu'r cyfrifon lle cedwir arian y Gyfundrefn Buddsoddi ar y Cyd yn cael ei ddychwelyd i'r Awdurdodau Cyfansoddol sydd ar ôl ar y pryd yn unol â'r gyfran y'u cyfrannwyd yn wreiddiol.

10.6 Yn dilyn terfynu'r Cytundeb hwn, os oes angen unrhyw gyfraniad pellach, neu os oes angen gwneud ad-daliadau, bydd yr Awdurdodau Cyfansoddol yn penderfynu ar yr hyn a ganlyn:

(a) y cyfanswm;

(b) dosrannu cyfraniad neu ad-daliad o'r fath rhwng yr Awdurdodau Cyfansoddol; a

(c) ffurf cyfraniad neu ad-daliad o'r fath.

Yn absenoldeb unrhyw gytundeb i'r gwrthwyneb, bydd y cyfraniadau neu'r ad-daliadau hyn gan ac i'r holl Awdurdodau Cyfansoddol yn gyfartal.

10.7 Er mwyn osgoi amheuaeth, bydd atebolrwydd pob Awdurdod Cyfansoddol i dalu ffioedd IMCo yn cael ei bennu gan gytundeb gwasanaethau cleientiaid pob Awdurdod Cyfansoddol gydag IMCo ac nid y Cytundeb hwn.

**11 CYFRIFON**

11.1 Bydd yr Awdurdod Lletya yn cadw cyfriflyfrau priodol (a fydd yn cynnwys unrhyw system gyfrifo gyfrifiadurol a ddefnyddir gan y Gyfundrefn Buddsoddi ar y Cyd am y tro) a bydd yn gyfrifol am sicrhau bod cofnod llawn a chywir o'r holl dderbynebion a thaliadau yn cael eu gwneud yn brydlon. Cedwir y cyfriflyfrau yn eiddo'r Awdurdod Lletya a byddant ar gael i'w harchwilio gan yr holl Awdurdodau Cyfansoddol (sydd â'r hawl i gymryd copïau hefyd). Ar gais rhesymol, bydd yr Awdurdod Lletya yn sicrhau bod gwybodaeth sydd ei hangen ar unrhyw Awdurdod Cyfansoddol er mwyn iddynt baratoi eu cyfrifon eu hunain neu ymateb i unrhyw archwilio mewnol neu allanol, ar gael iddynt.

11.2 Bydd yr Awdurdod Lletya yn sicrhau bod y cyfraniadau a'r taliadau a wnaed gan bob Awdurdod Cyfansoddol yn cael eu cadw mewn cyfrif yn enw'r Awdurdod Lletya.

11.3 Bydd yr Awdurdod Lletya yn paratoi cyfrifon blynyddol yng nghyswllt pob Blwyddyn Ariannol ar gyfer y Gyfundrefn Buddsoddi ar y Cyd yn unol â'r cod ymarfer priodol ar gyfrifyddu a'r rheoliadau sy'n ymwneud â chyfrifyddu ac archwilio fel sy'n briodol i awdurdodau lleol erbyn dim hwyrach na 31 Mai yn y Flwyddyn Ariannol ddilynol.

11.4 Bydd yr Awdurdod Lletya yn gyfrifol am sicrhau bod y cyfrifon sy'n ymwneud â'r Gyfundrefn Buddsoddi ar y Cyd yn cael eu harchwilio pryd a phan fo angen hynny yn ôl y gyfraith neu awdurdod cymwys arall a bydd yn sicrhau bod copïau o'r cyfrifon wedi'u harchwilio ar gael i'r holl Awdurdodau Cyfansoddol.

**12 COSTAU RHEOLI BUDDSODDIADAU**

Yn unol â chymal 10.7, bydd pob Awdurdod Cyfansoddol yn ysgwyddo ei gostau ei hun yn nhermau rheoli buddsoddiadau y cânt neu y disgwylient eu cael yn y Gyfundrefn Buddsoddi ar y Cyd a fydd yn cynnwys yr holl gostau trawsnewid ar gyfer buddsoddi a dadfuddsoddi asedau.10.7

## 13 EIDDO DEALLUSOL

Bydd unrhyw eiddo deallusol a ddatblygir gan unrhyw Awdurdod Cyfansoddol er dibenion y Gyfundrefn Buddsoddi ar y Cyd yn cael ei gadw gan yr Awdurdodau Cyfansoddol a bydd pob Awdurdod Cyfansoddol yn rhoi i bob Awdurdod Cyfansoddol arall drwydded anghyfyngedig a pharhaol na ellir ei throsglwyddo ac sy'n rhydd o unrhyw freindal, i'w ddefnyddio, ei addasu, ei newid a'i ddatblygu er dibenion y Gyfundrefn Buddsoddi ar y Cyd, waeth a yw'r parti sy'n rhoi'r drwydded yn parhau i fod yn barti yn y Cytundeb hwn ai peidio. Bydd yr holl gostau a threuliau sy'n ymwneud ag eiddo deallusol o'r fath yn cael eu hysgwyddo gan yr Awdurdodau Cyfansoddol a bydd yr Awdurdodau Cyfansoddol eraill yn indemnio'r Awdurdod Cyfansoddol neu'r Awdurdodau Cyfansoddol y mae eiddo o'r fath wedi'i freinio gyda hwy, yn erbyn yr holl atebolrwydd a allai godi'n uniongyrchol neu'n anuniongyrchol wrth ei ddefnyddio.

## 14 ADRODDIADAU

14.1 Bydd y Cydbwyllgor Llywodraethu yn goruchwylio'r Gyfundrefn Buddsoddi ar y Cyd ac yn sicrhau ei bod yn cael ei darparu yn unol â'r Cynllun Busnes.

14.2 Er mwyn sicrhau bod yr Awdurdodau Cyfansoddol yn cael eu diweddaru gyda pherfformiad y Gyfundrefn Buddsoddi ar y Cyd, bydd y Cydbwyllgor Llywodraethu yn adrodd yn chwarterol ac yn flynyddol i'r Awdurdodau Cyfansoddol gyda chynnydd a fesurir yn erbyn y Cynllun Busnes ac amcanion y Pŵl Buddsoddi.

## 15 YSWIRIANT

Os nad yw gweithredu'r Gyfundrefn Buddsoddi ar y Cyd yn rhan o unrhyw yswiriant presennol sydd gan yr Awdurdodau Cyfansoddol, bydd y Cyngor Lletya yn gweithredu polisïau yswiriant o'r fath ar gyfer symiau y bydd yn penderfynu arnynt ac yn eu cadw mewn grym drwy'r adeg (er budd Aelodau'r Cydbwyllgor Llywodraethu a'r swyddogion a benodir i'r Gweithgor). Bydd polisïau o'r fath yn cael eu cynnal ar gost yr Awdurdodau Cyfansoddol a byddant yn gost weinyddol y Gyfundrefn Buddsoddi ar y Cyd hon er dibenion cymal 10.1.10.1

## 16 DYLETSWYDDAU A GRYM

Bydd pob Awdurdod Cyfansoddol yn cydymffurfio â'r isod bob amser:

(a) defnyddio ei sgiliau a'i ymdrechion rhesymol i hyrwyddo a bwrw ymlaen â'r Gyfundrefn Buddsoddi ar y Cyd er lles yr Awdurdodau Cyfansoddol, ac ymddwyn mewn modd priodol a chyfrifol;

(b) ymroddi'r amser a'r sylw y mae'r Awdurdodau Cyfansoddol yn penderfynu'n ysgrifenedig sydd yn angenrheidiol ac yn briodol i'r Gyfundrefn Buddsoddi ar y Cyd;

(c) cydymffurfio â'r holl ddeddfwriaethau, rheoliadau, safonau proffesiynol a darpariaethau eraill a all reoli ymddygiad y Gyfundrefn Buddsoddi ar y Cyd neu a

bennir gan yr Awdurdodau Cyfansoddol fel safonau i'w gweithredu'n wirfoddol i'r Gyfundrefn Buddsoddi ar y Cyd;

(d) arddangos didwylledd i'r Awdurdodau Cyfansoddol eraill yn yr holl drafodion sy'n ymwneud â'r Gyfundrefn Buddsoddi ar y Cyd a rhoi hanes cywir a gwybodaeth lawn am bopeth sy'n effeithio ar y Gyfundrefn Buddsoddi ar y Cyd;

(e) rhoi gwybod i'r Awdurdodau Cyfansoddol ar unwaith wedi iddynt gael gwybod am unrhyw achos cyfreithiol yng nghyswllt y Gyfundrefn Buddsoddi ar y Cyd.

(f) talu a gweithredu ar ei ddyledion a'i ymrwymiadau ariannol presennol a rhai'r dyfodol yn brydlon;

(g) ni fyddant yn gwneud neu'n methu gwneud unrhyw beth fyddai'n dwyn gwarth ar ei enw da ei hun nac ar enw da unrhyw un o'r Awdurdodau Cyfansoddol eraill;

(h) ceisio'r holl ganiatadau angenrheidiol sy'n ddigonol i fwrw ymlaen â'u dyletswyddau i'r Gyfundrefn Buddsoddi ar y Cyd.

16.2 Ni fydd unrhyw weithred a fyddai, fel arall, yn golygu torri'r cymal hwn, yn gyfystyr â thorri'r cymal os oedd gofyn i'r Awdurdod Cyfansoddol ymgymryd â'r weithred honno i gydymffurfio â dyletswydd statudol neu orchymyn llys, tribiwnlys neu ombwdsmon.

**17 DIRPRWYO**

17.1 Mae'r Awdurdodau Cyfansoddol wedi rhoi awdurdodiadau yn eu lle fel sy'n ofynnol o fewn eu trefniadau llywodraethu mewnol er mwyn;

(a) dirprwyo gwneud y penderfyniadau a nodir yn Atodlen 3 (**Error! Reference source not found.***Materion y Cydbwyllgor Llywodraethu*) i'r Cydbwyllgor Llywodraethu;

(b) dirprwyo unrhyw fater arall sy'n ofynnol er mwyn cydymffurfio â rhwymedigaethau'r Cytundeb hwn, yn cynnwys dirprwyo i'w swyddogion ei hun ac i'r Awdurdod Lletya fel sydd angen;

ar yr amod y bydd paragraff 2 o Atodlen 9 yn gymwys, mae dirprwyaethau yn berthnasol i'r Fforwm Cyfranddalwyr.

17.2 Bydd yr Awdurdodau Cyfansoddol yn adolygu a, ble bo angen, yn diwygio eu trefniadau dirprwyo drwy gydol oes y Gyfundrefn Buddsoddi ar y Cyd i sicrhau y gallant gydymffurfio â darpariaethau'r Cytundeb hwn.

17.3 Gall y Cydbwyllgor Llywodraethu, a'r swyddogion sy'n cymryd rhan yn y Fforwm Cyfranddalwyr, benodi contractwyr neu asiantau i ymgymryd â thasgau, cynghori neu gefnogi gweithredu eu swyddogaethau.

## 18 RHWYMEDIGAETHAU AR AWDURDODAU CYFANSODDOL

18.1 Heb ragfarnu telerau'r Cytundeb hwn, bydd yr Awdurdodau Cyfansoddol, ar sail unigol, yn ymrwymo i weithredu'r Gyfundrefn Buddsoddi ar y Cyd yn gyson â'r Cyflwyniad (yn amodol ar unrhyw amrywiad y cytunir arno gan yr Awdurdodau Cyfansoddol) ac i wneud pob ymdrech resymol i sicrhau llwyddiant y Gyfundrefn Buddsoddi ar y Cyd.

18.2 Ni fydd dim byd yn y Cytundeb hwn yn llyffethair i ddisgresiwn pob Awdurdod Cyfansoddol i ffurfio ac adolygu strategaeth fuddsoddi sy'n briodol i'w cronfa nhw o fewn y CPLlL yn unol â rheoliad 10 Rheoliadau PMIF.

18.3 Cydnabyddir a chytunir y bydd rhwymedigaethau a chyfrifoldebau pob Awdurdod Cyfansoddol yn rhwymo unrhyw awdurdod olynol pe byddai unrhyw ad-drefnu llywodraeth leol.

## 19 INDEMNIAD

Bydd unrhyw Awdurdod Cyfansoddol sy'n torri unrhyw rai o ddarpariaethau'r Cytundeb hwn yn faterol, yn indemnio'r Awdurdodau Cyfansoddol eraill rhag ac yn erbyn yr holl atebolrwydd, costau, treuliau, iawndal a cholledion (yn cynnwys ond heb fod yn gyfyngedig i unrhyw golled uniongyrchol, anuniongyrchol neu ôl-ddilynol, colli elw, colli enw da a'r holl log, cosbau a chostau cyfreithiol (a gyfrifir ar sail indemniad llawn) a'r holl gostau a threuliau rhesymol eraill) allai godi o'r tor-amod hwnnw, heb ragfarnu yn erbyn unrhyw hawl neu gywiriad sydd gan yr Awdurdodau Cyfansoddol eraill, sut bynnag y codant.

## 20 POLISÏAU A GWEITHDREFNAU

20.1 Bydd y Cydbwyllgor Llywodraethu yn paratoi, yn cynnal ac yn cydymffurfio â'r polisïau a'r gweithdrefnau sydd wedi'u rhestru yn Atodlen 5 ac unrhyw bolisïau a gweithdrefnau pellach y mae'r Cydbwyllgor Llywodraethu yn penderfynu eu bod yn briodol, yn unol â chyfraith a rheoliadau perthnasol, yr awdurdod cymwys a chanllawiau perthnasol, ac wedi ystyried y canllawiau perthnasol sy'n benodol i reoli arian neu ofynion cyfrifo ac archwilio mewn llywodraeth leol. Bydd y Cydbwyllgor Llywodraethu yn eu darparu i'r Awdurdodau Cyfansoddol, y Gweithgor, IMCo (lle bo hynny'n briodol i rôl IMCo) ac yn eu darparu i is-ddirprwyon a phartïon angenrheidiol eraill gyda'r nod o gyflawni unffurfiaeth ac effeithlonrwydd o fewn arferion gweithredu. **Error! Reference source not found.**

20.2 Os bydd gofyn i'r Awdurdodau Cyfansoddol gyfeirio neu gopïo unrhyw gyfathrebiad neu debyg i unrhyw swyddogaeth rheoli neu gydlynu contract dan bolisi neu weithdrefn y darperir ar eu cyfer dan y Cytundeb hwn, bydd y Cydbwyllgor Llywodraethu yn rhoi gwybod i'r Awdurdodau Cyfansoddol o'r gofyn hwnnw yn ysgrifenedig. Bydd yr Awdurdodau Cyfansoddol yn cyfeirio neu'n copïo unrhyw gyfathrebiad fel y'u cynghorir i wneud hynny, o ddyddiad derbyn cyfarwyddyd dan y cymal hwn.

## 21 TYNNU'N ÔL O'R CYTUNDEB HWN

21.1 Gall unrhyw Awdurdod Cyfansoddol ("**Awdurdod sy'n Tynnu'n Ôl**") dynnu'n ôl o'r Cytundeb hwn drwy roi dim llai na 18 (deunaw) mis o rybudd ysgrifenedig i'r Awdurdod Lletya o'i fwriad i wneud hynny. Dyddiad olaf y rhybudd hwnnw yw'r 31 Mawrth nesaf wedi hynny neu sy'n cyd-fynd â diwedd y cyfnod rhybudd 18 (deunaw) mis a bwrw bod yr Awdurdodau Cyfansoddol yn cytuno gyda'r Awdurdod sy'n Tynnu'n Ôl bod cyfnod rhybudd gwahanol yn berthnasol ("**Dyddiad Gadael**").

21.2 Gall Awdurdod sy'n Tynnu'n Ôl dynnu'n ôl o'r Cytundeb hwn a chael ei ryddhau o'i rwymedigaethau dan y Cytundeb hwn (ac eithrio cymal 23) a bwrw bod yr isod yn berthnasol:23

(a) ei fod wedi bodloni ei holl rwymedigaethau hyd at y Dyddiad Gadael;

(b) ei fod wedi bodloni ei gyfran o'r costau a'r treuliau dan y Cytundeb hwn hyd at y Dyddiad Gadael, ynghyd ag unrhyw gostau a threuliau angenrheidiol eraill i hwyluso'r gadael p'un a ydynt yn codi ar ôl y Dyddiad Gadael neu beidio;

(c) bod ei gynrychiolwyr ar y Cydbwyllgor Llywodraethu a'r Gweithgor yn ymddiswyddo ar y dyddiad Gadael neu cyn hynny.

21.3 Yn weithredol o ddyddiad y rhybudd a roddir gan yr Awdurdod sy'n Tynnu'n Ôl yn unol â chymal 21.1 ni fydd gan yr Aelod (ac unrhyw ddirprwy a enwebir er dibenion cymal 4.4) a enwebir gan yr Awdurdod sy'n Tynnu'n Ôl er dibenion cymal 4.3(b) unrhyw hawliau pleidleisio mwyach er dibenion y Cydbwyllgor Llywodraethu a bydd yr Awdurdod sy'n Tynnu'n Ôl yn peidio â bod yn Awdurdod Cyfansoddol ar y Dyddiad Gadael.

21.4 Er mwyn osgoi amheuaeth, bydd yr Awdurdod sy'n Tynnu'n Ôl yn parhau'n atebol i wneud y Cyfraniadau Llywodraethu Cleientiaid sy'n ddyledus cyn y Dyddiad Gadael.

## 22 GADAEL GORFODOL

22.1 Os bydd Awdurdod Cyfansoddol yn peidio â bod yn gyfranddaliwr yn IMCo yn unol â thelerau'r Cytundeb Cyfranddalwyr, yna caiff ei drin fel pe bai wedi rhoi rhybudd tynnu'n ôl dan ddarpariaethau cymal 21.1 (ac felly'n cael ei drin fel Awdurdod sy'n Tynnu'n Ôl) ac eithrio y bydd rhybudd o'r fath yn cael effaith ar unwaith.

## 23 DARPARIAETHAU PELLACH SY'N YMWNEUD AG AWDURDOD SY'N TYNNU'N ÔL

23.1 Pan fydd unrhyw Awdurdod Cyfansoddol yn peidio â bod yn Awdurdod Cyfansoddol yn rhinwedd ei fod yn Awdurdod sy'n Tynnu'n Ôl, bydd yr Awdurdod Lletya yn cyhoeddi rhybudd o'r newid yn y Cydbwyllgor Llywodraethu ar y wefan ar gyfer y Gyfundrefn Buddsoddi ar y Cyd (ac mewn unrhyw fodd arall a allai fod yn ofynnol gan y gyfraith) a bydd yn rhoi rhybudd ysgrifenedig o'r newid yn y Cydbwyllgor Llywodraethu i bob trydydd parti sydd wedi yn ystod

y 12 (deuddeg) mis diwethaf cael unrhyw ymdriniaeth â'r Cydbwyllgor Llywodraethu (fel y penderfynir sy'n ofynnol gan yr Awdurdod Lletya).

23.2 Mae'r Awdurdod sy'n Tynnu'n Ôl yn cytuno'n derfynol i weithredu a chyflawni o fewn pum diwrnod gwaith o gais am yr holl weithredoedd a dogfennau a gwneud pob cam a phopeth sy'n angenrheidiol i weithredu telerau'r Cytundeb hwn a breinio yn yr Awdurdodau Cyfansoddol sy'n parhau fuddion llawn yr asedau, yr hawliau a'r buddion i'w trosglwyddo i'r Awdurdodau Cyfansoddol sy'n parhau dan y Cytundeb hwn.

**24 ATEBOLRWYDD PARHAUS**

24.1 Os yw unrhyw Awdurdod Cyfansoddol yn tynnu'n ôl o'r Cytundeb hwn yn unol â Chymal 21 neu 22 bydd yn parhau'n atebol i'r graddau y byddai wedi bod pe byddai'n dal i fod yn rhan o'r Cytundeb hwn am unrhyw weithredoedd, esgeulustod, costau a threuliau sy'n codi o weithredoedd a gymerir neu benderfyniadau a wneir yn ystod y cyfnod yr oedd yr Awdurdod Cyfansoddol hwnnw yn rhan o'r Cytundeb hwn.

24.2 Bydd gan unrhyw Awdurdod Cyfansoddol, sy'n ymrwymo i'r Cytundeb hwn ar ôl y Dyddiad Cychwyn, atebolrwydd am unrhyw weithredoedd, esgeulustod, costau a threuliau sy'n codi o weithredoedd a gymerir neu benderfyniadau a wneir o'r dyddiad ymrwymo yn unig.

**25 AWDURDOD CYFANSODDOL NEWYDD**

Os yw awdurdod gweinyddu cronfeydd arall o fewn y CPLlL yn dod yn gyfranddaliwr yn IMCo dan delerau'r Cytundeb Cyfranddalwyr, gall yr Awdurdodau Cyfansoddol yn ôl eu disgresiwn wahodd yr awdurdod gweinyddol hwnnw i ddod yn "*Awdurdod Cyfansoddol*" ar delerau'r Cytundeb hwn ac i fod yn rhan o'r Cydbwyllgor Llywodraethu.

**26 CYFRINACHEDD**

26.1 At ddibenion y Cytundeb hwn, golyga Gwybodaeth Gyfrinachol, unrhyw wybodaeth sydd wedi'i hardystio fel gwybodaeth eithriedig yn unol ag Adran 100I Deddf Llywodraeth Leol 1972 a'r holl wybodaeth gyfrinachol (sut bynnag y caiff ei chofnodi neu ei chadw) a ddatgelir gan Awdurdod Cyfansoddol neu ei gynrychiolwyr neu ei ymgynghorwyr i Awdurdod Cyfansoddol arall a'i gynrychiolwyr neu ei ymgynghorwyr yntau (ac eithrio pan na ellir cadw'r wybodaeth yn gyfrinachol yn ôl y gyfraith) yn ymwneud ag:

(a) unrhyw wybodaeth sy'n ymwneud â 'r busnes arfaethedig, prosesau technegol, meddalwedd cyfrifiadurol neu hawliau eiddo deallusol y Gyfundrefn Buddsoddi ar y Cyd;

(b) yr holl ddogfennau, papurau ac eiddo a allai fod wedi'u gwneud neu eu paratoi gan, neu ar gais, unrhyw Awdurdod Cyfansoddol ac sydd wedi'u nodi'n wybodaeth

eithriedig neu gyfrinachol ac sy'n dod i eiddo unrhyw Awdurdod Cyfansoddol neu dan ei reolaeth yn ystod y Gyfundrefn Buddsoddi ar y Cyd; a

(c) chyfuniadau o ddwy neu fwy o eitemau o wybodaeth o'r fath a'r holl wybodaeth sydd wedi dod, neu a allai fod wedi dod neu ei chael o unrhyw wybodaeth o'r fath sydd yn dod i eiddo unrhyw Awdurdod Cyfansoddol neu sydd dan ei reolaeth unrhyw bryd yn ystod y Gyfundrefn Buddsoddi ar y Cyd ac y mae'r Gyfundrefn Buddsoddi ar y Cyd yn ei hystyried neu y gellid yn rhesymol ddisgwyl iddo ei hystyried yn gyfrinachol, p'un a yw'r wybodaeth, ynddi'i hun, yn gyfrinachol, wedi'i nodi'n "**gyfrinachol**" neu wedi'i lleihau i ffurf ddiriaethol.

26.2 Ac eithrio'r hyn sydd wedi'i ddarparu fel arall yn y cytundeb hwn naill ai'n benodol neu drwy ymhlygiad, ni fydd yr un Awdurdod Cyfansoddol yn datgelu unrhyw Wybodaeth Gyfrinachol gan yr Awdurdodau Cyfansoddol eraill i unrhyw berson, unrhyw bryd, a bydd yn gwneud pob ymdrech resymol i gadw holl Wybodaeth Gyfrinachol yr Awdurdodau Cyfansoddol eraill yn gyfrinachol (p'un a yw wedi'i nodi felly ai peidio) ac eithrio fel y caniateir gan gymal 26.3.

26.3 Gall pob Awdurdod Cyfansoddol ddatgelu Gwybodaeth Gyfrinachol yr Awdurdod Cyfansoddol arall:

(a) i'w gynrychiolwyr neu ei ymgynghorwyr sydd angen gwybod am wybodaeth o'r fath er dibenion ymgymryd â rhwymedigaethau'r Awdurdod Cyfansoddol dan y Cytundeb hwn neu'n gysylltiedig ag ef. Bydd pob Awdurdod Cyfansoddol yn sicrhau bod ei gynrychiolwyr a'i ymgynghorwyr y mae wedi datgelu Gwybodaeth Gyfrinachol yr Awdurdod Cyfansoddol arall iddynt yn cydymffurfio â'r cymal hwn.

(b) fel sy'n ofynnol dan y gyfraith o bosib, llys o awdurdod cymwys neu unrhyw awdurdod llywodraethol neu reolaethol yn cynnwys ombwdsmon.

## 27 PENSIYNAU

Mae’r Awdurdodau Cyfansoddol yn gyflogwyr ar yr atodlen yn y Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol. Bydd y gweithwyr a gyflogir gan yr Awdurdod Lletya yn y Gyfundrefn Buddsoddi ar y Cyd yn aelodau gweithredol o’r CPLlL, o gychwyn eu cyflogaeth yn amodol ar Reoliadau CPLlL.

## 28 RHYDDID GWYBODAETH

28.1 Mae pob Awdurdod Cyfansoddol yn cydnabod bod yr Awdurdodau Cyfansoddol eraill a'r Cydbwyllgor Llywodraethu yn ddarostyngedig i ofynion Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000 ("**FoIA**") a bydd pob Awdurdod Cyfansoddol pan fo hynny’n rhesymol yn cynorthwyo a chydweithredu â’r Awdurdodau Cyfansoddol eraill (ar eu traul eu hunain) i alluogi i'r Awdurdodau Cyfansoddol eraill gydymffurfio â’r rhwymedigaethau hyn o ran rhyddhau gwybodaeth.

28.2 Pan fo Awdurdod Cyfansoddol yn derbyn cais am wybodaeth dan y FoIA ynghylch gwybodaeth mae'n ei dal ar ran unrhyw un o'r Awdurdodau Cyfansoddol eraill mewn perthynas â'r Gyfundrefn Buddsoddi ar y Cyd, bydd yn:

(a) trosglwyddo'r cais am wybodaeth i'r Awdurdodau Cyfansoddol eraill cyn gynted ag sy'n ymarferol bosib ar ôl ei dderbyn, a beth bynnag o fewn 2 (dau) Ddiwrnod Busnes o dderbyn cais am wybodaeth;

(b) rhoi copi i'r Awdurdodau Cyfansoddol eraill o'r holl wybodaeth sydd yn ei feddiant, neu y mae ganddo rym drosti, yn y ffurf y mae'r Awdurdodau Cyfansoddol yn gofyn yn rhesymol amdani, o fewn 10 (deg) Diwrnod Busnes (neu gyfnod hirach os yw'r Awdurdodau Cyfansoddol yn nodi hynny) o pan fo'r Awdurdod Cyfansoddol yn gwneud y cais am y wybodaeth; ac

(c) yn rhoi pob cymorth angenrheidiol y mae'r Awdurdodau Cyfansoddol eraill wedi gofyn yn rhesymol amdano i alluogi i'r Awdurdod Cyfansoddol ymateb i gais am wybodaeth o fewn yr amserlen a ganiateir yn y FoIA.

28.3 Pan fo Awdurdod Cyfansoddol yn derbyn cais am wybodaeth dan y FoIA sy'n ymwneud â'r Cytundeb hwn neu'r Gyfundrefn Buddsoddi ar y Cyd, bydd yn;

(a) cynghori'r sawl sy'n gwneud y cais bod y wybodaeth yn cael ei dal gan awdurdod cyhoeddus arall, sef y Cydbwyllgor Llywodraethu a bod y cais wedi'i anfon ymlaen at yr awdurdod cyhoeddus hwnnw i ymateb;

(b) trosglwyddo'r cais am wybodaeth i'r Cyngor Lletya ar ran y Cydbwyllgor Llywodraethu gyn gynted ag sy'n ymarferol bosib ar ôl ei dderbyn, a beth bynnag o fewn dau (2) Ddiwrnod Busnes o dderbyn cais am wybodaeth;

(c) rhoi copi i'r Awdurdod Lletya o'r holl wybodaeth sydd yn ei feddiant, neu y mae ganddo rym drosti, yn y ffurf y mae'r Awdurdod Lletya yn gofyn yn rhesymol amdani, o fewn deg (10) Diwrnod Busnes (neu gyfnod hirach os yw'r Awdurdodau Cyfansoddol yn nodi hynny) o phan fo'r Awdurdod Cyfansoddol yn gwneud y cais am y wybodaeth; a bydd yn

(d) rhoi pob cymorth angenrheidiol y mae'r Awdurdod Lletya wedi gofyn yn rhesymol amdano i alluogi i'r Awdurdod Lletya ymateb i gais am wybodaeth ar ran y Cydbwyllgor Llywodraethu o fewn yr amserlen a ganiateir yn y FoIA.

28.4 Bydd yr Awdurdodau Cyfansoddol neu'r Awdurdod Lletya yn gyfrifol am benderfynu yn ôl eu disgresiwn absoliwt p'un a yw gwybodaeth y ceisiwyd amdani dan y FoIA:

(a) yn eithriedig rhag ei rhyddhau dan y FoIA;

(b) i gael ei rhyddhau mewn ymateb i gais am wybodaeth.

28.5 Mae pob Awdurdod Cyfansoddol yn cydnabod y bydd rhaid i'r Awdurdodau Cyfansoddol eraill a'r Cydbwyllgor Llywodraethu dan y FoIA, o bosib, ryddhau gwybodaeth:

(a) heb ymgynghori â'r Awdurdodau Cyfansoddol eraill lle nad oedd yn ymarferol i gael ymgynghoriad o'r fath; neu

(b) yn dilyn ymgynghori â'r Awdurdodau Cyfansoddol eraill ac ar ôl rhoi llwyr ystyriaeth i'w barn hwy.

**29 DIOGELU DATA**

Bydd yr Awdurdodau Cyfansoddol yn cydymffurfio â Deddf Diogelu Data 1998.

**30 DIDDYMU**

30.1 Ni fydd yr un Awdurdod Cyfansoddol yn medru diddymu'r Gyfundrefn Buddsoddi ar y Cyd yn unochrog drwy rybudd.

30.2 Bydd y Gyfundrefn Buddsoddi ar y Cyd a'r Cytundeb hwn yn cael eu terfynu yn dilyn cytundeb unfrydol yr holl Awdurdodau Cyfansoddol.

30.3 Bydd pob Awdurdod Cyfansoddol yn gweithredu'n ddidwyll wrth ddirwyn y Gyfundrefn Buddsoddi ar y Cyd i ben yn dilyn penderfyniad unfrydol i'w diddymu cyn gynted ag sy'n rhesymol ymarferol wedi hynny, a bydd yr holl gostau a threuliau'n cael eu hysgwyddo'n gyfartal gan yr Awdurdodau Cyfansoddol.

**31 Y CYTUNDEB CYFLAWN**

31.1 Y Cytundeb hwn yw'r cytundeb cyflawn rhwng y partïon ac mae'n disodli ac yn dileu bob cytundeb, addewid, sicrwydd, gwarant, sylw a dealltwriaeth blaenorol rhyngddynt, p'un a oedd hynny'n ysgrifenedig neu'n llafar, yn ymwneud â'i bwnc.

31.2 Mae pob un o'r Awdurdodau Cyfansoddol yn cydnabod wrth ymrwymo i'r Cytundeb hwn nad ydynt yn dibynnu ar ddatganiad, cynrychiolaeth, sicrwydd neu warant (p'un a wnaed yn esgeulus neu'n ddieuog) ac na fydd modd iddynt eu cywiro, nad yw wedi'i nodi yn y cytundeb hwn.

31.3 Mae pob Awdurdod Cyfansoddol yn cytuno na fydd ganddo unrhyw hawl am gamgyflead dieuog neu esgeulus (neu gamddatganiad esgeulus) yn seiliedig ar unrhyw ddatganiad yn y cytundeb hwn.

31.4 Ni fydd unrhyw beth yn y cymal hwn yn eithrio nac yn cyfyngu ar unrhyw atebolrwydd am dwyll.

## 32 RHYBUDDION

32.1 Bydd unrhyw rybudd, hawliad neu ohebiaeth mewn cysylltiad â’r Cytundeb hwn yn rhai ysgrifenedig a gellir eu danfon â llaw, drwy'r post neu neges ffacs gyda chyfeiriad y derbynnydd fel y nodwyd yn y Rhestr Cysylltiadau neu unrhyw gyfeiriad arall y rhoddwyd gwybod amdano i'r parti arall yn ysgrifenedig yn unol â'r cymal hwn fel cyfeiriad y gellir anfon rhybuddion, anfonebau a dogfennau eraill iddo. Tybir bod y rhybudd, yr hawliad neu'r ohebiaeth wedi’u cyflwyno’n briodol os:

(a) ydynt yn cael eu danfon yn bersonol yn ystod oriau busnes, ar yr amser y mae’n cael ei ddanfon;

(b) ydynt yn cael eu danfon drwy'r post, 48 awr ar ôl iddynt gael eu postio (ac eithrio dyddiau Sadwrn, Sul a gwyliau cyhoeddus);

(c) ydynt yn cael eu danfon drwy neges ffacs yn ystod oriau busnes, ar adeg eu trosglwyddo, cyn belled ag yr anfonir copi'n cadarnhau iddynt gael eu hanfon drwy bost dosbarth cyntaf at y parti arall o fewn 24 awr ar ôl cael eu trosglwyddo; neu

(d) os ydynt yn cael eu danfon drwy e-bost neu ffurf electronig arall o gyfathrebu yn ystod oriau busnes, ar adeg eu trosglwyddo.

32.2 Os yw rhybudd yn cael ei gyflwyno'n bersonol, drwy neges ffacs neu e-bost y tu allan i oriau busnes, pennir ei fod wedi'i gyflwyno ar y diwrnod busnes nesaf.

## 33 CONTRACTAU (HAWLIAU TRYDYDD PARTI)

33.1 Nid yw’n fwriad gan yr Awdurdodau Cyfansoddol fel partïon i’r Cytundeb hwn i unrhyw un o’i delerau allu cael eu gorfodi dan Ddeddf Contractau (Hawliau Trydydd Partïon) 1999 gan unrhyw unigolyn nad yw’n barti i'r Cytundeb hwn.

## 34 DATGYSYLLTU

34.1 Os yw unrhyw ddarpariaeth neu ran-ddarpariaeth o'r Cytundeb hwn yn dod yn annilys, yn anghyfreithlon neu'n anorfodadwy, caiff ei addasu i'r graddau lleiaf sydd angen i'w wneud yn ddilys, yn gyfreithlon ac yn orfodadwy. Os nad yw addasiadau o'r fath yn bosib, bernir bod y ddarpariaeth neu'r rhan-ddarpariaeth berthnasol wedi'i dileu. Ni fydd addasu neu ddileu darpariaeth neu ran-ddarpariaeth dan y cymal hwn yn effeithiol ar ddilysrwydd na'r gallu i orfodi gweddill y Cytundeb hwn.

34.2 Os yw un Awdurdod Cyfansoddol yn rhoi rhybudd i'r Awdurdodau Cyfansoddol eraill o'r posibilrwydd y gall unrhyw ddarpariaeth neu ran-ddarpariaeth o'r Cytundeb hwn fod yn annilys, yn anghyfreithlon neu'n anorfodadwy, bydd yr Awdurdodau Cyfansoddol yn negydu'n ddidwyll i ddiwygio darpariaeth o'r fath fel y bydd, wedi'i ddiwygio, yn gyfreithlon, yn ddilys ac

yn orfodadwy ac, i'r graddau mwyaf posib, yn cyflawni canlyniad bwriedig y ddarpariaeth wreiddiol.

## 35 NEWIDIADAU

Ni fydd unrhyw newid i'r Cytundeb hwn yn rhwymo'r un parti oni bai ei fod yn ysgrifenedig ac wedi'i lofnodi gan gynrychiolydd awdurdodedig pob Awdurdod Cyfansoddol, ac y datganwyd ei fod er diben newid o'r fath.

## 36 CYFRAITH LYWODRAETHU AC AWDURDODAETH

36.1 Bydd y cytundeb hwn ac unrhyw anghydfod neu hawliad sy'n codi ohono neu mewn cysylltiad ag o, ei bwnc neu ei ffurfiad (gan gynnwys anghydfod neu hawliad ynghylch materion nad ydynt wedi'u cynnwys mewn contract) yn cael eu llywodraethu a'u dehongli yn unol â chyfraith Cymru a Lloegr fel y mae'n berthnasol yng Nghymru.

36.2 Mae bob parti'n cytuno'n derfynol mai llysoedd Cymru a Lloegr yn unig fydd â'r awdurdodaeth i setlo unrhyw anghydfod neu hawliad sy'n deillio o'r cytundeb hwn, neu sy'n gysylltiedig ag o, ei bwnc neu ei ffurfiad (gan gynnwys anghydfod neu hawliad ynghylch materion nad ydynt wedi'u cynnwys mewn contract).

## 37 DATRYS ANGHYDFOD MEWN FFORDD AMGEN

37.1 Mae'r Awdurdodau Cyfansoddol yn cytuno:

(a) i ddilyn ymagwedd bositif tuag at ddatrys anghydfod sy'n ceisio canfod consensws heb orfod cychwyn camau datrys anghydfod ffurfiol a/neu gamau cyfreithiol, a chynnal perthynas weithio gref rhwng yr Awdurdodau Cyfansoddol;

(b) y bydd unrhyw anghydfod rhwng yr Awdurdodau Cyfansoddol yng nghyswllt materion yr ymdrinnir â hwy gan y Cytundeb hwn, yn cael eu cyfeirio yn y lle cyntaf at swyddog A151 (neu gynrychiolydd cyfatebol â chyfrifoldeb dirprwyedig) pob Awdurdod Cyfansoddol;

(c) bydd gan swyddog A151 pob Awdurdod Cyfansoddol 20 Diwrnod Busnes (neu unrhyw amserlen arall y cytunir arni rhwng yr Awdurdodau Cyfansoddol) i gwrdd a datrys yr anghydfod fel y maent yn penderfynu sy'n briodol;

(d) os nad yw swyddogion A151 pob un o'r Awdurdodau Cyfansoddol yn datrys yr anghydfod o fewn 20 Dyddiad Busnes (neu'r cyfryw gyfnod arall y cytunwyd arno yn is-baragraff (c) uchod) bydd yr Awdurdodau Cyfansoddol yn cyfeirio'r anghydfod at gyflafareddwr a fydd â dim llai na 10 mlynedd o brofiad neu gymhwyster;

(e) os na all yr Awdurdodau Cyfansoddol gytuno ar gyflafareddwr o fewn 10 Diwrnod Busnes, yna bydd yr Awdurdodau Cyfansoddol yn penodi cyflafareddwr a enwebir gan y Llywydd am y tro o'r Sefydliad Siartredig Cyflafareddu yng Nghymru a Lloegr

(f) bydd penderfyniad y cyflafareddwr yn derfynol ac yn rhwymol i'r Awdurdodau Cyfansoddol. Bydd costau'r cyflafareddu yn cael eu talu fel y cyfarwyddir gan y cyflafareddwr;

(g) os cytunir bod unrhyw anghydfod o natur gyfreithiol neu dechnegol, gall y partïon i'r anghydfod (ond nid oes raid iddynt) gymryd barn arbenigwr priodol, ar y cyd, yn cynnwys barn uwch gwnsler cyfreithiol ble bo hynny'n briodol. Rhaid cyfarwyddo barn arbenigol o'r fath drwy'r Gweithgor a chael ei chyfarwyddo o fewn 10 diwrnod ar ôl cyfeirio at swyddogion A151 o dan is-gymal (b) ac ar ôl hynny dylid cyflwyno'r farn o fewn 10 Diwrnod Busnes arall oni bai bod natur a/neu fanylion yr anghydfod neu'r farn yn mynnu bod angen dilyn amserlen amgen

**38 GWRTHRANNAU**

Gellir cyflawni'r Cytundeb hwn mewn unrhyw nifer o wrthrannau gan yr Awdurdodau Cyfansoddol, a thrwy eu cymryd gyda'i gilydd, un ac yr un cytundeb fyddant a gall unrhyw Awdurdod Cyfansoddol (gan gynnwys unrhyw gynrychiolydd awdurdodedig Awdurdod Cyfansoddol) weithredu'r Cytundeb hwn drwy weithredu gwrthran.

## Atodlen 1

Rhestr Cysylltiadau

Mae'r Awdurdod Lletya yn cynnal rhestr o'r manylion cyswllt perthnasol ar gyfer pob un o'r Awdurdodau Cyfansoddol. Bydd y ddogfen yn cael ei chyhoeddi o bryd i'w gilydd i'r Awdurdodau Cyfansoddol a bydd hefyd ar gael ar gais.

Ar ddyddiad y Cytundeb hwn, mae'r Rhestr Cysylltiadau hon fel a ganlyn:

[ ]

## Atodlen 2

Materion a Gedwir i'r Awdurdodau Cyfansoddol

1 Penodi, terfynu neu ddisodli IMCo fel y cwmni cronfa asedau ar gyfer pob Awdurdod Cyfansoddol at ddibenion rheoliad 7 o Reoliadau PMIF.

2 Cymeradwyo'r Cynllun Busnes (gan gynnwys y gyllideb a ddisgrifir yn y Cynllun Busnes).

3 Cymeradwyo gwariant ychwanegol nas cynhwysir o fewn y Cynllun Busnes sy'n fwy na 30% o'r gyllideb gymeradwy yn y Cynllun Busnes mewn unrhyw Flwyddyn Ariannol.

4 Ffurfio, cymeradwyo neu adolygu strategaeth fuddsoddi pob Awdurdod Cyfansoddol er dibenion rheoliad 10 Rheoliadau PMIF.

5 Diwygio'r Cytundeb hwn (yn unol â chymal 35).35

6 Terfynu'r Cytundeb hwn (yn unol â chymal 3).

7 Enwebu Aelod Cyfetholedig i'r Cydbwyllgor Llywodraethu (ac eithrio pan fo'r swyddogaeth yn cael ei gweithredu gan Fwrdd Pensiwn, yn yr achosion hynny y Bwrdd Pensiwn hwnnw fydd yn gyfrifol).

8 Cymeradwyo newidiadau i gyfansoddiad neu delerau'r Cydbwyllgor Llywodraethu fel y nodir yn Atodlen 4.

9 Cymeradwyo awdurdod gweinyddu o fewn y CPLlL yn dod yn Awdurdod Cyfansoddol dan y Cytundeb hwn (yn unol â chymal 25) neu ddod yn gyfranddaliwr yn IMCo (gyda chymeradwyaeth o'r fath i ddod yn gyfranddaliwr yn IMCO yn ddarostyngedig i delerau'r Cytundeb Cyfranddalwyr).

## **Atodlen 3**

Materion y Cydbwyllgor Llywodraethu

Yn amodol ar delerau'r Cytundeb hwn, bydd y Cydbwyllgor Llywodraethu yn ymgymryd â'r materion hynny nad ydynt yn Faterion a Gedwir i'r Awdurdodau Cyfansoddol a fydd yn cynnwys (heb ragfarnu cyffredinolrwydd yr uchod);

**1** Gwneud argymhelliad i IMCo mewn perthynas â materion cyffredin cleientiaid sy'n ymwneud â pherfformiad a gweithrediad IMCo.

**2** Cysylltu â Chadeirydd y Fforwm Cyfranddalwyr, darparu adborth, a gwneud argymhellion (fel y bo'n berthnasol), i Gadeirydd y Fforwm Cyfranddalwyr mewn perthynas â materion y mae'r Fforwm Cyfranddalwyr i ymgynghori â'r Cydbwyllgor Llywodraethu arnynt yn dilyn cylch gorchwyl y Fforwm Cyfranddalwyr yn Atodlen 9.

**3** Llunio, adolygu ac adolygu'r polisïau a'r gweithdrefnau hynny o fewn Atodlen 5 (Polisïau a gweithdrefnau).

**4** Penodi a disodli darparwyr gwasanaeth ac ymgynghorwyr i'r Cydbwyllgor Llywodraethu.

**5** Ymgymryd â'i gyfrifoldebau fel y nodir yn Atodlen 4 (Cydbwyllgor Llywodraethu – Cylch Gorchwyl).

**6** Dirprwyo tasgau i'r Gweithgor, yn cynnwys paratoi adroddiadau a dogfennau drafft a chynnal ymgynghoriadau sy'n berthnasol i weithrediad y Cydbwyllgor Llywodraethu.

**7** Cysylltu gyda Byrddau Pensiwn fel sy'n briodol yn unol â chanllawiau a gyhoeddir gan y Rheoleiddiwr Pensiynau a chanllawiau deddfwriaethol neu reolaethol priodol eraill sy'n berthnasol i weithrediad y Cydbwyllgor Llywodraethu.

Er gwaetha'r uchod, er mwyn osgoi amheuaeth, ni all y Cydbwyllgor Llywodraethu ddirprwyo ei gyfrifoldebau.

## Atodlen 4

Cydbwyllgor Llywodraethu - Cylch Gorchwyl

Mae cyfrifoldebau'r Cydbwyllgor Llywodraethu fel a ganlyn:

**1** Gwneud argymhellion i'r Awdurdodau Cyfansoddol ar berfformiad, o safbwynt cleient cyffredin, IMCo yn erbyn dangosyddion perfformiad allweddol cyffredin neu gyson ar draws yr Awdurdodau Cyfansoddol;

**2** Monitro perfformiad IMCo yn erbyn dangosyddion perfformiad allweddol cyffredin neu gyson ar draws yr Awdurdodau Cyfansoddol;

**3** O bryd i'w gilydd, adolygu polisïau yn nhermau materion amgylcheddol, cymdeithasol a llywodraethu (yn cynnwys buddsoddiad cyfrifol), buddsoddiad lleol, a rheoli gwrthdaro buddiannau, a lle bo hynny'n briodol, gwneud argymhellion i'r Awdurdodau Cyfansoddol ynghylch unrhyw newidiadau y pennir eu bod yn angenrheidiol;

**4** Gweithredu unrhyw brosesau neu bolisïau sydd wedi'u neilltuo iddo o fewn y Cytundeb hwn;

**5** Sicrhau bod y Gweithgor yn gweithredu o fewn ei gylch gwaith fel y nodir yng nghymal 5 ac Atodlen 8 y Cytundeb hwn;

**6** Darparu unrhyw ddadansoddiad neu sylwebaeth i'r Awdurdodau Cyfansoddol ar gyfrifon blynyddol sy'n berthnasol i'r Cydbwyllgor Llywodraethu;

**7** Monitro gweithrediad ac effeithiolrwydd y polisïau a ddisgrifir yn Atodlen 5 a chychwyn adolygiadau o'r rhain lle bo angen.**Error! Reference source not found.**

**8** Darparu a monitro'n barhaus yn erbyn amcanion, Cynllun Busnes a chyllidebau'r Gyfundrefn Buddsoddi ar y Cyd;

**9** Cymeradwyo ymatebion gan y Gyfundrefn Buddsoddi ar y Cyd mewn perthynas ag ymgynghoriadau neu faterion eraill yr ystyrir eu bod yn briodol;

**10** Gwneud argymhellion a darparu adborth (fel y bo'n berthnasol), i Gadeirydd y Fforwm Cyfranddalwyr mewn perthynas â materion y mae'r Fforwm Cyfranddalwyr i ymgynghori â'r Cydbwyllgor Llywodraethu arnynt ymhellach i gylch gorchwyl y Fforwm Cyfranddalwyr yn Atodlen 9.

**11** Ceisio cyngor gan ymgynghorwyr proffesiynol sydd wedi'u hawdurdodi a'u rheoleiddio ble bo angen;

**12** Cytuno ar y Cynllun Busnes i'w gyflwyno i'r Awdurdodau Cyfansoddol er cymeradwyaeth;

13 Adrodd i'r Awdurdodau Cyfansoddol bob chwarter (ac unrhyw adeg arall yr ystyria'r Cydbwyllgor Llywodraethu'n angenrheidiol) ar y materion o fewn eu cylch gwaith yn cynnwys monitro parhaus y Cynllun Busnes;

14 Cytuno ar feini prawf ar gyfer gwerthuso cynigion neu dendrau ar gyfer unrhyw gaffael darparwr neu gynghorydd i'r Cydbwyllgor Llywodraethu;

15 Bydd unrhyw gyfeiriad yn yr atodlen hwn i'r Cydbwyllgor Llywodraethu i gymryd unrhyw gamau gan gynnwys cytuno, cymeradwyo neu wneud argymhellion, yn cael ei benderfynu yn unol â'r darpariaethau pleidleisio a nodir yn Atodlen 6.**Error! Reference source not found.**

## **Atodlen 5**

Polisïau a Gweithdrefnau

Bydd y Cydbwyllgor Llywodraethu, gyda chefnogaeth y GS, yn cynhyrchu ac yn adolygu'n barhaus y polisïau a gweithdrefnau llywodraethu ar gyfer y Gyfundrefn Buddsoddi ar y Cyd sy'n cynnwys (ond, er mwyn osgoi amheuaeth, nid yw'n rhestr gynhwysfawr):

(a) (a) Polisi Buddsoddi Cyfrifol

(b) Polisi Hinsawdd

(c) Polisi Stiwardiaeth

(d) Polisi Hyfforddiant

(e) Polisi Cyfathrebu

(f) Matrics Penderfyniadau Llywodraethu

(g) Polisi Risg a Chofrestr Risg

(h) Polisi Gwrthdaro Buddiannau a Gweithdrefnau

(i) Polisi Cwynion

(j) Polisi Canu'r Gloch

(k) Polisi Toriadau a Chamgymeriadau

(l) Cynllun Parhad Busnes

## Atodlen 6

Gweithdrefnau'r Cydbwyllgor Llywodraethu

**1 AELODAETH**

1.1 Bydd Aelodaeth y Cydbwyllgor Llywodraethu yn cynnwys un Aelod o bob Awdurdod Cyfansoddol ac un Aelod Cyfetholedig.

1.2 Ni chaniateir eilyddion ac eithrio dirprwyon.

**1A SWYDDOGAETH YR AELOD CYFETHOLEDIG**

1A.1 Prif swyddogaeth yr Aelod Cyfetholedig yw cynrychioli cynllun yr aelodau ar y Cydbwyllgor Llywodraethu.

1A.2 Mae gan yr Aelod Cyfetholedig yr hawl i fynychu holl gyfarfodydd y Cydbwyllgor Llywodraethu, gan gynnwys eitemau eithriedig, i dderbyn copïau o'r holl bapurau, ac i siarad ar unrhyw eitem yn ystod cyfarfodydd y Cydbwyllgor Llywodraethu.

1A.3 Gall yr Aelod Cyfetholedig ofyn i'r Cadeirydd gynnwys unrhyw fater ar y rhaglen yr ystyriant y dylid ei drafod gan y Cydbwyllgor Llywodraethu.

**2 CYFARFODYDD**

2.1 Cynhelir cyfarfodydd o leiaf ddwywaith y flwyddyn ddinesig (sef Mai i Fai). Cytunir ar amserlen arfaethedig y cyfarfodydd a'r lleoliadau ble cânt eu cynnal cyn cychwyn y Flwyddyn Ariannol ddilynol a dim hwyrach na chyfarfod olaf y Flwyddyn Ariannol gyfredol.

2.2 Gellir cynnal cyfarfodydd ar amser ac mewn lleoliad yr ystyria Cadeirydd y Cydbwyllgor Llywodraethu yn addas. Caiff y Cydbwyllgor Llywodraethu benderfynu caniatáu i gyfarfodydd o'r fath gael eu cynnal o bell (yn gyfan gwbl neu'n rhannol) drwy fideo-gynadledda neu unrhyw gyfrwng tebyg yn ddarostyngedig i'r gyfraith berthnasol ac o ystyried unrhyw ganllawiau perthnasol a gyhoeddir o bryd i'w gilydd gan Lywodraeth Cymru ac, pan ganiateir gan y gyfraith berthnasol, bydd unrhyw Aelod neu Aelod Cyfetholedig sy'n mynychu drwy fideo-gynadledda yn cael ei ystyried yn bresennol yn y cyfarfod at ddibenion yr Atodlen hon. Bydd yr Awdurdodau Cyfansoddol yn sicrhau bod lleoliad addas ar gael er mwyn cynnal cyfarfodydd o'r fath yn gyhoeddus gan gynnwys darparu gwasanaethau cyfieithu ar y pryd, fideo-gynadledda a gweddarlledu lle bo hynny'n briodol.

2.3 Bydd pob rhaglen, crynodebau gweithredol o adroddiad a chofnodion mewn perthynas â'r Cydbwyllgor yn Gymraeg ac yn Saesneg, a bydd gwasanaeth cyfieithu ar y pryd ar gael ym mhob cyfarfod o'r Cydbwyllgor Llywodraethu.

2.4 Gellir galw cyfarfod o'r Cydbwyllgor Llywodraethu gan swyddog priodol yr Awdurdod Lletya ar gais y Cadeirydd. Rhaid i Aelodau, Aelodau Cyfetholedig, swyddogion neu'r sawl a enwebir

gan y Gweithgor i gyflwyno adroddiadau, ddatgan unrhyw fuddiannau sy'n gwrthdaro yng nghyswllt unrhyw fusnes a gynhelir yn y cyfarfod a fyddai'n debygol o gael ei ystyried i fod yn rhagfarnu gweithrediad rôl rhywun fel aelod o'r cyfarfod.

2.5 Mae'r Cadeirydd yn gyfrifol am redeg y cyfarfodydd. Bydd y Cadeirydd yn gwahodd yr Aelodau a'r Aelod Cyfetholedig i fynegi dymuniad i siarad yn eu tro. Bydd yr holl drafodaethau a'r dadleuon yn cael eu cynnal drwy'r Gadair a gall y Cadeirydd symud trafodaeth i bleidlais unrhyw bryd os yw'n ystyried bod pob Aelod a'r Aelod Cyfetholedig wedi cael cyfle teg i siarad.

2.6 Cedwir cofnodion o'r holl gyfarfodydd. Bydd y Cadeirydd yn llofnodi cofnodion y trafodaethau yn y cyfarfod nesaf addas.

2.7 Rhybudd o gyfarfodydd

(a) Bydd rhybudd o gyfarfod, sy'n nodi lleoliad, dyddiad ac amser y cyfarfod ac yn cynnwys datganiad o'r materion i'w trafod yn y cyfarfod, yn cael ei anfon at holl Aelodau'r Cydbwyllgor Llywodraethu a'r Aelodaeth Cyfetholedig gan y swyddog llywodraethu priodol o'r Awdurdod Lletya;

(b) Yn ddarostyngedig i gymal 2.7(c), rhoddir rhybudd am bob cyfarfod, copïau o'r rhaglen ac unrhyw adroddiadau i'w cyflwyno yn y cyfarfod i'r holl Awdurdodau Cyfansoddol gan yr Awdurdod Lletya ddim hwyrach na 5 diwrnod gwaith cyn dyddiad y cyfarfod. Bydd yr Awdurdodau Cyfansoddol yn sicrhau y rhoddir lleiafswm o bum diwrnod gwaith o rybudd o'r holl gyfarfodydd yn unol â'u trefnau arferol o hysbysu am gyfarfodydd y Cyngor a bydd yr holl bapurau ar gael ym mhrif swyddfeydd pob un o'r Awdurdodau Cyfansoddol i'w harchwilio am y pum diwrnod hynny oni bai eu bod wedi'u nodi'n gyfrinachol; yn yr achos hwnnw dim ond rhaglenni ac eitemau nad ydynt wedi'u nodi'n gyfrinachol fydd ar gael. 2.7(c)

(c) Os oes gofyn cynnal cyfarfod gyda llai na 5 diwrnod gwaith o rybudd, rhaid i'r Cadeirydd gytuno fod ei angen ar frys, cymeradwyo'r cyfnod rhybudd byrrach a chaniatáu i gymaint o rybudd â phosib gael ei roi. Dylid rhoi rhybudd yn yr un modd, a dylai'r dogfennau fod ar gael i'r holl Awdurdodau Cyfansoddol am gymaint o ddyddiau ag sy'n ymarferol cyn y cyfarfod.

2.8 Eithrio'r cyhoedd a’r wasg

(a) Os yw unrhyw eitem i'w thrafod yn cynnwys gwybodaeth eithriedig, bydd y Cadeirydd yn cynnig eithrio'r cyhoedd a'r wasg o'r cyfarfod yn ystod y drafodaeth a'r bleidlais ar yr eitem honno. Caniateir i'r Aelod Cyfetholedig barhau yn y cyfarfod ac ni fydd yn cael ei eithrio. Nid oes angen i gynigion i eithrio'r wasg a'r cyhoedd gael eu heilio ac fe'u pennir drwy bleidlais fwyafrif syml gan yr Aelodau sy'n bresennol.

(b) Os yw'r wasg a'r cyhoedd wedi'u heithrio dan (a) uchod, gall y Cadeirydd wahodd unrhyw un i aros yn y cyfarfod os yw'n ystyried bod gwneud hynny'n angenrheidiol neu'n briodol a thybir bod unrhyw aelod o'r Gweithgor sy'n bresennol wedi'i wahodd i aros oni bai bod y Cadeirydd yn nodi'n wahanol.

(c) Gellir eithrio unrhyw un o gyfarfod neu ei orfodi i adael cyfarfod os, ym marn y Cadeirydd, ei fod yn aflonyddu ar rediad y cyfarfod ac nad yw wedi peidio â gwneud hynny yn dilyn cais; neu os yw rhywun mor aflonyddgar y byddai ei ymddygiad, pe bai'n cael aros, yn atal y cyfarfod rhag bwrw ymlaen mewn modd teg a derbyniol.

2.9 Gall y Cydbwyllgor Llywodraethu, drwy'r Gadair, wahodd unrhyw un i siarad mewn cyfarfod.

2.10 Gellir gofyn cwestiynau i swyddogion o'r Gweithgor, neu'r sawl a enwebir gan y Gweithgor, sy'n cyflwyno adroddiadau i'r Cydbwyllgor Llywodraethu yn dilyn cyflwyniad o'r fath.

2.11 Mae gan swyddogion Adran 151 a Swyddogion Monitro (ac yn eu habsenoldeb, eu dirprwyon) unrhyw Awdurdod Cyfansoddol hawl i fynychu'r holl gyfarfodydd yn cynnwys unrhyw ran o unrhyw gyfarfod sydd wedi'i gau i'r cyhoedd a'r wasg.

**3 CWORWM**

3.1 Chwe Aelod fydd y cworwm.

3.2 Os nad oes cworwm yn bresennol o fewn 15 munud i ddechrau'r cyfarfod, ac os nad yw'r Cadeirydd wedi cael gwybod bod un neu fwy o Aelodau wedi cael eu hoedi ond y byddant yn bresennol, ni chynhelir y cyfarfod a gofynnir i'r Awdurdod Lletya ail-drefnu a rhoi rhybudd am gyfarfod newydd.

3.3 Os nad oes cworwm yn bresennol yn ystod unrhyw gyfarfod, bydd y cyfarfod yn cael ei ohirio ar unwaith. Os nad yw'r Cadeirydd wedi gallu canfod o fewn 15 munud y gellir adfer y cworwm, ystyrir y busnes sy'n weddill ar ddyddiad ac amser arall i'w drefnu gan y Cadeirydd.

**4 CADEIRYDD AC IS-GADEIRYDD**

4.1 Bydd y Cadeirydd a'r Is-gadeirydd yn Aelodau a gaiff eu penodi drwy bleidlais am dymor o 12 mis calendr.

4.2 Yn absenoldeb y Cadeirydd, bydd gan yr Is-gadeirydd hawl i weithredu holl swyddogaethau'r Cadeirydd.

4.3 Bydd penderfyniad Cadeirydd y cyfarfod ar yr holl bwyntiau o drefn a bydd dehongliad y Cadeirydd o unrhyw reol yn yr atodlen hon yn derfynol ac ni ellir cynnal unrhyw ddadl wedi hynny. Bydd gan y Cadeirydd hawl i dderbyn cyngor gan swyddog llywodraethu wrth ddehongli unrhyw reol neu wrthwynebiad ar drefn.

4.4 Gall swyddog llywodraethu, swyddog monitro neu swyddog A151 gynorthwyo'r Cadeirydd yn ystod cyfarfodydd ar faterion trefniadaethol ynghyd ag unrhyw swyddogion gweinyddol y mae'r Cadeirydd yn eu hystyried yn briodol. Bydd gan y swyddogion llywodraethu ac ysgrifenyddol hyn yr hawl i aros yn y cyfarfod os caiff y cyhoedd a'r wasg eu heithrio.

**5 RHAGLEN**

5.1 Bydd rhaglen yn cael ei chynhyrchu cyn bob cyfarfod gan yr Awdurdod Lletya yn dilyn ymgynghoriad gyda'r Cadeirydd.

5.2 Bydd rhaglen pob cyfarfod yn cynnwys, fel y brif eitem gyntaf, cymeradwyo cofnodion y cyfarfod blaenorol. Bydd y Cadeirydd yn cynnig y gellir llofnodi cofnodion y cyfarfod blaenorol fel cofnod cywir. Yr unig ran o'r cofnodion blaenorol y gellir ei thrafod yw eu cywirdeb a bydd unrhyw faterion sy'n codi o'r cofnodion blaenorol hynny yn cael eu hystyried yn eitemau newydd ar raglen y cyfarfod cyfredol.

5.3 Gall y Gweithgor a'r Awdurdodau Cyfansoddol ofyn i'r Cadeirydd gynnwys unrhyw fater ar y rhaglen yr ystyriant y dylid ei drafod gan y Cydbwyllgor Llywodraethu.

5.4 Y Cadeirydd fydd yn penderfynu p'un a yw am ganiatáu trafodaeth ar unrhyw fater arall nad yw ar raglen cyfarfod yn y cyfarfod hwnnw.

**6 CYNIGION**

6.1 Gall unrhyw Aelod wneud cynnig. Rhaid i bob cynnig gael ei eilio. Bydd cynigon a wrthwynebir yn cael eu rhoi i bleidlais yn unol â darpariaethau pleidleisio'r atodlen hon.

6.2 Gall Aelod neu Aelod Cyfetholedig godi mater o drefn ar unrhyw adeg. Bydd y Cadeirydd yn gwrando arnynt ar unwaith. Gall pwynt o drefn gyfeirio at honiad o dorri darpariaethau'r Atodlen hon, neu'r gyfraith neu awdurdod cymwys arall, yn unig. Rhaid i'r Aelod neu Aelod Cyfetholedig nodi pa ddarpariaeth neu gyfraith neu reoliad ac ym mha ffordd y creda y mae wedi'i d/thorri. Bydd penderfyniad y Cadeirydd ar y mater yn derfynol. Gall y Cadeirydd dderbyn cyngor ar y pwynt o drefn gan y swyddog monitro.

**7 PLEIDLEISIO**

7.1 Gall y Cadeirydd ofyn am gonsensws lle bo hynny'n bosib; fodd bynnag, os bydd angen pleidlais, bydd darpariaethau'r adran hon yn berthnasol.

7.2 Bydd gan bob Aelod sy'n bresennol un bleidlais ac fe bleidleisir drwy godi llaw, neu unrhyw ddull arall y mae'r Cadeirydd yn penderfynu sy'n addas yn yr amgylchiadau, gan gynnwys trwy alw enwau. Ni chaniateir i'r Aelod Cyfetholedig bleidleisio. Os digwydd i'r pleidleisiau fod yn gyfartal, bydd gan y Cadeirydd ail bleidlais neu bleidlais fwrw.

7.3 Gwneir yr holl benderfyniadau drwy fwyafrif syml yr Aelodau sy'n bresennol.

7.4 Os cymerir pleidlais, cofnodir safbwynt pleidleisio ac unrhyw ymatal gan aelodau yn y cofnodion.

**8 IS-BWYLLGORAU A GWEITHGORAU**

8.1 Bydd y Cydbwyllgor Llywodraethu yn ffurfio unrhyw is-bwyllgorau a gweithgorau y mae'n eu hystyried yn fanteisiol i ymgymryd â'i rôl. Ar adeg ffurfio is-bwyllgorau neu weithgorau, bydd y Cydbwyllgor Llywodraethu yn gosod cylch gorchwyl yr is-bwyllgorau neu'r gweithgorau, yr hyn y mae gofyn i'r is-bwyllgorau neu'r gweithgorau eu darparu ac amserlen gwneud hynny. Caniateir i'r Aelod Cyfetholedig fod yn aelod o unrhyw is-bwyllgor neu weithgor.

8.2 Bydd gan is-bwyllgorau a gweithgorau hawl i wneud cais am fewnbwn a chefnogaeth gan y Gweithgor yn yr un modd â'r Cydbwyllgor Llywodraethu.

8.3 Bydd pob is-bwyllgor a gweithgor yn penodi cadeirydd ar gyfer yr is-bwyllgor neu'r gweithgor hwnnw, a fydd yn un o Aelodau'r is-bwyllgor neu'r gweithgor.

8.4 Gall gweithgorau wahodd unrhyw un nad yw'n Aelod neu'n Aelod Cyfetholedig i ymuno â'r grŵp er mwyn cynorthwyo wrth ymgymryd â'i swyddogaeth.

8.5 Bydd Cadeiryddion is-bwyllgorau a gweithgorau yn adrodd i'r Cydbwyllgor Llywodraethu ym mhob cyfarfod o'r pwyllgor hwnnw ar gynnydd y materion o fewn eu cylch gwaith.

8.6 Gellir dod ag is-bwyllgorau a gweithgorau i ben unrhyw bryd ar bleidlais y Cydbwyllgor Llywodraethu.

8.7 Bydd darpariaethau paragraffau 5-7 (Rhaglen, Cynigion a Phleidleisio) o'r Atodlen hon yn gymwys i unrhyw gyfarfodydd is-bwyllgor a gweithgor.

## Atodlen 7

TUPE

**DIFFINIADAU**

1.1 Mae’r diffiniadau a ganlyn yn berthnasol yn yr Atodlen hon:

Golyga "**Deddfwriaeth Diogelu Data**" Deddf Diogelu Data 1998, Cyfarwyddeb Diogelu Data (95/46/EC), Deddf Rheoleiddio Pwerau Ymchwilio 2000, Telecommunications (Lawful Business Practice) (Interception of Communications) Regulations 2000, Cyfarwyddeb Diogelu Data Cyfathrebiadau Electronig (2002/58/EC), Privacy and Electronic Communications (EC Directive) Regulations 2003 a'r holl gyfreithiau a rheoliadau perthnasol sy'n ymwneud â phrosesu data personol a phreifatrwydd, yn cynnwys, ble bo hynny'n berthnasol, y canllawiau a'r codau ymarfer a gyhoeddir gan y Comisiynydd Gwybodaeth.

Golyga "**Gweithwyr sy’n Trosglwyddo Disgwyliedig**" y personél hynny yn y Cyngor Lletya y disgwylia'r Cyngor Lletya yn rhesymol iddynt fod yn Weithwyr sy'n Trosglwyddo.

Golyga "**Awdurdod Lletya Olynol**" unrhyw Awdurdod Cyfansoddol perthnasol sy'n darparu gwasanaethau sydd yr un peth ag unrhyw rai o Wasanaethau'r Awdurdod Lletya (yn uniongyrchol neu'n anuniongyrchol), neu sy'n debyg iawn, yn dilyn terfynu neu ddiwedd y Cytundeb hwn neu derfynu darpariaeth unrhyw rai o Wasanaethau'r Awdurdod Lletya gan y Awdurdod Lletya.

Golyga "**Personél yr Awdurdod Lletya**" yr unigolion a gyflogir gan yr Awdurdod Lletya neu sy'n gysylltiedig ag ef, neu unrhyw un arall wrth ddarparu Gwasanaethau'r Awdurdod Lletya dan y Cytundeb hwn o bryd i'w gilydd.

Golyga "**Gwasanaethau'r Awdurdod Lletya**" y gwasanaethau i'w darparu gan yr Awdurdod Lletya dan y Cytundeb hwn fel y disgrifir yn fanylach yng nghymal 7.8

Golyga "**Costau Diswyddo**" unrhyw dâl rhybudd (yn cynnwys tâl yn lle rhybudd), tâl gwyliau a thaliadau diswyddo statudol a/neu dan gontract.

Golyga "**Is-gontractwr**" unrhyw un y gellir is-gontractio'r gwaith o ddarparu unrhyw rai o Wasanaethau’r Awdurdod Lletya iddo gan yr Awdurdod Lletya.

Golyga "**Dyddiad Trosglwyddo Dilynol**" y dyddiad pryd bydd cyfrifoldeb am ddarparu Gwasanaethau'r Awdurdod Lletya, neu unrhyw ran o Wasanaethau'r Awdurdod Lletya, yn trosglwyddo o'r Awdurdod Lletya i'r Awdurdod Lletya Olynol.

Golyga "**Gweithiwr sy'n Trosglwyddo**" unigolyn y mae ei gontract cyflogaeth yn weithredol o'r Dyddiad Trosglwyddo Dilynol ac wedi hynny, drwy weithredu TUPE, fel pe bai'r gwreiddiol wedi'i wneud rhwng yr unigolyn hwnnw a'r Awdurdod Lletya Olynol.

## 2 DIM TROSGLWYDDO WRTH GYCHWYN

2.1 Mae'r Awdurdodau Cyfansoddol yn cytuno na fydd cychwyn y Cytundeb hwn na gweithredu unrhyw rai o'r trefniadau a gynhwysir o'i fewn yn arwain at **"drosglwyddo perthnasol**" o fewn ystyr TUPE ar neu o gwmpas y Dyddiad Cychwyn.

## 3 GWYBODAETH I WEITHWYR AM DERFYNU

3.1 Yn amodol ar Ddeddfwriaeth Diogelu Data, yn ystod y cyfnod o ddeuddeg mis yn arwain at ddiwedd y Cytundeb hwn, neu unrhyw bryd wedi i'r Awdurdod Lletya roi rhybudd i dynnu'n ôl o'r Gyfundrefn Buddsoddi ar y Cyd neu unrhyw bryd ar ôl i'r Awdurdod Lletya roi'r gorau i ddarparu unrhyw rai o Wasanaethau'r Awdurdod Lletya:

(a) bydd yr Awdurdod Lletya yn datgelu i'r Awdurdod Lletya Olynol fanylion am nifer, oed ac amodau a thelerau cyflogaeth yn ymwneud ag unrhyw Bersonél yr Awdurdod Lletya a glustnodwyd i ddarparu Gwasanaethau'r Awdurdod Lletya neu unrhyw ran o Wasanaethau'r Awdurdod Lletya, a hynny o fewn 28 diwrnod i gais rhesymol gan yr Awdurdod Lletya Olynol;

(b) ni fydd yr Awdurdod Lletya ac, os yw'n berthnasol, bydd yn nodi na fydd unrhyw Is-Gontractwr yn amrywio amodau a thelerau cyflogaeth neu ymglymiad yn faterol unrhyw Bersonél Awdurdod Lletya, ac eithrio yn ystod busnes arferol, nac yn adleoli, yn disodli nac yn diswyddo unrhyw Bersonél Awdurdod Lletya, nac yn cyflogi nac yn ymglymu unrhyw unigolyn ychwanegol wrth ddarparu Gwasanaethau'r Awdurdod Lletya, heb dderbyn caniatâd ysgrifenedig ymlaen llaw gan yr Awdurdod Lletya Olynol (ni ddylai'r caniatâd hwn gael ei ddal yn ôl na'i oedi'n afresymol).

## 4 ENILLION

Bydd yr holl daliadau pae, cyflog, bonws a chomisiwn, cyfraniadau i gynlluniau pensiwn, hawl i dâl gwyliau ac unrhyw enillion eraill (p'un ai'n rhai ariannol neu fel arall), cyfraniadau treth ac yswiriant gwladol yn ymwneud â'r Gweithwyr sy'n Trosglwyddo yn cael eu talu neu eu hysgwyddo gan yr Awdurdod Lletya (neu Is-gontractwr) yng nghyswllt y cyfnod cyn y Dyddiad Trosglwyddo Dilynol (a bydd yr Awdurdod Lletya yn cael y taliadau hyn gan unrhyw Is-gontractwr) a chan yr Awdurdod Lletya Olynol wedi hynny (a bydd yr Awdurdodau Cyfansoddol yn cael taliad o'r fath gan unrhyw Awdurdod Lletya Olynol), a gwneir yr holl ddosraniadau angenrheidiol.

## 5 CYDYMFFURFIO AC INDEMNIAD

5.1 Bydd yr Awdurdod Lletya, os yw'n berthnasol, yn nodi y bydd unrhyw Is-Gontractwr yn:

(a) cydymffurfio â'i/â'u rhwymedigaethau i roi gwybod i'r Gweithwyr sy'n Trosglwyddo Disgwyliedig, ac yn ymgynghori â nhw, yn unol â Rheoliad 13 TUPE;

(b) gwneud ymdrechion rhesymol i gytuno gyda'r Darparwr Gwasanaeth Olynol ac yn cyflwyno datganiad ar y cyd addas i'r Gweithwyr sy'n Trosglwyddo Disgwyliedig cyn y Dyddiad Trosglwyddo Dilynol, ynghylch y bwriad i drosglwyddo eu cyflogaeth i'r Awdurdod Lletya Olynol ar y Dyddiad Trosglwyddo Dilynol; ac yn

(c) rhoi mynediad i weithwyr yr Awdurdod Lletya Olynol i'r Gweithwyr sy'n Trosglwyddo Disgwyliedig cyn y Dyddiad Trosglwyddo Disgwyliedig fel y gallai'r Awdurdod Lletya Olynol fod ei angen yn rhesymol er dibenion ymgynghori neu weithredu trosglwyddiad effeithiol Gwasanaethau'r Awdurdod Lletya a'r Gweithwyr sy'n Trosglwyddo o'r Dyddiad Trosglwyddo Dilynol.

5.2 Bydd yr Awdurdod Lletya yn indemnio ac yn parhau i indemnio'r Awdurdod Lletya Olynol yn erbyn yr holl ac unrhyw gostau, treuliau, atebolrwydd, iawndal a cholledion a ddaw yn sgil neu yng nghyswllt unrhyw hawliad, gorchymyn neu gamau gweithredu a wneir neu a ddygir yn erbyn yr Awdurdod Lletya Olynol yng nghyswllt:

(a) cyflogi neu derfynu cyflogaeth unrhyw Weithiwr sy'n Trosglwyddo yn ystod y cyfnod rhwng y Dyddiad Trosglwyddo Dilynol; neu

(b) methiant neu fethiant honedig yr Awdurdod Lletya i gydymffurfio â'i rwymedigaethau dan Reoliad 13 TUPE, ac eithrio i'r graddau bod unrhyw fethiant neu fethiant honedig o'r fath o ganlyniad i fethiant gan yr Awdurdod Lletya Olynol i gydymffurfio â'i rwymedigaethau dan Reoliad 13(4) TUPE.

5.3 Os gwneir hawliad neu honiad gan unrhyw un nad yw'n Weithiwr sy'n Trosglwyddo ("**Gweithiwr sy'n Trosglwyddo heb ei Ddatgelu**") y mae ei gontract cyflogaeth wedi'i weithredu, neu y dylai fod wedi'i weithredu fel pe bai wedi'i wneud yn wreiddiol rhyngddo ef a'r Awdurdod Lletya Olynol drwy weithredu neu honiad o weithredu TUPE:

(a) bydd yr Awdurdod Lletya Olynol yn rhoi gwybod i'r Awdurdod Lletya yn ysgrifenedig cyn gynted ag sy'n rhesymol ymarferol am unrhyw hawl neu honiad o'r fath ac yna bydd yr Awdurdod Lletya Olynol yn caniatáu i'r Awdurdod Lletya (neu unrhyw Is-gontractwr perthnasol) gael cyfnod o 10 diwrnod gwaith i ymgynghori gydag unrhyw Weithiwr sy'n Trosglwyddo heb ei Ddatgelu ynghylch ei hawliad neu ei honiad;

(b) bydd yr Awdurdod Lletya Olynol yn cydweithredu neu'n rhoi cymorth i'r Awdurdod Lletya (neu unrhyw Is-gontractwr perthnasol) y gall yr Awdurdod Lletya (neu'r Is-gontractwr perthnasol) fod eu hangen yn rhesymol;

(c) os, yn dilyn y cyfnod o 10 diwrnod gwaith y cyfeiriwyd ato ym mharagraff 4.3(a) uchod, yw unrhyw Weithiwr sy'n Trosglwyddo heb ei Ddatgelu yn parhau i honni fod ei gontract cyflogaeth wedi'i weithredu neu dylai fod wedi'i weithredu fel pe bai wedi'i wneud yn wreiddiol rhyngddo ef a'r Awdurdod Lletya Olynol, gall yr Awdurdod Lletya Olynol, o fewn cyfnod pellach o 20 diwrnod gwaith (neu gyfnod tebyg arall fel y cytunir yn ysgrifenedig rhwng yr Awdurdod Lletya a'r Awdurdod Lletya Olynol), gyflwyno rhybudd i derfynu cyflogaeth neu gyflogaeth honedig y Gweithiwr sy'n Trosglwyddo heb ei Ddatgelu a hynny ar unwaith; a

(d) yn amodol ar gydymffurfiaeth yr Awdurdod Lletya Olynol â pharagraff 5.3, bydd yr Awdurdod Lletya yn indemnio a pharhau i indemnio'r Awdurdod Lletya Olynol yn erbyn yr holl ac unrhyw gostau, treuliau, atebolrwydd, iawndal a cholledion a ddaw yn sgil neu yng nghyswllt unrhyw hawliad, gorchymyn neu gamau gweithredu a wneir neu a ddygir gan unrhyw Weithiwr sy'n Trosglwyddo heb ei Ddatgelu yng nghyswllt unrhyw symiau a dalwyd neu sy'n daladwy i Weithiwr sy'n Trosglwyddo heb ei Ddatgelu hyd at ddyddiad terfynu cyflogaeth neu gyflogaeth honedig Gweithiwr sy'n Trosglwyddo heb ei Ddatgelu, ac yng nghyswllt unrhyw derfynu o'r fath.

5.4 Bydd yr Awdurdod Lletya Olynol yn indemnio ac yn parhau i indemnio'r Awdurdod Lletya (ar ei gyfer ei hun ac ar gyfer unrhyw Is-gontractwyr) yn erbyn yr holl ac unrhyw gostau, treuliau, atebolrwydd, iawndal a cholledion a ddaw yn sgil neu yng nghyswllt unrhyw hawliad, gorchymyn neu gamau gweithredu a wneir neu a ddygir:

(a) gan unrhyw Weithiwr sy'n Trosglwyddo yng nghyswllt unrhyw weithred neu esgeulustod gan yr Awdurdod Lletya Olynol ar neu ar ôl y Dyddiad Trosglwyddo Dilynol a/neu yng nghyswllt unrhyw ddigwyddiadau neu amgylchiadau yn ymwneud â chyflogi neu derfynu cyflogaeth unrhyw Weithiwr sy'n Trosglwyddo sy'n digwydd neu sy'n codi ar y Dyddiad Trosglwyddo Dilynol neu ar ôl hynny;

(b) yng nghyswllt unrhyw fethiant neu fethiant honedig yr Awdurdod Lletya Olynol i gydymffurfio â'i rwymedigaeth dan Reoliad 13 TUPE; neu

(c) yng nghyswllt unrhyw newid sylweddol a wneir neu a gynigir gan yr Awdurdod Lletya Olynol yn amodau gwaith unrhyw Weithiwr sy'n Trosglwyddo, neu unrhyw unigolyn a fyddai wedi bod yn Weithiwr sy'n Trosglwyddo ond mae ei gyflogaeth wedi'i derfynu cyn y Dyddiad Trosglwyddo Dilynol, os yw'r newid hwnnw er colled i'r Gweithiwr(wyr) sy'n Trosglwyddo neu unigolyn(ion) hynny.

## 6 COSTAU DISWYDDO

6.1 Bydd yr Awdurdodau Cyfansoddol yn indemnio ac yn parhau i indemnio'r Awdurdod Lletya (ar ei gyfer ei hun ac ar gyfer unrhyw Is-gontractwyr) ar sail ar y cyd ac ar wahân, yn erbyn yr holl ac unrhyw Gostau Diswyddo a ddaw yn sgil neu yng nghyswllt unrhyw hawliad, gorchymyn neu gamau gweithredu a wneir neu a ddygir yn erbyn yr Awdurdod Lletya (neu Is-gontractwr) a ddaw yn sgil neu yng nghyswllt terfynu neu honiad o derfynu cyflogaeth unrhyw Bersonél Awdurdod Lletya drwy ddiswyddo o fewn chwe mis i'r Dyddiad Trosglwyddo Dilynol, ble nad yw cyflogaeth personél yr Awdurdod Lletya yn trosglwyddo i'r Awdurdod Lletya Olynol (dan TUPE neu fel arall) ar stopio darparu unrhyw neu holl Wasanaethau Awdurdod Lletya, a bwrw bod yr Awdurdod Lletya, neu'n cael unrhyw Is-gontractwr, i wneud pob ymdrech i:

(a) liniaru swm unrhyw Gostau Diswyddo o'r fath;

(b) chwilio am gyflogaeth amgen o fewn sefydliad yr Awdurdod Lletya neu'r Awdurdodau Cyfansoddol (neu, os yw'n berthnasol, yr Is-gontractwr), ac os yw ar gael, ei chynnig i unrhyw Bersonél yr Awdurdod Lletya sydd mewn perygl o gael ei ddiswyddo neu bydd yn rhoi cyfle rhesymol i Bersonél yr Awdurdod Lletya hwnnw dderbyn unrhyw gynnig o'r fath o gyflogaeth amgen cyn terfynu cyflogaeth Personél yr Awdurdod Lletya hwnnw; ac i

(c) gydymffurfio ag unrhyw rwymedigaethau statudol perthnasol.

## Atodlen 8

Cylch gwaith y Gweithgor Swyddogion

Bydd cylch gwaith y Gweithgor yn cynnwys:

**1** cynnig i'r Cydbwyllgor Llywodraethu a chaffael gofynion cefnogaeth allanol (yn cynnwys cefnogaeth gyfreithiol, llywodraethu, trethiant a chefnogaeth ariannol arall) sy'n berthnasol i'r Gyfundrefn Buddsoddi ar y Cyd;

**2** cynigion i'r Cydbwyllgor Llywodraethu ar drefniadau llywodraethu, yn cynnwys sut fydd IMCo yn cael ei ddal i gyfrif drwy gyfeirio at ei berfformiad i'r Awdurdodau Cyfansoddol fel cleientiaid (ar sail gyffredin yn hytrach nag unigol);

**3** herio a chyfrannu at ddatblygu'r Gyfundrefn Buddsoddi ar y Cyd er mwyn galluogi i'r Gyfundrefn Buddsoddi ar y Cyd a'r Cydbwyllgor Llywodraethu gyflawni'i nod;

**4** monitro ac adolygu perfformiad IMCo wrth gyflawni ei amcanion, ei lefelau gwasanaeth a'i ddangosyddion perfformiad allweddol ac adrodd i'r Cydbwyllgor Llywodraethu o fewn yr adroddiadau chwarterol ac ar achlysuron eraill fel sydd angen;

**5** derbyn adroddiadau ar berfformiad IMCo ac adrodd i'r Cydbwyllgor Llywodraethu;

**6** ystyried a gwneud argymhellion i'r Cydbwyllgor Llywodraethu mewn perthynas â'r Cynllun Busnes, paratoi Cynllun Busnes drafft i'w ystyried gan y Cydbwyllgor Llywodraethu, ymgynghori ar y drafft cymeradwy ac adrodd ar ddeilliannau ymgynghoriad o'r fath yn cynnwys cynnig unrhyw ddiwygiadau i'r drafft i'r Cydbwyllgor Llywodraethu;

**7** ceisio cyngor gan ymgynghorwyr proffesiynol sydd wedi'u hawdurdodi a'u rheoleiddio gan awdurdodau cymwys;

**8** sefydlu is-grwpiau a/neu weithgorau o'r GS os yw'r GS yn ystyried y byddai is-grŵp neu weithgor o'r fath yn cynorthwyo ag effeithlonrwydd y GS i wneud cynnydd â phrosiect neu ffrwd gwaith penodol;

**9** adolygu, creu neu werthuso trefniadau a pholisïau llywodraethu ar gyfer y Gyfundrefn Buddsoddi ar y Cyd (gan gynnwys, er mwyn osgoi amheuaeth, y polisïau a'r gweithdrefnau a ddisgrifir yn Atodlen 5);

**10** cyswllt ac ymgysylltu â chadeiryddion neu gynrychiolwyr enwebedig y Byrddau Pensiwn;

**11** cyswllt ac ymgysylltu ag IMCo ar faterion o fewn cylch gorchwyl y Cydbwyllgor Llywodraethu;

**12** cynnig i'r Cydbwyllgor Llywodraethu adborth neu argymhellion a awgrymir ar faterion y mae angen i'r Fforwm Cyfranddalwyr ymgynghori â'r Cydbwyllgor Llywodraethu arnynt ymhellach i gylch gorchwyl y Fforwm Cyfranddalwyr yn Atodlen 9;

13 unrhyw faterion eraill y bydd y Cydbwyllgor Llywodraethu yn gofyn amdanynt neu'n eu dirprwyo i'r Gweithgor.

**Atodlen 9 Fforwm Cyfranddalwyr – Cylch Gorchwyl**

Fforwm Cyfranddalwyr – Cylch Gorchwyl

**1 AELODAETH**

1.1 Bydd aelodaeth y Fforwm Cyfranddalwyr yn cynnwys hyd at ddau gynrychiolydd o bob Awdurdod Cyfansoddol, a fydd yn swyddogion a gyflogir gan yr Awdurdod Cyfansoddol hwnnw, a bennir gan bob Awdurdod Cyfansoddol sy'n gweithredu yn unol â'u gofynion cyfansoddiadol a'u prosesau dirprwyo cymwys.

1.2 Caiff y cynrychiolydd swyddog ar gyfer pob Awdurdod Cyfansoddol enwebu un neu ragor o gynrychiolwyr i fynychu unrhyw gyfarfod o'r Fforwm Cyfranddalwyr yn lle neu ochr yn ochr â'r cynrychiolydd penodedig o Awdurdod Cyfansoddol.

**2 PWRPAS Y FFORWM CYFRANDDALWYR**

2.1 Pwrpas y Fforwm Cyfranddalwyr yw fel y prif fforwm ar gyfer ymgynghori a thrafod mewn perthynas â materion a gedwir i'r Awdurdodau Cyfansoddol yn eu swyddogaeth fel cyfranddalwyr yn IMCo a materion llywodraethu perthynol dan y Cytundeb Cyfranddalwyr.

2.2 Mae'r Awdurdodau Cyfansoddol yn fuddsoddwyr unigol yn IMCo. Bydd gan bob Awdurdod Cyfansoddol ddirprwyaethau lleol ar waith i alluogi i'w gynrychiolwyr Fforwm Cyfranddalwyr bleidleisio yng nghyfarfodydd cyfranddalwyr IMCo (ar wahân i'r Fforwm Cyfranddalwyr) ac i benderfynu ar faterion o dan y Cytundeb Cyfranddalwyr.

2.3 Yn amodol ar ofynion cyfansoddiadol pob Awdurdod Cyfansoddol, bydd gan bob Awdurdod Cyfansoddol hefyd ddirprwyaethau lleol ar waith i alluogi i'w gynrychiolwyr Fforwm Cyfranddalwyr bleidleisio yng nghyfarfodydd y Fforwm Cyfranddalwyr.

**3 RÔL A SWYDDOGAETH**

3.1 Bydd y Fforwm Cyfranddalwyr yn dadlau, yn trafod ac yn rhoi adborth i IMCo ar faterion sy'n berthnasol i gyfranddalwyr fel y nodir yn yr Atodlen hon. Bydd eitemau busnes blynyddol yn cynnwys, ond heb fod yn gyfyngedig i:

(a) materion a gedwir dan y Cytundeb Cyfranddalwyr;

(b) newidiadau i'r trefniadau llywodraethu ar gyfer IMCo;

(c) penodi cyfarwyddwyr i IMCo (gan gynnwys, er mwyn osgoi amheuaeth, cyfarwyddwyr a benodwyd fel cynrychiolwyr cyfranddalwyr i fwrdd IMCo);

(d) amcanion busnes a chanlyniadau IMCo gan gynnwys mesurau perfformiad allweddol; ac

(e) ystyried materion sy'n gofyn am awdurdodiad gan yr Awdurdodau Cyfansoddol fel cyfranddalwyr yn IMCo.

3.2 Bydd y Fforwm Cyfranddalwyr yn gwneud cais i IMCo am y wybodaeth ariannol sy'n angenrheidiol i roi gwybod i bob Awdurdod Cyfansoddol am sut mae busnes IMCo yn perfformio. Gall gwybodaeth o'r fath gynnwys:

(a) cyfrifon rheoli chwarterol;

(b) cyfrifon blynyddol heb eu harchwilio;

(c) cyfrifon blynyddol wedi'u harchwilio;

(d) y gyllideb ar gyfer IMCo;

(e) y cynllun busnes ar gyfer IMCo; ac

(f) adroddiad ar gynnydd IMCo yn erbyn amcanion / cerrig milltir / mesurau perfformiad allweddol yn nodi unrhyw gynllun busnes ar gyfer IMCo.

3.3 Bydd y Fforwm Cyfranddalwyr yn gwneud cais i IMCo ac yn ystyried gwybodaeth arall sy'n ymwneud â gweithrediadau a rheolaeth IMCo gan gynnwys ond heb fod yn gyfyngedig i:

(a) strwythurau staffio;

(b) newidiadau mewn personél allweddol;

(c) rheolaethau mewnol;

(d) materion cydymffurfio a rheoleiddio;

(e) adborth a chwynion cleientiaid; ac

(f) arolygon staff.

3.4 Bydd y Fforwm Cyfranddalwyr yn defnyddio ymdrechion rhesymol i gynnal ymgynghoriad ystyrlon â'r Cydbwyllgor Llywodraethu, a bydd yn rhoi sylw i farn ac argymhellion y Cydbwyllgor Llywodraethu, cyn i'r Awdurdodau Cyfansoddol gymeradwyo'r cynllun busnes a'r gyllideb ar gyfer IMCo (neu unrhyw ddiwygiadau dilynol i'r cynllun busnes a'r gyllideb).

3.5 Bydd y Fforwm Cyfranddalwyr yn defnyddio ymdrechion rhesymol i gynnal ymgynghoriad ystyrlon â'r Cydbwyllgor Llywodraethu ar "Faterion a Gedwir" (o fewn y diffiniad a nodir yn y Cytundeb Cyfranddalwyr) a materion perthnasol eraill y mae'r Fforwm Cyfranddalwyr o'r farn eu bod yn berthnasol i'r Cylch Gorchwyl ar gyfer y Cydbwyllgor, a rhoi sylw i'r safbwyntiau a'r argymhellion y Cydbwyllgor Llywodraethu lle bo'n ymarferol cyn pob Awdurdod Cyfansoddol (yn ei rinwedd fel cyfranddaliwr yn IMCo) yn gwneud penderfyniad ar y pwnc.

## 4 CADEIRYDD AC IS-GADEIRYDD

4.1 Bydd y Cadeirydd a’r Is-gadeirydd yn gynrychiolwyr enwebedig o bob Awdurdod Cyfansoddol yn unol â pharagraff 1.1 a chaiff bob un ei benodi drwy bleidlais am dymor o 12 mis calendr.

4.2 Yn absenoldeb y Cadeirydd, bydd gan yr Is-gadeirydd hawl i weithredu holl swyddogaethau'r Cadeirydd.

4.3 Bydd penderfyniad Cadeirydd y cyfarfod ar yr holl bwyntiau o drefn a bydd dehongliad y Cadeirydd o unrhyw reol yn yr atodlen hon yn derfynol ac ni ellir cynnal unrhyw ddadl wedi hynny. Bydd gan y Cadeirydd hawl i dderbyn cyngor gan swyddog llywodraethu wrth ddehongli unrhyw reol neu wrthwynebiad ar drefn.

4.4 Gall swyddog llywodraethu gynorthwyo'r Cadeirydd yn ystod cyfarfodydd ar faterion trefniadaethol ynghyd ag unrhyw swyddogion gweinyddol y mae'r Cadeirydd yn eu hystyried yn briodol. Bydd gan y swyddogion llywodraethu ac ysgrifenyddol hyn yr hawl i aros yn y cyfarfod.

## 5 CWORWM

5.1 Bydd y cworwm yn bum cynrychiolydd enwebedig (yn unol â pharagraff 1.1) o chwe Awdurdod Cyfansoddol ar wahân.

5.2 Os nad oes cworwm yn bresennol o fewn 15 munud i ddechrau'r cyfarfod, ac os nad yw'r Cadeirydd wedi cael gwybod bod un neu fwy o'r Awdurdodau Cyfansoddol wedi cael eu hoedi ond y byddant yn bresennol, ni chynhelir y cyfarfod.

5.3 Os nad oes cworwm yn bresennol yn ystod unrhyw gyfarfod, bydd y cyfarfod yn cael ei ohirio ar unwaith. Os nad yw'r Cadeirydd wedi gallu canfod o fewn 15 munud y gellir adfer y cworwm, ystyrir y busnes sy'n weddill ar ddyddiad ac amser arall i'w drefnu gan y Cadeirydd.

## 6 CYFARFODYDD

6.1 Cynhelir cyfarfodydd o leiaf ddwywaith y flwyddyn.

6.2 Gellir cynnal cyfarfodydd ar amser ac mewn lleoliad yr ystyria'r Cadeirydd yn addas. Gellir cynnal cyfarfodydd o'r fath o bell (yn gyfan gwbl neu'n rhannol) drwy fideo-gynadledda neu unrhyw gyfrwng tebyg. Pennir bod unrhyw Awdurdod Cyfansoddol sy'n mynychu drwy fideo-gynadledda yn bresennol yn y cyfarfod er dibenion yr Atodlen hon.

6.3 Mae'r Cadeirydd yn gyfrifol am redeg y cyfarfodydd. Bydd y Cadeirydd yn gwahodd yr Awdurdodau Cyfansoddol i fynegi dymuniad i siarad yn eu tro. Bydd yr holl drafodaethau a'r dadleuon yn cael eu cynnal drwy'r Gadair a gall y Cadeirydd symud trafodaeth i bleidlais unrhyw bryd os yw'n ystyried bod pob Awdurdod Cyfansoddol wedi cael cyfle teg i siarad.

6.4 Cedwir cofnodion o'r holl gyfarfodydd. Bydd y Cadeirydd yn llofnodi cofnodion y trafodaethau yn y cyfarfod nesaf addas.

6.5 Nid yw cyfarfodydd y Fforwm Cyfranddalwyr wedi'u cyfansoddi o dan adrannau 101 neu 102 o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972 ac felly nid ydynt yn cael eu hystyried yn gyfarfodydd cyhoeddus o'r Awdurdodau Cyfansoddol. Nid yw'r cyfarfodydd yn gwneud penderfyniadau ac eithrio mewn perthynas â Chadeirydd y Fforwm Cyfranddalwyr, cymeradwyaeth cylch gorchwyl y Fforwm Cyfranddalwyr o dan yr Atodlen hon ac wrth gyflawni rhwymedigaethau'r Fforwm Cyfranddalwyr o dan baragraffau 3.4 a 3.5.

6.6 Rhybudd o gyfarfodydd

(a) Bydd rhybudd o gyfarfod, sy'n nodi lleoliad, dyddiad ac amser y cyfarfod ac yn cynnwys datganiad o'r materion i'w trafod yn y cyfarfod, yn cael ei anfon at holl Aelodau'r Cydbwyllgor Llywodraethu gan y Cadeirydd;

(b) Yn ddarostyngedig i gymal 6.6(c), rhoddir rhybudd am bob cyfarfod, copïau o'r rhaglen ac unrhyw adroddiadau i'w cyflwyno yn y cyfarfod i'r holl Awdurdodau Cyfansoddol gan y Cadeirydd ddim hwyrach na 5 diwrnod gwaith cyn dyddiad y cyfarfod. (c)

(c) Os oes gofyn cynnal cyfarfod gyda llai na 5 diwrnod gwaith o rybudd, rhaid i'r Cadeirydd gytuno fod ei angen ar frys, cymeradwyo'r cyfnod rhybudd byrrach a chaniatáu i gymaint o rybudd â phosib gael ei roi. Dylid rhoi rhybudd yn yr un modd, a dylai'r dogfennau fod ar gael i'r holl Awdurdodau Cyfansoddol am gymaint o ddyddiau ag sy'n ymarferol cyn y cyfarfod.

## 7 PLEIDLEISIO

7.1 Gall y Cadeirydd ofyn am gonsensws lle bo hynny'n bosib; fodd bynnag, os bydd angen pleidlais, bydd darpariaethau'r paragraff 7 hwn yn berthnasol. 7

7.2 Bydd gan bob Awdurdod Cyfansoddol sy'n bresennol un bleidlais ac fe bleidleisir drwy godi llaw, neu unrhyw ddull arall y mae'r Cadeirydd yn penderfynu sy'n addas yn yr amgylchiadau, gan gynnwys trwy alw enwau. Os digwydd i’r pleidleisiau fod yn gyfartal, bydd gan y Cadeirydd ail bleidlais neu bleidlais fwrw.

7.3 Gwneir yr holl benderfyniadau drwy fwyafrif syml o'r Awdurdodau Cyfansoddol sy'n bresennol.

7.4 Os cymerir pleidlais, cofnodir safbwynt pleidleisio ac unrhyw ymatal gan aelodau yn y cofnodion.

7.5 Er mwyn osgoi amheuaeth, ni fydd y Fforwm Cyfranddalwyr yn gwneud penderfyniadau ar faterion y mae'n ofynnol i'r Awdurdodau Cyfansoddol benderfynu arnynt ymhellach i delerau'r Cytundeb Cyfranddalwyr.

Cyflawnwyd y ddogfen hon fel gweithred ac fe gaiff ei chyflwyno a daw i rym ar y dyddiad a nodir ar ddechrau'r ddogfen.

| | |
|---|---|
| **SÊL GYFFREDIN** | ) |
| Cyngor Sir Gâr | ) |
| a osodwyd yma | ) |
| yng ngŵydd:- | ) |

Swyddog Awdurdodedig

| | |
|---|---|
| **SÊL GYFFREDIN** | ) |
| Cyngor Dinas a Sir Abertawe | ) |
| a osodwyd yma | ) |
| yng ngŵydd:- | ) |

Swyddog Awdurdodedig

| | |
|---|---|
| **SÊL GYFFREDIN** | ) |
| Cyngor Caerdydd | ) |
| a osodwyd yma | ) |
| yng ngŵydd:- | ) |

Swyddog Awdurdodedig

| | |
|---|---|
| **SÊL GYFFREDIN** | ) |
| Cyngor Sir y Fflint | ) |
| a osodwyd yma | ) |
| yng ngŵydd:- | ) |

Cadeirydd / Rheolwr Gwasanaethau Cyfreithiol / Prif Swyddog Llywodraethu

| | |
|---|---|
| **SÊL GYFFREDIN** | ) |
| Cyngor Gwynedd | ) |
| a osodwyd yma | ) |
| yng ngŵydd:- | ) |

Swyddog Awdurdodedig

| | |
|---|---|
| **SÊL GYFFREDIN** | ) |
| Cyngor Sir Powys | ) |
| a osodwyd yma | ) |
| yng ngŵydd:- | ) |

Swyddog Awdurdodedig

| | |
|---|---|
| **SÊL GYFFREDIN** | ) |
| Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf | ) |
| a osodwyd yma | ) |
| yng ngŵydd:- | ) |

Swyddog Awdurdodedig

| | |
|---|---|
| **SÊL GYFFREDIN** | ) |
| Cyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen | ) |
| a osodwyd yma | ) |
| yng ngŵydd:- | ) |

Swyddog Awdurdodedig

| | |
|---|---|
| **Cyfarfod:** | Y Cyngor |
| **Dyddiad:** | 5 Mawrth 2026 |
| **Teitl:** | Diwygiadau i Gôd Ymddygiad yr Aelodau a Pholisi Chwythu'r Chwiban y Cyngor |
| **Awdur:** | Iwan G D Evans – Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol – Swyddog Monitro |
| **Pwrpas:** | I argymell bod y Cyngor yn mabwysiadu'r diwygiadau statudol i Egwyddorion Ymddygiad yr Aelodau a Chod Ymddygiad Aelodau<br><br>Derbyn Gwybodaeth am Ddiwygiadau i'r Cyfansoddiad |

**Cefndir**

**Diwygiadau i'r Egwyddorion Ymddygiad a Chod Ymddygiad yr Aelodau**

Cyflwynodd Rheoliadau Llywodraeth Leol (Pwyllgorau Safonau ac Ymddygiad Aelodau) (Diwygiadau Amrywiol) (Cymru) 2025 a ddaeth i rym ar y 5ed o Ionawr 2026 gyfres o ddiwygiadau i'r trefniadau mewn perthynas â phwy y caniateir ei benodi'n Aelod Annibynnol o'r Pwyllgor Safonau a diwygiodd ddarpariaethau Egwyddorion Ymddygiad a Chod Ymddygiad yr Aelodau hefyd .

O dan Adran 51 o Ddeddf Llywodraeth Leol 2000, mae'n ofynnol i'r Cyngor fabwysiadu Cod Ymddygiad ar gyfer Aelodau ac i fabwysiadu unrhyw ddiwygiadau o fewn 6 mis i'r dyddiad y caiff eu gwneud.:

> “2(2) It is the duty of a relevant authority, before the end of the period of six months beginning with the day on which any subsequent order under section 50 which applies to them is made, to pass a resolution–
> (a) adopting a code of conduct in place of their existing code of conduct under this section, or
> (b) revising their existing code of conduct under this section.”

Amlygir y diwygiadau yn Atodiad 1. Gofynnir i'r Cyngor eu mabwysiadu'n ffurfiol yn unol â'r gofyniad statudol. Gofynnir i'r Cyngor hefyd awdurdodi'r diwygiadau yn y Weithdrefn Datrys Lleol i gyd-fynd â'r Cod Ymddygiad lle cyfeirir at y darpariaethau hyn.

**Polisi Canu’r Gloch**

Yn ei gyfarfod ar yr 20fed o Ionawr 2026, mabwysiadodd y Cabinet Bolisi Canu’r Gloch diwygiedig yn ffurfiol. Gan fod y Polisi Canu’r Gloch wedi'i gynnwys yn y Cyfansoddiad, byddaf yn disodli'r polisi blaenorol yn y Cyfansoddiad cyhoeddedig yn unol er mwyn adlewyrchu'r penderfyniad hwn. Yn ôl yr angen, rwy'n adrodd ar y newid hwn i'r Cyngor Llawn am wybodaeth. Mae'r Polisi wedi'i atodi yn Atodiad 2.

Adroddiad Cabinet - Polisi Canur Gloch.pdf

**Ceisio penderfyniad**

1. **Gofynnir i'r Cyngor fabwysiadu y diwygiadau I'r Egwyddorion Ymddygiad a'r Cod Ymddygiad Aelodau yn unol â'r gofyniad statudol. Gofynnir i'r Cyngor hefyd awdurdodi'r Swyddog Monitro i ddiwygio'r Weithdrefn Datrys Lleol i gyd-fynd â'r Cod Ymddygiad lle cyfeirir at y darpariaethau hyn.**

2. **Mae'r nodi cynnwys y Polisi Canu'r Gloch diwygiedig yn y Cyfansoddiad.**

**Swyddog Monitro**

Awdur yr adroddiad

**Prif Swyddog Cyllid**

Dim gwrthwynebiad i'r penderfyniad a geisir o safbwynt priodoldeb ariannol."

## 18. CÔD YMDDYGIAD AELODAU

### 18.1 YR EGWYDDORION

Mae Gorchymyn Ymddygiad Aelodau (Egwyddorion)(Cymru) 2001 yn nodi'r egwyddorion sydd i lywodraethu ymddygiad aelodau awdurdod perthnasol yng Nghymru. Dyma nhw:-

18.1.1 **ANHUNANOLDEB**

Mae'n rhaid i Aelodau weithredu er budd y cyhoedd yn unig. Mae'n rhaid iddynt beidio byth â defnyddio eu safle fel Aelodau i roi mantais amhriodol i'w hunain nac i roi mantais neu anfantais amhriodol i eraill.

18.1.2 **GONESTRWYDD**

Mae'n rhaid i Aelodau ddatgan unrhyw fuddiannau preifat sy'n berthnasol i'w dyletswyddau cyhoeddus a chymryd camau i ddatrys unrhyw wrthdaro mewn ffordd sy'n diogelu budd y cyhoedd.

18.1.3 **UNIONDEB A GWEDDUSTER**

Mae'n rhaid i Aelodau beidio â'u rhoi eu hunain mewn sefyllfa lle y gallai unrhyw rwymedigaeth ariannol neu rwymedigaeth arall i unigolion neu sefydliadau a allai geisio dylanwadu arnynt o ran cyflawni eu dyletswyddau godi amheuon ynglŷn â'u huniondeb. Mae'n rhaid i Aelodau osgoi ymddygiad sy'n ymddangos felly ar bob achlysur.

18.1.4 **DYLETSWYDD I GYNNAL Y GYFRAITH**

Mae'n rhaid i Aelodau weithredu i gynnal y gyfraith, a gweithredu ar bob achlysur yn unol â'r ymddiriedaeth y mae'r cyhoedd wedi'i rhoi ynddynt.

18.1.5 **STIWARDIAETH**

Wrth gyflawni eu dyletswyddau a'u cyfrifoldebau, mae'n rhaid i Aelodau sicrhau bod adnoddau eu hawdurdod yn cael eu defnyddio'n gyfreithlon ac yn ochelgar.

18.1.6 **GWRTHRYCHEDD WRTH WNEUD PENDERFYNIADAU**

Wrth gyflawni eu cyfrifoldebau, gan gynnwys gwneud penodiadau, dyfarnu contractau, neu argymell unigolion ar gyfer gwobrwyon a buddiannau, mae'n rhaid i Aelodau wneud penderfyniadau ar sail teilyngdod. Er bod yn rhaid i Aelodau ystyried cyngor proffesiynol gan swyddogion ac y gallai fod yn briodol iddynt roi sylw i safbwyntiau pobl eraill, gan gynnwys eu grwpiau gwleidyddol, eu cyfrifoldeb hwy yw penderfynu pa safbwynt i'w arddel ac, os yw'n briodol, sut i bleidleisio ar unrhyw fater.

18.1.7 **CYDRADDOLDEB A PHARCH**

Mae'n rhaid i Aelodau gyflawni eu dyletswyddau a'u cyfrifoldebau gan roi ystyriaeth briodol i'r angen i hyrwyddo cyfle cyfartal i bawb, waeth beth fo'u **nodweddion gwarchodedig neu eu hamgylchiadau economaidd-gymdeithaso** ~~lrhyw, hil, anabledd, cyfeiriadedd rhywiol, oedran neu grefydd~~, ~~a~~ dangos parch ac ystyriaeth tuag at bobl eraill.

18.1.8 **<u>BOD YN AGORED</u>**

Mae'n rhaid i Aelodau fod mor agored â phosibl ynglŷn â'u holl weithredoedd a gweithredoedd eu hawdurdod. Mae'n rhaid iddynt geisio sicrhau bod datgeliadau gwybodaeth yn cael eu cyfyngu yn unol â'r gyfraith yn unig.

18.1.9 **<u>ATEBOLRWYDD</u>**

Mae Aelodau'n atebol i'r etholaeth a'r cyhoedd yn gyffredinol am eu gweithredoedd ac am y ffordd y maent yn cyflawni eu cyfrifoldebau fel Aelodau. Mae'n rhaid iddynt fod yn barod i ildio i unrhyw graffu sy'n briodol i'w cyfrifoldebau.

18.1.10 **<u>ARWEINYDDIAETH</u>**

Mae'n rhaid i Aelodau hyrwyddo a chefnogi'r egwyddorion hyn trwy roi arweiniad ac esiampl er mwyn hybu hyder y cyhoedd yn eu rôl ac yn yr awdurdod. Mae'n rhaid iddynt barchu didueddrwydd ac uniondeb swyddogion statudol yr awdurdod a'i gyflogeion eraill.

**18.2 <u>DEHONGLIAD</u>**

18.2.1 Yn y côd hwn mae

"**aelodau cyfetholedig**" o ran awdurdod perthnasol, yn golygu unigolyn nad yw'n Aelod o'r awdurdod ond sy'n:

(a) Aelod o unrhyw un o bwyllgorau neu is-bwyllgorau'r awdurdod; neu'n

(b) Aelod o unrhyw un o gydbwyllgorau neu is-gydbwyllgorau'r awdurdod, ac yn cynrychioli'r awdurdod arnynt

ac sydd â hawl i bleidleisio ar unrhyw gwestiwn sydd i'w benderfynu mewn unrhyw gyfarfod o'r pwyllgor neu'r is-bwyllgor hwnnw.

"**cyfarfod**" yn golygu unrhyw gyfarfod:

(a) o'r awdurdod perthnasol;

(b) o unrhyw weithrediaeth neu fwrdd yn yr awdurdod perthnasol;

(c) o unrhyw bwyllgor, is-bwyllgor, cydbwyllgor neu is-gydbwyllgor yn yr awdurdod perthnasol neu unrhyw bwyllgor, is-bwyllgor, cydbwyllgor neu is-gydbwyllgor o'r fath yn unrhyw weithrediaeth neu fwrdd o'r awdurdod; neu

(ch) pan fo Aelodau neu Swyddogion yr awdurdod perthnasol yn bresennol heblaw mewn cyfarfod o grŵp gwleidyddol a ffurfiwyd yn unol â rheoliad 8 Rheoliadau Llywodraeth Leol (Pwyllgorau a Grwpiau Gwleidyddol) 1990, ac yn cynnwys amgylchiadau pryd y mae Aelod o weithrediaeth neu fwrdd neu Swyddog sy'n gweithredu ar ei ben/phen ei hun yn arfer un o swyddogaethau'r awdurdod;

"**Aelod**" yn cynnwys, oni bai bod y cyd-destun yn mynnu fel arall, aelod cyfetholedig.

"**Awdurdod perthnasol**" yn golygu:

(a) cyngor sir;

(b) cyngor bwrdeistref sirol;

(c) cyngor cymuned;

(ch) awdurdod tân ac achub a ffurfiwyd gan gynllun o dan Adran 2 Deddf Gwasanaethau Tân ac Achub 2004 neu gynllun y mae Adran 4 o'r Ddeddf honno'n berthnasol iddo;

(d) awdurdod Parc Cenedlaethol a sefydlwyd o dan Adran 63 Deddf yr Amgylchedd 1995.

"**chi**" yn golygu chi fel Aelod neu Aelod cyfetholedig o awdurdod perthnasol;

"**eich awdurdod**" yn golygu'r awdurdod perthnasol yr ydych chi'n Aelod neu'n Aelod cyfetholedig ohono.

mae i "**nodweddion gwarchodedig**" yr ystyr a roddir i "protected characteristics" yn adran 4 o Ddeddf Cydraddoldeb 2010

18.2.2 O ran cyngor cymuned, dylid cymryd bod cyfeiriadau at Swyddog Monitro awdurdod a phwyllgor safonau awdurdod, yn ôl eu trefn, yn cyfeirio at Swyddog Monitro a phwyllgor safonau'r cyngor sir neu'r cyngor bwrdeistref sirol sydd â swyddogaethau mewn perthynas â'r cyngor cymuned y mae'n gyfrifol amdano o dan Adran 56(2) Deddf Llywodraeth Leol 2000.

## 18.3 DARPARIAETHAU CYFFREDINOL

18.3.1 Ac eithrio lle mae paragraff 18.3.3. yn berthnasol, mae'n rhaid i chi gydymffurfio â'r cod ymddygiad hwn;

(a) pryd bynnag y byddwch yn cynnal busnes eich awdurdod neu'n bresennol mewn cyfarfod o'ch awdurdod;

(b) pryd bynnag y byddwch yn gweithredu, yn honni eich bod yn gweithredu neu'n rhoi'r argraff eich bod yn gweithredu yn rhinwedd rôl Aelod y cawsoch eich ethol neu'ch penodi iddi;

(c) pryd bynnag y byddwch yn gweithredu, yn honni eich bod yn gweithredu neu'n rhoi'r argraff eich bod yn gweithredu fel cynrychiolydd eich awdurdod; neu

(ch) bob amser ac mewn unrhyw swyddogaeth, mewn perthynas â'r ymddygiad a nodir ym mharagraffau 18.3.6(a) a 18.3.8.

18.3.2 Dylech ddarllen y côd hwn ynghyd â'r egwyddorion cyffredinol a bennir o dan Adran 49(2) Deddf Llywodraeth Leol 2000 o ran Cymru.

18.3.3 Pan gewch eich ethol, eich penodi neu eich enwebu gan eich awdurdod i wasanaethu:

(a) ar awdurdod perthnasol arall, neu unrhyw gorff arall, sy'n cynnwys awdurdod heddlu neu Fwrdd Iechyd Lleol, mae'n rhaid i chi, wrth weithredu ar ran yr awdurdod neu'r corff arall hwnnw, gydymffurfio â chôd ymddygiad yr awdurdod neu'r corff arall hwnnw; neu

(b) ar unrhyw gorff arall nad oes ganddo gôd yn ymwneud ag ymddygiad ei aelodau, mae'n rhaid i chi wrth weithredu ar ran y corff arall hwnnw, gydymffurfio â'r côd ymddygiad hwn, ac eithrio lle y mae'n gwrthdaro ag unrhyw rwymedigaethau, cyfreithlon eraill y gallai'r corff arall hwnnw fod yn ddarostyngedig iddynt.

18.3.4 Mae'n rhaid i chi:

(a) gyflawni eich dyletswyddau a'ch cyfrifoldebau gan roi ystyriaeth briodol i'r egwyddor y dylai fod cyfle dob i bawb, waeth beth fo'u **nodweddion gwarchodedig neu eu hamgylchiadau economaidd-gymdeithasol** ~~**rhyw, hil, anabledd, cyfeiriadedd rhywiol, oedran neu grefydd;**~~

(b) dangos parch at bobl eraill ac ystyriaeth iddynt;

(c) peidio â bwlio nac aflonyddu unrhyw unigolyn; a

(ch) pheidio â gwneud unrhyw beth sy'n peryglu, neu sy'n debygol o beryglu, didueddrwydd y rhai hynny sy'n gweithio i'ch awdurdod neu ar ran eich awdurdod.

18.3.5 Mae'n rhaid i chi beidio â

(a) datgelu gwybodaeth gyfrinachol neu wybodaeth y dylid ystyried yn rhesymol ei bod o natur gyfrinachol, heb ganiatâd penodol unigolyn sydd ag awdurdod i roi caniatâd o'r fath, neu oni bai fod yn rhaid i chi wneud hynny o dan y gyfraith;

(b) atal unrhyw unigolyn rhag cael mynediad at wybodaeth y mae gan yr unigolyn hwnnw hawl iddi o dan y gyfraith.

18.3.6 Mae'n rhaid i chi:

(a) beidio ag ymddwyn mewn ffordd y gellid ystyried yn rhesymol ei bod yn dwyn anfri ar eich swydd neu'r awdurdod;

(b) adrodd pa un ai drwy weithdrefn adrodd gyfrinachol eich awdurdod neu'n uniongyrchol i'r awdurdod priodol, am unrhyw ymddygiad gan aelod arall neu unrhyw un sy'n gweithio i'ch awdurdod neu ar ei ran ac y mae'n rhesymol i chi gredu ei fod yn golygu neu'n debygol o olygu ymddygiad troseddol (nad yw, at ddibenion y paragraff hwn, yn cynnwys tramgwyddau neu ymddygiad y gellid eu cosbi trwy gosb benodedig);

(c) adrodd i Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru a Swyddog Monitro eich awdurdod am unrhyw ymddygiad gan aelod arall y mae'n rhesymol i chi gredu ei fod yn torri'r côd ymddygiad hwn;

(ch) peidio â gwneud cwynion blinderus, maleisus neu wacsaw yn erbyn aelodau eraill neu unrhyw un sy'n gweithio i'ch awdurdod neu ar ran eich awdurdod.

18.3.7 Mae'n rhaid i chi gydymffurfio ag unrhyw gais gan Swyddog Monitro eich awdurdod, neu Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru mewn perthynas ag ymchwiliad a gynhelir yn unol â'u pwerau statudol unigol.

18.3.8 Mae'n rhaid i chi:

(a) yn rhinwedd eich swydd neu fel arall, beidio â defnyddio neu geisio defnyddio eich safle yn amhriodol i roi neu sicrhau mantais i chi eich hun, neu i unrhyw unigolyn arall, neu i greu neu osgoi anfantais i chi eich hun, neu i unrhyw unigolyn arall;

(b) peidio â defnyddio adnoddau eich awdurdod, nac awdurdodi pobl eraill i'w defnyddio:

(i) yn annoeth;

(ii) yn groes i ofynion eich awdurdod;

(iii) yn anghyfreithlon;

(iv) ac eithrio mewn dull a fwriedir i hwyluso neu ffafrio cyflawni swyddogaethau'r awdurdod neu'r swydd y cawsoch eich ethol neu eich penodi iddi;

(v) yn amhriodol at ddibenion gwleidyddol; neu

(vi) yn amhriodol at ddibenion preifat.

18.3.9 Mae'n rhaid i chi:

(a) wrth gymryd rhan mewn cyfarfodydd neu wneud penderfyniadau ynglŷn â busnes eich awdurdod, wneud hynny ar sail rhinweddau'r amgylchiadau dan sylw ac er budd y cyhoedd gan ystyried unrhyw

gyngor perthnasol a roddwyd gan swyddogion eich awdurdod, ac yn enwedig gan:

(i) Brif Weithredwr yr awdurdod;

(ii) Prif Swyddog Cyllid yr awdurdod;

(iii) Swyddog Monitro'r awdurdod;

(iv) Prif Swyddog Cyfreithiol yr awdurdod (y dylid ymgynghori ag ef/hi pan fo unrhyw amheuaeth ynglŷn â phŵer yr awdurdod i weithredu, ynghylch pan un a yw'r camau arfaethedig o fewn y fframwaith polisi a gytunwyd gan yr awdurdod neu os gallai canlyniadau cyfreithiol weithredu neu fethiant i weithredu gan yr awdurdod arwain at ôl-effeithiau pwysig);

(b) rhoi rhesymau dros bob penderfyniad yn unol ag unrhyw ofynion statudol ac unrhyw ofynion rhesymol ychwanegol a osodwyd gan eich awdurdod.

18.3.10 Mae'n rhaid i chi:

(a) gydymffurfio â'r gyfraith a rheolau eich awdurdod sy'n llywodraethu hawlio treuliau a lwfansau mewn cysylltiad â'ch dyletswyddau fel aelod.

(b) osgoi derbyn unrhyw roddion oddi wrth neb, na lletygarwch (heblaw am letygarwch swyddogol, fel derbyniad dinesig neu ginio gwaith a awdurdodwyd yn briodol gan eich awdurdod), na buddiannau materol neu wasanaethau i chi eich hun neu unrhyw unigolyn a allai eich rhoi chi o dan rwymedigaeth amhriodol, neu ymddangos fel pe bai'n gwneud hynny.

**18.4 <u>BUDDIANNAU</u>**

18.4.1 <u>Buddiannau Personol</u>

(a) Mae'n rhaid i chi ystyried, ym mhob mater, pa un a oes gennych chi fuddiant personol, a pha un a yw'r côd ymddygiad hwn yn mynnu eich bod yn datgelu'r buddiant hwnnw.

(b) Mae'n rhaid i chi ystyried bod gennych chi fuddiant personol mewn unrhyw fusnes y mae a wnelo eich awdurdod ag ef:

(i) os yw'n gysylltiedig â'r canlynol, neu'n debygol o effeithio arnynt:

(A) unrhyw gyflogaeth neu fusnes a gynhelir gennych chi;

(B) unrhyw unigolyn sy'n eich cyflogi neu sydd wedi eich penodi; unrhyw gwmni yr ydych chi'n bartner ynddo neu unrhyw gwmni yr ydych chi'n gyfarwyddwr taledig ar ei gyfer;

(C) unrhyw unigolyn, heblaw am eich awdurdod, sydd wedi rhoi taliad i chi mewn perthynas â'ch ethol neu unrhyw dreuliau a gafwyd gennych wrth gyflawni eich dyletswyddau fe aelod;

(CH) unrhyw gorff corfforaethol sydd â lle busnes neu dir yn ardal eich awdurdod, ac y mae gennych chi fuddiant llesiannol ynddo mewn dosbarth o warannau'r corff hwnnw sy'n fwy na gwerth enwol £25,000 neu ganfed ran o gyfanswm cyfalaf cyfrannau dyroddedig y corff hwnnw;

(D) unrhyw gontract ar gyfer nwyddau, gwasanaethau neu waith a wnaed rhwng eich awdurdod a chi eich hun neu gwmni yr ydych chi'n bartner ynddo, cwmni yr ydych chi'n gyfarwyddwr taledig ar ei gyfer neu gorff sy'n cyfateb i'r disgrifiad a roddir ym mharagraff CH uchod;

(DD) unrhyw dir y mae gennych chi fuddiant llesiannol ynddo sydd yn ardal eich awdurdod;

(E) unrhyw dir y mae eich awdurdod yn landlord ar ei gyfer ac y mae'r tenant yn gwmni yr ydych chi'n bartner ynddo, cwmni yr ydych chi'n gyfarwyddwr taledig ar ei gyfer, neu gorff sy'n cyfateb i'r disgrifiad a roddir ym mharagraff (CH) uchod;

(F) unrhyw gorff yr ydych wedi'ch ethol, eich penodi neu eich enwebu iddo gan eich awdurdod;

(FF) unrhyw:

1. awdurdod neu gorff cyhoeddus sy'n arfer swyddogaethau o natur gyhoeddus;

2. cwmni, cymdeithas ddiwydiannol neu ddarbodus, elusen, neu gorff sydd wedi'i gyfeirio at ddibenion elusennol;

3. corff y mae ei brif ddibenion yn cynnwys dylanwadu ar farn neu bolisi cyhoeddus;

4. undeb llafur neu gymdeithas broffesiynol; neu

5. glwb, cymdeithas neu fudiad preifat sy'n gweithredu yn ardal eich awdurdod

yr ydych chi'n aelod ohono/ohoni neu'n dal swydd reolaeth gyffredinol ynddo/ynddi;

(G) unrhyw dir yn ardal eich awdurdod y mae gennych chi drwydded (ar eich pen eich hun neu ar y cyd ag eraill), i'w feddiannu am 28 diwrnod neu gyfnod hwy;

(ii) Pe gallai aelod o'r cyhoedd ganfod yn rhesymol wrthdaro rhwng eich rôl wrth wneud penderfyniad, ynglŷn â'r busnes hwnnw, ar ran eich awdurdod yn gyffredinol a'ch rôl wrth gynrychioli buddiannau etholwyr yn eich ward neu adran etholiadol; neu

(iii) benderfyniad y gellid ystyried yn rhesymol ei fod yn effeithio ar:

(A) eich lles neu eich sefyllfa ariannol, neu les neu sefyllfa ariannol unigolyn yr ydych chi'n byw gydag ef/hi, neu unigolyn y mae gennych gysylltiad personol agos ag ef/hi;

(B) unrhyw gyflogaeth neu fusnes a gynhelir gan yr unigolion a ddisgrifir yn (A);

(C) unrhyw unigolyn sy'n cyflogi neu sydd wedi penodi'r cyfryw unigolion a ddisgrifir yn (A), unrhyw gwmni y maent yn bartner ynddo, neu unrhyw gwmni y maent yn gyfarwyddwr ar ei gyfer;

(CH) unrhyw gorff corfforaethol y mae gan yr unigolion a ddisgrifir yn (A) fuddiant llesiannol ynddo mewn dosbarth o warannau sy'n fwy na gwerth enwol £5,000; neu

(D) unrhyw gorff a restrir ym mharagraffau 18.4.1(b)(i)(FF)1 i 18.4.1(b)(i)(FF)5 y mae'r unigolion a ddisgrifir yn (A) yn dal swydd reolaeth gyffredinol ynddo, i raddau mwy na mwyafrif

1. yn achos awdurdod â wardiau neu adrannau etholiadol talwyr y dreth cyngor, trethdalwyr neu breswylwyr eraill y ward neu'r adran etholiadol, fel y bo'n berthnasol, y mae'r penderfyniad yn effeithio arnynt; neu

2. ym mhob achos arall, talwyr y dreth cyngor, trethdalwyr neu breswylwyr eraill ardal yr awdurdod.

18.4.2 <u>Datgelu Buddiannau Personol</u>

(a) Pan fydd gennych chi fuddiant personol mewn unrhyw fusnes y mae a wnelo eich awdurdod ag ef a'ch bod yn bresennol mewn cyfarfod lle mae'r busnes hwnnw'n cael ei ystyried, mae'n rhaid i chi ddatgelu ar lafar i'r cyfarfod hwnnw fodolaeth a natur y buddiant hwnnw cyn neu ar ddechrau'r ystyriaeth honno, neu pan ddaw'r buddiant yn amlwg.

(b) Pan fydd gennych chi fuddiant personol mewn unrhyw fusnes y mae a wnelo eich awdurdod ag ef a'ch bod yn cyflwyno:

(i) sylwadau ysgrifenedig (boed hynny trwy lythyr, ffacs neu ryw fath arall o gyfathrebu electroneg) i aelod neu swyddog o'ch awdurdod ynglŷn â'r busnes hwnnw, dylech gynnwys manylion y buddiant hwnnw yn y cyfathrebiad ysgrifenedig; neu

(ii) sylwadau ar lafar (boed hynny'n bersonol neu drwy ryw fath o gyfathrebu electroneg) i aelod neu swyddog o'ch awdurdod, dylech ddatgelu'r buddiant ar ddechrau sylwadau o'r fath, neu pan ddaw'n amlwg i chi bod gennych fuddiant o'r fath, a chadarnhau'r sylwadau a'r buddiant yn ysgrifenedig o fewn 14 diwrnod o wneud y sylwadau.

(c) Yn amodol ar baragraff 18.4.5(a)(ii) isod, pan fydd gennych chi fuddiant personol mewn unrhyw fusnes y mae a wnelo eich awdurdod ag ef a'ch bod wedi gwneud penderfyniad wrth arfer un o swyddogaethau gweithrediaeth neu fwrdd, mae'n rhaid i chi, o ran y busnes hwnnw, sicrhau bod unrhyw ddatganiad ysgrifenedig ynglŷn â phenderfyniad hwnnw yn cofnodi bodolaeth a natur eich buddiant.

(ch) Mae'n rhaid i chi, o ran buddiant personol na ddatgelwyd yn flaenorol, cyn neu'n union ar ôl diwedd cyfarfod lle y gwnaed y datgeliad yn unol â pharagraff 18.4.2(a) roi hysbysiad ysgrifenedig i'ch awdurdod yn unol ag unrhyw ofynion a nodir gan Swyddog Monitro eich awdurdod o bryd i'w gilydd ond sy'n cynnwys, o leiaf:

(i) fanylion y buddiant personol;

(ii) manylion y busnes y mae'r buddiant personol yn ymwneud ag ef;

(iii) llofnod.

(d) Pan fydd eich Swyddog Monitro yn cytuno bod y wybodaeth yn ymwneud â'ch buddiant personol yn wybodaeth sensitif, yn unol â pharagraff 18.5.2(a), bydd eich rhwymedigaethau o dan y paragraff 18.4.2 hwn i ddatgelu gwybodaeth o'r fath, boed hynny ar lafar neu'n ysgrifenedig, yn cael eu disodli gan rwymedigaeth i ddatgelu bodolaeth buddiant personol a chadarnhau bod eich Swyddog Monitro wedi cytuno bod natur y cyfryw fuddiant personol yn wybodaeth sensitif.

(dd) At ddibenion paragraff (ch), ystyrir bod buddiant personol wedi cael ei ddatgelu'n flaenorol dim ond os rhoddwyd hysbysiad ysgrifenedig yn unol â'r côd hwn ers y dyddiad diwethaf y cawsoch eich ethol, eich penodi neu eich enwebu'n aelod o'ch awdurdod.

(e) At ddibenion is-baragraff (c), os na roddwyd hysbysiad ysgrifenedig yn unol â'r paragraff hwnnw, ystyrir nad ydych wedi datgelu buddiant personol yn unol â'r côd hwn.

18.4.3 Buddiannau sy'n Rhagfarnu

(a) Yn amodol ar baragraff (b) isod, pan fydd gennych chi fuddiant personol mewn unrhyw fusnes y mae a wnelo eich awdurdod ag ef, bydd gennych hefyd fuddiant sy'n rhagfarnu yn y busnes hwnnw os yw'r buddiant yn un y byddai'n rhesymol i aelod o'r cyhoedd sy'n ymwybodol o'r ffeithiau perthnasol fod o'r farn ei fod mor arwyddocaol fel y bydd yn debygol o ragfarnu eich barn ynghylch budd y cyhoedd.

(b) Yn amodol ar baragraff (c), ni ystyrir bod gennych chi fuddiant sy'n rhagfarnu mewn unrhyw fusnes os yw'r busnes hwnnw:

(i) yn ymwneud â'r canlynol:

(A) awdurdod perthnasol arall yr ydych chi'n aelod ohono hefyd;

(B) awdurdod neu gorff cyhoeddus arall sy'n arfer swyddogaethau o natur gyhoeddus yr ydych chi'n dal swydd reolaeth gyffredinol ynddo;

(C) corff y cawsoch eich ethol, eich penodi neu eich enwebu iddo gan eich awdurdod;

(CH) eich rôl fel llywodraethwr ysgol (os na chawsoch eich penodi neu eich enwebu gan eich awdurdod) oni bai ei fod yn ymwneud yn benodol â'r ysgol yr ydych chi'n llywodraethwr ynddi;

(D) eich rôl fel aelod o Fwrdd Iechyd Lleol os na chawsoch eich penodi neu eich enwebu gan eich awdurdod;

(ii) yn ymwneud â'r canlynol:

(A) swyddogaethau tai eich awdurdod os oes gennych chi denantiaeth neu brydles gyda'ch awdurdod, ar yr amod nad oes gennych chi ôl-ddyledion rhent o fwy na dau fis gyda'ch awdurdod, ac ar yr amod nad yw'r swyddogaethau hynny'n ymwneud yn benodol â'ch tenantiaeth neu'ch prydles;

(B) swyddogaethau eich awdurdod o ran costau prydau ysgol, cludiant a theithio, os ydych chi'n warcheidwad, rhiant neu riant-cu neu'n meddu ar gyfrifoldeb rhiant (fel y'i diffinnir yn Adran 3 Deddf Plant 1989) am blentyn sydd mewn addysg amser llawn, oni bai ei fod yn ymwneud yn benodol â'r ysgol y mae'r plentyn hwnnw/honno'n mynd iddi;

(C) swyddogaethau eich awdurdod o ran tâl salwch statudol o dan Ran XI Deddf Cyfraniadau a Budd-daliadau Nawdd Cymdeithasol 1992, os ydych chi'n derbyn tâl o'r fath gan eich awdurdod neu os oes gennych chi hawl i'w dderbyn;

(CH) swyddogaethau eich awdurdod o ran lwfans neu daliad a wnaed o dan Adrannau 22(5), 24(4) a 173 i 176 Deddf Llywodraeth Leol 1972, lwfans neu bensiwn o dan Adran 18 Deddf Llywodraeth Leol a Thai 1989 neu lwfans neu daliad o dan Adran 100 Deddf Llywodraeth Leol 2000.

(iii) eich rôl fel cynghorydd cymuned o ran grant, benthyciad neu fath arall o gymorth ariannol a wnaed gan eich cyngor cymuned i sefydliad cymunedol neu wirfoddol hyd at uchafswm o £500.

(c) Nid yw'r eithriadau ym mharagraff 18.4.3(b)(i) yn berthnasol pan fo'r busnes yn ymwneud â phenderfynu ar unrhyw gymeradwyaeth, cydsyniad, trwydded, caniatâd neu gofrestriad.

18.4.4 Pwyllgorau Trosolwg a Chraffu

Bydd gennych hefyd fuddiant sy'n rhagfarnu mewn unrhyw fusnes a gyflwynir gerbron un o bwyllgorau trosolwg a chraffu eich awdurdod (neu un o is-bwyllgorau pwyllgor o'r fath) pan fo'r:

(a) busnes hwnnw'n ymwneud â phenderfyniad a wnaed (pa un a'i gweithredwyd ai peidio) neu gam a gymerwyd gan weithrediaeth neu fwrdd eich awdurdod neu un arall o bwyllgorau, is-bwyllgorau, cydbwyllgorau neu is-gydbwyllgorau eich awdurdod; ac

(b) ar yr adeg y gwnaed y penderfyniad neu y cymerwyd y cam, yr oeddech chi'n Aelod o'r weithrediaeth, bwrdd, pwyllgor is-bwyllgor, cydbwyllgor neu is-gydbwyllgor a grybwyllwyd ym mharagraff (a) ac yn bresennol pan wnaed y penderfyniad hwnnw neu y cymerwyd y cam hwnnw.

18.4.5 Cyfranogiad mewn perthynas â Buddiannau a Ddatgelwyd

(a) Yn amodol ar baragraffau (b), (c) ac (ch) pan fydd gennych chi fuddiant sy'n rhagfarnu mewn unrhyw fusnes y mae a wnelo eich awdurdod ag ef, mae'n rhaid i chi, oni bai eich bod wedi cael goddefeb gan bwyllgor safonau eich awdurdod:

(i) fynd allan o'r ystafell, y siambr neu'r man lle y mae cyfarfod sy'n ystyried y busnes yn cael ei gynnal:

(A) lle y mae paragraff (b) yn berthnasol, yn union ar ôl i'r cyfnod ar gyfer gwneud sylwadau, ateb cwestiynau neu roi tystiolaeth ynglŷn â'r busnes ddod i ben a, sut bynnag, cyn i ystyriaeth bellach o'r busnes ddechrau, pa un a ganiateir i'r cyhoedd aros yn y cyfarfod ar gyfer ystyriaeth o'r fath ai peidio; neu

(B) mewn unrhyw achos arall, pryd bynnag y daw'n amlwg bod y busnes yn cael ei ystyried yn y cyfarfod hwnnw;

(ii) peidio ag arfer swyddogaethau gweithrediaeth neu fwrdd o ran y busnes hwnnw;

(iii) peidio â cheisio dylanwadu ar benderfyniad ynglŷn â'r busnes hwnnw;

(iv) peidio â gwneud unrhyw sylwadau ysgrifenedig (boed hynny trwy lythyr, ffacs neu ryw fath arall o gyfathrebu electroneg) mewn perthynas â'r busnes hwnnw; a

(v) peidio â gwneud unrhyw sylwadau llafar (boed hynny'n bersonol neu drwy ryw fath o gyfathrebu electroneg) mewn perthynas â'r busnes hwnnw neu roi'r gorau ar unwaith i wneud sylwadau llafar o'r fath pan ddaw'r buddiant sy'n rhagfarnu i'r amlwg.

(b) Pan fydd gennych chi fuddiant sy'n rhagfarnu mewn unrhyw fusnes y mae a wnelo eich awdurdod ag ef, cewch fynychu cyfarfod er mwyn cyflwyno sylwadau, ateb cwestiynau neu roi tystiolaeth yn ymwneud â'r busnes yn unig, cyn belled ag y caniateir i'r cyhoedd fynychu'r cyfarfod hefyd at yr un diben, boed hynny o dan hawl statudol neu fel arall.

(c) Nid yw paragraff (a) yn eich atal rhag mynychu a chymryd rhan mewn cyfarfod:

(i) os y gofynnir i chi fynychu cyfarfod pwyllgor trosolwg a chraffu, gan bwyllgor o'r fath sy'n arfer ei bwerau statudol; neu

(ii) a oes gennych chi oddefeb cyn belled â'ch bod:

(A) yn datgan yn y cyfarfod eich bod yn dibynnu ar yr oddefeb; a

(B) cyn neu yn union ar ôl i'r cyfarfod orffen, eich bod yn rhoi hysbysiad ysgrifenedig i'ch awdurdod sy'n cynnwys:

1. manylion y buddiant sy'n rhagfarnu;

2. manylion y busnes y mae'r buddiant sy'n rhagfarnu yn ymwneud ag ef;

3. manylion yr oddefeb a'r dyddiad y'i caniatawyd arno; a'ch

4. llofnod.

(ch) Pan fydd gennych chi fuddiant sy'n rhagfarnu a'ch bod yn gwneud sylwadau ysgrifenedig neu lafar i'ch awdurdod gan ddibynnu ar oddefeb, mae'n rhaid i chi gynnwys manylion yr oddefeb mewn unrhyw sylwadau ysgrifenedig neu lafar o'r fath ac, yn yr achos

olaf, roi hysbysiad ysgrifenedig i'ch awdurdod o fewn 14 diwrnod o wneud y sylwadau.

**18.5 Y GOFRESTR BUDDIANNAU AELODAU**

18.5.1 Cofrestru Buddiannau Ariannol ac Eraill ac Aelodaeth a Swyddi Rheoli.

(a) Yn amodol ar is-baragraff (c) mae'n rhaid i chi o fewn 28 diwrnod o'r:

(i) adeg y caiff côd ymddygiad eich awdurdod ei fabwysiadu neu y caiff darpariaethau gorfodol y côd enghreifftiol hwn eu cymhwyso i'ch awdurdod; neu o'ch

(ii) etholiad neu benodiad i'r swydd (os yw hynny'n ddiweddarach),

gofrestru eich buddiannau ariannol a buddiannau eraill, pan fyddant yn dod o fewn categori a grybwyllwyd ym mharagraff 18.4.1(b)(i) yng nghofrestr eich awdurdod a gynhelir o dan Adran 81(1) Deddf Llywodraeth Leol 2000 trwy roi hysbysiad ysgrifenedig i Swyddog Monitro eich awdurdod.

(b) Mae'n rhaid i chi, o fewn 28 diwrnod o ddod yn ymwybodol o unrhyw fuddiant personol newydd neu newid i unrhyw fuddiant personol a gofrestrwyd o dan baragraff (a), gofrestru'r buddiant personol newydd hwnnw neu'r newid hwnnw i fuddiant personol trwy roi hysbysiad ysgrifenedig i Swyddog Monitro eich awdurdod.

(c) Nid yw paragraffau (a) a (b) yn berthnasol i wybodaeth sensitif a bennwyd un unol â pharagraff 18.5.2(a).

(ch) Ni fydd paragraff (a) yn berthnasol os ydych chi'n aelod o awdurdod perthnasol sy'n gyngor cymuned pan fyddwch yn gweithredu yn rhinwedd eich swydd fel aelod o awdurdod o'r fath.

18.5.2 Gwybodaeth Sensitif

(a) Pan fyddwch o'r farn bod y wybodaeth yn ymwneud ag unrhyw un o'ch buddiannau personol yn wybodaeth sensitif a bod Swyddog Monitro eich awdurdod yn cytuno, ni fydd angen i chi gynnwys y wybodaeth honno wrth gofrestru'r buddiant hwnnw, neu, fel y bo'n berthnasol newid i'r buddiant o dan baragraff 18.5.1.

(b) Mae'n rhaid i chi o fewn 28 diwrnod o ddod yn ymwybodol o unrhyw newid i amgylchiadau sy'n golygu nad yw'r wybodaeth a eithriwyd o dan is-baragraff (a) yn wybodaeth sensitif mwyach, hysbysu Swyddog Monitro eich awdurdod gan ofyn i'r wybodaeth gael ei chynnwys yng nghofrestr buddiannau aelodau eich awdurdod.

(c) Yn y côd hwn, mae "gwybodaeth sensitif" yn golygu gwybodaeth y byddai caniatau iddi gael ei harchwilio gan y cyhoedd yn creu,

neu'n debygol o greu, risg ddifrifol y gallech chi neu unigolyn sy'n byw gyda chi fod yn agored i drais neu fygythion.

18.5.3 Cofrestru Rhoddion a Lletygarwch.

Mae'n rhaid i chi, o fewn 28 diwrnod o dderbyn unrhyw rodd, lletygarwch, buddiant materol neu fantais sy'n werth mwy na £25 roi hysbysiad ysgrifenedig i Swyddog Monitro eich awdurdod o fodolaeth a natur y rhodd honno, y lletygarwch hwnnw, y buddiant materol hwnnw neu'r fantais honno.

## 22. POLISI "CANU'R GLOCH"

### 22.1 CWESTIYNAU CYFFREDIN

**Beth yw "canu'r gloch"?**
"Canu'r gloch" yw pan fydd gweithiwr, contractwr neu gyflenwr yn rhannu pryder difrifol am gamymarfer, ymddygiad amhriodol neu weithgarwch anghyfreithlon o fewn y Cyngor.

**Pam mae'r polisi hwn yn bodoli?**
Mae'r polisi'n rhoi ffordd ddiogel i bobl siarad allan os oes ganddynt bryderon difrifol. Mae'n helpu i warchod safonau'r Cyngor ac i sicrhau bod gweithredoedd amhriodol yn cael eu hatal.

**Beth allaf godi pryder amdano?**
Gellir codi pryder am unrhyw beth o fudd i'r cyhoedd, megis:

- twyll neu gamddefnyddio arian cyhoeddus
- camdriniaeth neu esgeulustod tuag at gwsmeriaid neu gleientiaid
- llygredigaeth neu gamddefnyddio awdurdod
- perygl i iechyd a diogelwch
- cuddio gwybodaeth bwysig neu gamymarfer

**Pwy all "ganu'r gloch"?**
Gall unrhyw weithiwr, contractwr, cyflenwr, gwirfoddolwr neu ymgynghorydd sy'n gweithio i'r Cyngor wneud hynny.

**A fydd fy enw'n cael ei gadw'n gyfrinachol?**
Bydd, lle bo hynny'n bosibl. Ni ddatgelir eich enw heb eich caniatâd oni bai bod angen cyfreithiol i wneud hynny (e.e. mewn achos llys).

**Beth os nad wyf am roi fy enw?**
Gallwch wneud datgeliad dienw, ond gall fod yn anoddach ymchwilio i'r mater os na ellir cysylltu â chi am fanylion pellach.

**A fyddaf yn cael fy amddiffyn rhag dial neu erlid?**
Byddwch. Mae'r gyfraith (Deddf Dadlennu Buddiant Cyhoeddus 1998) yn eich amddiffyn rhag unrhyw fath o gosb, aflonyddu neu driniaeth annheg os ydych yn codi pryder dilys.

**Pwy ddylwn i gysylltu â nhw i rannu pryder?**
Mae sawl llwybr gwahanol ar gyfer rhannu pryder, gwelir cymal 22.6 yn y ddogfen hon ar gyfer fwy o wybodaeth.

**Beth fydd yn digwydd ar ôl i mi godi pryder?**
Bydd y Cyngor yn cadarnhau derbyn eich pryder, yn cymryd camau i ymateb i'r datgeliad gan gynnwys cychwyn ymchwiliadau ffurfiol ac yn rhoi gwybod i chi am y canlyniad lle bo hynny'n bosibl. Mae natur unrhyw ymchwiliad am amrywio yn dibynnu ar y datgeliad.

**Nid wyf yn gweithio i'r Cyngor, a allaf godi pryder?**
Mae'r polisi hwn yn berthnasol i weithwyr y Cyngor. Er hynny, mae'r Cyngor yn cydnabod y gall pobl nad ydynt yn gweithio i'r awdurdod lleol dymuno codi pryder. Ceir nodyn canllaw ar ddiwedd y polisi, sydd yn esbonio sut y gall unigolion nad ydynt yn weithwyr y Cyngor godi pryder ac â phwy y dylent gysylltu.

22.2 **Ble gallaf gael cyngor neu gymorth?**
Mae cymorth ar gael trwy eich Undeb Llafur neu'r elusen Protect (www.protect-advice.org.uk), sy'n cynnig cyngor cyfrinachol i unigolion sy'n canu'r gloch.

**DATGANIAD POLISI**

22.2.1 Mae Cyngor Gwynedd  wedi ymrwymo i ddarparu gwasanaethau o safon uchel i bobl Gwynedd ac mae'n ddibynnol ar safon y staff a'r rheolwyr trwy'r awdurdod i wneud hyn. Yn achos camymarfer neu drosedd ddifrifol, mae'n hollbwysig dwyn y gweithgareddau hyn i'r golwg a'u datrys cyn gynted â phosibl er mwyn gwarchod safonau uchel y Cyngor a chynnal hyder y cyhoedd. Mae'r Cyngor felly yn hyrwyddo'r safonau uchaf posibl o ran bod yn agored, yn onest ac yn atebol.

22.2.2 Lluniwyd y Polisi Datgelu i agor ffordd ddiogel a dibynadwy i weithwyr sôn am bryderon, heb ofni y bydd rhywun yn dial arnynt, yn gwahaniaethu yn eu herbyn neu yn creu anfantais iddynt yn sgil hynny. Nid fydd Cyngor Gwynedd yn goddef aflonyddu neu erlid unigolyn sy'n sôn am bryder dilys.

22.2.3 Mae'r polisi yn annog gweithwyr i weithredu'n gyfrifol er mwyn gwarchod enw da'r Cyngor a chynnal hyder y cyhoedd. Disgwylir i unigolion ddod ymlaen a sôn am bryderon difrifol sydd ganddynt ynghylch camymarfer.

22.2.4 Bwriad y polisi yw annog a galluogi gweithwyr i rannu pryderon difrifol o fewn y Cyngor yn hytrach na dewis ceisio datrys pethau yn allanol.

22.2.5 Bydd Cyngor Gwynedd yn ymateb yn gyflym ac yn drwyadl i bryderon y sonnir amdanynt dan y polisi hwn, ac yn gweithredu mewn ffordd gyfrifol a phositif i sicrhau nad yw camymarfer yn cael parhau.

22.2.6 Mae'r polisi hwn wedi'i ddatblygu ynghyd â'r daflen sy'n rhoi gwybodaeth a chyngor i weithwyr, yn ogystal â'r canllawiau i reolwyr ar sut i ymateb i bryderon y sonnir amdanynt. Gellir cael copïau o'r dogfennau hyn oddi wrth yr Adran Gwasanaethau Gorfforaethol.

**22.3 I BWY Y MAE'R POLISI'N BERTHNASOL**

22.3.1 Mae’r polisi hwn yn berthnasol i holl staff y Cyngor a chontractwyr sy'n gwneud gwaith i'r Cyngor ar eiddo'r Cyngor megis gweithwyr asiantaeth neu adeiladwyr; cyflenwyr a'r rheini sy'n darparu gwasanaethau dan gontract gyda'r Cyngor mewn eiddo megis cartrefi gofal.

**2.4 AMCANION**

2.4.1 Mae’r polisi yn ceisio

- annog gweithwyr sy'n bryderus ynghylch camymarfer i deimlo'n ddigon hyderus i ddod ymlaen a rhannu eu pryderon
- sicrhau bod gweithwyr yn deall beth yw eu cyfrifoldeb o ran sôn am gamymarfer
- creu ffyrdd dibynadwy iddynt sôn am bryderon a chael gwybod yn llawn beth ddigwyddodd wedyn
- sicrhau bod gweithwyr sy'n rhannu pryder yn cael gwybod beth oedd canlyniad y mater, a hefyd eu bod yn gwybod sut i fynd â'r mater ymhellach os nad ydynt yn fodlon gydag ymateb y Cyngor
- rhoi sicrwydd y bydd gweithwyr sy'n sôn am bryder dilys sydd ganddynt yn cael eu hamddiffyn rhag unrhyw ddial neu erlid posibl.

2.4.2 Er mwyn gwneud hyn bydd y Cyngor yn:

- Hyrwyddo'r polisi hwn a'r canllawiau perthnasol ar gyfer gweithwyr a rheolwyr mor eang â phosibl i sicrhau bod pobl yn ymwybodol o'i fodolaeth, ei sgôp a'i amcanion.
- Cynnwys y Polisi Datgelu fel rhan hanfodol o'r broses gyflwyno i weithwyr newydd.
- Hyrwyddo'r egwyddorion o fod yn agored ac yn atebol yn y man gwaith.
- Rhoi hyfforddiant i reolwyr llinell ar sut i ymdrin â phryderon a rennir dan y polisi hwn, cefnogi pobl sy'n ymwneud ag achosion o ddatgelu a Deddf Dadlennu Buddiant Cyhoeddus 1998 a chefndir cyfreithiol 'datgelu'.
- Sicrhau bod pob cwyn yn cael ei thrin yn ddifrifol a sensitif a'i bod yn cael ei hymchwilio'n drwyadl.
- Cymryd camau i amddiffyn unigolion sy'n rhannu pryderon dan y polisi hwn rhag unrhyw ddial neu erlid.
- Ceisio datrys y mater yn y lle cyntaf o fewn y Cyngor.

**22.5 SGÔP**

22.5.1 Ar gyfer pryderon yn ymwneud â sefyllfaoedd lle mae budd eraill neu fudd y Cyngor ei hun mewn perygl y bwriedir y polisi yn bennaf. Dylai gweithwyr ddefnyddio'r polisi hwn os ydynt yn rhesymol amau bod yna gamymarfer neu drosedd wedi cymryd lle, ar fin digwydd neu efallai am ddigwydd.

22.5.2 At ddibenion y polisi hwn, mae ‘datgeliad cymwys’ yn golygu unrhyw wybodaeth a ddatgelir gan weithiwr y mae’n credu’n onest ac yn rhesymol ei bod yn dangos camymarfer neu gamwedd o’r math a restrir yn adran 22.4.2 Mae ‘datgeliad diogel’ yn golygu datgeliad a wneir yn unol â’r gofynion cyfreithiol yn y Ddeddf Dadlennu Buddiant Cyhoeddus 1998, fel bod yr unigolyn yn cael yr amddiffyniadau statudol.

22.5.3 Gall cwynion fod ynghylch rhywbeth y credir ei fod o fudd i'r cyhoedd gan gynnwys rhywbeth

- sydd yn anghyfreithlon, yn dwyllodrus neu yn lygredigaeth;
- sydd yn gyfystyr â chamweinyddu fel a ddiffinnir gan yr Ombwdsmon Llywodraeth Leol. Mae camweinyddu yn cwmpasu, er enghraifft, oedi di-gyfiawnder, methiant i ddilyn rheolau’r awdurdod neu’r gyfraith, rhagfarn, defnyddio ystyriaethau amhriodol, rhoi gwybodaeth anghywir a nifer o faterion tebyg a sydd yn achosi anghyfiawnder.
- sydd yn groes i, neu sydd heb fod yn unol â Rheolau Sefydlog y Cyngor, ei Reoliadau Ariannol neu'i bolisïau, ei godau ymarfer neu ei ymrwymiadau cyfreithiol;
- nad yw'n cyrraedd y safonau ymarfer sefydledig;
- sydd yn torri unrhyw gôd ymarfer statudol;
- sydd yn gyfystyr ag ymddygiad amhriodol;
- sydd yn gyfystyr â cham-drin cleientiaid yn rhywiol, yn gorfforol neu yn emosiynol;
- sydd yn peryglu iechyd a diogelwch unigolyn;
- sydd yn achosi, neu sy'n debygol o achosi niwed i'r amgylchedd;
- sydd yn aflwyddiant cyfiawnder;
- sydd yn gamddefnydd o rym neu'n ddefnydd o rym ac awdurdod y Cyngor ar gyfer rhyw ddiben anawdurdodedig;
- sydd yn methu ag unioni neu gymryd camau rhesymol i adrodd am fater sy'n debygol o olygu cost fawr y gellid ei hosgoi neu golli canlyniad i'r Cyngor neu a fyddai fel arall yn peryglu'r Cyngor, neu
- sydd yn ymgais i guddio unrhyw rai o'r enghreifftiau uchod.

Nid yw'r rhestr yn derfynol; ei bwriad yw rhoi syniad o'r math o ymddygiad y gellid ei ystyried yn drosedd neu yn gamymarfer.

22.5.4 Ni ellir defnyddio'r polisi hwn yng nghyswllt torri posib ar gytundebau gwaith, e.e. cwynion personol neu i herio penderfyniadau, arferion neu bolisïau y gall unigolion fod yn anghytuno â hwy. Dylid ystyried y Polisi Datgelu, felly, fel peth cwbl ar wahân i brosesau sydd yn galluogi aelod staff i gyflwyno cwyn yng nghyswllt ei gyflogaeth ef ei hun.

**22.6 SUT I RANNU PRYDER**

### 22.6.1 Rhannu Pryder

22.6.1.1 Mae gan unrhyw un sy'n dymuno canu'r cloch nifer o opsiynau diogel i wneud hynny. Dylid dewis yr opsiwn sy'n teimlo fwyaf priodol yn ôl natur y pryder a'r amgylchiadau.

Mae sawl llwybr yn bodoli ar gyfer rhannu pryder. Mae'r llwybrau gwahanol wedi eu rhestru isod:

- Rheolwr llinell – er mwyn i'r rheolwr llinell gyfeirio'r mater ymhellach (gweler isod). Mae angen i bob rheolwr llinell fod ag ymwybyddiaeth o'r trefniadau, fel eu bod fan leiaf mewn sefyllfa i allu cyfeirio'r mater at swyddog priodol.
- Pennaeth Adran / Cyfarwyddwyr Corfforaethol / Prif Weithredwr / Swyddog Monitro. Bydd yr union lwybr yn dibynnu ar natur y pryder.
- Swyddogion Canu'r Gloch y Cyngor; sef Pennaeth Gwasanaethau Corfforaethol a Swyddog Monitro y Cyngor. Y Swyddogion Canu'r Gloch sydd hefyd yn gyfrifol am drefnu Grŵp Ymateb i unrhyw ddatgeliad (gwelir isod).
- Bydd unrhyw bryder sydd yn ymwneud ag amddiffyn plant neu oedolion yn cael ei gyfeirio yn syth o dan drefniadau diogelu'r Cyngor. Ni ddylai cyfrinachedd atal rhannu gwybodaeth pan fo trosedd, risg o niwed, neu camymddwyn difrifol, a disgwylir i bob ymarferydd weithredu'n brydlon i sicrhau diogelwch.
- Bydd unrhyw bryderon ynghylch camweinyddu ariannol yn cael ei rannu gyda'r Gwasanaeth Archwilio Mewnol.
- Os nad yw staff am ddefnyddio un o'r opsiynau uchod yn uniongyrchol, gellir cyfeirio unrhyw bryder at gyfeiriad e-bost; canurgloch@gwynedd.llyw.cymru
- Beth bynnag fo'r dull o rannu gwybodaeth, fe fydd yr wybodaeth honno yn cael ei chyfeirio yn syth at y Grŵp Ymateb (gweler 22.6.2 isod).
- Gellir rhannu pryderon yn ysgrifenedig neu ar lafar. Os yw'n cael ei wneud ar lafar, bydd angen i'r Swyddog Gweithredol (sef y swyddog yr aethpwyd ato / ati i sôn am y pryder yn wreiddiol) gofnodi cyn gymaint o'r manylion â phosib.
- Er na fydd disgwyl i weithwyr sy'n rhannu pryder i ddarparu tystiolaeth i ddangos fod yr honiad yn wir, fe fydd disgwyl iddynt ddangos i'r Swyddog Gweithredol fod digon o sail i'r honiad.
- Mae rhwydd hynt i weithiwr ofyn am gyngor cyfrinachol gan Undeb Llafur ar sut i rannu pryder o dan y polisi hwn a gall wahodd cynrychiolydd i godi'r mater ar ei ran.
- Mae'r Cyngor yn cydnabod na fyddai rhoi un llwybr yn unig ar gyfer rhannu pryderon yn addas ar gyfer pob sefyllfa; dyna pam ei fod yn rhoi mwy nag un opsiwn i bobl ar gyfer rhannu gwybodaeth. Ni fyddwch dan anfantais am ddewis un o'r opsiynau uchod dros eraill, cyn belled â'ch bod wedi gweithredu'n ddidwyll.

### 22.6.2 Grŵp Ymateb Canu'r Gloch

22.6.2.1 Bydd Grŵp Ymateb Canu'r Gloch yn gweithredu fel fforwm ganolog i asesu pob pryder sy'n cael ei godi trwy'r llwybrau y cyfeirir atynt uchod, ac i benderfynu wedyn ar y ffordd mwyaf priodol o ymdrin ag unrhyw bryder neu ddatgeliad a wneir o dan y Polisi Canu'r Gloch. Rôl y Grŵp Ymateb yw sicrhau fod pob datgeliad yn cael ei ystyried yn deg, yn wrthrychol ac yn unol â'r ddeddfwriaeth berthnasol, cyn bod yna ystyried pa gamau y dylid eu cymryd er mwyn ymateb.

22.6.2.2 Swyddogion Canu'r Gloch y Cyngor, sef Pennaeth Gwasanaethau Corfforaethol a Swyddog Monitro, sy'n gyfrifol am drefnu Grŵp Ymateb i unrhyw datgeliad sy'n cael ei wneud. Os ydych yn derbyn datgeliad perthnasol felly, dylid hysbysu'r Swyddogion a fydd yn trefnu cyfarfod o'r Grŵp.

Bydd y Grŵp yn gyfrifol am:

- Adolygu manylion y datgeliad cychwynnol;
- Penderfynu a yw'r mater o fewn cwmpas y Polisi, neu a ddylid defnyddio un o bolisïau eraill y Cyngor er mwyn ymdrin â'r pryder;
- Penderfynu a ddylid cynnal asesiad cychwynnol neu ymchwiliad ffurfiol;
- Dyrannu cyfrifoldeb ymchwilio i'r adran berthnasol neu swyddog priodol, gan gadw mewn cof yr angen i flaenoriaethu materion canu'r gloch;
- Sicrhau bod trefniadau priodol ar waith i ddiogelu'r sawl sydd wedi codi'r pryder rhag unrhyw ddial neu anfantais.
- Sicrhau fod yna gytuno ar drefniadau cyswllt gyda'r sawl sydd wedi codi'r pryder, a bod hynny yn cael ei weithredu yn unol â'r ddealltwriaeth.
- Cadarnhau pwynt cyswllt dynodedig i'r unigolyn sydd wedi gwneud datgeliad.

22.6.2.3 Bydd y Grŵp yn cynnwys rhai neu'r cyfan o'r swyddogion canlynol, gyda hynny yn dibynnu ar union natur y pryder.

- Prif Weithredwr;
- Swyddog Monitro;
- Cyfarwyddwyr Corfforaethol;
- Pennaeth Adran Perthnasol;
- Cynrychiolydd o'r Gwasanaeth Ymgynghorol Adnoddau Dynol;
- Cynrychiolydd o'r Gwasanaeth Cyfreithiol;
- Cynrychiolydd o'r Gwasanaeth Archwilio Mewnol.

22.6.2.4 <u>Ni fydd unrhyw aelod o'r Grŵp yn cymryd rhan os yw'n gysylltiedig yn uniongyrchol â'r mater dan sylw.</u>

**22.7 Sut bydd y Cyngor yn ymateb**

22.7.1 Pan dderbynnir datgeliad o bryder, bydd y Cyngor yn cydnabod derbyn y datgeliad o fewn 10 diwrnod gwaith. Bydd yr ymateb hwn yn cynnwys:

- cadarnhad bod y datgeliad wedi'i dderbyn; a
- disgrifiad byr o'r camau nesaf yn y broses asesu neu ymchwilio.

22.7.2 Os bydd angen gwybodaeth ychwanegol i egluro'r datgeliad neu i helpu gyda'r asesiad cychwynnol, bydd y swyddog perthnasol yn cysylltu â'r sawl sydd wedi codi'r pryder cyn gynted ag sy'n rhesymol bosibl.

22.7.3 Mae'r ffordd y bydd y Cyngor yn gweithredu yn dibynnu ar natur y pryder. Lle bo hynny'n briodol, gall y materion a godir gael:

- eu hymchwilio'n fewnol gan reolwyr, archwilwyr mewnol neu trwy bolisi neu weithdrefn arall sydd gan y Cyngor
- gael eu cyfeirio i brosesau statudol megis trefniadau amddiffyn plant
- gael eu cyfeirio at yr heddlu;
- gael eu cyfeirio i asiantaethau gorfodi allanol megis yr HSE
- gael eu cyfeirio at yr archwiliwr allanol;
- fynd i ymchwiliad annibynnol.

22.7.4 Er mwyn amddiffyn unigolion a'r rheini sy'n cael eu cyhuddo o gamweddau neu gamymarfer posibl, gwneir ymholiadau i gychwyn i benderfynu a yw'n briodol cynnal ymchwiliad, ac os felly, sut ymchwiliad.

22.7.5 Gellir datrys rhai pryderon trwy gytuno ar ba gamau i'w cymryd heb fod angen cynnal ymchwiliad. Os oes angen cymryd camau brys, gwneir hynny cyn cynnal unrhyw ymchwiliad.

22.7.6 Byddwn yn ymrwymo i gwblhau asesiad cychwynnol (hynny yw, asesiad gan y Grŵp Ymateb) o'r pryder o fewn 10 diwrnod gwaith o'i dderbyn (lle bo'n ymarferol), er mwyn penderfynu:

- a oes yna angen ymchwiliad ffurfiol,
- pa weithdrefn sy'n berthnasol, a
- pwy fydd yn gyfrifol ar yr ymchwiliad

22.7.7 Bydd y sawl a gododd y pryder yn cael gwybod pan fydd yr asesiad hwn wedi'i gwblhau a pha gamau nesaf fydd yn cael eu cymryd gan gydnabod fod y wybodaeth y gellir ei rannu yn ddibynnol ar y cyd destun a gofynion cyfreithiol Os yn bosib, byddwn yn pob tro yn

ymrwymo i ddiweddaru yr unigolyn sy'n gwneud datgeliad (yn amodol ar gyfyngiadau'r gyfraith).

22.7.8 Os y bu cyfarfod yn cael ei drefnu, bydd gan y gweithiwr sy'n codi'r pryder hawl i ddod â chynrychiolydd undeb gydag ef, neu gydweithiwr nad yw'n gysylltiedig â'r maes gwaith y mae a wnelo'r pryder ag ef. Eto, nid oes pob tro posibilrwydd o drefnu cyfarfod, ac mae ymateb a gweithred yn medru amrywio yn ddibynnol ar gyfyngiadau'r gyfraith.

22.7.9 Bydd y Cyngor yn ceisio rhoi diweddariadau rheolaidd ar gynnydd i'r sawl sydd wedi codi'r pryder, yn unol â gofynion cyfrinachedd a chyfreithiau diogelu data. Fodd bynnag ni ellir gwarantu y bydd modd darparu cynnydd ym mhob achlysur, Fel arfer, bydd diweddariadau'n cael eu darparu:

- pan fydd yr ymchwiliad wedi dechrau'n ffurfiol,
- pan fydd cam pwysig wedi'i gwblhau (e.e. cyfweliadau neu gasglu tystiolaeth), ac
- ar ddiwedd yr ymchwiliad, pan fydd penderfyniad neu ganlyniad wedi'i wneud.

22.7.10 Pan fydd yr ymchwiliad wedi'i gwblhau, bydd y sawl a gododd y pryder yn cael hysbysiad terfynol yn nodi bod y broses wedi dod i ben ac, lle bo hynny'n briodol, crynodeb cyffredinol o'r canlyniad (yn amodol ar gyfyngiadau'r gyfraith).

22.7.11 Bydd y Cyngor yn prosesu unrhyw ddata personol a gesglir yn ystod y broses hon yn unol â'r Ddeddf Diogelu Data 2018 a GDPR.

**22.8 RHWYSTRO DIAL, ERLID NEU AFLONYDDU**

22.8.1 Mae'n ddealladwy bod chwythwyr chwiban weithiau yn poeni am effeithiau posibl. Ein nod yw annog rhannu gwybodaeth yn agored a byddwn yn cefnogi staff sy'n codi pryderon gwirioneddol o dan y polisi hwn, hyd yn oed os ydynt yn troi allan i fod yn anghywir.

22.8.2 Mae gweithwyr sy'n rhannu pryderon dilys ynghylch achosion o gamymarfer wedi'u hamddiffyn rhag erlid a chael eu diswyddo dan Ddeddf Dadlennu Buddiant Cyhoeddus 1998. Ni fydd y Cyngor yn goddef unrhyw ymgais ar ran gweithiwr, cynghorydd, contractwr na chyflenwr i gosbi neu greu anfantais i unigolyn sydd wedi rhannu pryder o dan y polisi hwn. Bydd ymgais o'r fath yn cael ei drin fel trosedd ddisgyblu ddifrifol.

22.8.3 Man gan bob chwythwr chwiban yr hawl i gysylltu'n uniongyrchol a'r Swyddogion Canu'r Gloch neu a'r Pwynt Cyswllt dynodedig os ei bod yn derbyn unrhyw adwaith negyddol, triniaeth andwyol, neu unrhyw fath o niwed o ganlyniad i'w datgeliad. Rhaid i unrhyw bryderon o'r fath cael eu hystyried yn gyfrinachol ac yn llawn tegwch, heb unrhyw ragfarn i'r unigolyn sy'n codi'r mater.

22.8.4 Mae llinell gymorth a chwnsela gyfrinachol ar gael i chwythwyr chwiban sy'n codi pryderon o dan y polisi hwn. Mae eu manylion cyswllt wedi'u nodi ar ddiwedd y polisi hwn.

**22.9 CYFRINACHEDD**

22.9.1 Mae'r Cyngor yn annog pob gweithiwr sy'n rhannu pryder dan y polisi hwn i roi'i enw wrth y gŵyn gan fod honiadau dienw yn llawer gwannach ac yn gallu rhwystro canlyniad unrhyw ymchwiliad.

22.9.2 Os cyfyd sefyllfa lle nad yw'n bosibl datrys y mater heb ddatgelu enw'r gweithiwr a rannodd y pryder, e.e. os bydd angen iddo roi tystiolaeth mewn llys, bydd y swyddogion priodol yn trafod gyda'r gweithiwr pa un a ddylid mynd ymlaen â'r achos ai peidio â sut y gellid gwneud hynny.

22.9.3 Nid ydym yn annog staff i wneud datgeliadau yn ddienw, er y byddwn yn gwneud pob ymdrech i ymchwilio i ddatgeliadau dienw. Dylech fod yn ymwybodol y gall ymchwiliad priodol fod yn anoddach neu'n amhosibl os na allwn gael rhagor o wybodaeth gennych. Mae hefyd yn anoddach sefydlu a yw unrhyw honiadau'n gredadwy.

22.9.4 Ni ddylai cyfrinachedd atal rhannu gwybodaeth pan fo risg i ddiogelwch, trosedd, camymddwyn difrifol yn hysbys neu'n debygol, neu pan fo gofyniad statudol i wneud hynny. Mewn amgylchiadau o'r fath, disgwylir i ymarferwyr rannu gwybodaeth yn briodol ac ymateb yn brydlon er mwyn diogelu unigolion a'r cyhoedd.

22.9.5 Mae'n rhaid i ymarferwyr gan gynnwys cyflogeion, gweithwyr proffesiynol a chontractwyr annibynnol fod yn ymwybodol na allant fod yn anhysbys wrth wneud atgyfeiriad i'r gwasanaethau cymdeithasol, ac eithrio pan fyddai hynny'n golygu y byddan nhw eu hunain sy'n wynebu risg. Yn yr achos hwn dylid trafod eu pryder amdanyn nhw eu hunain gael ei drafod gyda'r gwasanaethau cymdeithasol.

22.9.6 Dylai chwythwyr chwiban sy'n pryderu am ddial posibl os datgelir eu hunaniaeth ddod ymlaen i'r Swyddogion Canu'r Gloch neu eich pwynt cyswllt dynodedig gan y Grŵp Ymateb a gellir cymryd mesurau priodol wedyn i gadw cyfrinachedd. Os oes gennych unrhyw amheuaeth, gallwch ofyn am gyngor gan Protect, yr elusen canu'r gloch annibynnol, sy'n cynnig llinell gymorth gyfrinachol. Mae eu manylion cyswllt ar ddiwedd y polisi hwn.

**22.10 HONIADAU FFUG A MALEISUS**

22.10.1 Os bydd gweithiwr yn rhannu pryder dilys ond nad yw'r ymchwiliad yn ei gadarnhau, ni fydd camau yn cael eu cymryd yn ei erbyn. Fodd bynnag, os bydd gweithiwr yn fwriadol yn gwneud honiadau ffug neu faleisus dan y polisi hwn, bydd yr ymddygiad yn cael ei ystyried fel trosedd ddisgyblu ddifrifol.

## 22.11 SUT Y GELLIR MYND A'R MATER YMHELLACH

22.11.1 Os yw'r gweithiwr a rannodd y pryder yn dal i fod yn anfodlon ar ôl cwblhau'r broses fewnol, neu os nad yw'n teimlo ei bod yn briodol i godi'r mater o fewn y Cyngor, gall y gweithiwr wneud datgeliad allanol mewn ffordd ddiogel a chyfreithiol.

22.11.2 Bydd y Cyngor yn parchu hawl unrhyw weithiwr i wneud datgeliad allanol ac yn sicrhau nad yw'r weithred o wneud hynny, os yw'n cael ei wneud yn unol â Deddf Dadlennu Buddiant Cyhoeddus 1998, yn arwain at unrhyw ddial, aflonyddu nac anfantais i'r unigolyn dan sylw.

## 22.12 DATGELU ALLANOL

22.12.1 Disgwylir i unrhyw bryderon gael eu rhannu o fewn y Cyngor yn y lle cyntaf. Ond gall fod achosion lle nad yw gweithiwr yn teimlo y gall drafod y mater yn fewnol neu lle nad yw'n teimlo ei bod yn briodol gwneud hynny. Mewn achosion o'r fath, ar yr amod fod y gweithiwr yn gweithredu'n ddidwyll a'i fod yn gallu dangos bod sail resymol a digonol dros ei bryderon, gall godi'r mater yn allanol trwy gysylltu â'r cyrff isod:

- Protect – www.protect-advice.org.uk
- Ombwdsmon Llywodraeth Lleol
- Undeb Llafur
- Cyrff Proffesiynol neu fudiadau rheolaethol perthnasol
- Yr Heddlu

22.12.2 Dylai gweithiwr sy'n penderfynu codi pryder yn allanol sicrhau nad yw'n datgelu gwybodaeth gyfrinachol i rywun sydd heb hawl iddi.

## 22.13 Y SWYDDOG SY'N GYFFIROL

22.13.1 Gan y Prif Weithredwr y mae'r cyfrifoldeb cyffredinol dros gynnal a gweithredu'r polisi hwn a darparu sicrwydd ynglŷn a'i weithrediad.

22.13.2 Mae gan y Swyddogion Canu'r Gloch gyfrifoldeb gweithredol o ddydd i ddydd am y polisi hwn a dylech gyfeirio unrhyw gwestiynau am y polisi hwn atynt yn y lle cyntaf. Rhaid Swyddogion Canu'r Gloch sicrhau bod hyfforddiant rheolaidd a phriodol yn cael ei ddarparu i'r holl reolwyr a staff eraill a allai ddelio â phryderon neu ymchwiliadau o dan y polisi hwn.

**DEDDFWRIAETH BERTHNASOL**

- **Dadlennu Buddiant Cyhoeddus 1998**
- **Deddf Menter a Diwygio Rheoleiddio 2013.**
- **Deddf Hawliau Cyflogaeth 1996**
- **Deddf Diogelu Data 2018**
- **Deddf Iechyd a Diogelwch yn y Gwaith 1974**
- **Cod Ymarfer ACAS**

**CWNSELA / CEFNOGAETH**

I gyfeirio eich hun am gwnsela:
Rhif Ffon: 01286 679329
Ebost: iechydgalwedigaethol@gwynedd.llyw.cymru

Mewn argyfwng ble mae staff yn dymuno cefnogaeth/cyngor brys tu allan i oriau arferol y Cyngor, mae modd cysylltu a MEDRA yn uniongyrchol ar 0800 132 737 ac bydd aelod o'r tîm yn gallu eich cynorthwyo neu eich cyfeirio ymlaen i asiantaethau priodol.

# NODYN CANLLAW

Mae'r Cyngor yn cydnabod y gall pobl godi pryderon nad ydynt yn dod o dan y diffiniad ffurfiol o chwythu'r chwiban. Gall hyn gynnwys pryderon a godir gan bobl nad ydynt yn aelodau o staff.

Bydd y Cyngor yn ymdrin â'r pryderon hyn yn ofalus ac yn deg, gyda'r un gofal ag y mae'n trin pryderon chwythu'r chwiban. Fodd bynnag, dylid nodi efallai na fydd yr un dyletswyddau na'r un amddiffyniadau cyfreithiol yn berthnasol ym mhob achos.

**Aelodau**
Dylech godi eich pryder gyda'r Pennaeth Gwasanaeth perthnasol. Gallwch hefyd gysylltu â'r Swyddog Monitro.

**Llywodraethwyr Ysgol**
Fel arfer, dylech godi eich pryder drwy drefniadau llywodraethu'r ysgol, er enghraifft gyda Chadeirydd y Corff Llywodraethu neu'r Pennaeth Ysgol. Os nad yw hyn yn briodol, neu os yw'r pryder yn ymwneud â'r Cadeirydd neu'r Pennaeth, gallwch gysylltu â swyddog perthnasol y Cyngor, megis Pennaeth Gwasanaeth Addysg, y Swyddog Monitro neu'r Rheolwr Archwilio.


**Partneriaid**
Fel arfer, dylech godi eich pryder gyda'ch rheolwr contract neu brosiect. Fel arall, gallwch gysylltu â'r Prif Swyddog Cyllid neu'r Rheolwr Archwilio.

**Y Cyhoedd**
Fel arfer, dylech ddefnyddio proses gwyno'r Cyngor. Gallwch hefyd gysylltu â'r Cyngor i ofyn am fanylion cyswllt y Prif Swyddog Cyllid neu'r Rheolwr Archwilio, ac yna cysylltu â nhw'n uniongyrchol.

Os nad ydych yn teimlo'n gyfforddus yn rhoi gwybod am eich pryder i'r Cyngor, gallwch ei gyfeirio at y corff allanol perthnasol. Os ydych wedi cwyno wrthym ac yn anfodlon ar ein hymateb, gallwch gyfeirio eich cwyn at Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru

.

# Proses Canu Gloch



| | |
|---|---|
| **CYFARFOD** | **Y Cyngor Llawn** |
| **DYDDIAD** | **5 Mawrth 2026** |
| **PWNC** | **Calendr Pwyllgorau 2026/27** |
| **PWRPAS** | **Mabwysiadu'r Calendr Pwyllgorau ar gyfer 2026/27** |
| **AWDUR** | **Ian Jones**<br>**Pennaeth Gwasanaethau Democratiaeth** |

**Y PENDERFYNIAD A GEISIR**

Mabwysiadu'r Calendr Pwyllgorau ar gyfer 2026/27

## 1. CEFNDIR A RHESYMEG

1.1 Cyflwynir y calendr o ddyddiadau pwyllgorau'r Cyngor ar gyfer 2026/27.

1.2 Mae'r Calendr yn cynorthwyo'r Cyngor, ei Aelodau a'r cyhoedd i gynllunio ymlaen ar gyfer dyddiadau ac amseroedd prif gyfarfodydd y Cyngor.

1.2 Noder mai dyma'r dyddiadau yr ydym yn eu rhaglennu ar hyn o bryd, ond gall sefyllfaoedd godi ble bydd angen trefnu cyfarfodydd ychwanegol er mwyn gallu gweithredu busnes y Cyngor.

1.3 Tra gwneir pob ymdrech i osgoi cynnal cyfarfodydd yn ystod gwyliau'r ysgol, nid yw hynny yn bosib ar bob achlysur os am sicrhau parhad gwasanaeth y Cyngor.

1.4 Noder fod her benodol eleni wrth lunio'r calendr cyfarfodydd. Mae'r cylch pwyllgorau traddodiadol wythnos yn hwyrach yn cychwyn na'r arfer yn sgil etholiadau Llywodraeth Cymru. Yn ogystal, rydym yn ymwybodol y bydd 'cyfnod cyn etholiad' unwaith eto ddiwedd 26/27 cyn etholiadau Llywodraeth Leol ym mis Mai 2027. Rydym wedi ceisio cadw llygad ar hynny gan gywasgu rhai o'r pwyllgorau i gyfnod llai, hynny yw o fewn 10 mis. Ystyriwyd cyfarfodydd craffu, gan geisio eu cynnal yn gynt yn y cylch pwyllgorau er mwyn sicrhau na effeithir ar y gwaith y gellir ei gyflawni.

1.5 Ymgynghorwyd â swyddogion perthnasol ynghyd ag Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri ar fersiwn drafft y calendr pwyllgorau er mwyn sicrhau hyd y gellir nad oes gwrthdaro â chyfarfodydd eraill. Yn ychwanegol, rydym wedi ceisio sicrhau nad oes gwrthdaro gyda dyddiadau cyfarfodydd rhanbarthol megis

cyfarfodydd Cydbwyllgor Corfforedig y Gogledd, er nad yw holl ddyddiadau 2026/27 yn wybyddus eto. Rhaid hefyd cadw mewn cof fod mwy o gyfarfodydd rhanbarthol gan Gydbwyllgor Corfforedig y Gogledd bellach.

1.6 Ymgynghorwyd yn ogystal gyda'r Awdurdod Tan ac mae addasiadau wedi ei gwneud i rai dyddiadau er mwyn ceisio osgoi gwrthdaro o ran dyddiadau. Nid oedd modd i ni addasu pob dyddiad yn anffodus, ac mae gwrthdaro ar ddau ddyddiad sy'n effeithio'r Pwyllgor Cynllunio.

1.7 Rydym wedi parhau i nodi dyddiad Sesiwn Briffio i Aelodau pob mis yn ogystal â Diwrnod Hyfforddiant misol, fel bod y Cynghorwyr yn cael digon o rybudd am y dyddiadau. Mae'r trefniant newydd i weld wedi gweithio dros y flwyddyn a fu, gyda gwaith o adnabod a blaenoriaethu sesiynau hyfforddiant yn digwydd yn gyson. Hoffwn dynnu eich sylw nad oes sesiwn briffio na hyfforddiant wedi ei raglennu ar gyfer mis Mai, mae hyn oherwydd yr angen i flaenoriaethu pwyllgorau mewn cyfnod byr iawn o amser. Byddwn yn parhau i wneud pob ymdrech i geisio trefnu'r Sesiynau Briffio neu Hyfforddiant ar y dyddiadau hynny lle bo modd, gan nodi fod posibilrwydd i orfod gwyro i ddyddiadau eraill petai hyfforddwyr neu swyddogion allweddol ddim ar gael.

1.8 Yng nghyfarfod y Fforwm Craffu ar 23 Chwefror 2026 gwnaethpwyd cais i gynnal cyfarfod ychwanegol o'r Pwyllgor Craffu Addysg ac Economi, a'r Pwyllgor Craffu Gofal cyn toriad yr haf. Roedd hyn o ganlyniad i bwysau gwaith y pwyllgorau gydag eitemau'n llithro yn sgil methu craffu yn ystod y cyfnod cyn etholiad, ac fod gofyn i graffu materion penodol cyn cyfnod yr haf. O ganlyniad i hyn mae dau ddyddiad ychwanegol wedi eu cynnwys.

1.9 Cyflwynwyd yr adroddiad i'r Pwyllgor Gwasanaethau Democratiaeth ar y 24 Chwefror sydd yn argymell i'r Cyngor Llawn fabwysiadu'r calendr cyfarfodydd pwyllgorau.

## 2. CALENDR PWYLLGORAU 2025/26

2.1 Gweler yr atodiad ar gyfer dyddiadau Cyfarfodydd y Cyngor 2025/26.

## BARN SWYDDOGION STATUDOL

### Y SWYDDOG MONITRO

Dim sylwadau i'w hychwanegu o safbwynt priodoldeb.

### Y PENNAETH CYLLID

Rwy'n cefnogi'r penderfyniad a geisir. O safbwynt materion ariannol, mae'r dyddiadau arfaethedig ar gyfer y cyfarfodydd perthnasol yn caniatáu i'r Cyngor gydymffurfio ag amserlenni statudol lle bynnag bosib.

**ATODIADAU**

Atodiad 1 – Calendr o dyddiadau Cyfarfodydd y Cyngor 2026/27.

| 2026/27 | Amser cyfarfod | Mai | Mehefin | Gorffennaf | Awst | Medi | Hydref | Tachwedd | Rhagfyr | Ionawr | Chwefror | Mawrth | Ebrill | Mai |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **CYNGOR** *(H)* | pm | 14* | | 2 | | 24 | | | 3 | | | 4 | | 20* |
| Cabinet *(H)* | pm | 19 | 9 | 7 | | 15 | 13 | 10 | 8 | 26 | 16 | 9 | 13 | |
| Pwyllgor Craffu – Addysg ac Economi *(H)* | am / pm | | 18 | 14 | | | 8 | | 10 | | 18 | 16 | | |
| Pwyllgor Craffu – Cymunedau *(H)* | am / pm | | 11 | | | | 1 | 19 | | 28 | | 18 | | |
| Pwyllgor Craffu – Gofal *(H)* | am / pm | | 4 | 16 | | 17 | | 5 | | 21 | | 11 | | |
| Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio | am | 21 | | 9 | | 29 | 22 | | | | 4 | | 15 | |
| Pwyllgor Gwasanaethau Democratiaeth | pm | | 16 | | | | | 3 | | | 23 | | | |
| Pwyllgor Cynllunio *(H)* | pm | 18 | 15 | 13 | | 7 / 28 | 19 | 16 | 14 | 18 | 15 | 8 | 19 | |
| Pwyllgor Trwyddedu Canolog/Cyffredinol | am | | 22 | | | 21 | | 30 | | | | 1 | | |
| Pwyllgor Safonau | am | | 8 | | | | | 2 | | | 22 | | | |
| CYSAG | pm | | 30 | | | | | 17 | | | 2 | | | |
| Pwyllgor Iaith | am | | 29 | | | | 5 | | | | 1 | | 5 | |
| Cyd-Bwyllgor Ymgynghorol Lleol | am | | | 16 | | | | | | | | | | |
| Pwyllgor Apelau Cyflogaeth | am / pm | 22 | | 10 | | 11 | 16 | 13 | 11 | 29 | 26 | 19 | 23 | |
| Pwyllgor Pensiynau | pm | | | 6 | | 14 | | 23** | | 25 | | 15 | | |
| Pwyllgor Ymgynghorol Harbwr Porthmadog | am /pm | | | | | | 20 | | | | | 12 | | |
| Pwyllgor Ymgynghorol Harbwr Pwllheli | yr hwyr | | | | | | | 3 | | | | 9 | | |
| Pwyllgor Ymgynghorol Harbwr Aberdyfi | pm | | | | | | | 17 | | | | 2 | | |
| Pwyllgor Ymgynghorol Harbwr Abermaw | pm | | | | | | | 24 | | | | | 6 | |
| Hyfforddiant Aelodau | am / pm | | 3 | 1 | | 2 | 7 | 4 | 2 | 13 | 17 | 10 | 14 | |
| Sesiwn Briffio | pm | | 17 | 15 | | 30 | 21 | 18 | 16 | 27 | 24 | 17 | 21 | |

DRAFT

*Cyfarfod Blynyddol.

**Pwyllgor Pensiynau (am) / Cyfarfod Blynyddol (pm)

*(H)* = Cyfarfod hybrid (aml-leoliad)

Amser cyfarfod (yn ôl yr angen) **am** – bore **pm** – prynhawn **am/pm** – trwy'r dydd

**Dyma'r dyddiadau yr ydym yn eu rhaglennu ar hyn o bryd, gall fod angen cyfarfodydd eraill er mwyn gweithredu busnes y Cyngor.**

**Huw Irranca-Davies AS/MS**
**Y Dirprwy Brif Weinidog ac Ysgrifennydd y Cabinet dros Newid Hinsawdd a Materion Gwledig**
**Deputy First Minister and Cabinet Secretary for Climate Change and Rural Affairs**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Eich cyf AS
Ein cyf HIDCC/02148/25

Y Cynghorydd Ioan Thomas
AnnesSion@gwynedd.llyw.cymru

19 Rhagfyr 2025

Annwyl Gynghorydd Thomas,

Diolch am eich llythyr dyddiedig 21 Tachwedd ynglŷn â newidiadau arfaethedig Llywodraeth y DU i'r Dreth Etifeddiant.

Er bod Treth Etifeddiant yn dreth gadw a weinyddir gan Lywodraeth y DU, ac mae'n gyfrifoldeb arnynt asesu goblygiadau unrhyw newidiadau arfaethedig, mae'n hanfodol bod buddiannau Cymru yn cael eu cynrychioli'n briodol.

Rwyf wedi cyfleu pryderon dwfn ffermwyr Cymru i Lywodraeth y DU, dro ar ôl tro, gan bwysleisio bod yn rhaid clywed eu barn a'u hystyried yn llawn yn y penderfyniadau hyn a'r penderfyniadau yn y dyfodol sy'n effeithio ar y sector. Rwyf hefyd wedi annog Llywodraeth y DU yn gyson i ymgysylltu'n ystyrlon ag undebau ffermio Cymru ac i ystyried eu tystiolaeth, yn ogystal ag opsiynau amgen ymarferol a allai liniaru'r effaith ar ffermydd teuluol a diogelu ffermio cynaliadwy yng Nghymru.

Ar ôl gwrando ar adborth o bob rhan o'r diwydiant, cyhoeddodd Llywodraeth y DU yn ei Chyllideb yr Hydref ar 26 Tachwedd y gellir, o'r 6 Ebrill 2026, drosglwyddo'r lwfans Rhyddhad Eiddo Amaethyddol a Busnes o £1 miliwn rhwng priod a phartneriaid sifil, hyd yn oed os bu farw'r person cyn y dyddiad hwnnw.

Mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i gefnogi ffermio, gan gydnabod ei rôl hanfodol wrth gynnal cymunedau gwledig, diogelu ein hamgylchedd, a chryfhau economi Cymru. Trwy ein polisïau a'n cyllid, rydym yn helpu ffermwyr i gynllunio ar gyfer y dyfodol, parhau i fod yn wydn, a ffynnu wrth i ni drosglwyddo i'r Cynllun Ffermio Cynaliadwy. Yn 2026, rwyf wedi ymrwymo hyd at £238m ar gyfer Taliadau Cyffredinol a'r Cynllun Taliad Sylfaenol etifeddiaeth, gyda £102.2m arall ar gyfer Camau Gweithredu Dewisol a Chydweithredol.

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Huw.Irranca-Davies@llyw.cymru
Correspondence.Huw.Irranca-Davies@gov.wales

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Rwyf wedi bod yn glir mai'r £102.2m ar gyfer Dewisol a Chydweithredol yw isafswm y gyllideb sydd ar gael. Pe bai arian ychwanegol ar gael wrth i ffermwyr symud o BPS, rwyf wedi ymrwymo i sianelu'r arian hwnnw i'n haenau Dewisol a Chydweithredol.

Yn ogystal, mae Cyswllt Ffermio yn cynnig cyfarfodydd olyniaeth deuluol wedi'u hwyluso, adolygiadau olyniaeth i ddeall y goblygiadau o ran treth etifeddol, a chyngor busnes a chyfreithiol am bris gostyngol i ddatblygu cynlluniau olyniaeth.

Diolch eto am ysgrifennu ataf ynghylch y materion pwysig hyn. Gobeithio y bydd yr wybodaeth hon o gymorth ichi.

Yn gywir,

**Huw Irranca-Davies AS/MS**
Y Dirprwy Brif Weinidog ac Ysgrifennydd y Cabinet dros Newid Hinsawdd
a Materion Gwledig